

FERSIWN BRINTIADWY / PRINT VERSION OF:

http://www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_027_twynog_mynegai_0994k.htm

(Yr ydym wedi cynnwys rhifau'r tudalennau felly: x001, x092, x203, ayyb)
(Page numbers are indicated as follows: x001, x092, x203, etc)

Twynog

Cyfrol Goffa y diweddard T. Twynog Jeffreys, Rhymni. Dan Olygiaeth Dyfed.
Gwreccsam: Argraffwyd gan Hughes a'i Fab. 1912

(xvi)

(1) RHAGLITH Gan DYFED. / x-iii

(2) TWYNOG. EI HANES. / GAN Y PARCH. JOHN DAVIES, F.S.A., PANDY. /

PENNOD I. / EI BLWYF GENEDIGOL / x001

PENNOD II. EI FEBYD / x004

PENNOD III. / TYMOR IEUENCTID / x007

PENNOD IV. / YN SYMUD I ABERDAR, AC YN PRIODI / x010

PENNOD V. / YN SYMUD I FERTHYR / x013

PENNOD VI. / YN MYND I RYMNI / x015

PENNOD VII. / Y DIWEDD / x016

(3) TWYNOG FEL CRISTION

Gan y Parch. J. E. DAVIES, M.A. (Rhuddwawr) / x019

(4) TWYNOG FEL BLAENOR

Gan y Parch. DAVID OLIVER, Llundain / x035

(5) TWYNOG FEL BARDD

Gan y Parch. J. T. JOB / x043

(6) TWYNOG FEL GWLEIDYDDWR

Gan y Parch. T. POWELL, Cwmdar / x053

(7) TWYNOG FEL CYFAILL A CHYMYDOG

Gan y Parch. R. E. PEREGRINE, B.D., Rhymni / x062

(8) EI GYSTUDD A'I FARWOLAETH

Gan Mr. D. D. W. Davies / x068

(xiii)

(1) RHAGLITH.

Nid oes angen ond ychydig eiriau o ragarweiniad i'r gyfrol hon. Yr oedd Twynog yn gymeriad eithriadol mewn mwy nag un ystyr, a gall trem ar ei hanes fod o les mawr i werin gwlad, yn gystal ag yn foddhad i gylch eang o'i hen gydnabod. Ceir yn yr erthyglau sydd yn dilyn glowg gyflawn arno yn ei whanaol gysylltiadau, a hynny gan ddynion oedd yn ei adnabod yn drwyadl. Nid yw ei gyfeillgarwch wedi rhedeg yn wyllt, na'u barn wedi ei dallu gan edmygedd at y gwrthrych. Cenfydd pawb oedd yn adnabod Twynog fod y darlun a dynnir o hono, yn gywir ac yn ddiwastraff. Dyry y rhan fwyaf le amlwg i'w gystudd maith a blin. Anodd oedd osgoi hyn, oblegid gwelodd "aml a blin gystuddiau," ac aeth drwy'r cwbl a haul siriol ar ei wyneb. Bydd hir gystuddiau yn aml yn dwyn i'r golwg deimlad anfoddog, a thymherau croes, ac y mae hynny yn hollol naturiol pan fo bywyd yn ei dymor goreu yn boen ac yn faich. Ond ni ddaeth cysgod o hyn i'r golwg yn hanes Twynog, ac ni welwyd cwmwl ar ei londer naturiol. Yr oedd ei ysbryd yn gloewi bob dydd dan y triniaethau chwerwaf, a daeth allan fel aur wedi eu buro drwy dân. Anaml y ceir gwell engraffft o'r "dioddefgar mewn cystudd," ac o'r fath lafur diorffwys yn wyneb yr anhawsterau mwyaf ystyfnig.

Bu mor ddiwyd a gwenynen haf. Nis gallai fod yn llonydd, er fod popeth yn awgrymu'r priodoldeb o hynny. Nid oes dim yn cyfrif am hyn, ond y ffaith fod ei ysbryd yn berffaith iach, ac yn llawn ynni a nwyfiant chwareus. Yr ysbrydhw'n a'i cadwodd yn fwy cyhyd, er gorfod ymladd âg angyne wyneb yn wyneb drwy'r blynyddoedd. Yn wir, dyma deimlad llywodraethol ei feddwl yn ei oriau olaf. Felly y bu fyw, ac felly y bu farw. Yr oedd ei feddwl yn fywiog, ac wrth ei waith yn ddiflino. Llafur ddaliodd ei nerth i fyny mor hir, dan ddirydyniadau oedd yn ddigon i dorri calon y cryfaf o'r cedyrn, a chadwodd ei offerynau gaith heb rydu hyd y diwedd.

Llenyddiaeth newyddiadurol, yn bennaf, fu ei faes, ond codai i fyny brif bynciau'r dydd, gan eu dadleu'n effeithiol gyda meddwl clir, a chydwybod effro. Yr oedd gogwydd ei feddwl (x0iv) yn reddfol at uniondeb, a glynai wrth wirionedd gyda gafael diollwng. Ystyriai egwyddor yn rhy ddwyfol i gellwair â hi. Unwaith yr argyhoeddid Twynog o gywirdeb y mater fyddai ganddo mewn llaw, ymladdai drosto pe cyfodai cād i'w erbyn. Croesodd gledd lawer tro âg enwogion o fri, a daeth allan yn fuddugoliaethus am fod gwirionedd yn fin ar ei arf. Yr oedd gweld uniondeb dan draed yn gwneud troell ei naturiaeth yn fflam. Bu yn ddarlennwr eang drwy'i oes, a dyma'r rheswm ei fod yn ŵr mor beryglus mewn dadl. Glynai wrth ei bwnc, a gadawai i hwnnw lorio'i elyn heb ymostwng i ymosodiadau personol anheilwng, sydd mor nodweddiadol o lenorion Cymru. Nis garai lai na gwneud difyrrwch o'i wrthwynebydd lawer pryd, am ei fod mor llawn o arabedd, ac yr oedd yr elfen ddifyr honno yn rhoi hwyl a blas ar ei ohebiaethau. Nid oes angen i ni nodi allan yr ymgyrchoedd llenyddol hynny, gan y cyfeirir at rai ohonynt yn yr ysgrifau sydd yn dilyn. Buasai cyhoeddi rhai o'i erthyglau dadleuol yn ddyddorol dros ben, ond prin y byddai hynny'n deg, heb gyhoeddi eiddo ei wrthwynebwyr hefyd, ac fe chwyddai hynny y gyfrol i ormod maint.

Carai lenyddiaeth ei wlad gyda chariad angerddol, ac yr oedd yn dra chynefin â'i gwahanol ganghennau. Anodd fyddai taro ar lyfr Cymraeg na wyddai Twynog gryn lawer am dano. Talai barch.mawr i feirdd a llenorion o bob gradd, ac edmygai bob ymgais am ragori. Llwenydd pennaf ei galon oedd gweld ereill yn llwyddo. Nis blinwyd ef erioed gan ragfamau dall, na chenfigen anhydryn. Dyma'r heintiau sydd wedi lladd llawer athrylith yn ei blodau. Os cwyd gŵr ieuanc ei ben uwchlaw ereill o'i gwmpas, fe anelir saethau lawer ato o bob cyfeiriad. Ni fu dim erioed yn fwy anheilwng; ac eto, dyma'r pechod parotaf i amgylchu rhyw ddsbarth o ddynion ym mhob cylch o gymdeithas. Nis gallant oddef eu bwrw i'r cysgod, a gweld ereill yn ymagor o dan dywynion haul. Y mae yr ysbryd anynol hwn yn gam â gwlad, ac yn golled i fyd. Ni wyddai Twynog ddim am dano ei hun, ac nis gallai ddeall y fath ynfyrwydd mewn ereill. Pan welai haul newydd yn codi, yr oedd yn llawenyachu'n ewyllysgar yn ei oleuni, gan deimlo fod egin meddylliau llai yn tyfu yn ei wres. Beirdd, llenorion. a phroffwydi Seion, oedd gwrthrychau pennaf ei edmygodd. Rhoddai y croeso cynhesaf iddynt dan ei gronglwyd, a theimlai yntau yn eu cwmni, fel un yn lletya angylion.

Barddonodd lawer, yn bennaf i ddifyrru ei hun. Yn ychwanegol at y llyfr a gyhoeddodd flynyddoedd yn ol dan yr enw "Tannau Twynog," gadawodd dorraeth o gynhyrchion ar ei ol, yn y caeth a'r rhydd, heb eu cyhoeddi. Nis gallwn wthio i'r gyfrol hon ond detholion yn unig, a hynny gan mwyaf yn y mesurau rhyddion. Y mae ymhlith ei ysgrifeniadau amryw awdlau meithion, ond credwn mai mwy derbyniol gan oes mor (x0v) ddiamynedd, fydd cyfres o'i ddarnau byrrion. Gwelir fod y testynau yn amrywiol ac yn chwaethus, ac y mae llawer o'r cerddi yn gynyrch blynyddoedd bore'r awdwr. Er iddo ennill cannoedd o wobrwyon, a rhai cadeiriau o bwys, ni amcanodd at ddim aruchel iawn, nac at un campwaith awenyddol. Canai er mwyn yr hyfrydwch oedd yn y gwaith, yn syml, yn agos, ac yn naturiol heb wneud un ymdrech i ennill poblogrwydd iddo ei hun. Os ca'r darlennydd wrth ddarllen y darnau hyn ddegwm y pleser a gafodd Twynog wrth eu cyfansoddi, talant yn dda am eu lle.

Bwriadwyd i'r gyfrol fod allan ddechreu'r flwyddyn hon, ond bu rhaid oedi yn herwydd cyflwr ansefydlog masnach. Mae'r eglurhad hwn yn ddyledus i bawb a gymerodd ran yn y gwaith. Bellach, wele'r gorchwyl wedi ei gyflawni. Derbyniad yr holl ysgrifennwyr ein diolchgarwch cywiraf am eu cynhorthwy parod

DYFED.

Llun y Pasg, 1912.

(x001) (2) TWYNOG. EI HANES

PENNOD I.

EI BLWYF GENEDIGOL.

Plwyf Llanddeusaint, yn sir Gaefyrddin, a gafodd yr anrhydedd o fod yn blwyf genedigol Mr. Twynog Jeffreys. Saif y plwyf hwn yn y rhan ddwyreiniol o'r sir, ar gyffiniau Brycheiniog, a bryniau y Mynydd Du. Fel y dywedai Twynog ei hun, - "Ar ysgwyddau y plwyf hwn y gorffwys Bannau Caerfyrddin, y rhai sydd yn cystadlu yn dynn âg eiddo Brycheiniog, am fod yn nesaf at ddrws y nefoedd, o holl fynyddau Deheudir Cymru." Wrth droed yr uchaf o'r Bannau y mae llyn nodedig, yn mynd wrth yr enw y "Llyn Fach," o gwmpas yr hwn yr ymbletha un o'r chwedlau mwyaf rhamantus a swynol a fedd cenedl y Cymry. Wrth droed y Bannau y tardd yr afon Wysg. Rhed yr afon hon am rai milltiroedd, gan ffurfio ffin rhwng siroedd Caerfyrddin a Brycheiniog. O'r Llyn Fach y llifa yr afon Sawdde, gan ymddolennu trwy ganol y plwyf, nes ymgolli yn Nhowi, yn agos i Langadog. Ar lannau y Sawdde a'r Llechach y treuliodd Twynog lawer o oriau euraidd bore ei oes, i ddal brithyllod, y rhai a ystyriai yn ddanteithion melus y cyfnod hwnnw. Y mae yn (x002) anodd meddwl am olygfeydd mwy amrywiol, gwyllt a rhamantus, na'r rhai y cafodd Twynog ei hun gyntaf yn eu canol. Nid ydym yn rhyfeddu iddo ymddatblygu yn fardd, pan gofiwn iddo gael ei ddwyn i fyny yn y fath gymdogaeth. Oddiar ddrws y tŷ y cafodd ei eni ynddo wrth edrych i un cyfeiriad, gwelai greigiau ysgythrog, yn cael eu nodweddu gan arucheledd anesgrifiadwy; os edrychai i gyfeiriad arall, yr oedd gwastadedd prydferth yr iseldir yn

ymagor o'i flaen. Pan gofiwn pa mor enwog yw plwyf Llanddeusant am ei chwedlau rhamantus, a'i draddodiadau dyddorol a heb achos. Buont fyw yn hapus am flynyddoedd, a chyffrous, nid ydym yn rhyfeddu i Dwynog Jeffreys ymddatblygu yn henafiaethydd. Dywedai Twynog, pan oedd ef yn llanc ieuanc, nad oedd teulu ym mhlwyf Llanddeusant nad oedd yn hollol gartrefol yn chwedlau a thraddodiadau y plwyf. Y mae ystori Llyn y Fan wedi ei hadrodd ar bob aelwyd yn y plwyf, o âch i âch, ac nid oedd neb yn fwy hyddysg ynddi na Thwynog ei hun. Dyma yr ystori a alwai efe yn ystori y "Ladi Wen." Yn fyrr, rhêd fel y canlyn, - "Yr oedd gŵr ieuanc ym mlaen plwyf Myddfai yn byw mewn amaethdy o'r enw Esgairllaethdy. Tra yn bugeilio ei ŵyn ar y mynydd, yn ymyl Llyn y Fan Fach, gwelai dair merch, anarferol o brydferth, ar wyneb y llyn, yn agoshau tuag ato. Gwnaeth ymgais i'w dal, ond methodd. Bore drannoeth, bu yr un fath. Pan yn diflannu o'i olwg yn y llyn, gwaeddent yn wawdus, -

"Cras dy fara,
Anhawdd ein dala."

Un bore, sylwodd y dyn ieuanc ar damaid o fara llaith yn nofio ar ymyl y llyn. Bwytaodd ef gyda blâs, a bore drannoeth, bu yn llwyddiannus i ddal y merched glandeg. Wedi ychydig o ymddiddan, cymerodd galon i ofyn am law un ohonynt, a chydysniodd hi â'i gais ar yr amod ei fod, ar y dydd canlynol, yn alluog i'w thynau hi allan o blith y lleill. Yr oedd y tair chwaer mor (x003) debyg i'w gilydd, fel mai gorchwyl anodd oedd gwahaniaethu rhyngddynt. Beth bynnag, sylwodd fod ychydig o wahaniaeth rhwng ei ferch ddewisedig ef a'r lleill, yn y modd y clymai garai ei sandalau. Wedi dyfod i fyny i'r amodau, gadawodd y ferch ieuanc y llyn, a dilyna y bugail ffodus i Esgairllaethdy. Cyn cychwyn, galwodd i fyny o'r llyn i'w chanlyn saith o wartheg, dau ych, ac un tarw. Un o amodau y briodas oedd, fod y foneddiges yn ymfoddloni aros yn Esgairllaethdy hyd nes y tarawai ei gŵr hi dair gwaith heb achos. Buont fyw yn hapus am flynyddoedd, a dygasant i fyny dri o feibion, a'r tri hwn a ddaethant i gael eu hadnabod fel yr enwog Feddygon Myddfai. Un diwrnod, pan oedd y gŵr yn paratoi i fynd i ffair yn y gymdogaeth, dymunodd y gŵr am i'w wraig fynd i'r cae am ei geffyl. Gan ei bod hi yn ymdroi cyn mynd, collodd ef ei amynedd, a dywedodd, - "Dos, dos, dos," gan ei chyffwrdd yn ysgafn a'i faneg dair gwaith. Yn awr, barnai y wraig fod yr amodau a wnaeth wedi eu torri, ac yn y fan, y mae yn cychwyn yn ol tua'r llyn, gan alw i'w chanlyn yr oll a ddaeth gyda hi yno. Yr oedd yr ychain ar y cae yn aredig ar y pryd, er hynny, ufuddhasant i alwad eu meistres, gan dynnu yr aradr ar eu hol hyd at y llyn. Y mae y gwys a wnaeth yr aradr ar y pryd yn cael ei dangos ar y mynydd hyd y dydd hwn, fel clawdd bychan, yn cyrraedd o Esgairllaethdy i Llyn y Fan. Gwelodd Twynog y gwys yma lawer gwaith, a gwelsom ninnau hi. Beth bynnag sydd wedi rhoddi bod i'r clawdd bychan, a elwir y "Gwys," y mae yn ffaith fod y fath beth i'w weld heddyw. Wedi ymadawiad y "Ladi" âg Esgairllaethdy, daeth, ymhen tymor, o'r llyn, i gyfarfod i dau o'i meibion i gwm ar y mynydd a elwir hyd y dydd heddyw "Cwm y Meddygon" a chyflwynodd iddynt gôd, yn cynnwys, fel y tybir, ddarganfyddiadau mewn meddyginiaeth.

Meddygon Myddfai oeddent Rhiwallon a'i feibion, - Cadwgan, Gruffydd, ac Einion. Hwy oeddent y prif (x004) feddygon y drydedd ganrif ar ddeg. Y Mae Dafydd ab Gwilym yn cyfeirio atynt yn y ddwy linell ganlynol, -

"Meddyg nis gwnai, modd y gwnaeth
Myddfai, o chai ddyn meddfaeth."

Nid oedd neb yn fwy hoff o fynd dros yr ystori na Thwynog; ac, yn wir, nis gwyddom am neb a fedrai fynd drosti gyda'r fath flas a deheurwydd, - yr oedd ynddi fwyn arbennig iddo. Yr oedd "Cwys yr Aradr" yn croesi y mynydd o fewn i filltir i'r man lle y cafodd ei eni.

PENNOD II. EI FEBYD.

Ganwyd Mr. Twynog Jeffreys Chwefrol 25ain, 1844, yn Nhalsarn, ym mhen uchaf y plwyf. Y mae y tŷ lle y gwelodd oleu'r dydd gyntaf wedi ei dynnu i lawr ers blynyddoedd. Yr oedd yn un o hanner dwsin o dai, a ffurfient, y pryd hwnnw, bentref bychan, ond erbyn hyn, nid oes hyd yn oed olion ohonynt yn aros. Er mai pentref bychan oedd, ceid ynddo efail y gof, swyddfa y crydd, gweithdy saer coed, a gweithdy y dilledydd. Pan oedd Twynog yn hogyn, yr oedd pob un o'r gweithdai hyn yn weddol o lawn bob nos, yn y gaeaf, o gryts a bechgyn y gymdogaeth. Yn siop y saer y byddai, yn gyffredin, ysgol gân; yn swyddfa y crydd, cwrdd i adrodd chwedlau y plwyf; yn efail y gof y byddai y senedd, ac yng ngweithdy y teiliwr, rhyw fath o ysgol holwyddori. Yr oedd yn y plwyf yr adeg honno tua mil o drigolion, a'r nifer fwyaf ohonynt yn bobl ddeallus, ac yn bur hyddyag yn helyntion byd, ac eglwys. Yr oedd mam Twynog yn enedigol o Landdeusant, a'i dad yn disgyn o deulu urddasol o sir Frycheiniog. Yr oedd y Jeffreys, yn wreiddiol, o (x005) Gwmdwr, rhwng Trecastell a Llanymddyfri. Yn nechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, nid oedd etifeddiaeth y teulu ond bychan, ond daethant, cyn diwedd yr un ganrif, yn un o'r teuluoedd mwyaf cyfoethog yn y sir. Aeth dau frawd o Gwmdwr i fyny i Lundain, tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, a gwnaethant gyfoeth mawr. Buont farw yn Llundain yn ddiblant, a daeth eu cyfoeth yn eiddo y Jeffreysiaid o Gwmdwr. Trwy y cyfoeth hwn a

gasglwyd gan yr oes nesaf, gosodwyd i lawr sylfaen un o'r teuluoedd mwyaf urddasol a phendefigaidd yn y dywysogaeth. Cawn fod un o'r teulu yn Uchel Sirydd Brycheiniog, mor bell yn ol a'r flwyddyn 1631. Trwy i'r llinell, ar yr ochr wrywaidd, ballu, aeth y teulu, yn ei phrif gangen, yn Pratt. Cynrychiolir y teulu yn awr gan Marquis of Camden. Yr oedd cangen o'r teulu wedi ymsefydlu yn Llanddeusant am lawn can mlynedd cyn geni Twynog. Ni fu cymaint o duedd crwydro yn y gangen o'r Jeffreys oedd Twynog yn hanu o honi ag oedd yn nodweddu y gangen a ddaeth yn gyfoethog yn Llundain. Bu Twynog, am amryw o flynyddoedd, pan yn llanc ieuanc, gyda ei ewythr a'i fodryb yn Nhalsarn. Mewn llythyr atom yn 1904, dywed, - "Yr oeddwn ni {sic; = oeddwn i} yn hogyn gyda fy ewythr a fy modryb, Thomas a Nansi, yn Nhalsarn. Rhai di-blant oeddent hwy, a threuliais lawer o fy machgendod gyda hwy, ac ym Mhwlygerwyn." Crydd oedd Thomas, ewythr Twynog, a dywedir ei fod yn ddyn o gynhreddfau cryfion, ac yn un tra lithrig ar ei dafod. Byddai swyddfa St. Crispin weithiau yn llawn o fechgyn y gymdogaeth, a Thomas yn gyffredin fyddai y prif siaradwr; dichon yr eid oddiyma i dŷ William Thomas y y saer i gael tŷ nou ddwy, neu, os y buasai yn oer, eid i efail y gôf. Yr oedd yn y gymdogaeth, ar y pryd, Ysgol Sabothol gref, yn cael ei chynnal o dŷ i dŷ, a daeth Twynog yn aelod o honi mor fuan ag y gallodd gerdded iddi. Yr oedd bron bob teulu yn y gymdogaeth yn grefyddol, ac yn wir, holl deuluoedd y plwyf. Ychydig o ardaloedd yng Nghymru a gafodd eu (x006) meddiannu yn fwy llwyr gan Fethodistaeth a phlwyf Llanddeusant. Dyma yr unig enwad o Ymneilltuwyr sydd wedi gosod ei droed i lawr yn y plwyf. Ni fu yr Eglwys Sefydledig, yng nghôf neb, yn meddu dim nerth a dylanwad yn y plwyf. Clywsom Twynog ei hun yn dweud ei fod ef wedi bod yn ymddiddan â hen bobl yn y plwyf, oeddent yn cofio yr offeiriad a'r clochydd yn y carchar ar yr un adeg, - yr offeiriad am ddyled, a'r clochydd am ladrata defaid. Ymddengys mai plwyf anuwiol iawn oedd Llanddeusant cyn y Diwygiad Methodistaidd, ac yr oedd lladrata defaid yn un o bechodau amlwg y plwyf, fel y dengys darn o hen rigwm a ddaeth i lawr o'r oesau gynt, -

"Gwŷ r Llanddeusant, Capau Crwyn,
Lladron defaid, mamau'r ŵyn."

Yn adeg y Diwygiad Methodistaidd, gweddnewidiwyd yr holl blwyf, a daeth yn un o'r plwyfi mwyaf moesol a chrefyddol yn y Dywysogaeth. Wedi i'r Diwygiad dorri allan, prynnodd y Parch. William Williams, Pantycelyn, dyddyn yn y plwyf; ac am y rheswm hwn, a'i ddyddordeb yn y diwygiad, ymwelai yn aml â Llanddeusant. Ymhen rhyw gymaint o amser, daeth ei ferch Ann, a'i gŵr, Phillip Thomas, i fyw i'r tyddyn. Pregethodd y bardd lawer ar hyd y tai, cyn fod un capel wedi ei godi yma. Bu farw merch y bardd yn y flwyddyn 1837, a chladdwyd hi wrth eglwys y plwyf. Dwy flynedd yn ol, yr oeddem yn edrych ar ei charreg fedd.

Y mae yn wybyddus mal yn nhy Jeffrey Dafydd o'r Rhiwiau, yn y plwyf hwn, y cynhaliwyd y Gymdeithasfa fisol gyntaf gan y Tadau Methodistaidd, a dyma y lle a brynodd Williams Pantycelyn. Cafodd Llanddeusant gawod drwm o'r Diwygiad a dorrodd allan yn Neheudir Cymru yn y flwyddyn 1828. Fel ffrwyth y Diwygiad hwn, ychwanegwyd yn agos i dri chant at nifer yr eglwys. Daeth bron yr holl blwyf i arddel crefydd. Wedi y (x007) Diwygiad hwn, yr oedd yn perthyn i'r Ysgol Sabothol bump o ganghennau cryfion, heblaw y gangen a gyfarfyddai yn y capel. Dynion a argyhoeddwyd yn Niwygiad 1928 oedd y nifer fwyaf o broffeswyr crefydd yn y plwyf pan oedd Twynog yn blentyn yn Nhalsarn. Clywsom Twynog ei Cyfeiriai yn y "Tannau," at yr "hen Ysgol Sul," ac at "gynghorion y tadau." Nid yn aml y ceid gwell Ysgol Sul na'r un a aeth Twynog iddi gyntaf, pan Yn yn y carchar ar yr un adeg, - yr offeiriad am ddyled, a'r - Yr oedd ei athrawon yn hogyn bychan yn Nhalsarn. Yr oedd ei athrawon yn ddynion cryfion mewn gwybodaeth Ysgrhythrol, a'u meddyliau wedi eu trwytho yn athrawiaethou gras.

PENNOD III. TYMOR IEUENCTID.

Nid pob plwyf oedd mor ffodus, ar yr adeg honno, mewn ysgol ddyddiol, a phlwyf Llanddeusant. Deng mlynedd ar hugain, cyn dyddiau Twynog, cedwid ysgol ddyddiol yn festri y capel gan y diweddar Barch. William Jones, Bontynyswen, yr hwn a fu farw yn Abertawe yn y flwyddyn 1881. Yn y tymor oedd Twynog yn tyfu i fyny, Mr. John Williams oedd yr ysgolfeistr. Yr oedd Mr. Williams yn ysgolhaig uwchlaw y cyffredin yn y wlad, tua chanol y ganrif ddiweddar. Yr oedd yn nodedig am ei wybodaeth gyffredinol; yr oedd golwg urddasol arno, ac yr oedd yn berffaith foneddwr. Dyma ysgolfeistr cyntaf Twynog Jeffreys. Aethai o Dalsarn i Dwynllanau pan yn bur ieuanc. Nid oedd reol pryd hwnnw i orfodi y plant i bresenoli eu hunain yn yr ysgol. Pe buasai, y mae yn ddiau y buasai ein cyfaill ysgol. wedi dod yn ysgolhaig da, canys yr oedd yn ddysgwyr cyflym. Pan oedd tua pedair ar ddeg oed, aeth oddiwrth ei ewythr a'i fodryb, fyw at ei rieni i Bwlygerwyn. Tyddyn oedd Pwlygerwyn ym mlaen (x008) plwyf Myddfai, oddeutu dwy filltir o Dalsarn, ac yng ngolwg "Cwys yr Aradr," yn chwedl Llyn y Fan. Er wedi croesi y ffin i blwyf arall, cadwodd mewn cyffyrddiad agos â phlwyf Llanddeusant. Elai i Dwynllanau at Mr. John Williams i'r ysgol, fel cynt, a lletyai yn Nhalsarn gyda ei ewythr a'i fodryb. Rhoddodd Mr. Williams, yr ysgol i fyny cyn i Dwynog gwblhau ei addysg, ond gadawodd argraff ragorol ar feddwl a chymeriad ei ddisgybl. Ymhen blynnyddoedd wedi hyn, daeth Mr. Williams yn flaenor blaenllaw yn eglwys Twynllanau. Merch iddo ef yw Mrs. Henry Morgan, The Laurels, Abergavenny. Ni chafodd Twynog ychwaneg o addysg mewn ysgol

ddyddiol nag a gafodd yn ysgol Mr. Williams, ond ni roddodd i fyny efrydiaeth ar ol gadael yr ysgol. Gwnaeth y goreu o bob manteision o fewn i'w gyrraedd i ddiwyllio ei feddwl, a darlennai bob llyfr y gallai ddod o hyd iddo. Ei brif athrofa yn awr oedd yr Ysgol Sabothol. Er fod ganddo gryn ffordd i gerdded o Bwllygerwyn i Landdeusant, nid oedd neb yn fwy cyson yn yr Ysgol Sabothol na Thwynog. Treuliai bob Saboth, tra y bu ym Mhwlygerwyn, yn Llanddeusant, ac felly cafodd gyfleusdra i rwbio yn rhai o'r dynion goreu a fagodd sir Gaerfyrddin erioed. Cafod lawer o gymdeithas y Parch. Owen Lewis, un o'i gymdogion agosaf. Yr oedd Owen Lewis yn ddydd hynod, mewn rhagor nag un cyfeiriad. Gwnaed ef yn flaenor pan yn ddwy ar hugain oed, a dechreuodd bregethu pan oedd yn ymyl trigain oed. Dyma y gŵr a anfonodd Cyfarfod Misol sir Gaerfyrddin, gyda'r Parch. David Charles (hynaf), Gaerfyrddin, i holi y diweddar Dr. Phillips, Henffordd, pan yn ymgeisydd am y weinidogaeth. Clywsom Dr. Phillips yn dywedyd i'r Cyfarfod Misol anfon y gweinidog trymaf a'r blaenor trymaf a feddai i'w brofi ar ei fynediad i'r pulpud. Hefyd, un o gynghorwyr Twynog ym more ei oes oedd Mr. David Thomas, Pantygwin, blaenor o fri yn ei oes, a gŵr adnabyddus, trwy holl ddeheudir Cymru. Yr oedd ef yn un o'r (x009) cenhadon a anfonodd Cymdeithasfa y De i eglwys Pontmorlais, yn 1830, i ddadgorffori yr eglwys yn adeg helynt ynglŷn â'r Parch. David Williams. Gadawodd y dynion da hyn, ac ereill, argraff ragorol yr arno, ac ni ddilewyd mohoni tra y bu byw. Yr oedd y bobl oeddent yn byw ym mhen uchaf plwyf Llanddeusant gryn bellder o ffordd i gerdded i lawr i Dwynllanau, a theinlid ers amryw o flynyddoedd y byddai yn fantais i'r achos, ac i'r gymdogaeth, i gael capel ar ar Dalsarn. Adeiladwyd y capel yn 1860, a dyma gartref crefyddol Twynog bellach, tra y bu yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn awr wedi dechreu teimlo dyddordeb mewn barddoniaeth a llenyddiaeth Gymreig. Yr oedd un gŵr ieuanc ym Myddfai, a adnabyddid wrth y ffugenw "Gelyn Athrod," o chwaeth gyffelyb. Cymdeithasent lawer, a chymharent eu cynhyrchion cerddorol a llenyddol. Bu "Gelyn Athrod" farw yn ieuanc, a theimlodd Twynog yn ddwys ar ei ol.

Tra y bu ein cyfaill ym Mhwlygerwyn, gweithiai ar y tyddyn, a chyflawnai fân oruchwylion, a ellid ddisgwyl gan un nad oedd wedi cael ond ychydig o brofiad mewn trin tir ac anifeiliaid. Ei hoff waith oedd bugeilio defaid. Nid oedd yn awr ymhell iawn o'r Bannau, a gellir dywedyd mai fel "Bugail y Bannau" y treuliodd yn bennaf y blynyddoedd y bu ym Mhwlygerwyn. Yn ystod misoedd yr haf, yr oedd llawer o ddieithriaid yn ymweld â Llyn y Fan, a byddai lliaws o'r ymwelwyr a wnaent eu ffordd tua'r Bannau yn dyfod heibio i Bwllygerwyn, a byddai yntau yn mynd gyda hwy i ddangos y ffordd, ac i adrodd y chwedl, oedd wedi gwneud Bannau sir Gaer yn gyrchfa pobloedd am ugeiniau o flynyddoedd. Buasai yn amhosibl cael arweinydd mwy diddan; medrai ddilyn "Cwys yr Aradr," ac nid oedd neb a fedrai roddi mwy o flas ar y chwedl i ddieithriaid. Dyma fel y dywed ef ei hun, mewn nodion sydd yn awr o'n blaen, -"Daw pobl lawer, (x010) o bell ac agos, i weld y Bannau a'r Llynau yn yr haf, yn enwedig y cyntaf o Awst, pryd y dywedir fod y "Ladi Wen" yn codi o ystafelloedd y dyfinderau i wyneb y llyn. Pan yn hogyn, bum yno lawer gwaith, ond methais a chael golwg ar y "Ladi Wen," er sylly yn fanol." Nid oedd gan Dwynog fawr o duedd at fywyd amaethyddol. Gallasai fod wedi ymsefydlu yn y gymdogaeth fel amaethwr, ond nid oedd hyn yn cydweddu a'i chwaeth. Yr oedd bywyd amaethyddol yn rhy dawel ac unfurflol iddo ef. I un, fel efe, oedd yn llawn bywyd ac asbri, yr oedd y cylch yn rhy gyfyng; awyddai am gylch eangach, er ei ymlyniad wrth Landdeusant, a'r swyn, iddo ef, oedd yn ei chrefydd, el phobl a'i thraddodiadau.

PENNOD IV.

YN SYMUD I ABERDAR, AC YN PRIODI.

Yn y flwyddyn 1864, pan yn ugain oed, cawn ef yn gadael Llanddeusant am Aberdar. Y mae y penillion tyner o'i eiddo yn y "Tannau" yn dangos mor anodd oedd ganddo i ymadael â'i hen ardal enedigol. Ar ei ddyfodiad i Aberdar, bu mor ffodus a mynd i wasanaeth y masnachydd a'r blaenor adnabyddus, Mr. David Davies, Canton House. Y mae yn awr yn cael ei hun mewn byd newydd. Cân yr adar, brefiadau y defaid a chyfarthiad y ci, oedd y seiniau a ddisgynnai fynychaf ar ei glustiau yn y wlad; y mae yn awr ynghanol dwndwr masuach, a phrysurddeb bywyd, mewn tref, a honno yn un o'r trefydd mwyaf bywiog ei masnach, y pryd hwnnw, ym Morganwg, ac feallai yn y cyfnod mwyaf euraidd yn hanes Aberdar. Yr oedd amryw o brif fasnachwyr Aberdar, pan aeth Twynog yno, yn enedigol o Landdeusant, ac yr oedd Mr. Davies, ei feistr, (x011) yn un o bobl Llanddeusant. Yr oedd hefyd, ar y pryd, liaws mawr o fechgyn ieuainc yn masnachdai y dref o'r un plwyf. Yn ystod yr hanner cyntaf o'r ganrif ddiweddaraf, i Aberdar y byddai y nifer fwyaf o fechgyn ieuainc Llanddeusant yn mynd, pan yn gadael cartref. Os buasai mab i amaethwr yn troi allan i'r byd, byddai yn gyffredin yn mynd yn egwyddorwas at un o fasnachwyr Hirwaun, neu Aberdar. Buasai yn anodd i Dwynog Jeffreys, wedi gadael ei gartref, osod ei droed i lawr mewn un man lle y gallasai deimlo yn fwy cartrefol nag yn Aberdar. Cafodd bob cynhorthwy gan Mr. Davies, ei feistr, trwy gyngor ac esiampl, i rodio ar hyd llwybrau crefydd a rhinwedd. Daeth, yn fuan, o dan ddylanwad dynion a'i arweiniodd i gylchoedd newydd. Daeth i gysylltiad âg amryw o lenorion y dref, a bu hyn yn fantais ddirfawr iddo. Cafodd ei arwain i ymuno â Chymdeithas y Cymrodorion yn y lle, a thrwy hyn dyfihawyd y duedd gref oedd ynddo at lenyddiaeth Gymreig, a choethwyd ei chwaeth fel bardd a llenor. Llanwodd y blynyddoedd y bu yn Aberdar i gwaith. Cymerai ddyddordeb neilltuol yn eglwys Nazareth; yr oedd yn un o'r dynion ieuainc mwyaf defnyddiol a gweithgar a feddai yr eglwys yn ystod y tymor y bu yn aelod o honi. Bu yn Aberdar am chwe blynedd; ac yn ystod y blynyddoedd hwnny, gwnaeth lu o gyfeillion. Parhaodd i fod ar delerau cyfeillgar âg amryw o'r dynion ieuainc y daeth i gysylltiad â hwy

ar ei ddyfodiad i Aberdar, hyd ddydd ei farwolaeth. Talodd rhai o'i hen gyfeilhon yn Aberdar ymweliad blynyddol âg ef yn Rhymni hyd y flwyddyn olaf y bu byw. Wedi clywed am ei farwolaeth, anfonodd Cymdeithas y Cymrodorion lythyr at y teulu yn amlygu eu cydymdeimlad dyfnaf â hwy yn eu galar.

Cymerodd amgylchiad dyddorol, yngŷ n âg ef, le ar ddydd Llun Sulgwyn, Mai 21ain, 1869, sef ei briodas â Miss Ellen Evans, merch ieuengaf Mr. John Evans, y "Cymro Du." Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y bardd-bregethwr, Ebenezer Pugh, yng nghapel Bethania, (x012) Aberdar. Yr oedd hyn yn agos i flwyddyn cyn i'r Parch. William James gael ei alw yn fugail Bethania, a thua saith mlynedd wedi i'r Parch. Dr. Saunders ymadael am Liverpool.

Bu Twynog yn eithriadol o ffodus yn ei ddewisiad o wraig. Pe buasai yn chwilio yr holl dywysogaeth, nis gallasai gael gwell gwraig nag a gafodd.

Yr oedd Miss Ellen Evans yn ferch i ŵrr tra adnabyddus yn ei ddydd ym Morganwg, yn arbennig yn Aberdar, Merthyr, a Dowlais. Y mae y "Cymro Du" yn deilwng o fwy na chofnodiad byrr, a feallai mai yn y fan yma y byddai oreu i ni roddi ychydig o'i hanes. Yr oedd John Evans yn ddydd ymhell uwchlaw y cyffredin mewn rhagor nag un ystyr. Yr oedd ei dad, Evan Evans, yn fab i amaethwr cyfoethog ym mhen isaf sir Aberteifi. Yr oedd tad John Evans wedi ei fwriadu i fod yn fferylllydd ac addysgwyd ef at hynny, ond gan na lynnai a mynd i mewn am yr arholiadau angenrheidiol aeth yn emmydd. Rhoddodd hynny eto i fyny. Yn awr, gyrodd ei dad ef i fyny i Rydychain, gan fwriadu gwneud offeiriad o honi; ond nid hir y bu yno cyn rhedeg i ffwrdd, a daeth yn was ar dyddyn yn sir Frycheiniog, ac aeth oddiyno i'r "Gweithiau." Ymsefydlodd fel gweithiwr haem ym Merthyr, lle y ganwyd John Evans yn 1807. Gwelodd John Evans angladd Richard Crawshay, - y cyntaf o'r Crawshays a ddaeth i Gymru, - yn mynd i Landaf i gael ei gladdu. Magwyd John Evans ym Merthyr a Dowlais. Aeth, yn weddol ieuanc, yn rheolwr gwaith haem Abernant. Yr oedd yn ddydd o dalentau disglair. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Bethania, Aberdar, ac yn un o brif sylfaenwyr eglwys Nazareth yn yr un dref; a'i briod osododd y garreg sylfaen gyntaf i lawr. Teithiodd lawer ar hyd a lled Morganwg i areithio ar Ddirwest, a thrwy ei areithiau tamlyd, bu o wasanaeth dirfawr i'r achos dirwestol yn y cylch. Bu am dro yn America, yn Swydd Stafford, yn Llanelli, Brycheiniog. Yn 1870, aeth yn rheolwr gweithiau Pendarren. Ysgrifennodd (x013) lawer i'r gwahanol newyddiaduron. Yr oedd ei lithiau yn y "Fellten" hyd yr wythnos olaf y bu byw, yn un o'r pethau mwyaf blasus gan y darllenwyr. Bu farw yn sydyn yn 1877, yn 70 mlwydd oed.

Yr oedd Mrs. Evans, ei wraig, o'r un llinach, o un ochr, a'r diweddar Barch. Thomas Williams, Myddfai, un o'r dynion mwyaf athrylithgar a gododd erioed yn sir Gaerfyrddin. Mab i Mr. John Evans, a brawd i Mrs. Twynog Jeffreys, oedd y diweddar Silas Evans, cerddor enwog, a fu farw yn gymharol ieuanc, ac ynghanol ei boblogrwydd. Felly y gwelwn fod y ferch ieuanc a gymerodd Twynog yn wraig yn disgyn o deuluoedd talentog o'r ddwy ochr.

PENNOD V.

YN SYMUD I FERTHYR.

Wedi priodi a byw tua wyth mis yn Aberdar, cawn Twynog yn symud gyda ei dad yng nghyfraith i Ferthyr yn 1870, er mwyn mynd i agor gwaith Pendarren i Mr. Fothergill. Yr oedd Mr. Evans wedi bod yn rheolwr gwaith Abrnant i Mr. Fothergill; yn awr, y mae yn mynd i Bendarren yn yr un cymeriad, ac yn cymeryd Twynog gydag ef. Nid ydym yn gwybod pa orchwyl a gyflawnai Twynog, ond diau yw ei fod wedi cael rhyw swydd o ymddiried o dan dad ei wraig. Ymunodd âg eglwys Pontmorlais. Yr oedd y prif, neu un o'r prif flaenoriaid, ym Mhontmorlais, sef Mr. Morgan Davies, yn enedigol o Landdeusant.

Ym Merthyr, fel yn Aberdar, daeth yn fuan i'r golwg. Ymunodd âg amryw o gymdeithasau yn y dref, a chymerodd ran amlwg yn y symudiad oedd, y pryd hwnnw, yn newydd, sef Cymdeithas y Tamlwyr Da. Gweithiodd ei oreu gyda'r Ysgol Sabothol a'r Cyfarfod (x014) Dau Fisol, nes y daeth i gael ei ystyried yn un o'r dynion ieuainc mwyaf anodd i'w hebgor yn yr eglwys. Yr oedd ym Merthyr ar y pryd amryw o ddynion ieuainc, fel yntau, yn cymeryd dyddordeb mewn cyfarfodydd cystadleuol. Enillodd, pan ym Merthyr, liaws o wobrau am draethodau a darnau barddonol. Pan yr ymadawodd â Merthyr, yr oedd wedi gwneud ei hun yn rhyw fath o angenrheidrwydd yn y dref, fel yr edrychid ar ei ymadawiad yn gollod nas gellid yn hawdd i'w gwneud i fyny. Pan ddaeth yr adeg iddo ymadael, yr oedd yn rhaid cael cyfarfod ymadawol, er rhoddi cyfleusdra i'w gyfeillion i ddatgan eu gwerthfawrogiad o'i wasanaeth mawr, yn ystod y pum mlynedd y bu yn y dref, ynghyda dymuno ei lwyddiant yn y dyfodol. Nid oedd neb yn gwerthfawrogi ei wasanaeth yn fwy na'r bugail, y Parch. Thomas Rees, yr hwn a ddaeth i Bontmorlais, rai blynyddoedd ar ol Twynog. Yr oedd blaenoriaid enwog ar y pryd ym Mhontmorlais, megis Samuel Parry, Rees Lewis, Morgan Davies, a Williams, Pont Store- House, ac ereill. Yr oedd pob un o'r dynion da hyn a golwg fawr ar Dwynog, tra y bu ym Merthyr. Y mae y pennill canlynol, yr hwn sydd un o lawer a draddodwyd yn ei gyfarfod ymadawol, yn dangos y syniad a goleddid am dano yn y dref.

“Mae colli Twynog Jeffreys,
Y gweithiwr diwyd iawn,
Y llenor doeth a theilwng,
A Bardd o uchel ddawn;
Gohebydd a 'sgrifennydd
I Gymdeithasau'r dref,
Yn galled nas gall undyn
Fynegu faint yw ef.”

Yr ydym yn rhoddi y pennill yma, nid am ei deilyngdod fel barddoniaeth, ond am y teimlad a ddaw i'r golwg ynddo tuag at Twynog. (x015)

PENNOD VI.

YN MYNED I RYMNI.

Gadawodd Ferthyr am Rymni yn 1875. Clywsom ef yn dweud mai yr hyn a barodd iddo fynd i Rymni oedd, i Mr. Daniel Jones, Merthyr, ddymuno arno i fynd i Rymni i agor siop esgidiau. Cydsyniodd i'r cais, ac yno y bu hyd ddiwedd ei oes. Nid ydym yn gwybod pa cyhyd y bu yn cynrychioli Mr. Daniel Jones yn Rhymni, ond masnachu drosto ei hun oedd pan y galwasom ni gyntaf yn ei dŷ, wedi iddo symud o Ferthyr.

Yn Rhymni, daeth ar unwaith yn boblogaidd. Tafloodd ei hun, mor fuan ag y daeth yma, i fywyd crefyddol, cymdeithasol, a llenyddol y dref. Gwnaeth ei hun yn ddarn hanfodol o bob sefydliad oedd a'i amcan i ddyrchafu ei gyd-ddynion. Ymunodd ef a'i deulu âg eglwys Ebenezer, Twyn Camo, ac etholwyd ef yn flaenor, ymhen tair blynedd, wedi iddo ymuno â'r eglwys. Tra y bu yn mwynhau iechyd gweddol, teithiodd lawer ar hyd a lled Deheudir Cymru ynglŷn â'i fasnach; aethai, pan y gallai, i Gyfarfod Misol ei sir, ac ambell waith i'r Gymdeithasfa. Cofus gennym ei fod yn un yn cynrychioli ei Gyfarfod Misol yn y Gymanfa Gyffredinol ym Merthyr yn 1888, a chymerai ran amlwg yng ngweithrediadau y Gymanfa. Danghosai fod ynddo ddefnyddiau dyn pwyllgor. Oni buasai i'w iechyd dorri i lawr pan oedd yn gymharol ieuanc, byddai yn debyg o ymddatblygu i fod yn ddyn gwerthfawr yng nghynhadleddau y Cyfundeb y perthynai iddo.

Ni fu ond dwy flynedd ar bymtheg yn Rhymni cyn i'w iechyd dorri i lawr. Yn y gwely, ac ar ei gadair, y treuliodd y ddwy flynedd ar bymtheg ereill. Tra y bu ar ei draed, gwnaeth wasanaeth gwerthfawr i dref Rhymni, a hwnnw yn wasanaeth dyrchafol ac amrywiol. Torrodd ei iechyd i lawr cyn ei fod yn hanner cant oed. Oni bai ei fod mor llawn o fywyd ac ynni, yn ei wely y buasai flynyddoedd cyn iddo roddi i fyny. Cofus (x016) gennym ei weld yn gwneud ei ffordd tuag Aberdar, i angladd Dr. Saunders. Nis garasai gerdded i'r orsaf, nac o'r orsaf. Wedi cyrraedd Aberdar, llogodd gerbyd i'w gludo i Gapel Bethania, ac oddiyno i'r Gladdfa Gyhoeddus. Bu yn galed iawn arno roddi i fyny mynd o gwmpas, ond gorfod iddo wneud hynny. Buasai dyn cyffredin, yn y poenau oedd ef ynddynt, wedi rhoddi fyny mynd dros drothwy y drws flynyddoedd cyn iddo ef wneud hyn. Gobeithiai y byddai ei glefyd (*Rheumatism*) yn lliniaru, ac yn y gobaith hwn, cadwodd ar ei draed yn hwy nag y dylasai, ond ymddangosai ei glefyd fel am fynnu y llaw uchaf amo. Pan y rhoddodd i fyny, bu yn garcharor am weddill ei ddyddiau, - ni fedrai hyd yn oed a mynd i'r capel, ac y mae hyn yn profi mai gorfod fu arno roddi'r goreu i'w anhwylddeb blin. Bellach, y mae yn rhaid i'w gyfeillion a ddymument gael ymgom âg ef, fynd ato i'r ty. Er ei fod yn awr mewn poenau dirfawr, yr oedd yn siriol ei ysbryd, a'i wyneb yn llon, a'i chwerthiniaid yn iachus. Yr oedd yn naturiol o dymmer siriol, ac nid oedd dim erioed wedi ei gyfarfod i suro ei ysbryd. Ni chafodd ddim gofidiau a blinderau i chwerwi ei gwpan, ond dedwyddwch, fel heulwen, yn tywynnu ar ei babell, a chysuron fel blodau gwanwyn, yn britho ei lwybr, oddiar yr adeg y gadawodd Landdeusant. Yr oedd ei chwerthiniaid iachus yn profi mor hapus oedd ynghanol ei gystudd.

PENNOD VII.

Y DIWEDD.

Tua phedwar diwrnod cyn ei farwolaeth, yr oedd yn brysur gyda chyfaill iddo yn trefnu i gael Cyfarfod Gwyl Dewi yn ei fyfyrgeill. Pan ddaeth y diwedd, ni feddyliodd neb ei fod mor agos. Yr oedd wedi arfer dioddef ei boenau heb achwyn. Pan ddaeth y meddyg, (x017) yr oedd mewn poenau dirdynol, ond nid oedd yn grwgnach. Dywedai y meddyg fod y *Pleurisy* wedi ymaflyd ynddo ers tridiau, ond nid oedd y claf wedi son dim wrth y teulu am ei boenau mawr. Wedi i'r meddyg ddyfod, ni fynnai iddo weini arno ef cyn rhoddi ei wasanaeth i wŷr bychan iddo, oedd yn dioddef oddiwrth yr un clefyd ag yntau. Drannoeth, ymddangosai arwyddion fod y pneumonia wedi ymaflyd ynddo. Ar y dydd canlynol, Chwefrol 25ain, 1911, daeth y diwedd pan oedd, ar y dydd blaenorol, wedi cyrraedd ei drigain a saith mlwydd oed. Gwellhaodd ei wŷr bychan, ond ehododd ei ysbryd ef i'r wlad, -

“Lle mae'r awel byth yn dyner,
Lle mae'r wybren byth yn glir.”

Dydd Iau canlynol, Mawrth 2il, cymerodd ei gladdedigaeth le. Gellid dywedyd, ar yr olwg oedd ar y

dref y diwmod hwnnw, fod rhywbeth mawr yn cymeryd lle. Ni welwyd angladd mor lliosog yn y dref ers blynyddoedd lawer. Yr oedd, braidd, bob sir yn Neheudir Cymru yn cael ei chynrychioli. Yn y ty, cyn cychwyn, cynhaliwyd gwasanaeth byrr, yn cael ei arwain gan y bugail, y Parch. R. W. Davies, M.A. Yna, ymffurfiwyd yn orymdaith drefnus, yr hon a symudodd yn araf i fyny tua chapel Twyn Camo, lle y bu yr ymadawedig yn swyddog am lawer o flynyddoedd. Yn y capel, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol, yn yr hwn, y cymerwyd rhan gan y bugail; Dyfed; D. Jenkins, Mus. Bac.; Parchn. W. Williams, Hafod; R. E. Peregrine, B.D. (A.); Ceitho Davies, ac ereill. Aethpwyd o'r capel tua'r gladdfa newydd gyhoeddus, ac yno, ym mhresenoldeb gruddiau gwlybion, ac arwyddion ereill o hiraeth dwys, gosodwyd corff ein cyfaill i orffwys yn y bedd. Gweinyddwyd wrth y bedd gan y Parch. B. Watkins, Femdale. Canwyd yr emyn cyn ymadael, -

“Bydd myrdd o ryfeddodau.”

(x018) Tebyg fod yno lawer ymhlith y dorf fawr yn rhedeg ymlaen yn eu meddyliau, pan y byddai ein brawd yn dod “yn iach o'r cystudd mawr,” wedi bod yn ddiodefydd am gynifer o flynyddoedd.

Ychydig sydd yn gwybod pa mor dyledus oedd ein cyfaill am yr hyn ydoedd, a'r hyn a wnaeth, i Mrs. Jeffreys. Gweinyddodd arno gyda thynnerwch a chysondeb am lawer o flynyddoedd, pan nad oedd ef yn alluog i wneud y nesaf peth i ddim drosto ei hun. Y mae yn anodd cyfarfod âg engraifft o'r fath ymroddiad ac ymgysgriad. Bu fel “angel gwarcheidiol” yn gwyllo drosto ddydd a nos. Ac yn ychwanegol at hyn, arni hi y disgynnai y gofal am y fasnach ac addysg y plant. Yr oedd ei serch yntau at ei briod yn ddiderfyn. Ni fu erioed ŵr mwy tyner ac ymroddedig i'w briod. Dydd Llun, cyn ei farwolaeth, yr oedd wedi cyfansoddi darn o farddoniaeth ar yr achlysur o gyflwyniad Tysteb i'w hen gyfaill, Mr. Evans, arweinydd y canu yn Ebenezer. Mrs. Jeffreys oedd i gyflwyno un o'r anrhegion, ac i ddarllen y darn o farddoniaeth a gyfansoddwyd gan ei gŵr. Oddeutu wyth o'r gloch, edrychodd yn sydyn ar yr awrlais, a dywedodd wrth ei ferch, - “Y mae y frenhines yn rhoi ei haraeth yn awr.”

Bu i Mr. a Mrs. Jeffreys chwech o blant, ac y mae pump o'r chwech heddyw yn fyw, a'r oll wedi cael addys dda, ac yn dal safleoedd parchus. Bu ferch hynaf, Rachel Ellen, farw flynyddoedd yn ol. Y mae Annie, yr ail ferch, yn byw yn Llanishen, ac yn briod a Mr. Arthur Williams, yr hwn sydd ym mhreif swyddfa Cwmni Cledrffordd Rhymni. Y mae Mary Elizabeth yn wraig i'r Parch. J. E. Rees, bugail Grove Place, Port Talbot; gofala Margaret Gwenllian am y fasnach. Y mae John Evans yn Awstralia, ac y mae Myfanwy yr ieuengaf, yn briod â Mr. David Jones, Ysgolfeistr: ac yn byw yn Rhymni.

(x019)

(3) TWYNOG FEL CRISTION.

GAN Y PARCH. J. E. DAVIES, M.A. (Rhuddawr).

Anodd meddwl am unrhyw ddydd a gafodd ei fagu yn ol traddodiadau manylaf plwyf Llanddeusant, yng ngwlad Myrddin, na wna roddi cyfrif da am dano ei hun fel Cristion. Yn nhraddodiadau cysegredig y cylch hwnnw y dygwyd i fyrny, ac yr addysgwyd ein cyfall Twynog ym moreuddydd ei oes, a chariodd yntau gydag ef, i raddau pell, nodweddion crefyddol yr hen blwyf tra y parhaodd ei ddyddiau yn y byd. Mae'n debyg na ddaeth yr un rhan o Gymru yn fwy o dan ddylanwad y Diwygiad Methodistaidd na phlwyf Llanddeusant. Profwyd yno bethau anhygoel o rymus y pryd hwnnw, gweddnewidiwyd bywyd y trigolion, ac y mae holl awyrgylch y plwyf yn parhau yn awyrgylch mwy crefyddol na'r cyffredin hyd y dydd hwn. Gan mai dyma'r lle y gwelodd ein diweddar gyfaill oleuni dydd gyntaf, a chan iddo dreulio y deunaw mlynedd cyntaf o'i oes yn y fath awyrgylch, nid yw yn rhyfedd i nodweddion crefyddol mangre ei faboed ddyfod yn amlwg yn ei fywyd yntau.

Cychwynodd Twynog ei yrfa fel Cristion yng ngwres Diwygiad 1859. Llanc ieuanc 15 oed ydoedd ar y pryd. Cyn hynny, yn ol ei addefiad ei hun, bu agos iddo gael ei arwain ar gyfeiliorn; ond gyda'r Diwygiad, cyffyrddwyd â'i ysbryd gan ryw nefol chwâ, a'i gwnaeth yn ddydd newydd o'r awr honno allan. Er nad oedd efe ar y pryd ond ieuanc, teimlodd nerthoedd y byd a ddaw mor rymus, fel y penderfynodd gysegro ei hun, gorff, meddwl, ac ysbryd, i wasanaethu crefydd am ei oes. Yn ffodus, y mae efe ei hun wedi ysgrifennu hanes ei ddyfodiad at grefydd, a da iawn gennym allu gosod yr (x020) hanes i mewn yma fel y mae efe ei hun yn ei adrodd. Mae'r hyn a barodd i Dwynog ysgrifennu yr hanes yn eglur. Yn niwedd y flwyddyn 1900, yr oedd Cymdeithas Lenyddol Twyn Carno, Rhymni, yn cynnal cyfarfod i ymdrin tã Hanes Diwygiad '59; ond yr oedd ein cyfaill, oherwydd ei fod yn gaeth i'w ystafell, yn analluog i fod yn bresennol yn y cyfarfod. Yr oedd ei ysbryd, fodd bynnag, yn llawn o'r pwnc, - yr oedd tã '59 yn llosgi yn eirias yn ei galon, ac nis gallodd ymatal heb anfon ysgrif yn gosod allan ei broflad ei hun ynglŷn n â'r Diwygiad i'w darllen yn y cyfarfod, ac fel hyn y dywed, -

“DIWYGIAD MORGANS YSBYTY.”

At Gymdeithas Lenyddol Carno, Rhagfyr 19eg, 1900.

ANWYL FRODYR A CHWIORYDD, -

Yr wyf yn dymuno i chwi orig felus gyda y testyn hyfryd hwn. Bydded i'r ysbryd pur nefolaidd chwythai ar y cyfarfodydd hynny, ddeugain mlynedd yn ol, chwythu arnoch chwithau heno. Buasai yn

bleser mawr gennyf fod gyda chwi, am y rheswm mawr mai un o blant y Diwygiad hwnnw ydwyf fi. Yr oeddwn y pryd hwnnw oddeutu pymtheg oed. Cafodd fy enw ei roddi ar lyfr r eglwys, ac ni chafodd ei dynnu allan o hynny hyd heddyw: ac yr wyf yn dra hyderus, nid yn unig ei fod ar lyfr yr eglwys filwriaethus, ond hefyd ar “Lyfr y Bywyd.” Nis gwn beth fuasai wedi dyfod o honof oni bai am y Diwygiad rhyfedd hwnnw. Yr oeddwn yn dechreu rhedeg yn wyllt ar hyd mynyddoedd fy ardal enedigol, yn dechreu torri Sabothau Duw, ac yn dechreu arfer iaith nad oedd yn unol i gwefus bur. Ond cyn i mi yn iawn ddysgu torri y Saboth, na dweyd gair anweddus yn daclus a graenus, dyma y Diwygiad yn dyfod, ac yn fy nwyn o afael y diafol pan yn dechreu ar fy mhrentiseth, ac ni chafodd (x021) efe lyth ail afael ynnof, i'm llithio ymhellach i'r cyfeiriadau hynny. Yr wyf oddiar yr adeg honno yn ymgais

A llunio didwyll einioes
Bob dydd wrth grefydd y groes.

Y mae golygfeydd y Diwygiad hwnnw yn fyw ger fy mron o hyd, ac mor fyw heno ag oeddynt ddeugain mlynedd yn ol. Llungwyn, 1859, cyfarfyddai holl Ysgolion Sabothol Dosbarth Llanymddyfri yng nghapel mawr y dref honno. Yr oedd yno tua dwsin o ysgohon, a'r gwaith oedd “dweyd pwnc,” a chanu. Byddai pob ysgol yn adrodd pennod o'r Hyfforddwr, neu bennod o'r Beibl, ac yna yn canu anthem neu dôn. Yr oedd tair ysgol wedi mynd trwy eu gwaith yng nghyfarfod y bore, ac heb fod dim yn neillduol wedi cymeryd lle. Holai y Parch. Jonah Phillips, - brawd y Doctor Phillips a anfarwolodd y llinell

“Beibl i bawb o bobl y byd,” -

a holwr iawn ydoedd hefyd. Yn oedfa y prydawn, wele ysgol Rhandirmwyn yn cymeryd ei lle i fynd trwy ei gwaith. Yr oedd Morgans Ysbyty wedi bod yn y lle hwnnw ychydig o amser cyn hynny, ac wedi rhoddi y bobl ar dân, ac wedi tanio yr holl gymdogaeth yn fflam. Felly, pan gymerodd yr ysgol hon ei lle i adrodd y pwnc, dyma ffrwd o wres yn disgyn i'r gwasanaeth, a bywyd newydd yn dod i mewn i waith y dydd. Codai fflamiau eirias oddiar allor y pwnc, ac i bob gofyniad o eiddo yr holwr, codai cymylau gwynion o adnodau, emynau, a darnau o “Golwg ar Deyrnas Crist,” &c. Wedi adrodd y bennod, aed at y canu. Rhoed allan yr hen bennill bendigedig sydd yn terfynu “Cân y Cyfamod Disigig!” -

“Y Gŵr a fu gynt o dan hoelion
Dros ddyn pechadurus fel fi,
A yfodd y cwpan i'r gwaelod
Ei hunan, ar ben Calfari;

(x022)

Ffynhonnell y cariad tragwyddol -
Hen gartref meddyliau o hedd,
Dwg finnau i'r unrhyw Gyfamod
Na thorrir gan angau na'r bodd.”

Ar hyn, dyna'r “Hen Ddarbi” hwyliog yn cael ei tharo, a'r gwres yn codi, a'r mellt yn dechreu gwibio, a'r “amenau,” yr “haleuwiah,” a'r “bendigedig,” mewn sain can a moliant yn codi hyd y nefoedd, a'r holl dorf yn oddaeth {sic; = oddaith} drwyddi, canys unwyd â chôr Rhandirmwyn gan yr holl gynulleidfa. Wedi mynd dros y pennill unwaith, aeth rhai yn ol i'r dechreu, ac ereill i'r canol, a dyna y *discords* yn torri ar drefn; ac yn agos i ddwy fil o gynulleidfa, a phob un a'i ffordd ei hun, yn moliannu ar ei ben ei hun; ond mi gredaf fod yr oll yn *harmony* perffaith ar glustiau y nefoedd. Yn y man, gwelwn ddwy ddynes, o ganol côr Rhandirmwyn, yn ymaflyd yn eu hetiau, - dwy sidell a chopâu mawrion fel dwy wyddfa, - ac yn eu taflu nes oeddynt yn *flat* yn erbyn y mur, ac yna yn taflu dwy *shawl* fawr ar eu holau, i gadw cwmni iddynt. Wedi ysgafnhau eu hunain, wele hwy yn ymaflyd ym mreichiau, eu gilydd i ddawnsio a moliannu. Gwnaed yr un peth gan ereill, nes oedd y rhan fwyaf o ysgol Rhandirmwyn, a llawer ereill, wedi colli eu golwg yn hollol ar y dynol a'r daearol, ac ymgolli yn llwyr yn y dwyfol a'r ysbrydol. Ceisiai rhai o'r gweinidogion adfer trefn, er cael yr ysgolion ereill at eu gwaith; ond buasai yr un peth iddynt geisio troi afon Tywi, oedd gerllaw, yn ol tua Rhandirmwyn, ac Ogof Twm Shôn Cati. Moliannu y buwyd trwy y prydawn a'r nos, yn y capel, ac ar hyd yr heolydd, a'r creigiau yn adsain moliant i Dduw am wyth milldir o ffordd o gwmpas Llanymddyfri, - hen dref Williams Pantycelyn, a Ficer Pritchard. Amser a balla i mi yn bresennol i ddilyn y Diwygiad yn ol i'm plwyf fy hun, a phlwyfi ereill, digon yw dweyd ddarfod i'r gynulleidfa honno, fel llwynogod Samson, wasgar y tân trwy yr holl wlad.” 23

(x023) Dyna'r portread a rydd y gŵr ei hun o'r Diwygiad Mawr trwy ddylanwad yr hwn y daeth efe yn Gristion, ac eglur yw ei fod wedi profi pethau grymus yn 1859, - pethau na cholodd eu dylanwad hyd ei fedd; canys ar wahan oddiwrth hynny, nis gallasai yr effeithiau fod mor fyw ar ei feddwl ar adeg

mor ddiweddar a'r flwyddyn 1900, sef ymhen 40 mlynedd wedi i'r Diwygiad fynd heibio. Yng ngwres y Diwygiad hwnnw, aeth Twynog trwy y "tro Mawr," gwnaed ef yn Israeliad yn wir, a chymerodd ato yr holl arfogaeth fel milwr da i Iesu Grist. Mewn canlyniad, aeth i mewn i fyd newydd, ac ymddangosai y mynyddoedd o gwmpas, y llynnoedd a'r afonydd, a holl olygfeydd natur fel creadigaeth newydd iddo. Yr Ysgol Sul, cynulliadau y saint, a cheisio byw crefydd, fu ei bethau pennaf ar ol hyn. Gwelir hynny yn amlwg oddiwrth y llinellau sydd yn terfynnu y gân fach swynol a ysgrifennodd ar y testyn "Ffarwel Llanddeusant," lle y dywed,-

"Ffarwel i Landdeusant a'r hen Ysgol Sul,
Lle ddysgais gynt ddarllen am Grist a'r Ffordd gul;
Cynghorion y tadau, mor fyw ag erioed,
Sydd heddyw mewn adgof yn llewyrch i'm troed."

Ymhen rhyw dair neu bedair blynedd wedi y Diwygiad, ymadawodd Twynog â'i hen gynhefin, canodd yn iach i Landdeusant, ac ymsefydlodd yn Aberdar, Morgannwg, lle gwahanol iawn ym mhob ystyr i'r hen blwyf lle y treuliodd ei febyd; ond gofalodd am fynd â'i grefydd gydag ef, ni phallodd ei frwdfrydedd, a chawn ef yn fuan yn ymroddi i waith nas gallasai dim ond gwir ysbryd cenhadol ei gymhell i'w gyflawni. Cymerodd ei le fel aelod yn eglwys Nazareth, a deallwyd yn fuan gan y frawdoliaeth yn y lle hwnnw fod gan y gŵr ieuanc o wlad Myrddin galon i weithio. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth oedd mynd allan i chwilio am bobl ieuanc nad oedd yn mynychu unrhyw le o addoliad, a'u cael i ddyfod i'r Ysgol Sul. Llwyddodd i gasglu dosbarth o ryw 20 ohonynt at eu gilydd, ac fe'n hysbysir i'r rhai. hynny (x024) oll ddyfod yn aelodau o'r eglwys, a bod dau ohonynt yn flaenoriaid yn Nazareth ar hyn o bryd. Y fath esiampl ardderchog i bobl ieuanc crefyddol, a'r fath brawf hefyd fod tân y Diwygiad yn parhau i losgi yn enaid y gŵr ieuanc oedd Yn cyflawni y gwaith. Mor ymroddedig gyda chrefydd yr oedd Twynog, ac mor amlwg hefyd, fel y bu cymhell mawr arno gan bobl dda Nazareth i ddechreu pregethu; ond oherwydd ei briodas a rhesymau ereill, ni chafodd ar ei galon i fynd i fewn am y weinidogaeth; eithr bu yn weithiwr llwyddiannus a difebl gyda'r achos, nid yn unig tra y parhaodd ei gysylltiad â'r eglwys honno, ond ym mhob lle arall y bu ynddo hyd ddiwedd ei oes.

Fel y gwelir oddiwrth adran arall, symudodd cyn hir o Aberdar i Ferthyr Tydfil, ac yno drachefn dechreuodd ar waith cyffelyb, a daeth yr ysbryd cenhadol oedd ynddo yn amlycach i'r golwg na chynt. Aelod yn hen gapel enwog Pontmorlais ydoedd tra fu ym Merthyr, a chôf da gennym am dano yn y lle hwnnw, ac am ei sêl danlyd gyda gwaith yr Arglwydd, yn enwedig gyda'r Ysgol Sul a Dirwest. Gwnaeth ei hun yn ddefnyddiol iawn fel gweithiwr crefyddol ym Merthyr, ac ar gyfrif ei fedr, ei ddeheurwydd, a'i ymroddiad, galwyd arno i lanw llawer swydd bwysig, megis bod yn ysgrifennydd y Gymanfa Ganu, ysgrifennydd Cyfarfod Dosbarth Merthyr; ac mor amlwg ydoedd gyda Themlyddiaeth Dda, fel yr edrychid arno yn un o'r colofnau cadarnaf yn y cylch hwnnw; a phan arweiniwyd ef gan Ragluniaeth i ymadael, teimlid y golled yn fawr, a chanodd rhywun gan roi mynegiant i'r teimlad hwnnw yn y geiriau canlynol,-

" Mae colli Twynog Jeffreys,
Y gweithiwr diwyd iawn,
Y llenor coeth a theilwng,
A'r bardd o uchel ddawn.
Gohebydd a 'sgrifennydd
I gymdeithasau'r dref,
Yn golled nas gall undyn
Fynegi faint yw ef.

(x025)
Y Temlydd Da a gweithgar,
Mor ffyddlawnd oedd efe,
Yn llenwi'r swyddi uchaf,
Urddasaf yn y lle, -
Prif Demlydd a Dirprwywr,
A llawer uchel swydd,
Nas gallwn ni eu rhifo
Na'u coflo heddyw'n rhwydd.

Beth bynnag fyddai'n wneuthur,
Ai mawr ai bach y bri,
A nerth ei law a'i galon,
'R oedd Jeffreys gyda ni;
Ni fyddai'n rhaid ei gymholl
Mewn unrhyw achos da,
Ni fedrai o gydwytod,

Byth, byth ddywedyd NA.”

Er nad oes llawer o eneniad yr awen yn y llinellau a ddyfynwyd, mae'n eglur oddi wrthynt fod i'n cyfaill Twynog le mawr a chynnes ymysg pobl dda Merthyr ar y pryd. Feallai mai'r gorchwyl pennaf a gyflawnodd yn ystod ei drigias yn y lfe hwn ydoedd ei waith ef, mown undeb âg un Mr. Protheroe, yn sefydlu Ysgol Sul gref ym Mhendarren. Yr oedd y gymdogaeth honno ar, y pryd yn isel ei moesau, a'r trigolion gan mwyaf yn esgeuluswyr hollol o bob moddion o ras. Yr oedd Mr. John Protheroe, yr hwn oedd fel Twynog yn aelod ym Mhontmorlais, yn byw yn y gymdogaeth honno, a llwyddodd Twynog i gael ganddo roddi ei dŷ yn agored i gychwyn Ysgol Sul ynddo. Aed o gwmpas i wahodd preswylr y cylch i'r Ysogol, ac nid hir y bu'r anturiaeth heb brofi yn llwyddiant mawr mewn gwirionedd. Nid yn unig fe ddaeth yr Ysgol yn Ysgol flodeuog, ond hefyd fe ddarfu i gynifer a hanner cant o ddeiliaid yr Ysgol ymuno i'r eglwys ym Mhontmorlais fel aelodau, a throi allan yn bobl ddefnyddiol gyda'r achos. Prawf y ffaith hon, nid yn unig fod y Cristion yn fyw yn ei galon, ond fod tân y Diwygiad yn parhau i losgi o'i fewn mor wresog ag erioed; ac yn gymaint felly nes peri iddo fynd allan i'r prif ffyrdd a'r caeau, a chymhell y (x026) bobl, yn ol gorchymyn ei Feistr, i ddyfod i mewn fel ag i lanw'r tŷ. A phan y daeth yr adeg o'r diwedd iddo gefnu ar Ferthyr, mynnodd ei gyfeillion gael cyflwyno iddo dysteb werthfawr, yn y ffurf o lyfrau, fel arwydd o'r gwerth a osodid ganddynt ar ei lafur a'i ffyddlondeb tra fu yn eu mysg.

Yr un mor amlwg hefyd oedd y Cristion yn ei gymeriad wedi iddo symud i Rymni i fyw; ond ei fod yn fwy aeddfed a ffrwythlawn ar gyfrif y profiad ychwanegol oedd yn eiddo iddo erbyn hyn. Gwelsom, rai gweithiau, bobl a arferent fod yn ffyddlon a gweithgar gyda chrefydd mewn un lle, pan yn symud i le newydd, yn colli eu sêl, yn methu cael eu hunain i ffordd gwaith, ac yn y diwedd yn marw i bob defnyddioldeb. Nid un o'r rhai hyn oedd ein cyfaill Twynog. Iddo ef yr oedd pob symudiad yn gyfleustra i ymroddiad newydd gyda gwaith y Deymas. Yr un oedd y Deymas iddo ef ym mhob man, ac nid oedd cwmni newydd, a chylch newydd, ond yn ei dynnu ef allan yn fwy. Adnabyddwyd ef ar unwaith ar ei ddyfodiad i Rymni fel un gwresol, yn ysbryd y gwaith, fel un yn meddu ar galon i weithio, ac fel un yn meddu ar gymhwysderau amlwg i fod o wasanaeth mawr. Eglwys Twyn Carno a gafodd y fraint o'i groesawu i'w mynwes yn y cylch hwn, a llwyddodd yntau i wneud lle cynnes iddo ei hun ar y Twyn ar fyrr o dro, ac nid hir bu heb ddyfod yn ŵr o ddylanwad a defnyddioldeb mawr yn yr holl gylch. Ymhen tair blynedd etholwyd ef yn Flaenor yn Eglwys Twyn Carno, ac ni chafodd neb le i feddwl mewn canlyniad fod eglwys wedi gwneud cam yn y dewisiad. Hefyd, gwelwyd a chydabyddwyd ei werth nid yn unig gan Eglwys Twyn Carno, ond gan y dref a'r dosbarth; a chawn iddo gael ei alw i lanw bron bob swydd o gyfrifoldeb o fewn ei gyrraedd. Bu yn ysgrifennydd y Gymanfa Ganu, yn ysgrifennydd y Dosbarth, yn ysgrifennydd lleol Cymdeithasfa a Chymanfa, a bu yn gynrychiolydd dros Gyfarfod Misol ei sir yn y Gymanfa Gyffredinol ac yn cymeryd rhan amlwg yn ei (x027) gweithrediadau. Yr oedd efe yn ŵr o ddawn neilltuol, yn gystal a bod yn Gristion egwyddorol o ran argyhoeddiad, ac am hynny disgynnai llawer o waith i'w ran ym mhob cylch lle y troai; ac y mae yn ddywediad am dano yn Rhymini hyd heddyw nad oedd yr un gwaith yn rhy fawr na'r un yn rhy fach i dynnu allan oreu Twynog er ei gyflawni yn effeithiol ac i bwrpas. Yr oedd efe yn gymeriad amlochrog iawn, ac yn amlwg mewn llawe cylch; ond y Cristion ynddo oedd yn llywodraethu, - yr oedd delw'r Cristion ar ei holl gyflawniadau.

Yn anffodus, fel y dangosir mewn pennod arall, bu Twynog am yn agos i hanner amser ei drigias yn Rhymini yn ferthyr i'r gymalwst (rheumatism), ac yn gaeth i'w ystafell. Rhoddodd hyn derfyn, i raddau mawr, ar ei waith cyhoeddus, gyda'r eithriad o'r hyn a wnai drwy y wasg; ond ni roddodd derfyn ar gyfleustra i'r Cristion ddangos ei hun. Am y ddwy flynedd ar bymtheg olaf o'i oes, ni bu allan yn y capel ond chwech o weithiau o gwbl, a bu raid ei gario y troion hynny. Yr achlysuron hyn oeddynt pan yr oedd ei ddewis-bregethwyr, - y Parch. E. Rees (Dyfed), y Parch. J. T. Job, y Parch. J. J. Roberts (Iolo Caernarfon), y Parch. John Williams, Brynsiencyn, a'i weinidog ei hun, y Parch. R. W. Davies, M.A., ynghyd ag un arall yn pregethu. Gyda'r eithriadau hyn, yn ei ystafell neilltuedig bu efe ar hyd yr holl flynyddoedd a nodwyd, ac heb allu mynd gyda'r gynulleidfa i Dŷ Dduw; ac o bob man, dyma'r lle i brofi'r Cristion; a da gennym allu dweud, fe ddaliodd Twynog y prawf yn ardderchog. Gwelsom, cyn hyn, ddynion oeddynt yn gwneud crefyddwyr go lew ar dywydd teg, ond yn torri ilawr ar dywydd garw : yn ymddangos yn bopeth ellid ddymuno mewn awyr dymherus, ond yn ymwylltio yng ngwres y ffwrnes; ac yn dra chymeradwy pan yn mwynhau rhyddid, ond yn llawn o ysbryd grwgnach wedi iddynt gael eu dal gan gaethiwed. Am Twynog, yr oedd ei grefydd ef yn fwy amlwg, os dim, yn y tywydd garw nag yn y tywydd têt; ac yn fwy gloew, os yn bosibl, mewn (x028) rhwymau nag mewn rhyddid. Pan ar dir nelltuaeth, ac yn fynych mewn poenau dirfawr, yr oedd efe fel yr aur wedi ei buro seithwaith, a'i grefydd yn mynd yn loewach loewach hyd y diwedd. Yr oedd ei oddefgarwch, ei sirioldeb diball, a'i ffydd ddiysgog, yn brofion diymwad o'i gymundeb agos â Duw, ac yn arddangos yr angel yn ei berson. Y mae amber] blanhigyn i'w gael sydd yn meddu ar bersawr o'r fath fwyaf hyfryd; ond y mae yn rhaid gwasgu'r planhigyn cyn y ryhdd allan gyflawnder ei arogl pereiddiaf. Gellir dweud am Twynog ei fod yn rhoddi allan arogl hyfryd iawn pan yu mwynhau iechyd a rhyddid; ond gellir hefyd ychwanegu ei fod yn rhoddi allan arogl hyfrytach wedi iddo gael ei wasgu i'w ystafell unig. Buasai llawer un wedi torri ei galon yn amgylchiadau caethiwus ein cyfaill; ond yr oedd cymaint o obaith yn ei galon, fel nad oedd ite ymneilltuaeth yn gwneud dim ond peri i'r Cristion ynddo

ymddangos yn fwy gogoneddus nag erioed o'r blaen. Gellir dweud am dano yng ngeiriau Islwyn ar fater arall, -

“Nos yw'r dydd sy'n cuddio'r sêr o'r golwg,
Ond dydd yw'r nos syn gwneud y nef yn amlwg.”

Ni wnaeth nos cystudd hirfaith yn ei hanes yntau ond gwasanaethu i ddwyn y nefoedd yn ei galon i fwy o amlygrwydd.

Beth oeddynt y llinellau amlycaf yng nghymeriad Twynog fel Cristion?

1. Yr oedd Gristion calon-agored ac wyneb-agored. Nid oedd y duedd leiaf i guddio arian ei Arglwydd; ond yr oedd yn hawdd darllen ar ei wyneb beth oedd yn llywodraethu ei galon. Y tro cyntaf erioed i mi ei gyfarfod oedd ar orsaf Llandeilo-fawr; ac er na chefais ond rhyw ddeng munud yn ei gymdeithas, deallais ei fod yn un o feib yr awen, yn Gristion hawddgar a da, ac nad oedd perygl iddo ddarguddio dim o'r gynysgaeth (x032) werthfawr yr oedd natur a gras wedi roddi iddo, ac ni chefais le byth wedi hynny i newid fy mam gyda golwg arno. Mor siriol a chalon-agored ydoedd fel yr oedd, nid yn unig y dyn, ond y Cristion hefyd i'w weld yn amlwg ar ei wynepryd. Nid wyf yn awgrymu drwy hyn ei fod yn un a fynnai honni pethau mawrion, na gwneud arddanghosiad o'i grefydd fodd yn y byd; ond yr hyn a olygwn ydyw y gwyddai efe yn hollol naturiol y ffordd i dorri'r blwch, nes peri fod arogl enaint crefydd yn llenwi y lle y byddai ynddo. Nid crefyddwr ar y Saboth, a rhywbeth arall ar ddyddiau yr wythnos, ydoedd; nid crefyddwr yn y capel, a rhywbeth arall yn y fasnach; ond un oedd efe ag oedd yn mynd i'i grefydd gydag ef i bob man, a'r grefydd honno yu un nad oedd yn cael ei chuddio dan len. Nid efe oedd yn llywodraethu ei grefydd; ond ei grefydd oedd yn ei lywodraethu ef. Gallasai ddweud yn groew gyda'r Apostol, -

“Nid, oes arnaf gywilydd o efengyl Crist;”

ac am hynny yr oedd yn galon-agored ac yn wyneb-agored fel Cristion.

2. Brwdfrydedd calon ae ysbryd ydoedd nodwedd arall yn Twynog fel Cristion. Yr oedd efe yn naturiol frwdfrydig gyda phopeth, ac felly hefyd gyda chrefydd. Nid oedd hyn ond peth i'w ddisgwyl ynddo, gan ei fod yn un o “Blant y Diwygiad;” oblegid y mae plant y Diwygiad, fel rheol, yn fwy gwresog gyda chrefydd na chrefyddwyr yn gyffredin, ac felly yr oedd yntau. Dylid sylwi hefyd mai nid brwdfrydedd teimlad arwynebol oedd yn ei nodweddu; ond brwdfrydedd bywyd. Dilynwyd ef gan ysbryd a bywyd y Diwygiad i raddau pell ar hyd ei oes. Hyn barodd iddo ymroddi at waith cenhadol gyda'r fath sêl yn Aberdar, ym Merthyr, ac yn Rhymni. Mynnai yr ysbryd cenhadol ddangos ei hun ynddo ym mhob man, ac edmygai yr Ysbryd cenhadol yn fwy na dim ym mhawb ereill. Yr oedd yn edmygydd diddiwedd, er engraifft, o'r diweddar Dr. John Pugh, a gwaith y symudiad ymosodol, yn gyatal a phob ymdrech arall i feddiannu tir newydd gyda (x030) Theyrnas y Gwardedwr. Wedi iddo gael ei gyfyngu i'w ystafell, yr oedd yn byw mewn cyffyrddiad agos â symudiadau crefyddol ei oes, yn darllen y cofnodolion crefyddol yn fanwl, ac yn teimlo yn fyw iawn i bob arwydd o ddiwygiad a llwyddiant. Yr oedd wedi bod mewn caethiwed am lawer o flynyddoedd cyn i Ddiwygiad 1904-5 dorri allan; a phan yr ymwelodd llanw y Diwygiad hwnnw â Rhymni, yr oedd efe yn rhy analluog i fynd i'r cyfarfodydd; ond clywsom weinidog a'i hadwaenai yn dda yn dweud i'r Diwygiad ddyfod ato i'w ystafell, a rhoddi iddo orfoledd lawer ar dir neilltuaeth fel yr oedd. Mor hawdd cynneu tân ar hen aelwyd!

3. Gweithgarwch ydoedd hefyd yn elfen amlwg yn Twynog fel Cristion. Mae'n rhaid i wir fywyd gael dangos ei hun mewn gwaith; a chan mai brwdfrydedd bywyd oedd brwdfrydedd ein cyfaill, yr oedd yn rhaid iddo gael amlygu ei hun mewn gweithgarwch diball. Nis gallasai efe fod yn segur. Rhaid oedd iddo fod wrth ryw waith bob amser. Fel y soniwyd, gwelwyd ef ar lawn gwaith gyda Dirwest, fawr ei sêl gyda'r Ysgol Sul, yn gyson yng ngwaith yr Eglwys, - yn ei chyfarfodyd cyhoeddus. yn ymweld â'r cleifion, yn gystal â phob gorchwyl a ddisgynai i'w ran; gyda gwaith y Gymanfa Ganu, gwaith y Cyfarfod Misol, a gwaith y Gymdeithasfa hefyd, profodd ei hun yn ŵr ymroddedig ac yn weithiwr difebl tra y parhaodd i allu mynd oddiamgylch. Ac hyd yn oed wedi fethu mynd o gwmpas, ni pheidiodd a gweithio o blaid crefydd; oblegid yn ei ystafell yr oedd beunydd yn darllen, yn meddwl, yn cynllunio, yn ysgrifennu, neu yn trarthu rhywbeth a Ysgrifennid gan ei ferch er budd ereill; a rhaid sylwi fod delw'r Cristion i raddau mawr ar holl Ysgrifeniadau Twynog. Dywed y rhai oedd yn gydswyddogion âg ef yn Nhwyn Carno nad oedd neb yn eu mysg yn fwy ymroddedig i waith nag efe, tra y parhaodd ei nerth; ac ychwanegat fod ei feddylgarwch a'i gynlluniau, yn ei ystafell unig, wedi profi yn arwiniad ac yn gynhorthwy pwysig iddynt ar lawer amgylchiad. (x031) Medrai feddwl yn glir, a siarad yn ddeallus, ac am hynny yr oedd ei waith, pa un bynnag ai yng nghyfarfodydd yr eglwys neu yn ei ystafell neillduedig y byddai, yn nodedig o dderbyniol a chymeradwy. 4. Yr oedd amynedd a gallu i i ddioddef yn bethau amlwg yn Twynog fel Cristion. Dywedasom y nodweddid el gan frwdfrydedd; ac nid yn fynych y mae brwdfrydedd mawr ac amynedd mawr yn cydgyfarfod yn yr un person; ond yr oedd hynny yn ffaith yn hanes ein cyfaill. Meddylier am dano, ac yntau yn un mor fyw,

am 17 o flynyddoedd yng nghraffangau y gymalwst ar dir neilltuaeth, a hynny heb furmur na dweud gair yn ynfyd yn erbyn y drefn. “Trwy lawer o orthymderau,” medd y gair, “y mae yn rhaid myned i Deyrnas Dduw;” deallodd Twynog hynny, dysgodd amynedd fel plentyn yn llaw ei Dad Nefol, a dysgodd ddioddef heb rwgnach, gan wybod fod “byr ysgafn gystudd yn gweithredu tragwddol bwya gogoniant.” Credwn ei fod yn rhoddi mynegiant i’w brofiad personol fel Cristion mewn rhannau helaeth o’i bryddest ar y testyn, -

“A fynno gyrraedd wen goron -
Dwy ran ei helynt drain a heolion.”

Cymerer y dyfyniadau canlynol allan o’r gerdd,-

“Deugain mlynedd yr Israeliaid gynt
Felysai yr orffwysfa wedi’r hynt;
Ac felly mae yn rhaid i’r sant o hyd,
Cyn gweled nef, weld troion chwerwon byd,
Fel ‘stad o brofiad a dysgyblaeth lem,
I’w naddu a’i lanhau yn nefol em.”

* * * * *

“Daw dyn mewn drain a hoelion at ddor gobaith,
A gobaith a’i harweinia at ddor perffaith
Amynedd, ac amynedd a’i dwg eilwaith
Yn ol yn syth at ddor y perffaith obaith, -
Y gobaith hwnnw yw na chywilydda –
Y gobaith dry’n fwynhad o fewn y Wynfa.”

* * * * *

(x032) “Pan bo Rhagluniaeth nef yn cau
Ffyrdd dyn â drain, ac yntau yn tristau;
Llaw arall sydd yn agor rhai newyddion
A golygfeydd yn llawn o uwch prydferthion,
Ac yn ei dywys iddynt mewn tawelwch
I hedd-fyfyrio ar newyddach harddwch;
Ond ni fuasai byth yn gweld y rhain
Pe byddai’r hen heb gael eu cau â drain,”

* * * * *

“Cyn hir daw’r dydd caf finnau wisgo’r goron,
A gadael fyth ar ol y drain a’r hoelion;
Caf y pryd hwnnw sylweddoli’r dioddef
Yn y mwynhad o fy nhragwyddol gartref,
Y drain a’r hoelion, a’r peryglon fyrdd,
Yn nefol goron ac yn balmwydd gwyrdd
Mor bur, mor wresog, fydd fy niolchiadau,
'Rol colli deigryn ola’r ocheneidiau.
Y 'stad a’r tymor o ddisgyblaeth gref,
Yn barotoad bywyd uwch y nef,
A heibio’n fuan, pob cyfrinion ddaw
I’r golwg am yr oll yr ochor draw,
Lle y mae Duw yn rhannu y coronau
Yn rhoddion am ddioddef y cystuddiau.”

Dyna yn ddiddadl iaith profiad Twynog, ac y mae’r profiad hwnnw yn fyw gan obaith yr efengyl. Nid yn unig fe welir yma amynedd dihafal, ond fe welir yma obaith disglair yn tywynnu, a chlywir seiniau clir o lawenydd a gorfoledd yn torri trwy y cwbl. Y mae hyn yn ein harwain i olwg y plyg prydferthaf oll yng nghymeriad yr anwyl Twynog.

5. Cristion ai fywyd yn llawn heulwen oedd ein Harwr. Cafodd gymaint o achos i fod yn bradd, ac i ddigaloni a neb fu yn rhodio daear ei wlad; ond prin erioed y gwelwyd cwmwl yn dyfod dros ei ael. Yr oedd efe bob amser yn yr haul, tra y byddai ereill, gyda llawer llai o achos i hynny, yn ddigon parod i ymollwng. Yr oedd ei sirioldeb, ei hawddgarwch, a’r heulwen oedd yn ei brofiad, ar hyd ei flynyddoedd olaf, yn ymddangos fel gwyrrth i’w gydnabod. Yr oedd ei grefydd fel arogl myrr, aloes, a chasia, yn llenwi ei gartref tawel; a (x033) fwyaf y wasgfa amo, mwyaf i gyd y byddai arogl yn llenwi

yr ystafell lle r eisteddai. Bu llw mawr o gyfeillion yn galw i'w weld ar hyd y blynyddoedd y cyfyngwyd arno; ond clywsom y sylw yn cael ei wneud lawer gwaith, pwy bynnag fyddai'r cwmni, mai Twynog fyddai'r mwyaf calonnog a llawen ohonynt oll. Prin y gwelwyd ef erioed heb wên ar ei wyneb, ac y mae'n cldiddadl fod y sirioldeb hwn yn codi yn bennaf o'i ffydd a'i hyder fel Cristion. Yr oedd efe o ran ei ddlynoliaeth naturiol yn siriol a hawddgar tu hwnt i'r cyffredin; ond rhaid wrth ras mawr i gadw'r jeulwen i dywynnu mewn amgylchiadau fel yr eiddo ef. Weithiau, pan alwai rhai o'i gyfeillion mewn digalondid, mor llawn o heulwen oedd profiad Twynog fel y byddai yn gallu gwella'r pruddglwyf ym mhrofiad y rhai hynny. Un bore, galwodd Mr. David Watkins, brawd y cadeirfardd Ioan Gwent; a chan fod Ioan ar y pryd newydd farw, yr oedd Dafydd yn hynod brudd ei galon y bore hwnnw. Pan ofynnodd Twynog iddo sut yr ydoedd, dywedodd yntau, -

“Yr wyf yn teimlo yn wael iawn heddyw, nid wyf yn meddwl y byddaf byw yn hir eto.”

“Tyr, tyt, Dafydd bach,” medd Twynog, “chwi ddeuwch yn well eto'n fuan.”

“Na,” meddai Mr. Watkins, “yr wyf yn ofni fod fy amser yn agoshau.”

“Wel, os felly y mae hi i fod,” medd Twynog, “cofiwch fi yn fawr at Ioan eich brawd.”

“Nawr, Twynog,” medd Watkins, “nid yw pethau cyn ddrwg a hynyna hefyd,”

a daeth y gw'r i'w le ar unwaith. Dengys yr hanesyn a roddwyd Twynog yn hollol fel yr oedd, a dengys yn arbennig yr heulwen oedd ar ei brofiad fel Cristion. Gallasai fod yn chwareus ei ysbryd yn yr hen gadair fraich pan heb fod yn alluog i symud o honi, a phan yr oedd ereill, er mwynhau rhyddid ac iechyd, yn ddigon cwynfannus. Byd gwyn oedd ei fyd ef yn ei gystudd maith yma. Beth am dano, tybed, erbyn hyn? Gellir dweud yn sicr am dano ei fod wedi mynd i wynnach byd, - byd nad oes berygl i'w haul fachludo byth.

(x034) Bu Twynog farw fel y bu fyw, a'i bwys ar ei Anwylyd. Yn ei flynyddoedd olaf, treuliodd lawer o amser mewn myfyrdod ar y Beibl a'r Llyfr Hymnau. Yr oedd beunydd yn darllen ac yn meddwl, a byddai yr hen emynau Cymreig, yn enwedig eiddo Pantycelyn ac Ann Griffiths, yn dylifo fel neithdar dros ei fin. Gyda gair o emyn yn ei enau, mae'n ymddangos, y cauodd ei lygaid ar y byd, ac yr agorodd hwynt yn y nef, oblegid y frawddeg ddeaaladwy olaf a ddywedodd oedd, - “Iesu anwyl cymer fi.”

Ie, dyna ddeisyfiad olaf yr anwyl Twynog, a dilys yw iddo gael ei wrando, a chael ei dderbyn gyda chroesaw teilwng i'r trigfannau dedwydd hynny lle nad oes neb o'r preswylwyr yn dywedyd “Claf ydwyf,” lle nad oes na chystudd na phoen byth, a lle nad oes neb yn marw. Ydyw, y mae ein hoff gyfaill erbyn hyn yn rhydd o'i rwymau, yn mwynhau tragwyddol iechyd, a gwyn ei fyd byth mwyach, gyda gwobr y “Gwas da a ffyddlawr” wedi dyfod yn rhan iddo.

(x035)

(4) TWYNOG FEL BLAENOR.

GAN Y PARCH. DAVID OLIVER, LLUNDAIN.

Ni fyddai raid bod yng nghymdeithas Mr. Twynog Jeffreys yn hir cyn cael eich argyhoeddi o'r dyddordeb dwfn a deimlai nid yn unig mewn barddoniaeth a beirdd, ond hefyd yng nghrefydd yr Arglwydd Iesu Grist a'i llwyddiant ymhell ac yn agos. Yr oedd gwrando arno yn ei ddull diddan a doniol ei hun yn adrodd hanes hen gymeriadau ac arweinwyr crefyddol Aberdar a Merthyr pan yr oedd ef yn byw yn y lleoedd hynny yn amheuthyn i feddwl a chorff. Oedd, yr oedd Twynog yn flaenor ac yn un lanwodd y swydd gydag anrhydedd ac effeithiolrwydd mawr yn eglwys Ebenezer, Twyn Carno, am flynyddoedd lawer. Bu yn drysorydd y weinidogaeth yno dros gyfnod maith, a dygai fawr sêl dros fod popeth a berthynai i wedd anianol yr Achos yn cael ei ddwyn ymlaen mewn modd teilwng ac urddasol. Pa mor fawr bynnag oedd yr anrhydedd deimlai fod wedi dyfod i'w ran pan yr enillodd Gadair Farddol Corwen, yr oedd yn ystyried ei fod wedi cael anrhydedd uwch a dyrchafiad llawer mwy pan y dewiswyd ef gan ei frodyr a'i chworydd yn yr Arglwydd i eistedd fel blaenor yn un o gadeiriau Sêl Fawr y Twyn. Ac er iddo gael ei analluogi gan afiechyd blin i fynd i mewn ac allan ymhlith y frawdoliaeth i'r cysegr cyhoeddus y rhan olaf o'i oes, parhaodd i goleddu syniadau uchel iawn am eglwys Carno hyd y diwedd. Y gwir yw, meddyliai nad oedd ei hafal yn ddeallol ac ysbrydol yn y De na'r Gogledd. Ymffrostiai yn sanctaidd yn ei gorffennol gwych, a llawenychai yn ffyddiog yn ei rhagolygon disglair. Wn i ddim faint ŵyr y saint yn y nef am helynt y saint ar y ddaear, ond os ydynt yn gwybod (x036) rhyw gymaint, yr wyf yn bur sicr fod angel gwarcheidol Twynog yn cael gorchymyn mynych i roddi tro am y ddiadell eglwysig ar y Twyn. Nid wyf yn meddwl y bydd ei lawenydd ef yn gyflawn yn y gogoniant hyd nes y bydd wedi cael cwmni rhai o'r brodyr garai mor angerddol yma, er fod rhai ohonynt wedi mynd yno o'i flaen.

Yn yr adeg yr ymgymrodd Mr. Jeffreys â swydd blaenor yn Nhwyn Carno, yr oedd yr elfen leygol yn llanw lle pwysig yng Nghyfundeb y Methodistaidd, yn enwedig yn llywodraethiad ac amaethiad yr

eglwysi unigol. Yr oedd hyn yn ganlyniad anocheladwy cyfundrefn deithiol y weinidogaeth yn ein plith, - cyfundrefn a ffynnai yn lled gyffredinol yn y Cyfundeb am y can mlynedd cyntaf o'i hanes. Er fod Gair Duw trwy gyfrwng yr Ysgol Sul, wedi cynhyddu ac amlhau yn ddirfawr yn y wlad, yr oedd gweinidogion y Gair yn gymharol brin. Pan o fewn cyfleusdra, rhoddai y gweinidogion a'r pregethwyr eu presenoldeb yn y Cyfarfod Gweddi a'r Seiat, a mawr werthfawrogiad eu gwasanaeth ynddynt; ond arweinwyr cyson a sefydlog yr eglwysi, gydag ychydig iawn o eithriadau, oedd y blaenoriaid. Hwyl oeddynt y gwylwyr cartrefol parhaus, a phorthwyr dyfal y praidd, ac adeiladwyr y saint ar y sancteiddiaf ffydd. Effaith hyn oll oedd i ddylanwad yr elfen leygol o'r swyddogaeth yn ein plith i fynd yn fawr iawn, ac erys eto trwy dragaredd, er nad i'r un graddau, feallai, a chynt. Nid oes odid drefflan na chwmwd yng Nghymru nad yw anerchiadau byw, gweddiau eneiniedig, a charitor sancteiddlws rhyw flaenor neu gilydd wedi gadael argraff annileadwy ar feddyliau a chalonau y bechgyn a'r merched gafodd y fraint o gael eu magu a'u meithrin wrth eu traed, a'r rhai sydd wedi eu dilyn yn fendithiol i bob cwrw o'r byd. Nid yw lle a gwaith y blaenoriaid wedi cael y sylw a'r gydnabyddiaeth ddyladwy gan haneswyr y Cyfundeb hyd yma. Yr ydym wedi arfer ymffrostio yn y dynion hyawdl a thalentog gododd Duw i'r pulpud i ddeffro'r (x037) genedl o'i chysgadrwydd a'i difaterwch am yr ysbyrdol a'r tragwyddol, a'i hargyhoeddi o'i phechadurusrwydd a'i hannuwioldeb. Gallwn yn llawn mor briodol hefyd ymfalchio, - heb bechu, mi gredaf, - yn y dynion hirben a chydwybodol gododd Duw o bryd i bryd i'r Sêd Fawr. Paham y mae'r Genedl Gymreig yn fwy crefyddol na'r genedl Seisnig? Nid am ei bod wedi cael rhagorach pregethwyr, ond am fod y Cymry wedi cael gwell blaenoriaid. Blaenoriaid y Methodistiaid, - hwy oedd bugeiliaid yr eglwysi ar y cyntaf, a bugeiliaid ardderchog oedd rhai ohonynt. Myfyrient yn y Gair, paratoent en hysbryd ar gyfer y Seiat a'r Cyfarfod Gweddi, ac ymwelent gyda ffyddlondeb mawr i'r cleiflon a'r rheidus, a'r trallodedig a'r esgeulus. Esgobion neu arolygwyr yr eglwysi oedd y gweinidogion hyd yn gymharol ddiweddar.

Pwy na chlywodd am Dafydd Jones, o'r Dolau Bach, bugail-flaenor Llangeitho, Job Prosser dduwiolfrydig o Ddowlais, Sam. Parry, y dysgyblwr llym o Bontmorlais, William Morris, y boneddwr-flaenor o Bant-tywyll, a lliaws ereill llai amlwg ellid enwi. Ac yn ol ei maint a'i manteision, nid yw Mynwy wedi bod yn ail i'r un sir arall yn nifer ei blaenoriaid gallog a doeth. Un o'i blaenoriaid hi oedd yr enwog Owen Enos, yr hwn aeth i sir Aberteifi yn unig swydd i nol y Sassiwn i Benycae. Yr amser hwnnw, yr oedd yr Achos yn y lle yn wan, ond nid yn llwydaidd. Ofnai yr hen frodyr da oedd yn arwain i'r Gymdeithasfa gollu graddau o'i hurddas wrth fynd i le felly, a thueddent i droi clust fyddar i'r cais. Pan welodd Owen Enos fod pethau yn mynd i'w erbyn, torrodd allan i wylo, a'i waith yn ei thaergeisio trwy dagrau a barodd iddo lwyddo yn ei amcan clodwiw. Ereill o'r cedyrn-flaenoriaid gynt ym Mynwy oeddynt Edward Jones, y Rock, gŵr o bwyll a doethineb mawr, ac un lanwodd y swydd bwysig o Ysgrifennydd y Cyfarfod Misol am gyfnod maith; y cydwybodol a'r gwrol James Davies, Penycae; y craff a'r ffyddlawn Evan Evans, Tredegar; ac onid yw Methodistiaid (x038) De a Gogledd wedi clywed am, os nad wedi adwaen yr hybarch frawd Mr. William Griffiths, y Rock, a'r hwn a dreuliodd ei flynyddoedd olaf yng Nghasnewydd, gŵr, mi gredaf, a wariodd ffortiwn fach i wasanaethu y Cyfundeb a garai mor fawr. Pan welai plant y capel bersonoliaeth urddasol Mr. Griffiths yn cyfeirio ei gamrau yn arafaidd tuag yno o orsaf y rheilffordd, gwyddent fod y Cyfarfod Misol ol a gyhoeddiad y Saboth cynt yn ddiogel yn y fangre. Gŵr oedd ef nad oedd byth yn ei afiaeth ond pan mewn rhyw bwyllgor neu gilydd, neu Gyfarfod Misol, neu Gymanfa. Coffa parchus am ei enw! Y mae ei goffadwriaeth yn parhau yn wyrdd! Yr Arglwydd a godo lawer eto o rai tebyg iddo mewn brwdfrydedd a sêl hunan-aberthol dros fuddiannau uchaf teymas nefoedd. Ar Dwyn Carno hefyd yr oedd nifer o ddynion da eu gair ac amlochrog eu defnyddioldeb yn y ddiaconiaeth. Yma yr oedd yr hyfwyn Shaci Protheroe, neu, fel y crybwyllid ei enw gyda pharch ac anwydeb gan y rhieni ar yr aelwydd, - yr "Hen Brotheroe" Bu ef yn arweinydd diogel i'r eglwys am flynyddoedd lawer ac ar ei ol cymerwyd yr awenau gan y galluog a'r ffraethlym John Lewis. Gwr oedd ef ddarlennodd y "Gwyddoniadur" air am air fel y deuai allan y tro cyntaf o Ddinbych. Yr oedd yr hen flaenoriaid, fel rheol, yn ddarllenwyr mawr, darllent lyfrau, darllent ddynion.

I olnyaeth anrhydeddus y cewri a enwyd, ac yn gyd-weithiwr â rhai ohonynt, y daeth Mr. Jeffreys, pan y dewiswyd ef yn swyddog eglwysig. Gellir edrych ar y cyfnod hwnnw mewn modd arbennig fel cyfnod teyrnasiad y blaenoriaid, nid yn unig ar y Twyn, ond hefyd drwy y sir. Yn eu perthynas â rhai mudiadau go bwysig yn y Cyfundeb, tipyn yn araf a cheidwadol oedd ymddygiadau ym Mynwy wedi bod ym hyd yn hyn. Dyna oedd eu tuedd, yn neilltuol felly tuag at y Fugeiliaid Eglwysig, ac yr oedd yn naturiol disgwyl i Rymni yn anad un lle fod ar ol, os nad yn erbyn y mudiad hwn. Onid yma yr oedd, (x039) enwog Edward Davies, "Pensator" Baner ae Anserau Cymru, a brawd y diweddar Barch. Josua Davies yn byw? Yn awr, yr oedd Twynog nid yn unig yn Rhyddfrydwr mewn gwleidyddiaeth, ond hefyd yn un oedd yn credu mewn cario allan ei egwyddorion rhyddfrydol yn ei gysylltiadau crefyddol. Carai y Cyfundeb yn angerddol, a chredai ynddo ac yn ei arweinwyr, - credai fod iddo ddyfodol gwych ond iddo gyfaddasu ei hun i gyfarfod cyfnewidiadau yr amseroedd. Y canlyniad oedd iddo daflu ei hun i mewn i'r ymdrech o blaid y fugeiliaeth gydag aiddgarwch a brwdfrydedd eithriadol. Efe yn ddiarhebu oedd un o *pioneers* y mudiad hwn ym Mynwy, ac athrawiaethai arno gyda gwres ac argyhoeddiad pa le bynnag yr elai.

Ond nid oedd eto fugail ar Dwyn Carno, a'r peth mawr cyntaf, gan hynny, oedd ennill yr eglwys yno

drosodd mewn modd ymarferol. Wedi nifer o frwydrau pwyllgorawl poethion, llwyddwyd yn hyn. Y mae yn gôf byw gennyf yr awr hon am y Saboth y daethum gyntaf i'r Twyn, yn efrdydd o'r Coleg ar brawf. Nid heb deimlo gradd helaeth o bryder a dychryn dynol yr esgynnais i bulpud Ebenezer y bore hwnnw. Ac wedi edrych o amgylch ar gylch cyfrin y Sêd Fawr, yn lle mynd yn llai, cynhyddu wnai'r ofn. O danaf, mewn cadair fawr ar y chwith, ond heb fod yn gwneud fawr sylw o hono fi, yr oedd gŵr yn gwisgo cap melfed du. Pan welais ef, cofiais rai o'r traddodiadau am yr Hybarch Thomas Richards, Abergwaun, ac nid oedd hynny yn gwella dim ar bethau. Yr oedd ef yn gwrando fel Dr. Lewis Edwards, - nid oedd yn bosibl i ddewin ddeall beth oedd yr argaff wneid amo. Ar fy chwith eto, ar ben y cylch, yr oedd gŵr bychan, bywiog, a golwg ychydig yn anesmyth arno. Os caffai ef damaid a chamflas athrawiaethol amo, yr oedd yn amlwg arno na phetrusai ei boeri yn ol gyda dirmyg sanctaidd i wyneb y pregethwr, druan; ond, fel y deallais ar ol hyn, ni fu neb erioed yn medru mwynhau y manna ysbrydol, ac yn blasu gwinoedd melus mynydd Duw yn fwy nag ef. (x040)

I'w chwith ef drachefn yng nghongl y sêd Fawr eisteddai gŵr tal, urddasol ei osgo, a mwyn yr olwg amo. Rhoddai ef ambell *fow* cydsyniol, a rhyw hanner gwên gymeradwyol yn awr ac yn y man, ond gofalai rhag rhoddi ei hun i ffwrdd o blaid i pregethwr mewn unrhyw fodd. Yn y gadair o dan y pulpud ar y dde i mi yr oedd hen ŵr penwyn, diniwed fel oenig, ond llawn o asbri ysbrydol, ac ymddangosai yn prysur addfedu i ogoniant. Ar fy ne, ar ben y rhes yr ochr honno, yr oedd gŵr o faintioli corff cyffelyb i'w frawd yn y pen cyferbyniol. Gwrandawai ef yn dra astud. Gwyllo yr oedd ef fel y gwybum yn ol llaw ar fod yr athrawiaeth bregethid yn cynghaneddu gyda Chredo henafol a pharchus yr Apostolion, ac yn gyson i dysgeidiaeth ddiwyro y Tadau. Y mae eisieu rhagor o ddynion o'i fath ef yn y dyddiau hyn. Yn union o fy mlaen, yr oedd tri ereill. Un yn y gongl; gŵr llawen a phwylllog, a phwysig ei fam, ac nid yn fynych y newidiai hi. Yr ail oedd a golwg esmwyth, dawel, arno. O ran ffurf ei ben a'i wyneb, ac yn enwedig ei dalcen, adgofiai ni o'r prif-fardd Seisnig Shakespeare. Amlwg oedd ei fod ef yn meddu ar feddwl treiddgar ac ysbryd tra dwys. Hwn oedd athronydd crefyddol y Twyn, ac efe hefyd yn bendifaddeu oedd Nathanael y blaenoriaid. Y trydydd oedd ŵr, personoliaeth allanol yr hwn a dynnai sylw mewn unrhyw gymdeithas. Meddai ar ben yn hytrach yn fawr a chrwn, gyda gwyneb llawen a hawddgar. Gwisgau wydrau o fath neilltuol ar ei lygaid, ond o'u gwaethaf, megis, tywynnai eu goleuni trwyddynt, a chwareuent y tu ol iddynt fel sêr byw ar ael y ffurfafen. Yr oedd yn eglur fod y blaenor hwn yn gwrandaw â'i holl enaid arc â'i holl gorff. Nid anfynych symudai y gliniau ac hyd yn oed y traed, ac yr oedd ei wên foddhaus yn symbyliad gwerthfawr i'r pregethwr ieuanc i gadw 'mlaen. Y mae cael blaenoriaid fyddo'n wrandawyr da o werth mawr i eglwys. Y mae gwrandawriad sâl ambell blaenor wedi dinistrio llawer (x041) pregeth ragorol. Yr oedd Mr. Twynog Jeffreys yn wrandawr ardderchog, oherwydd efe oedd y blaenor hawddgar a serchus hwnnw a wisgai'r gwydrau, a dyna'r tro cyntaf i mi ddyfod i gygffyrddiad agos âg ef. Ar ol hyn, ac ar ol ymsefydlu yn y lle, daethum yn naturiol i gyfathrach agos iawn âg ef, a phob amser cefais ef yn barod gyda'i gynghorion a'i gyfarwyddiadau er adeiladaeth y saint a llwyddiant yr Achos. Y pryd hwnnw yr oedd yn bur ffyddlawn i yr gyfarfodydd yr wythnos, a chymerai a chymerai ei ran yn rheolaidd ynddynt. Yr oedd ei weddïau goeth ac yn afaelgar ar rai prydiau; ond nid yn ei gyflawniadau cyhoeddus yn yr eglwys yr oedd ei ragoriaeth pennaf, yn gymaint ag yn ei ysbryd. Fel awelon mwynion Mai, a heulwen ddisglaer Mehefin, yr oedd sirioldeb ei ysbryd a nwyfusrwydd ei dymer yn gyrru ymaith bruddglwyfni meddyliol ac iselder ysbryd o bob math. o boi math. Yr oedd Twynog wrth natur a thrwy ras yn *optimist*. Ei waith yn mynnu edrych ar yr ochr oleu i bethau, yn ychwanegol at ofal a thynerwch ei hoffus briod a'i blant anwyl, a'i cadwodd yn fwy cyhyd. Ar ol cael ei luddias gan ei afiechyd blin a maith i fynd i gysegr Ebenezer, trodd ei ystafell gystuddiol a'i dŷ ei hun yn gysegr, ac yno y cyfarfyddai y saint barddol a chrefyddol ar hyd y blynyddau gyda chysondeb diwall. Yr oedd ei garedigrwydd ef a'r teulu ar yr aelwyd heb ei hafal hyd yn oed i ddieithriaid, ac nid anfynych y lletyasant angylion. Synnwn i ddim nad o binaclau y cysegr bach yn y tŷ ar ol mynd i dir neilltueth y gwelodd y gwelodd Twynog y y blaenor fel Ioan y Difeinydd, y nefoedd newydd, a'r ddaear newydd, a'r ddinas sanctaidd, y Jerusalem newydd wedi dyfod i waered oddiwrth Dduw, ac ymsefydlu ar y ddaear. Oherwydd paham, peth naturiol a pheth i'w ddisgwyl oedd iddo ef gynhyddu mewn proflad ysbrydol hyd y diwedd, - a dyna'r ffaith. Daeth Diwygiad mawr a bendigedig y flwyddyn 1904 ef i'r tŷ. Wrth ddarllen ac ymddiddan am dano, teimlodd awelon balmaidd (x042) Calfaria yu cliro ei awrygylch ysbrydol, ac yn adfywio y Dwyfol rasmusau oeddynt wedi eu plannu o'i fewn pan yu llanc yn sir Gaerfyrddin. Ac o hynny i'r diwedd, parhaodd i gynhyddu mewn ysbrydolrwydd mewn modd amlwg iawn. Sicr yw ei fod ef heddyw yn gwisgo'r goron, ac mewn gwlad lle na ddywed neb o'i phreswylwyr "Claf ydwyf." "Meddyliwn am ein blaenoriaid . . . ffydd y rhai dilynwn, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwy."

(x043)

(5) TWYNOG FEL BARDD.
GAN Y PARCH. J. T. JOB.

Cyfrifwn y diweddar frawd Twynog yn un o'n cyfeillion goreu. Cystal i ni nodi'r ffaith yna i gychwyn rhag digwydd i hynny dywyllu tipyn ar ein llygad wrth ysgrifennu amo fel *bardd*; er, hwyrach, y geill y ffaith, ar un olwg, fod yn elfen o gymhwysder ynnom at y gorchwyl. Ond credwn nad ysgrif feiriadol yn gymaint a ddisgwylir oddiwrthym, eithr yn hytrach fras-olwg ar deithi ei farddoniaeth.

Eto i gyd, teimlwn yr erys yr anhawster ar ein llwybr, sef yr anhawsater o gadw at y pwnc, - y demtasiwn o lithro oddiwrth y bardd, i siarad am y dyn a'r cyfaill; canys gan nad pa cymaint bardd oedd ein gwrthrych, credwn fod y dyn a'r cyfaill yn disgleirio ynddo i raddau helaethach na hyd yn oed ei allu fel bardd.

Dywedwn ar unwaith nad bardd cyffredin. mo Twynog. Yr oedd ei lond o awen, - a mwy o awen, feallai, nag a ddaeth i'r golwg yn ei farddas ysgrifenedig; mewn gair, yr oedd efe yn un o'r beirdd hynny sydd braidd yn ddiffygiol mewn mynegiant. Y prawf goreu o'i awen fuasai treulio noson neu ddwy yn ei gwmmi; yr oedd iddo bersonoliaeth farddonol - nid o ran ffurf corff a olygwn, - canys corff llogach ddigon oedd gauddo, ond yn hytrach ei bersonoliaeth o ran ei hysbryd. Yr oedd ei ysbryd yn farddonol, ac felly yn dra atyniadol. Buasai unrhyw fordd yn el arogl o bell; ac yntau yr un modd yn ei arogl yntau : Dyma'r rheswm, y mae'n ddiau, fod ei gartref, -ei "Breswylfa" hoff, - yn gymaint cyrchfan i'r llwythau barddol. Yr oedd *lliw* o fardd yn fwy gwerthfawr yng ngolwg Twynog na dwsin o feidrolion cyffredin! Yn sicr, un rhifedd yw'r bardd ym mhob oes."

(x044) Cyfansoddodd beth wmbreth o farddoniaeth yn ei oes; a rhan fawr, - nad ellir sylwi arnynt yma, - yn y ffurf o gyfarchiadau i hwn ac arall ar achlysuron o enedigaeth neu briodas, neu fuddugoliaeth, neu ynte goffa, &c., &c. Ac y mae hyn, debyg gennyf, yn rhan o waith pob bardd, i raddau mwy neu lai; a phwy a w'yr faint o gysur a ddug pethau felly, o dro i dro, i lawer calon? Felly Twynog, bu ei gyfarchiadau yntau yu sirioldeb mawr i lawer aelwyd yn yr ystyr hon. Ond hwyrach mai yn y llyfr o ganiadau, a gyhoeddodd yn y flwyddyn 1904, sef "Tannau Twynog," y ceir yr olwg decaf arno fel bardd; a'n bwriad syml yn awr yw bwrw bras-olwg ar gynnwys y llyfr hwnnw.

Credwn y cytunir mai awen *Delynegol* oedd yr eiddo ef, gydag ar y mwyaf, hwyrach, o'r elfen feddyliol (*intellectual*) a'r foes-wersol (*didactic*) ynddi, i'w galluogi i gyrraedd tir uchel iawn yn y math hwnnw o farddoniaeth. Mae'n wir fod ynddo hefyd gryn iâs o'r cyffyrddiad arwrol (*epic*), eto amlwg mai'r delyneg oedd "ei elfen." A chyda llaw, onid dyma oedd ei farn ef ei hun ar hyn? Onide, paham y galwodd ei lyfr yn "*Tannau Twynog*?" Credwn, pe y buasai wedi troi ffrwd ei awen yn gyfangwbl i redle y Delyneg, ac ymberffeithio ynddi, y buasai wedi llwyddo i ganu nifer o ganiadau fyddai'n debyg o fyw'n hir.

Canai yn y Caeth a'r Rhydd-Fesurau yn bur ddisgloff. Eto, ymddengys i ni nad oedd ganddo yr amynedd gofynnol "chwilio am air" yn y fâth fodd ag i "gael *mwy*;" yr oedd yn rhy barod, fel llawer ereill, i fabwysiadu'r gair cyntaf a gynhygiai ei wasanaeth iddo, yn hytrach nag aros i'r *union*-air ddod. Dyma'r "gwybed meirw" sydd yn amharu enaint y beirdd ym mhob oes; ac ychydig yw nifer y beirdd sydd wedi llwyr ddianc rhag poenydfa'r "gwybed" hyn. Eto, rhaid cydnabod fod barddoniaeth Twynog yn lanach oddiwrthynt nag eiddo llawer bardd mwy honiadol nag efe.

(x045) Gadewch i ni sylwi amo fel bardd Caeth. Ceir yn "Nhannau Twynog" dair o awdlau, ynghyda nifer dda o englynion, &c. Hwyrach mai'r un ar "Owain Glyn Dŵr," a enillodd iddo gadair Corwen yn 1900, yw'r oreu o'r tair awdl, er nad ystyriwn ei chynllun yn un ffodus. Ond caniatu dyfynion, -

"Darianog lyw yn deyrn glân, o lanaf
Lwynau Gruffydd Fychan;
O riniol gewri anian
Doi'r Glyn Dŵr a'i galon dân."

* * * * *

"Tolo Goch, anfarwol gu, - a'i liny
A'i beraidd delyn, oedd bardd ei deulu;
A'r iach awenwr uchel - pur ei chwaeth,
Gréal ddewr afiaeth â'i gerddi rhyfel."

* * * * *

Grey o Ruthyn, -

"Dyn o ddig ar dân oedd hwn,
A'i enaid o liw anwn;
Ffals leidryn anhyd yn oedd,
A di-wrid fradwr ydoedd;
Rhoddai floedd am harddaf lain
O ddewis diroedd Owain."

Eto, o'i awdl, "Paul o flaen Agrippa,"

“Derfydd pob aflonydd flŷs:
Yn nôr y Pur ni erys.”

* * * * *

“Iôr yn nerth a'th gadarnha
Ar y môr a'r storm arwa;
Duw yn y berw dônau
A'i ddoniau sydd yn neshau.”

Eto, o'i awdl, “Y Porth Cyfyng,” -

“Ffordd lydan sydd i danau, -yn sw'n trais
Natur wyllt a'i chwantau;
(x046) Ond arall o'r dyfnderau, sy'n Borth hedd
O weddus nodwedd i ddwys eneidiau;
I rai ffôl daw geiriau ffydd
I guro am agorydd.”

Y ffordd lydan, aflan yw, -
Ffordd estron, a phrudd ystryw;
Ffordd angau, a'i deddfau'n dan, - yn ei llaid
Ni allodd enaid ond lladd ei hunan.”

* * * * *

Chwiliaf, ymholaf am hwn
Rhag dinystr ergyd Anwn;
Ddiogelaf, fwynaf fan, - yn Borth hedd
I ddifyr anedd fy Iôr ei hunan.”

“Cura â gweddi cariad, - wrth ddôr hwn,
A'r Porth rydd agoriad
A thrydan ei weithrodiad
Ddaw â stôr y newydd stâd.”

* * * * *

“A mab y dydd ym mhob dawn
Anghofia'i ffordd anghyflawn.”

Fe welir oddiwrth yr uchod y medrai Twynog ganu'n hwylus yn y Caeth-Fesurau. Pa beth yn hapusach na'r llinell “I ddifyr anedd fy Iôr ei human ?” ac na'r ymadrodd “mab y dydd” am y credadyn ? Ceir llawer o ddarnau prydferth ereill yn y tair awdl hyn, yn gymysg â phethau ereill llai eu gwerth. Hwyrach mai fel cyfanwaith, yn bennaf, y syrthiant yn fyrr o gyrraedd y nôd, er eu bod yn awdlau canmoladwy, ar lawer cyfrif. O'r braidd y gellir dywedyd fod Twynog yn gampwr ar Englyn sengl, er y ceir ganddo lawer un hapus ddigon, er engraifft, ei Englyn i'r “Cymro Du,” -

“Mawr yw dawn y Cymro Du, - i daro
Tant Dirwest yng Nghymru;
Llenor llawn yn lloni'r llu,
A gwerin yn ei garu.” (tud. 94)

(x047) Er hynny, mentrwn ddywedyd mai yn y Rhydd-Fesurau y camodd efe ei bethau goreu. Ceir rhyw naturioldeb mawr yn anadlu drwy lawer ohonynt; a bradychant yn aml yr hen ardal y'i ganwyd ac y'i magwyd ynddi. Teimlwn, wrth eu darllen, fel pe baem yn drachtio o awelon y Mynydd Du a Llyn y Fan Fawr a Llyn y Fan Fach, - mewn gair, awelon Llanddeusant, hen ardal Meddygon Myddfai a'u mham ryfeddol o dlos, sef Merch y Llyn! Mae'n amlwg ddarfod i'r hen ardal anwyl honno adael argraff annileadwy ar galon ac ysbryd Twynog; a charai efe sôn gydag afiaith am dani, yn arbennig yn ei flynyddoedd olaf; mor wir y gair hwnnw, onide? –

“Ond dychwel wna'r wennol yn ol i'w hen nyth.”

Gwrandewch ar nodyn y bore, -

“Dihunaf gyda'r boreu rhydd,
Dilynaf gamrau'r sanctaidd ddydd {Troednodyn: Ai “y Sul cyntaf o Awst,” tybed?}

A chrwydraf fel pelydryn gwyn,
Neu freuddwyd felus at y Llyn.

Pan fyddo tês y boreu'n gwau
Ei aur linyau gylch y bau,
Ar lwybr rhwng y dwfr a'r bryn,
Caf weld fy Hun yn nhonnau'r Llyn.”
(tud. 87).

A dyma'r Mynydd Du, yn ei “Ffarwel i Fannau Caerfyrddin,”-

“Ffarwel iti, deyrn y bryniau,
Mynydd fy moreuol oes;
Mynydd gerais pan yn chwareu,
Cyn im' deimlo awel groes;
Ha! mi gredais y pryd hwnnw
Nad oedd mynydd yn y byd
Mor urddasol ac mor loew
Pe y chwiliwn hwy i gyd.”

Yn ei “Ffarwel i Landdeusant,” sonia am y “talion glogwyni” fel ei “hen athrofeydd,” a chair teimlad nodedig o hiraethus drwy'r gerdd hon, - “Ffarwel i Landdeusant, y Bannau, &r Llyn, A llawer traddodiad sy'n aros yn wyn; -

(x048)

Y Llyn fu'n gartrefle i'r 'Ladi Wen' glaer,
A nofiai y tonnau mewn cwrwg o aur.

* * * * *

“Ffarwel i Landdeusant, a'r hen Ysgol Sul,
Lle dysgais gynt ddarllen am Grist a'r Ffordd Gul;
Cynghorion y tadau, mor fyw ag erioed,
Sydd heddyw mewn adgof yn llewyrch i'm troed.”
(tud. 46-7).

A chystal fyddai i ni, yn y fan hon, gyfeirio at ei Riangerdd (neu Fugeilgerdd, - beth i'w galw?) “Ifan Wyn,” gan ei bod yn perthyn i ardal Llynnau. Er nad yw'r gerdd hon yn gwbl-foddfaol parthed iaith a mynegiant, &c., eto, teimlwn ei bod yn adroddiad pur ddyddorol o'r hen ystori am “Ladi Llyn y Fan,” - y mae'r awyrlgylch a'r dinc yn gywir iawn i swyn y rhamant ddiddorol honno, a cheir naws wledig ar bob llinell o honi ymron, -

“Ar lan y llyn diwair eisteddai ryw hwyr,
Pan welodd olygfa a'i denodd yn llwyr, -
Fe welai forwynig yn codi o'r Llyn,
Mor swynol a phrydferth â'r boreu têtg, gwyn
Ei thalcn fel ifor, neu garreg hardd, wen,
Ac euraidd linyddau o wallt ar ei phen
Yn cyrliog droellu'n gudynau di-ail,
Mor ddisglaer a'r perlau dan lewyrch yr haul;
A'i llygaid glas-loew, fel wybren y nos,
A'i gruddiau o liwiau y lili a'r rhos.
Ni welwyd un wryf mor swynol ei gwên,
Rhy bur oedd ei thegwch i fyned yn hen.
Mae'n symud yn ysgafn ar wyneb y Llyn,
Gan daflu saeth cariad i fron Ifan Wyn,” &c.

* * * * *

“Ond y wryf eilwaith gododd ar y Llyn ryw hyfryd nawn
Pan oedd ef yn chwareu cerddi Cymru ar ei delyn rawn;
Gwriddodd ef; a gwenodd hithau. Galwodd ami i ddod i'w gôl;
Hithau gyda gwan ddisgleiriach suddodd yn y Llyn yn ol.”

A chlywch ymbil cariad Ifan y Bugail wrth y brydferth, -

(x049)

“Er nad yw dy wehelyth yn byw mewn halog fyd,
Os magwyd di, y wryf lon, mewn palas aur i gyd, -
Ymostwng; aros yma, ti otifeddes ffawd, -
'Does dim yn burach yng Ngwlad Hud na charisd bugail tlawd.”

Y mae hithau'n ei ateb, yn nes ymlaen, -

“Gadawaf wlad fy nhadau, Gwlad Hud a chartref swyn,
Y wlad a'i cherrig oll yn aur, yn unig er dy fwyn
Tra goddef tynged, byddaf i ti yn ffyddlon wraig,
Mewn stormydd safaf wrth dy ochr yn gadam fel y graig.”

Ac felly yn y blaen. Teimlir ar unwaith fod y llinellau uchod, - ar waethaf ambell febl, - yn taro'r nôd angen. Yr oedd gan ramant Cymru Fu, yn ei Hystraeon a'i Hanes, lawer o afael ar galon ein cyfaill. Ac, yn y cysylltiad hwn, gellir nodi ei fod yn fardd gwladgarol i'r bôn; gwel “Brenhinoedd Cymru” (tud. 24); “Mynyddoedd Cymru” a “Môr o gân yw Cymru gyd” (tud. 64-5); a “Dydd Gwyl Dewi” (tud. 68). Ond Dyn a Natur, a'r cysylltiad rhyngddynt, a hwynt-hwy yng ngoleuni Datguddiad, yn neilltuol, a enillodd ei galon. Darllenner ei gân i “Frenhines y Tylwyth Teg” ceir yn honno engraifft dda o'r cyffyrddiad Celtaidd. Ond fe geir yn y llyfr hwn nifer o ganau sydd yn dangos dwynder dynol, nid bychan. Dyma i chwi bennill sydd yn dangos ei syniad ef am swyddogaeth Y Gwir Fardd,” -

“Ei gân sydd yn syml a chlir,
A hawdd gan y plant yw ei chofio
Mor felus ei hodlau, mor bur,
Gwefusau y byd sy'n ei seinio
Fe'u clywir yn ymyl y tin
Yn torri ar hwyrnos y gaeaf
Ar lethrau'r mynyddau mae'r gân
Yn tanio'r mynyddwyr distadlaf,” &c. (tud. 34).

Eto, ar tud. 63, -

“Beth ydyw cenadwri'r bardd?
Beth iw ei ddyledswyddau?
Ai gwau syniadau yn y niwl,
Neu chwareu gyda geiriau?”

(x050) Hwtia Twynog y synied, a dywed, -

“Mae cerddi y gwerinol fardd
Ar daen yn llosgi'r rhwymau.”

Yr oedd elfen ddynol-werinol gref yn ei farddoniaeth. Gwel tud. 90, - “Dringo Bryniau Bywyd,” a thud. 95, - “Gweithwyr ein Gwlad,”

“Mae rhai yn pasio heibion chwai
Heb wneuthur sylw o dy faich
Cyffyrddiad bychan â dy fraich
A fyddai yn ei ysgafnhau.” (tud. 90).

Ceir yn ei farddomaeth hefyd ystôr o dynerwch, fel y dengys ei gân, “A welsoch chwi fy machgen cu?” (tud. 49) ; hefyd, yn y cyfeiriad at “ei eneth bum'lwydd oed” (a fu farw) yn ei gân; “Unigrwydd Castell Morlais,” ynghydag yn “Cân y Cryd” (tud. 118). A beth am ei gân hapus i “Fyd y Plant” (tud. 121), -

'Rwy'n gweld y plant yn chwerthin -
Fel y bum innau gynt,
A llonder diniweidrwydd pur
Yn ysgafnhau fy hynt;
'Rwy'n cofio'r adeg ddedwydd,
Fel chwithau'n llon ac iach, -
Ac heddyw rho'wn y byd i gyd
Am fod yn blentyn bach.”

Ac wele gyfeiriad tyner arall, yn ei gân i'r “Ehedydd” (tud. 93)

“Nis gallwn i ei weled, (Troednodyn: sef yr ‘Hedydd yn glâs)

Er syllu'n daer i'r nef ;
Ond O! nis gallwn gerdded
Un cam a'i adael ef."

A dyma'r cyferbyniad rhwng bywyd yn y Wlad â bywyd yn y Dref, yn dilyn, -

"Ond buan llais masnachaeth
A glywais yn y dref,
(x051) A chododd llwch trafniadaeth
Yn gwmwl tua'r nef, -
A chollais gân yr hedydd"

Ond fe geir yn y llyfr gryn swm o farddoniaoth a gododd o'i gysylltiadau, ynghyd o'i brofiad yn ei faith gystudd. Engraifft nodedig o'r olaf ydyw ei Bryddest,

- "A fynno gyrhaedd nef wen y goron," &c. Ni chaniata
gofod i ni ddyfynu llawer o'r bryddest dda hon, -

"A gwn am lawer gweddi ysig galon
A anwyd yn y byd rhwng drain a hoelion."

* * * * *

"Duw, cariad yw' pan ddeffry y gogleddwynt,
"Duw, cariad yw' pan chwytha y dwyreinwynt
I wywo'r rhos ar rudd yr eneth dyner,
A thorri einioes brydferth ar ei hanner,
'Run fath a phan fo chwaon y gorllewin
Yn denu blodau'r ddôl i harddu Hefin."

* * * * *

"Cyn hir daw'r dydd caf finnau wisgo'r goron -
A gadael fyth ar ol y drain a'r hoelion."

Y mae'n amheus a ddiodefodd Cristion erioed hirfaith gystudd yn fwy ddirwgnach a siriol na Thwynog. Cawsom fwy o fendith ysbrydol drwy ychydig oriau o'i gwmni ef nag a gawsom drwy hirfaith gydnabyddiaeth â rhai crefyddwyr angladdol a adwaenom! Bendithiwyd ef i gwraig, - ei "anwyl Ellen," - fu yn "angel gwarcheidiol" iddo mewn gwirionedd yn ei gystudd ; ac nid yw wedi ei haughofio, hi na'i blant hawddgar, yn ei lyfr hwn o ganiadau. Darlennwr ei Englynion i'w ferched tirion (tud. 27), a'i gân dyner, - "Ellen" (tud. 25), ac "Wyt ti'n cofio?" (tud. 37-8). Ni a orffennwn a dyfynnu gyda phennill o'i "Gân yr Aderyn" (tud. 92), a gyfansoddodd ar ei wely cystudd ryw fis Rhagfyr, -

"Fel y 'deryn bychan, swynol
Canaf finau dan fy nghroes,
Am hoenusrwydd haf tragwyddol,
Wedi fy nghystuddiol oes;
(x052) Pan yn gorwedd yn fy ngwely,
Methu symud llaw na throed,
Canaf yn fy ngaeaf chwerw
Am yr haf tragwyddol loew, -
Byddaf hoewach nag erioed."

Yr oedd cân mor naturiol iddo ag ydyw i aderyn. Hyhi oedd ei gysur pennaf ; ac afraid dywed ei bod yn wastad yn chwaethus, heb y duedd leiaf ynnddi i lygra neb. A pha ryfedd, pan ystyriom ei bod yn codi o galon ac ysbryd oedd wedi'u trwytho âg ysbryd yr Efengyl, yr ysbryd sydd yn dyrchafu dynoliaeth drwy ei sancteiddio ar ddelw'r Gwaredwr ei Hun. Dyna'r galon, wedi'r cwbl, fedr ganu, ie, dyna'r unig galon sydd a hawl i ganu ; a chanu a wna calon felly yn oes-oesoedd ; ae fe erys y gân a edy hi o'i hol yn y byd, i buro a diddanu y cenedlaethau a ddilynno.

Dilys ddarfod i Gymru godi llawer cryfach awenyddion a threch crefftwyr cân, na'n hanwyl gyfaill, ond nemor rhadlonach canwr erioed. Y mae tinc y dyn da, siriol a diddanus, ym mhob cân o'r eiddo.

Chwith odiaeth, - i ni, ei gyfeillion mwyaf mynwesol yn arbennig, - yw meddwl ei fod wedi cilio o'n mysg. Ond y mae efe a'i gân byth yn gadwedig; ac y mae'r adgof am dano yn berarogl aniflan yn ein calon. A chyda deigrin gloew o hiraeth yn ei lygad y sych yr ysgrifennydd ei ysgrifbin y tro hwn.

(x053)

(6) TWYNOG FEL GWLEIDYDDWR.
GAN Y PARCH.. T. POWELL, CWMDAR.

Mewn ufudd-dod i gais golygydd enwog a pharchus y gyfrol goffa, ymgymerais âg ysgrifennu ychydig ar Dwynog yn y cymeriad enwir uchod. Teimlaf fod byrder tymor fy nghydnabyddiaeth âg ef yn anfantais fawr i mi wneuthur cyfiawnder i'r testun. Ar yr un pryd, ni oddef fy serch at fy hen gyfaill anwyl i mi wrthod gwneud a fedraf i geisio rhoddi i'r darlennydd rhyw syniad am dano fel gwleidyddwr.

O'r braidd y gallasai fod yn Gymro trwyadl a goleuedig heb fod yn wleidyddwr. Y mae crefydd a gwleidyddiaeth yng ngwaed y genedl Gymreig, ac ar y cyfan, cyfyd ei gwleidyddiaeth o'i chrefydd. Hyn, yn ddiaw, sydd yn cyfrif am fod Cymru, oddiar pan gafodd gyfle i fynegu ei hargyhoeddiadau gwleidyddol, wedi datgan mor gyffredinol ac mor gyson a disigl o blaid egwyddorion llydain a dyngarol Rhyddfrydiaeth. Y mae y Cymro yn anhraethol ragorach gwleidyddwr na'r Sais. Cymer ddyddordeb dyfnach mewn materion gwleidyddol, ac ymagnia yn llawer mwy i fynnu cydnabyddiaeth ddeallus i hwy. Clywsom yn gymharol ddiweddar dystiolaeth bendant un o brif aelodau Plaid Llafur ar hyn. Dywedai fod y gwahaniaeth rhwng y gwrandawriad rydd cynhluad o weithwyr Cymru i araeth wleidyddol, a'r hyn geir gan gynhulliad o weithwyr Lloegr, yn anhraethol.

Yr oedd ar y pryd newydd fod yn annerch cynulliaidau o'r dosbarth gweithiol yn y naill wlad a'r llall, yn ystod yr un wythnos, ac yr oedd ei syndod at y gwahaniaeth rhyngddynt yn anhraethadwy. Gwahaniaethent yn (x054) fawr yn nestlusrwydd a pharchusrwydd eu hymddangosiad allanol; ond o ran bywiogrwydd a chraffder eu dealltwriaeth, o brif bynciau y dydd, preswylent ddau fyd gwahanol.

Yr oedd Twynog fel gwleidyddwr yn Gymro gwaed coch cyfan, - yn aiddgar i efrfydu pynciau mawr y dydd; yn meddu argyhoeddiadau dyfnion o berthynas iddynt, wreiddient yn egwyddonon crefydd a moes; yn wresog yn ei sel dros y cyfryw, ac yn ddiordffwys yn ei ymdrech i'w cael i weithrediad a gorachafiaeth.

Nis gall neb adwaenai Twynog yn ei flynyddoedd olaf lai nag edmygu ei ymdrech arwrol, hunan-aberthol, i efrfydu prif faterion y dydd. Ceisia ei ddychmygu, ddarlennydd, ben bore ar ei wely, yn gorwedd yn gwbl analluog dan effeithiau dirdynol y gymalwst i symud llaw na throed, ie, mor hollol ddiymadferth o ran ei gorff, nes oedd yn rhaid i'w briod ffyddlon a hoff ei wisgo fel plentyn, a'i droi allan o'i wely i'w glaf gadair, a'i gludo ar honno i'w fyfyrgeall, ac yntau yn gwbl gyfyngedig iddi ar hyd y dydd, nes y cludid ef arni drachefn, pan ddeuai'r hwyr, yn ol i'w wely. Dyna fu tynged Twynog druan, o ddydd i ddydd, am flynyddoedd meithion, oddieithr yr ychydig doriad gaffai ar yr unfurflaeth poenus yn nhymor yr haf, trwy fod y gadair, pan ganiatai'r hin, yn cael ei gyrra am ysbaid i'r llecyn glâs gerllaw'r tŷ yn lle i'r fyfyrgeall.

Yn y cyflwr hwnnw, ac yn dioddef yn aml gan boen a gwendid llygaid, yn ychwanegol at y dirdyniadau yn ei gorff, darlennai yn aiddgar a diordffwys.

Pan gychwynodd Chamberlain ei ymgyrch ddiffyndollol yn 1903, yr oedd mor awchus a neb i gymeryd rhan o'r baich a'r ymdrech i'w wrthwynebu. Llafuriodd yn galed i feistrolï y pwnc eang a dyrus hwnnw, ac er fod ei law yn fwy na hanner gwywedig, mynnodd roddi i weithwyr y wlad ffrwyth ei efrfydiaeth mewn cyfres o ysgrifau galluog yn y "Darian." Ar gychwyniad y gyfres honno, ceir ganddo y dystiolaeth syml a ganlyn, - "Yr wyf wed! darllen gryn dipyn ar lenyddiaeth y (x055) mater y dyddiau diweddaif hyn, megis erthyglau galluog, y *Quarterly Review*, *Edinburgh Review*, *World Work*, a llyfr Augustus Mongredien, &c."

Y mae rhywbeth arddunol yn yr ymdrech yms, ddygid ymlaen yn ddiror dan ddirwasgiad cystudd corfforol poenus a beunyddiol.

Yr oedd ei argyhoeddiadau ar wahanol bynciau a symudiadau gwleidyddol yn ddwfn ac yn angerddol iawn.

Yr oedd eu dyfnder a'u angerddolder i'w briodoli i'w bod yn gwreiddio mewn egwyddorion moesol tragwyddol. Teimlai yn ddwys, ac ysgrifennodd yn gryf yn erbyn rhyfel Deheudir Affrica. Yr oedd ef yn y De, a'r hybarch Eleazar Roberts yn y Gogledd, yn gwrthwynebu y rhyfel hwnnw â'u holl enaid, a hynny dan gymhelliad a symbyliad yr un egwyddorion. Ymysg y pennaf o'r rhai hynny, yr oedd cysegredigrwydd Heddwch rhwng eenedl a chenedl, a'r pwysigrwydd tragwyddol fod cyflawnder yn llywodraethu ymddygiad y naill at y llall. Heb gyfiawnder, bid sicr, amhosibl i heddwch deyrnasu, ac o anghyfiawnder a thrais y tarddodd y rhyfel hwnnw, fel pob rhyfel arall. Ceir tystiolaeth i'w gysylltiad maith â'r symudiad pwysig o blaid Heddwch yn niwedd ei lythyrau ar y rhyfel, - "Nid wyf yn cyfeirio y llythyr hwn at neb yn bersonol, ond fel un sydd wedi treulio tymor goreu fy oes yn aelod

o Gymdeithas Heddwch, ac wedi yfed o ysbryd y diweddar Henry Richards, A.S., tra yn dal cymundeb âg ef lawer gwaith.”

Gesydd ei brif wrthwynebiadau i'r rhyfel allan yn y crynhodeb a ganlyn, - “Tra yn gofidio uwchben ein colledion trymion, nis gallwn lai nag anghymeradwyo y rhyfel anfoesol hwn, - rhyfel ag y gallesid ei osgoi gydag ychydig mwy o ddoethineb, - rhyfel nad oedd ei angen, - rhyfel na ddwg elw cyfartal i'r bywydau gollir, - rhyfel edy elyniaeth rhwng cenhedloedd i'u gilydd yn Neheubarth Affrica am oes yn ysmotyng du ar gymeriad Prydain gerbron y byd.”

Yr oedd y gochl o grefydd daflwyd dros y rhyfel yn tanio ei enaid â digofaint cyfiawn. Ffieiddiai y fath (x056) ffûg, ac ar brydiau galwai hynny allan y watwareg ffiniog oedd ganddo at ei wasanaeth, os y buasai achlysur i'w defnyddio, fel y dengys y dyfyniad a ganlyn, - “Fel y dywedodd Mr. Stead, y mae y rhyfel presennol yn y Transvaal yn ein hadgofio o ddameg y 'Blaidd a'r Oen' yn 'Chwedl Aesop.' Y mae holl amgylchiadau y rhyfel hwn wedi cael eu disgrifio yn eithaf teg yn y chwedl honno. Y mae yn wir nad yw yr hen chwedlonydd wedi disgrifio y manylion; nid yw wedi dweud fod y blaidd wedi dweud ei bader cyn llarpio yr oen, ac wedi diolch am ei bryd, fel y mae John Bull wedi gwneud. Y rhan gyntaf yw y weddi newydd sydd wedi ei hychwanegu at wasanaeth yr Eglwys pwy ddydd; ac fe fydd yn sicr o roddi y diolch i mewn wedi gorffen ei bryd yn y Transvaal. Y mae John Bull wedi ofni yn ddiweddar y bydd i'r byd ei gymeryd y'n lle dafad. Ond ni raid iddo ofni hynny, oblegid y mae y byd, oddiar yr hen amser, wedi ei adnabod fel blaidd, a'i ddannedd o hyd yn llymion, a'i enau o hyd heb ei ddigoni, a'i safn yn agored o hyd i larpio rhyw ddarn newydd o'r belen ddaearol, a hynny o'r bedwerydd ganrif, pan y cafodd y fath flas ar y *Welsh Mutton*.”

Dengys brawddeg olaf y dyfyniad uchod fod ei wrthwynebrwydd i'r rhyfel yn codi hefyd i fesur o'i wladgarwch.

Fel Cymro, cofiai am yr ormes a'r gamdriniaeth greulon gawsai ei genedl ei hun oddiar law y genedl oedd ar y pryd yn mathr'u y Boeriaid dan draed. Daw ei ysbryd gwladgarol i'r golwg yn y frawddeg a ganlyn hefyd, - “Mae Kruger a Joubert heddyw rhwng bryniau Deheudir Affrica yn gwneud yr un gwaith yn union a Llewelyn a Glyndwr rhwng bryniau Cymru ychydig o ganrifoedd yn ol.”

Ystyriai fod ei wrthwynebiad i'r rhyfel fel Cymro gwladgarol yn hollol gyson â'i safle fel Prydeiniwr teyrngarol, fel y dengys ei eiriau ef ei hun, - “Mae yn bosibl i Gymro fod yn deyrngarol i goron Lloegr heb (x057) gymeradwyo ysbeilio cenhedloedd bychain Cristionogol o'u hanibyniaeth er mwyn eu haur; ond nis gall Cymro fod yn Gymro teilwng o'r enw tra yn pardduo y Boeriaid âg anwireddau noeth, a'u gwawdio mor ddirmygus am ddarllen y Beibl a chanu Salmau.”

Gwelir yn y dyfyniadau hyn i gyd, ac ereill ellid ychwanegu atynt, brofion diymwad fod ei wrthwynebiad i'r rhyfel yn codi yn bennaf nid o ystyriaethau tymhorol, ond o egwyddorion moesol tragwyddol eu pwys. Gwelai hefyd i llygad clir mai yr un ysbryd ag a esgorasai ar y rhyfel dorrai allan mewn difrod a galanas ar sefydliadau ac achosion cysegredicaf ein gwlad ni ein hunain. Rhydd fynegiad i hynny yn ei ddull dihafal ei hun, - “Nid yn unig llwyddodd y Jingoaid i godi ysbryd llofruddiaeth yn y wlad i lofruddio y ddwy Weriniaeth fechan yn Ne Affrica, eithr, o'r un nerth, gartref llofruddia y Bwrdd Ysgol, addysg rydd, ac egwyddorion cysegredig, Anghydfurfiaeth ein gwlad, a chyhoedda .rhyfel yn erbyn y dorth råd.”

Arweinia cymmal olaf y dyfyniad uchod ni at ei firwydr i Diffyndolliaeth Chamberlain a Balfour.

Yr oedd yr ymgyrch hwn nid yn unig yn dwyn ei swnwyr moesol dwfn i weithrediad, ond hefyd yn rhoddi cyfle i'w synwyr cyffredin cryf, ac i'r arbedd nwyfus, chwareus, wnai ei ddynoliaeth eang yn un mor ddyddorol i ddyfod i ymarferiad eglur. Nid yn aml y gellid cael y fath doraeth o synwyr cyffredin, yn cael ei ogoneddu gan ddyngarwch a chrefydd, ag a geir yn y dyfyniad nesaf. Ei bwynt yw fod amrywiaeth hinsawdd, ansawdd daear, a nodwedd trigolion y gwahanol wledydd yn eu cymhwyso i gynyrchu gwahanol nwyddau, a bod Masnach Rydd yn rhoddi y cyfle mwyaf manteisiol i gydgyfnewid y cyfryw, er budd a chysur yr oll. “Nid yw y greadigaeth yma wedi ei chreu yn y modd ag y gall pob gwlad fyw ar ei phen ei hun, mwy na phob talaeth ar ei phen ei hun. Mae gwahaniaeth mawr rhwng adnoddau ac ansawdd gynyrchiol y gwahanol wledydd. (x058) Nid yw Creawdwr y byd wedi bwriadu i'r un wlad i gynyrchu popeth sydd eisieu ar ddyn. Nid oes glo ym mhob gwlad, ac nis gall pob gwlad gyflenwi ei thrigolion ag ŷd, llin, a gwlan. Felly, rhaid fod y Crewr wedi bwriadu i'r gwledydd gyfnewid â'u gilydd; ac, wrth gwrs, gwneud hynny yn y modd rhwyddaf ag y gall y bobl eu meddiannu, - y tlawd yn gystal a'r cyfoethog. Masnach Rydd yw y ffordd honno, medd athroniaeth a synwyr cyffredin.

“Mae Masnach Rydd yn hyn yn rhoddi mantais fawr i ddynion i fyw yn gysurus o dan wahanol ac amrywiol hinsoddau ar wyneb y blaned ddaearol. Felly hefyd y dosrennir llafur, ac wrth hynny yr ychwanegir ac y perffeithir diwydiannau yr hil ddynol; ac wrth hyn y mae Masnach Rydd yn offeryn a gallu i gynyrchu pob math o nwyddau goreu, llesol, a dymunol at wasanaeth dyn.”

Gwelir ei fod hefyd yn niwedd y dyfyniad uchod yn cyfeirio at y fantais ddyry Masnach Rydd i ddosraimu llafur, a pherffeithio medr dyn yng nghynrychiad gwahanol nwyddau. Pa fodd y galleid gosod y ddatl honno mewn ffurf mor gartrefol a difyrrol, ac eto mor drwyadl argyhoeddiadol ag a wneir yn y dyfyniad nesaf? - "Yn y rhannau gwledig, y mae y siopwr yn gwerthu popeth, yr un saer yn wneuthurwr tai, celfi, certi, coffinau, &c., a'r gôf yn y plwyf y cefais i fy magu oedd yn gwneud gwaith yr efail, glanhau clociau, a thynnu dannedd. Yn y rhannau poblog, dosrennir llafur mewn masanach a chelf, - caiff pob un ei waith neilltuol ei hun, a thrwy ymarferiad cyson, y mae yn dyfod i wneud y gwaith hwnnw yn gyflymach a pherffeithiach.

"Felly gyda gwahanol wledydd, mae y bobl a'r hinsawdd yn cyfateb rhai diwydiannau yn well na'u gilydd. Os ca y gwledydd Fasnach Rydd, gallant fanteisio ar ddosraniad llafur, a chyfnewid nwyddau rhatach a pherffeithiach i'u gilydd nag a allant wneud neu gynyrchu eu hunain."

(x059)

Dengys Twynog ei hun yn feistr ar y math o ddatl ddynoetha wrthuni egwyddor gau trwy ei dilyn i'w chanlyniadau eithaf.

Yn un o'i lythyrau, dadleua os yw yn iawn a doeth i amddiffyn diwydiannau un wlad trwy gau allan o honi ddiwydiannau gwledydd ereill, y gellir cymhwyso yr un egwyddor at wahanol rannau yr un wlad. Ar ol dangos yr hyn fyddai canlyniadau yr egwyddor pe gosodid hi mewn gweithrediad rhwng Cymru â Lloegr, â rhag ei flaen fel hyn, - "Os byddai hynny yn fantais i Gymru, ar yr un tir dylem amddiffyn diwydiannau ein sir ni yma (Mynwy) yn erbyn cystadleuaeth siroedd gwledig Cymru, - cadw cig moch sir Aberteifi, a menyir sir Gaerfyrddin, allan o'n marchnadoedd, fel i'n gorfodi i beidio bwyta dim ond yr hyn gynyrchir yn ein sir ni. Pe byddai i ni barhau i gario ymlaen gynllun mor afresymol, gwelem yn eglur ein bod wedi mynd yn ol i gyfnod cyntaf bore byd, pan oedd pob teulu yn byw ar ei gynyrch ei hun, heb adgludiad nae allgludiad, - *no import or export.*" Y mae digon o'i ysgrifeniadau wedi eu dyfynu erbyn hyn i ddangos gwybodaeth galluoedd gwleidyddol Twynog, a'r llafur gymerid ganddo i gyfleu i'w gydwladwyr y wybodaeth gasglai mewn cymaint gyfleu mewn cymaint cystudd a phoen.

Yr oedd y trylwyredd sydd yn codi o ysbrydoliaeth egwyddor, ac o ffyddlondeb iddi, nodweddu ei holl olygiadau gwleidyddol. Fel un gredai â'i holl enaid mewn purdeb a rhyddid crefyddol, pleidiai yn aiddgar a selog Ddatgysylltiad a Dadwaddoliad Eglwys Loegr Yng Nghymru. Ac yr oedd ei ffyddlondeb trwyadl i'r egwyddor uchod, yn wyneb fod ysgolion lleygol y wlad bellach yn llaw y llywodraeth, yn ei wneud yn wrthwynebydd cryf i addysg grefyddol fod yn rhan orfodol o'u gwaith. Yn ei sêl danbaid dros Ddirwest, pleidiai yn aiddgar bod deddf dueddai i gynorthwyo lledaeniad yr egwyddor, ac i gwtoegi ar y fasnach feddwol. Pleidiai yn galonnog hefyd bob math o ddeddfwriaeth i wella sefyllfa gymdeithasol y werin, ac i'w galluogi (x060) i fyw bywyd teilwng o rai wedi eu creu ar ddelw Duw. Gallaf yn hawdd ddychmygu y llawenydd fuasai yn chwyddo ei fynwes, pe yn fyw yn awr i weld ail Ysgub gyfoethog cynhaeaf cyllideb orchestol ein cydwladwr bydenwog wedi ei dwyn i ddiddosrwydd, a chynifer o filiynau o weithwyr ein gwlad i gael eu hyswirio ar gyfer afiechyd, a chanlyniadau truenus diffyg gwaith.

Yr oedd ei frwdfrydedd gwleidyddol yn eithriadol angerddol. Cofiaf yn dda fy mod yn gweinigogaethu ym Mrynhyfryd ar y Sul dilynol i'r Sadwm nodedig hwnnw, Ionawr 13eg, 1906, pryd y cafodd Rhyddfrydiaeth ei buddugoliaeth arweiniol hir-gofriadwy ym Manchester.

Yn ystod y dydd, nid oedd gennyf unrhyw wybodaeth am ganlyniadau etholiad y dydd o'r blaen, ac ni fynwn holi dim ar neb yn eu cylch, eithr osgown yn ofalus bob cyfeiriad atynt, nes oedd gwaith y dydd drosodd. Pan ddaeth hynny i ben, aethum i fyny at Twynog. Gwyddwn y buasai yn rhy beryglus o lawer ar adeg fel honno i ymweld âg ef yn gynt. Pan gyrhaeddais yno, yr oedd holl ganlyniadau brwydr byd cynhyrfus y diwmod cynt yn ei feddiant, ac er fod ei hen gydymaith, y gymalwst, yn ei gadw wrth y gadair mor dynn ag erioed, eto, yr oedd mor llawn o fywyd a nwyf nes oedd ef a'r hen gadair yn llamu oddiar y ddaear. Ni welais erioed y fath rym o frwdaniaeth a thanbeidrwydd ysbryd yn ymweithio mewn corff mor ddirdynedig ag a welais y noson honno. Yr oedd ynddo ddigon o ager i gadw dwsin o wleidyddwyr cyffredin i fynd yn gysurus.

Effaith fy nyfodiad i gyffyrddiad â'i ysbryd byw, trydanol, y nos honno ydoedd i mi fethu cael cwsg hyd lawn bump o'r gloch bore drannoeth.

Nid oedd brwdaniaeth gwleidyddol Twynog yn cael rhedeg allan yn ofer. Fel y dangoswyd eisoes, yn ystod blynyddoedd ei gystudd, ysgrifennai yn ddibaid. (x061) Yn flaenorol i hynny, bu o wasanaeth mawr i Ryddfrydiaeth o fewn cylch sir Fynwy. Yr oedd yn aleod gweithgar ar o'r gymdeithas sirol. Bu yn llywydd y gangen leol o'r gymdeithas honno yn Rhymni, ac ar un adeg, efe lywyddai holl gyfarfodydd cyhoeddus lleol yr aelod seneddol, Mr. Warmington, K.C., ac anodd fuasai cael llywydd mor doniol ac effeithiol ag efe.

Hyderaf fod y darlennydd bellach wedi cael rhyw syniad gwan am Dwynog fel gwleidyddwr, ac y bydd i'r desgrifiad amherffaith hwn o hono ennyn yn llawer o ieuencid Cymru awydd i'w efelychu yn ei ffyddlondeb diball i'w egwyddorion, yn ei sel danbaid drostynt, ac yn ei weithgarwch dibaid ar eu rhan.

(x062)

(7) TWYNOG FEL CYFAILL A CHYMYDOG

GAN Y PARCH. R. E. PEREGRINE, B.D., RHYMNI.

Teimlwn hi yn bleser i gael dweud ychydig am ein diweddar gyfaill hoff, Twynog, fel cymydog. Cefais yr hyfrydwch o ddal perthynas felly âg ef am dros chwarter canrif; ac y mae hynny yn gyfnod digonol i adnabod, i fesur helaeth, gymeriad mor agored a thryloew ag oedd ef. Nid oedd plygion o gwbl ynddo, ond cariai ei galon yn agored gerbron dynion, a pharhaodd felly ar hyd y blynyddoedd i ddwyn nodweddion swynol plentyn, heb fod cysgod plentynrwydd yn agos iddo.

Y mae ei hanes fel cymeriad lleol yn Rhymni yn nodedig o swynol ac anrhydeddus. Yr oedd yn hollol ddirodres, a diwenwyn, a charedig. Ni themlais un amser yn fy hanes fod cymdogion da felly mor werthfawr, ac yn rhan mor bwysig o fwynhad bywyd dyn, hyd nes i mi gollu nifer fechan ohonynt yn agos i'w gilydd. Yr oeddynt yn wahanol iawn eu nodweddion mewn llawer ystyr; ond yr oedd pob un ohonynt yn meddu ar elfennau oedd yn eu gwneud yn gymdogion tra gwerthfawr, a'r cylch yn fwy dymunol i fyw ynddo.

Y diweddaf ohonynt i "fynd ymhell,"- yn rhy bell i glywed ei lais may yma, a derbyn bendfth ei gymdeithas ddyddorol ac addysgiadol, - oedd Twynog. Yr oedd yn gymeriad cryf, ac yn meddu ar bersonoliaeth gyfoethog iawn. Yr oedd yn gyfoethog ei feddwl, a'i wybodaeth gyffredinol, ac yn gyfoethog iawn mewn sirioldeb ysbryd a thymmer dda. Y mae yn rhaid credu fod yna rai yn dod i'r byd yma yn gyfoethocach eu (x063) naturoedd nag ereill. Y maent yn wreiddiol yn meddu ar fwy o ddawn i feddwl, a chara a chrefydd, ac i ddyddori a sirioli eu cymdogion na'r cyffredin o honom. Cyfrifer am hynny fel y mynner, y mae natur wedi bod yn fwy hael i rai nag i ereir, fel y mae eu bywydau yn meddu ar fwy o werth posibl i gymdeithas.

Bendithiwyd ein cyfair Twynog fi, natur gyfoethog felly, a chyfoethogodd hi â phethau rhagorol, trwy fyw drwy'r blynyddoedd ym myd llên a barddoniaeth a chrefydd Gymreig, fel y daeth o werth dirfawr iddo ef ei hun ac hefyd i gymdeithas. Cyfranodd lawer o'i gyfoeth i ereill. Gwnaeth lawer o hynny yn yr ardal hon, yn enwedig i ddynion oedd yn meddu ar cymhwysder i dderbyn a gwerthfawrogi y cyfoeth oedd ganddo i'w gyfrannu. Byddai llawer o rai felly yn tynnu ato, ac yr oedd yntau yn hoff iawn o'u cymdeithas. Bu yn ddiau yn foddion i osod llawer o bobl ieuanc y lle hwn ar ben y ffordd i fwynhau bywyd llenyddol. Yr oedd yn athraw caredig a pharod i rai felly ar hyd y blynyddoedd. Gwledd i'w galon oedd cael cwmni, yn enwedig eiddo dynion o gyffelyb anianawd a thueddfryd ag ef ei hun. Ar ddyddiau tesog yn yr haf, pan fyddo yn ymheulo yn ei gadair yn ymyl drws ei dŷ, yr hyn a wnai yn aml ar ddyddiau o'r fath, byddai nifer o gyffeillion bron yn ddiethriad yn gylch o'i gwmpas, ac yntau yn eu dyddori gysa hwyl a gwên. Ac ni allasai neb felly lai na theimlo fod ei gymdeithas yn werth ceisio am dani yn aml.

Ni chafodd un cartref arall erioed yn Rhymni yn agos gynfnifer o ymwelwyr llengar a "Phreswylfa" Twynog. Arferai cantorion a beirdd, ac erell o bobl ddarllengar yr ardal, grynhoi i'w dŷ yn achlysurol fel rhyw fath o glwb llenyddol, a byddai pob un ohonynt, fel rheol, yn cymeryd rhan mewn cân neu englyn, stori neu araeth, ac yntau yn cyfrannu mwy na neb i wneud y cynulliad yn werthfawr a dyddorol. Yr oedd ei wybodaeth eang ain Gymru, a'i chymeriadau cyhoeddus, a'i ddawn parod a'i barabl deniadol, yn ei wneud yn gwmiwr (x064) heb ei fath yn y cylch. Ni fyddai un llenor Cymreig adnabyddus, fyddai yn dod ar ymweliad â Rhymni, heb droi i fewn pe yn gyfleus, i gael ymgom gydag ef.

Byddwn weithiau yn mynd ag ymwelwyr pregethwrol, ddeuai i'n gwasanaethu yn ein gwyl bregethu flynyddol a gynhelir ar Sul a'r Llun y Pasg, i'w weld, yn enwedig y beirdd a ddeuai i'n gwasanaethu. Yr oedd ei enw yn adnabyddus iddynt oll, ond pur ychydig ohonynt wyddai ei fod yn rhwym drwy'r blynyddoedd gan gystudd, ac yn gymeriad mor gyfoethog a dengar, ac yn fath gwmiwr. Fel bardd a gohebydd galluog a llithrig Y Darian yr adnabyddid ef yn bennaf ganddynt hwy. Yr oedd ei weld a'i glywed ef ei hun yn gryn dipyn o ddatguddiad iddynt. Cawsai pawb felly y croesaw mwyaf llawen ganddo, ac yr oedd yn amlwg ei fod yn mwynhau yn wirioneddol ymweliadau o'r fath. Ac yr oedd ei briod hoff a deallgar yn eu croesawu gyda'r un parodrwydd a serchogrwydd, nid yn unig yn rhinwedd ei charedigrwydd a'i sirioldeb naturiol ei hun, ond hefyd ar gyfrif fod ymweliadau cyfeillion felly yn ffynhonnell cymaint o fwynhad i'w chymar cystuddiedig.

Fel y crybwyllwyd eisoes, caethiwyd ef i'w dŷ gan *rheumatism* am lawer o flynyddoedd, ond fel y byddid yn ei ddwyn allan yn ei gerbyd olwynog ar ddyddiau heulog. Priodol iawn y desgrifiwyd ef yn yr englyn canlynol gan y Parch. J. J. Williams, Pentre, yr hwn fu yn gymydog iddo yma am rai blynyddau, -

“Awdwr mewn dirdyniadau, - llenor llawn,
A'r 'lleng' yn ei heglau;
Gwron a'i gur yn ei gau,
Gamaliel dan gymylau.”

Yr oedd olion amlwg poenau dirfawr amo, ond dioddefodd y cwbl yn y fath fodd nes ennill edmygedd yr holl gymdogaeth fel dioddefydd tawel a dirwgnach. Yr oedd rhywbeth yn wronol yn ei ddioddefgarwch.

Ni ddarfû i mi erioed ei gyfarfod mewn cyflwr meddwl oedd yn ymylu ar fod yn bruddglwyfus a grwgnachlyd. (x065) Synnwn ni ddim nad oedd un o'i dymmer fywiog ef yn cael tymhorau felly. Y mae tymherau brwd fel yr eiddo ef yn bur agored i eithafon prudd-der a llawenydd, ond ni ddigwyddais ei gael un amser mewn cyflwr pruddaidd, ond bob amser yn hynaws, a siriol, a pharod ei sylwadau ffraeth a diwenwyn. Teimlwn yn bur sicr na welodd Rhymni erioed engraifft mwy nodedig o brydferth o un “Dioddefgar mewn cystudd,” a mwy cyson ei sirioldeb a'i foddlonrwydd a'i ymostyngiad i'w gyflwr. Ac ni ellir cyfrif am hynny trwy feddiant o dymmer oedd yn naturiol lawen ac iach, heb alw i'r cyfrif hefyd ei fod yn ddyn oedd yn meddu ar fesur helaeth o ffydd, gobraith, a chariad, ac elfennau ereill sydd yn gwneud cymeriad crefyddol cryf. Nid oedd amheuaeth am ei dduwioldeb. Ond yr oedd honno yn un naturiol a deniadol. Nid oedd dim ynddi yn ymylu ar fod yn hirwynebog, ac yn ei gaethiwo yn hollol i'r byd a ddaw. Teimlai mai yma yr oedd yn byw, a gwnaeth ei oreu tra yma i wneud y byd hwn yn well, ac yn fwy tebyg i hwnnw. Yr oedd yn amlwg er hynny i'w gyfeillion crefyddol ei fod yn tynnu ei nerth cynhaliol, i ddiodeff a llafurio, o'r adnoddau hynny sydd yn gorwedd

“Rhwng bryniau clyd byd sydd bell.”

Er holl anfanteision blynyddoedd o gystudd, bu o wasanaeth mawr i'r ardal hon. Cafodd hi ynddo gefnogydd a noddwr brwdfrydig a pharod i bob mudiad lleol oedd a'i duedd i wella'r cylch. Ac nid dylanwad bychan oedd ganddo o'i ystafell ar symudiadau felly. Yr oedd yn ymneilltuwr ac yn Rhyddfrydwr, ac yn genedlgarwr ac iaithgarwr o'i goryn i'w sawdl, a phob amser y byddai galwad am hynny, dadleuai eu hawliau gyda gwres a medr llenor galluog.

Bu o wasanaeth amhrisiadwy i Eisteddfod Flynyddol Gwent, a gynhelir yn Rhymni, ac sydd erbyn hyn wedi dod yn sefydliad mor bwysig ac adnabyddus. Yr oedd yn un o'i chyfeillion a'i noddwyr mwyaf (x066) effeithiol a brwdfrydig. Ac y mae llawer iawn o'i llwyddiant a'i safle bresennol ymhlith Eisteddfodau adnabyddus y wlad yn ddyledus iddo ef. Bu am flynyddoedd, os nid o'i chychwyniad, yn gadeirydd pwyllgor yr adran lenyddol perthynol iddi. Ac yn ei dŷ ef y cyfarfyddai y pwyllgor hwnnw yn rheolaidd i drefnu yr adran honno o'r rhaglen. Tra y newidid yn flynyddol gan mwyaf o'r swyddogion ereill, yr oedd ef yn *fixture* fel cadeirydd pwyllgor llynyddol. Ac nid oedd neb yn Rhymni yn gymhwysach i'r safle honno na

Daeth drwy ei serchogrwydd a'i gymeriad a'i wasanaeth yn un a hoffid yn fawr a chyffredinol gan bob dosbarth yn yr ardal, fel yr oedd yr hyn ddywedodd ef am un arall yn wirionedd cywir am dano ei hun, -

“Llenor llawn yn lloni'r llu,
A gwerin yn ei garu.”

Tua dwy flynedd cyn ei farwolaeth, dangosodd yr ardal a chyfeillion o'r tu allan, eu serch tuag ato, a'u gwerthfawrogiad o'i wasanaeth amrywiol, trwy gyflwyno tysteb iddo, yn cynnwys Anerchiad hardd a *Fountain Pen*, a *Cheque* gwerth amryw ugeiniau o bunnoedd.

Llawenydd mawr i'w gyfeillion, ar noson cyflwyniad y dysteb, oedd ei fod ef ei hun mewn ffordd i allu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Cafwyd hwyl dda ar siarad gan ddoniau lleol, a darllen anerchiadau barddonol, rhai ohonynt wedi eu gyrru gan rai o brif feirdd Cymru, a'r oll yn dwyn y dystiolaeth oreu i Dwynog fel bardd a llenor galluog, ac fel cymeriad rhagorol a swynol. Y peth cyntaf a ddywedodd, oddiar ei gadair, pan alwyd arno i siarad, oedd y sylw ffraeth, nad oedd yn synnu dim eu bod yn siarad mor dda am fod ganddynt destyn da. A phe buasai ganddo yntau destyn cystal, y medrai ef hefyd siarad yn dda. Wedi siarad yn nodedig o dyner am ychydig o amser, diwedodd gyda dweud pe (x067) cawsai redeg ei yrfa eto, y byddai yn siwr o wneud dau beth yr oedd wedi bod yn euog ohonynt, sef priodi yr un ddynes, a dod i fyw i Rymni. Nid oeddynt yn synnu at hynny, oblegid ni chafodd neb ym Mhrydain Fawr well cymar bywyd; ac nid ydym yn meddwl y cawsai yn unman gyfeillion a'i carai ac a'i parchai yn fwy na phobl Rhymni.

Gyda thristwch gwirioneddol y deallodd yr ardalwyr fod Twynog wedi eu gadael yn ymyl Dydd Gwyl Dewi (1911), - dydd yr arferai nifer o lenorion y lle ddod ynghyd yn yr hwyr i'w ystafell i gael noson

lenyddol lawen. Cafodd angladd oedd yn dystiolaeth gref ei fod yn adnabyddus a pharchus ymhell yn ogystal ag agos. Yr oedd yn agos bob sir yn Neheudir Cymru yn cael ei chynrychioli yn ei gynhebrwng gan ddynion o safle a pharch. Yr oedd swm hiraeth ar ei ol yn ei angladd. Ond nid oedd yr hiraeth yn fwy yn unman y tu allan i'w deulu nag ymhlith ei gymdogion.

(x068)

(8) EI GYSTUDD A'I FARWOLAETH.

GAN MR. D. D. W. DAVIES.

Adnabyddid Twynog gan laweroedd yn y wlad fel Bardd, Llenor, a Gohebydd. Er heb ei weld erioed, eto teimlent eu bod, trwy gyfriniaeth ei ddoniau, yn meddu adnabyddiaeth hollol o hono, yng nghynrychion ei awen a'i ysgrifau. Yr oeddynt mor gyfarwydd âg ef a phe bai yn byw y drws nesaf iddynt. Yr oedd hoenusrwydd ei ysbryd, a'i arabedd chwareus, yn treiddio drwy yr oll a ysgrifennai, nes y swynid y rhai a ddarllenent ei gynrychion, i agosrwydd cyfeillgar a diollwng âg ef; a phan y sychodd ei ysgrifell, diau i lawer deimlo gwagder ar ei ol; a phery hiraeth mewn adgof am dano. Ond ychydig, mewn cymhariaeth, yn ddiau, a wybu mai gŵr cystuddiedig a fu efe am flynyddoedd lawer, - yn enwedig am y rhan honno o'i oeis wedi iddo ddod yn adnabyddus drwy y Wasg a'r Eisteddfod. Er pan ddaeth i Rymni yn y flwyddyn 1875, blinid ef gan y gymalwst, i raddau mwy neu lai, fel effaith twymyn a gafodd flwyddyn yn gynt tra yn byw ym Merthyr. Bryd hwnnw, er wedi ei gloffi, medrai gerdded o gwmpas y gymdogaeth gyda chryn hoenusrwydd, eto nid heb anhawsder, ac ar brydiau lawer o boen. Yn y blynyddoedd cyntaf, gwnaeth lawer ymgais am wellhad; a threuliodd arian lawer ar feddygon, ond heb nemawr leshad. Bu unwaith, ac fel y cynnyg olaf, yn Llundain, yn ymgynghori â'r enwog Syr Morel Mackenzie; ond wedi y draul a'r drafferth, dychwelodd yn ddiobaith am wellhad. Dywedodd y meddyg wrtho, os oedd ganddo arian, am iddo beidio eu gwario ar feddygon, gan ei fod yn dioddef (x069) oddiwrth y math gwaethaf a mwyaf anfeddyginiaethol o *Rheumatism*. A'r unig gyngor a gafodd ganddo ydoedd iddo fynd i ffynhonnau poethion Caerbaddon; y gallai, drwy hynny, gael llawer o esmwythad, gan fod rhyw rinwedd ynddynt i liniaru poenau.

Bu yn ffyddlon i'r cyngor hwn. Canys bu yn ymweld â Bath bob blwyddyn am yn agos i ugain mlynedd. Weithiau, âi yno yn y gaeaf, a threuliai rai misoedd cyn dychwelyd.

Profodd yr ymweliadau hyn i raddau helaeth wirionedd cyngor y meddyg. Dychwelai yn aml yn ol, wedi colli y boen; a byddai am dymor yn rhydd oddiwrtho nes y deuai yn adeg i fynd eilwaith.

Cofia llawer iddo fod yn *Commercial Traveller* am tua phum mlynedd, ac iddo deithio llawer drwy dde a gogledd Cymru ar ei hyntoedd masnachol, a chyn rhoddi i fyny yr alwedigaeth honno, yr oedd yn rhaid iddo wrth faglau.

Pan ddychwelai o rai o'r teithiau hynny, byddai ganddo lawer o ystoriau difyr i'w hadrodd am a welodd ac a glywodd; a pha le bynnag yr âi, os byddai bardd yn y gymdogaeth, byddai yn rhaid iddo gael ei weld, a chael ymgom ig ef, os yn bosibl. Yn ystod y teithiau hynny, casglodd lawer o fanylion am feirdd a llenorion ei ddydd, ac ni thawai am y croesaw a'r caredigrwydd a dderbynai oddiar law pobl yr ardaloedd yr ymwelai â hwynt.

Ymgymerodd â'r alwedigaeth honno ar y cyntaf yn y gobai y buasai bod yn yr awyr agored yn hytrach na chyfyngu ei hun yn ormodol, yn dwyn cyfnewidiad er gwell, ond ar ol rhoddi prawf teg ar hynny, cafodd fod yr ymgais hon eto o'i eiddo am adferiad yn troi allan yn fethiant; a gwaeth na hynny, yr oedd wedi deall ei fod yn mynd yn waeth, tra yn ei dilyn. Bellach, yr oedd wedi mynd yn rhy analluog i fedru dringo i'r cerbyd, na disgyn o hono, heb gymorth ereill. Mwy, rhaid oedd ymneilltuo i'w ystafell, a threuliodd 17eg mlynedd, - gweddill ei oes, - yn ei gadair. Tynged flin a fu hyn (x070) iddo, - troi ei gartref yn garchar, a charreg ei aelwyd yn arteithglwyd. Ond os bu ei siom yn fawr, ni fynegodd hynny i neb; ond fel gwron, boddlonodd i'w sefyllfa yn dawel a dirwgnach.

Drwy y blynyddoedd hyn. eisteddai mewn cadair olwynog (*Bath Chair*) ar hyd y dydd, nes yr olwynid ef i'w wely yn yr hwyr.

Ond os byddai yr hin yn caniatáu, cludid ef o gwmpas am dro, er cael adfywiad yn yr awyr agored. Yn hyn bu ei briod anwyl o wasanaeth mawr iddo, ac aelodau ereill y teulu.

Ar adegau ereill, cludid ef gan gyfeillion, ac ystyrient mai braint oedd cael gwneud a allent iddo.

Byddai yn mwynhau y teithiau hyn yn fawr. Weithiau, os byddai yr hin yn braf, gosodid ef i aros ar lecynd agored am oriau, fel y gallai cyfeillion a chydabod fyddai yn pasio gael cyfle i ymddiddan âg ef; ac ni fyddai byth yn unig ar adegau felly. Hefyd, treuliodd lawer o amser yn eistedd o flaen drws ei dŷ, yr hwn fyddai ar ochr y brif heol; a phob amser, gwelid cylch o rai a'i hadwaenent oreu yn aros gydag ef i ymddiddan a dadleu ar faterion y dydd, a phynciau dyddorol ereill, ac nid oedd neb yn fwy byw a gwresog nag efe yn y cynulliadau difyr hynny. Ni flinai byth ar gwmni; yn wir, yr oedd cwmni yn hanfodol iddo.

Yr oedd ystafell Twynog yn gyrchfan pawb bron. Ymwelid âg ef, heblaw gan bobl ei ardal ei hun, gan edmygwyr a charedigion o ardaloedd ereill, yn feirdd a llenorion, cerddorion a phregethwyr; a phwy ond a fu unwaith, ac ar ddamwain megis, a allasai anghofio yr ymweliad hwnnw? Er fod y corff lluniaidd a golygus, unwaith, bellach yn *wreck*, eto ym mhob cwmni, efe oedd y llonaf; a byddai ei gyfarchiad siriol, a'i groesaw cynnes, yn ad-daliad cyflawn i bawb am bob traferth gymerwyd i ymweld âg ef. Byddai yn holi pawb, a thrwy yr holiadau hynny, deuai o hyd i deithi eu meddwl, ac yna ymollyngai i ymgomio ar bethau barai i bawb deimlo yn ddifyr a chartrefol.

(x071) Fel ymgomiwr, yr oedd heb ei ail, nid oedd ball ar ei arabedd, ac yr oedd cronfa ddihysbydd o ystorïau ganddo at ei wasanaeth bob amser, i ateb unrhyw siarad a fyddai yn cymeryd lle; a phe cyfodai dadl rhwng y cyfeillion a ymwelent âg ef ynghylch rhyw ffaith o ddyddordeb, fel rheol gallai yn rhywydd ei phenderfynu.

Yr oedd cyfaredd ei gwmni hefyd yn feddyginiaeth anffaeledig i bruddglwyfni; a phe digwyddai peth felly fod yn blino neb, y ffordd sicraf i gael ymwarded o'r clefyd fyddai treulio awr yng nghwmni Twynog; a chwestiwn pawb bron yn ddiethriad wrth ymadael â'i ystafell oedd, - "Sut yr oedd yn gallu bod mor siriol o dan y fath faich o anffodion?"

Ateb y cwestiwn yma yn foddhaol fyddai dyfod o hyd i'r allwedd a roddai agoriad i ni i fewn i ddirgelwch bywyd Twynog; a llawer gwaith y buom yn ceisio ei ateb i ni ein hunain, ac i ereill a ofynt ein barn ar y mater pan fyddem yn ymadael o'i ystafell. Credwn fod yma amryw bethau yn cyfrif am y dirgelwch, neu guddiad ei gryfder yn yr ystorm a ymosodai arno.

I ddechreu, yr oedd wedi etifeddu cyfoeth mawr o natur dda, yr oedd hefyd wedi etifeddu rhyw fonedd urddasol, os nad hefyd waedoliaeth uchel. Yr oedd rhyw foneddigeiddrwydd uwchraddol yn perthyn iddo. Yr oedd hefyd wedi derbyn cynysgaeth dda o gynheddfau cryfion, oeddynt yn bob cymmorth iddo i ymladd brwydr bywyd yn llwyddiannus; ac yr oedd wedi gosod y cyfan feddai o dan dreth drom, i'w gyfaddasu ar gyfer treulio rhan olaf ei oes yn ystafell y cystuddiedig; er nad yn ymwybodol o hynny. Gwnaeth yn fawr o'i amser cyn ei gaethiwo, fel y gwnaeth wedi hynny tra yn ei gaethiwed.

Yr oedd yn *well prepared* erbyn adeg y prawf. Yr oedd hefyd wedi manteisio ar bawb a phopeth o fewn ei gyrraedd. Fel y sylwyd yn barod, yr oedd o ysbryd mor ysgafn a'r awel, ac o duedd mor gymdeithasgar, fel y daeth yn ystod blynyddoedd cyntaf ei oes i gysylltiad â phob arwedd ar gymdeithas, yn (x072) grefyddol, yn ddyngarol, yn wleidyddol, cerddorol a barddonol, bid siwr. Chwiliai am gymdeithasau, fel y wenhynen am y blodau, i dynnu mel ohonynt; a phan ddaeth gaeaf cystudd i'w gau rhwng muriau ei ystafell, yr oedd wedi casglu digon o fel i allu byw ar ei adnoddau. Dichon y goddefir i ni grybwyll am un o'r gymdeithasau hyn, yr hon y daeth i gyffyrddiad â hi ar ei ddyfodiad gyntaf i Rymni, ynglŷn â'r hon hefyd y teimlai y dyddordeb dyfnaf, hyd ddydd ei farwolaeth. Yn anffodus, yr oedd Cymdeithas y Beirdd yn Rhymni wedi torri i fyny ychydig cyn ei ddyfodiad i'r lle, - tua 35 o flynyddoedd yn ol. Yr oeddynt wedi gwasgaru ar hyd y wlad, ac ar hyd y gwledydd o ran hynny; a rhai ohonynt wedi croesi gorwelion y byd hwn ac wedi cyrraedd "gloywach nen" yr ochr arall i linell amser. Yr oedd Dryw o'r Nant, Gwalchfryn, a Dewi o'r Nant, wedi meirw. Yr oedd Islwyn Hughes, Gwilym Ddu o Went, a Dafydd o Went, wedi mynd i America, fel nad oedd yn aros ond Osian Gwent, Ioan ap Dewi, Ioan Gwent, Dyfnwal Dyfed, T. Probert, ac Irfon Davies. Yr oedd eu cynullïadau nodedig wedi peidio a bod, a meithrinfa Beirdd yn Rhymni wedi ei chwalu. Nid oedd ond ychydig nifer yn aros; fel yn yr ystyr hwn ar bethau, yr oedd yn rhaid ail gychwyn; ac erbyn heddyw, hysbys digon yw y rhan flaenllaw gymerodd Twynog i ail-adeiladu Teml Barddas yn y lle. Efe oedd y Sorobabel i'r hwn yr ymddiriedwyd y gorchwyl hwn iddo.

Gan nad oedd yma Gymdeithas Beirdd fel y cyfryw, nid hir y bu yn dyfod o hyd i'r peth mwyaf tebyg iddi; a chafodd fod Cymdeithas yn y lle o'r enw y "Gynhadledd," a bu yn aelod o honi tra y bu byw wedi hynny mewn rhyw wedd arni.

Cymdeithas oedd honno fyddai yn cyfarfod yn rheolaidd bob pythefnos, ond yn neilltuedig iawn, i ymdrin â chwestiynau fyddent yn codi i wyneb cymdeithas, yn Ddiwinyddol, yn Wleidyddol, yn Athronyddol, a Chymdeithasol, ac wedi ymuniad (x073) Twynog, daeth y gangen farddonol hefyd i fri; ac er mwyn cael dirnadaeth weddol glir ar gwestiynau yn y gwahanol ganghennau uchod, deuid â hwy a theflid hwynt ar Fwrdd y Gynhadledd, i'w gwyntyllu; a chyn y darfyddid â hwynt, nid gormod yw dweud y byddaf gan yr holl aelodau weledigaeth eglurach arnynt.

Nid oedd nifer ei haelodau yn lliosog, - ni welsom hi erioed yn rhifo mwy na dwsin. Sefydlwyd hi hefyd ar linellau eang, nid oedd yn gyfyngedig i na phlaid na sect. Ceid rhai braidd o bob enwad yn perthyn iddi, ac ni waharddid aelodaeth i neb, os ceid ei fod o "feddwl Cynhadleddol." Dyna fyddai yr unig drwydded iddi, ac yr oedd ystyr gyfriniol i'r gair yna nas deallid gan neb ond gan Gynhadleddwr, ac ni neb yn gyflymach i ddeall yr ystyr gyfriniol hon na'r cyfaill Twynog.

Mawr oedd y gwahanol farnau, neu yn hytrach y rhagfarnau, a fodolai ynghylch y Gvnhadledd. Edrychai rhai arni fel yr edrychid ar gymdeithas y "Feniaid" neu yr "Anarchiaid," wedi ei sefydlu o bwrpas er dymchwelyd popeth oedd yn dda a rhinweddol; ac eto methent yn lân gysoni hynny â'r ffaith fod ei haelodau yn ddynion blaenllaw yn eglwysi yr ardal; ac yn arwain, wedi hynny, gyda phob mudiad er dyrchafu cymdeithas, a pharhaodd y Gynhadledd am flynyddau felly yn ddirgelwch ac yn allu yr un pryd yn y lle. Yr oedd iddi hefyd ei rheolau, er mai ychydig oedd eu nifer, -

1. Nid oedd ganddi, i ddechreu, gartref sefydlog, ond symudai ei chynlliadau i gartrefl y gwahanol aelodau bob yn ail gyfarfod, gyda manylwch deddf.
2. Newidid ei llywydd bob tro y cyfarfyddai.
3. Byddai ei thestynau yn cael eu hysbysu bythefnos ymlaen.
4. Disgwylid i aelod na allai fod yn bresennol roddi hysbysrwydd a rheswm digonol am hynny i'r llywydd mewn pryd (nid oedd iddi Ysgrifennydd na Thrysorydd).

(x074)

5. Ni chaniateid i neb fod yn "wrandawr yn unig" yn ei chyfarfodydd. Yr oedd pawb i wneud y rhan a ddisgynnai iddo, a byddai y gwaith yn cael ei rannu yn aml drwy y tugel (*ballot*).
6. Nid oedd neb i siarad ond oddiar lwyfan y Gynhadledd, sef y lle neilltuol a benodid wedi dyfod ynghyd.
7. Nid oedd dim o waith y Gynhadledd i gael ymwneud âg ef (er iddynt gyfarfod â'u gilydd fel cwmni) ond yng nghyfarfodydd rheolaidd y gymdeithas.

Dyna'r cylch y syrthiodd Twynog iddo ar ei ddyfodiad i Rymni; a dyna'r cylch yr ymgynghorodd âg ef tra y bu yn byw yn Rhymni. Llwyddodd i ennill ymddiriedaeth y Cylch Cyfrin hwn ar unwaith, ar ei ddyfodiad i'r lle. Edrychai Twynog ar gynulliadau Saint y Cylch hwn, fel y galwai i Gynhadledd yn fynych, fel yr orig fwyaf ddedwydd yn hanes ei fywyd, a phan amharodd ei iechyd, fel na allai fynd o gwmpas yn ol trefn y Cylch, gwahoddai y Gynhadledd i'w breswylfa ei hun, ar hyn y cydsyniai pawb ar unwaith, ac felly yno y gwnelai y Cylch ei gartref bellach ers blynyddoedd.

Er y byddai ei breswylfod yn gyrchfan pobloedd o bob parth o'r wlad, daliodd i edrych gyda rhyw gysegredigrwydd ar Aelodau y Gymdeithas, - y nifer oedd yn aros ohonynt, - fel ei gymwynaswyr pennaf. Fel yr ymadawai rhai o'r hen aelodau am "Ardal lonydd yr aur delynau," fel y byddai yn arfer dweud, tynnid ereill i'r Cylch. Cymerid i fewn ereill o'r tu allan i gymdogaeth Rhymni oeddynt mewn cydgordiad hollol i naws a thymmer y cylch. Yn ol yr hyn a fyddai yn arfer ddweud yn fynych, bu disgyblaeth y Gynhadledd hon o werth amhrisiadwy yn ei olwg, a soniai lawer am dani.

Er ei holl anffodion, yr oedd Twynog yn weithiwr diflino. Gweithiai mewn trefn; trefnai ei waith a threfnai ei amser, ac ni bu neb yn fwy diwyd ac effro nag ef, ac nid oedd neb a werthfawrogai amser yn (x075) fwy; teimlai fod ei amser yn brin, ac yn rhy brin lawer pryd i wneud ei waith. Ai at ei waith mor gydwybodol ag unrhyw weithiwr arall yn y gymdogaeth bob dydd; ac ni fyddai ganddo amser weithiau i dalu sylw i fân alwadau teuluaid. Buasai y gwaith a gyflawnwyd ganddo yn fawr o dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol, ond wrth gymharu y gwaith âg anfanteision y gweithiwr, yr oedd yn synfawr. Yn ystod y gaeaf, teimlai lawer oddiwrth ei anhwylder. Yr oedd yr hin oer yn trywanu ei aelodau fel na chaffai yr esmwythyd lleiaf bron, gan y boen oedd yn ei gymalau; eto, mynnai godi bob dydd, os yn bosibl, rhywfodd, a chludid ef i'w ystafell neilltuol at ei waith. Ni ildiai weithio er dim; yr oedd ei benderfyniad yn ddiroi yn ol, i gyflawni pob bwriad a osodai iddo ei hun. Ysgrifennai yn gyson. Cyfansoddai a gohebai yn ddibaid; ac fel hyn y treuliodd Twynog flynyddoedd ei neilltuaeth i'r diwedd; ac hyd y gwyddom, ni threuliodd yr un diwrnod yn gwbl segur. Er pob methiant, parhaodd ei iechyd cyffredinol yn gryf o hyd; ac ni flinid ef gan anhwylderau ereill cyffredin, fel llawer. Mynnych y clywsom ef yn dweud, pan yn taro ato, ac yn gofyn ynghylch y teulu, - "Y maent i gyd yn sâl yma ond fy hunan, fi yw yr unig un sydd heb fod yn dost yma." Dichon y buasai aelodau ereill y teulu yn dioddef oddiwrth anwyd ar y pryd. Yr oedd yn mwynhau cysuron arferol y teulu cystal a neb; ni cholodd ei archwaeth at fwyd ond ar achlysuron neilltuol iawn. Cymerai ei luniaeth yn gyson, a byddai yn mwynhau popeth fyddai ar y bwrdd cystal a neb arall, a thra yn ei gadair, gallesid tybio wrth yr olwg iach a gwridog oedd ar ei wyneb, ei fod yn dringo llechweddau y mynyddoedd bob dydd; ac yr oedd wedi ei freintio â chorff nodedig o brydferth, lluniaidd a golygus, â'i holl rannau yn gymhesur. Ond, tua thair blynedd cyn ei farw, gwaethygodd ei iechyd yn fawr, a dringodd y gelyn oedd wedi llyffetheirio ei fferau, i (x076) fyny i'w ddwylaw. Cylymwyd y rhai hynny hefyd fel na fedrai weini arno ei hun wrth y bwrdd, tra yn cymeryd ei brydiau ymborth. Bellach, yr oedd yn rhwym "draed a dwylaw," fel yr oedd yn rhaid iddo wrth gymmorth ereill i weini hyd yn oed ei damaid iddo. Gyda llaw, gwelid yn amlwg fod ei nerth yn cilio, a bod y corff cadwrus, oedd fel castell cadarn, oedd wedi bod yn nôd saethau am lawer o flynyddoedd, yn dechreu dadfeilio a

rhoi ffordd. Nid oedd yn llanw ei ddrillad fel cynt. Yn y cyfnod hwn, daeth anffawd flin arall i'w ran, a fu yn flinder mawr iawn iddo, - daeth amhariad ar ei olygon, yr hyn a'i trallododd yn ddirfawr. Sefyllfa resynol i'r eithaf. Wedi colli gwasanaeth ei ddwyllaw a'i draed, wele ef, erbyn hyn, mewn perygl o fynd yn ddall. At hynny yr oedd y boen a gawsai yn ei ben bron a'i ddyrystu, fel na chaffai orffwysdra na dydd na nos; a chilioedd cwsg ymhell oddiwrtho. Y mae cofio am y brofedigaeth hon a'i goddiwedddod yn peri y loes fwyaf i bawb a'i gwelodd ynddi. Bu yn yr ystâd hon am tua tair wythnos. Credodd yn sicr ei hun y buasai yn colli ei synwyr. Dyna hefyd oedd barn y teulu a'i gyfeillion. Wedi galw y meddyg lleol i'w weld, yr unig gyngor allasai roddi ydoedd glaw *specialist* ato, yr hyn a wnaed ar unwaith. Pan ddaeth, gwnaeth ymchwihad manwl mewn undeb â'r meddyg lleol, a daethant i'r penderfyniad fod yn ofynnol cael *operation*, ac y buasai hynny yn cymeryd lle wedi gwneud rhyw bethau angenrheidiol fel rhagarweiniad i hynny. Ond tra yn disgwyl adeg yr *operation*, galwyd i'w weld gan y prif feddyg lleol, yr hwn, bellach, oedd wedi ymneilltuo o'i wasanaeth arferol oherwydd henaint a methiant; ond y fath oedd ei barch i Twynog, fel pan y clywodd am ei brofedigaeth, y mynnod gael gweld drosto ei hun. Gofynnod rai cwestiynau iddo parthed ei lygaid. Gofynnod hefyd beth oedd y *specialist* wedi ei ddweud. Wedi dangos iddo amryw o'r cyffeiriau oedd y *specialist* wedi gorchymyn eu defnyddio hyd nes (x077) y deuai drachefn i gyflawni yr *operation*, dywedodd yr hen feddyg profiadol, - "Mr. Jeffreys, if I were you, I would have nothing to do with them. Of course, you may please yourself, but if I were you, I would leave them alone. I am of opinion that the seat of the trouble is not in the eyes, but elsewhere, and if you should like me to prescribe for you, and if you care to take it, I will send you something. To-morrow I shall call to see you again." Ac felly y bu, daeth y meddyglyn, a thrannoeth daeth yr hen feddyg gofalus yno i'w weld er cael gwybod yr effaith. Ac er dirfawr lawenydd, yr oedd y boen wedi dianc, ac er na chaniateid iddo edrych ar y goleu am rai dyddiau, eto adferwyd ei olygon iddo, a diangodd rhag y trychineb brawychus o fynd yn ddall. A llawenydd Twynog â llawenydd mawr am hyn. Nid anyddorol ydyw crybwyll mai yn ystod y brofedigaeth hon yr esgorwyd ar y syniad o gael tysteb iddo, yr hon a gyflwynwyd iddo ychydig ar ol hyn. Fel y cyfaddefa pawb, nodwedd amlwg ynddo ydoedd ei sirioldeb, er pob adfyd; ond yn ystod y tair blynedd olaf o'i fywyd, er na cholodd hon yn llwyr, yr oedd yn llawer mwy *sensitive*. Nid ydoedd yn gallu dal gwrthwynebiad os anghytunid âg ef ar fater. Yr oedd y Cylch Cyfrin, chwedl yntau, wedi deall hyn, a bellach ni byddent yn taeru âg ef. I'r cyfarwydd, gwelid ei fod yn cyflym gyfnewid i ryw gyfeiriad, - fod haul ei oes ar fynd i lawr, a bod y nos yn dechreu duo ei ffurfafen, a chyn hir daeth ei gystudd olaf, gyda'i niwl oer; a diangodd y wên gynnes, y cyfarchiad siriol, calonog ac iach, fu yn diaspedain yr ystafell am flynyddoedd. Arafodd ei ysbryd bywiog, ac am y tro cyntaf, clywid ef yn cwyno.

Pan ar un o'r ymweliadau arferol, ac heb glywed dim yn flaenorol ei fod yn teimlo yn wahanol i arfer, wedi cyrraedd ei ystafell ni chafwyd y croesaw arferol. Gofynwyd iddo sut yr oedd yn teimlo, ac atebodd yn wanaidd ei fod yn wael iawn. Yr oedd swyn y llais wedi ei golli, a themlem, er ein bod yn ei ymyl, ei fod (x078) ef ymhell oddiwrthym; ac y mae aceniad ei atebiad i ni yn aros yn oer ar ein hysbryd hyd heddyw. Fflachiodd yr ymwybyddiaeth drosom yn sydyn ein bod yn colli Twynog. Ymhen ychydig, galwodd ar ei briod hoff. "Ellen," meddai, "Rhoddwch y llythyr iddo," gan gyfeirio at lythyr a ddaethai i law y diwrnod hwnnw, ac y gwyddai fod ei gynnwys o ddyddordeb i ni, ond ni ofynnodd ein barn arno na dim arall yn ei gylch, yr hyn eto oedd yn profi i ni ei fod yn pellhau.

Eisteddasom gydag ef am tuag awr, ond heb siarad dim âg ef, ond cyn ein myned, soniodd rywbeth am Wyl Dewi, oedd yn ymyl, a dywedai y caem drefnu at hynny nos Sadwrn. Yr oedd hyn nos Fercher. Gwyl Dewi, ie, dyna noson oedd honno bob blwyddyn. Y brif noson iddo ef, pryd y crynhoai y beirdd a'r cerddorion lleol o'i gwmpas yn yr ystafell, ac yr eisteddai yntau yn frenin yn eu plith. Ond erbyn nes Wener, clywsom ei fod yn waeth, ac aethom ar ein cyfer i edrych am dano. Ond yr oedd y meddyg wedi peri nad oedd neb i'w weld ond aelodau y teulu. Yr oedd yn suddo yn gyflym. Cadwodd ei arabedd, - un o'i brif nodweddion, - hyd y diwedd. Pan y gwaherddid ef gan y meddyg i siarad, atebodd y meddyg yn ol yn hollol nodweddiadol o hono ef ei hun, - "I suppose Doctor, I can still think?" Am saith o'r gloch nos Sadwrn, Chwefrol 25ain, yn 67 oed, diangodd ei ysbryd uwchlaw cystuddiau a phoen i'r wlad y canodd ac yr hiraethodd cyhyd am dani. Sylwch fel y canodd am dani, -

"Fel y 'deryn bychan, swynol,
Canaf finnau dan fy nghroes,
Am hoenusrwydd haf tragwyddol,
Wedi fy nghystuddiol oes;
Pan yn gorwedd yn fy ngwely,
Methu symud llaw na throed,
Canaf yn fy ngauaf chwerw
Am yr haf tragwyddol loew, -
Byddaf hoewach nag erioed."

Ac i ni, y rhai gawsom ein breintio â'i gwmni am 35 mlynedd tra y bu yn byw yn Rhymni, mor wâg yw (x079) bywyd ar ei ol, fel y gofidiwn yn ddiobaith fel cyfeillion Paul gynt, "am na chawn weled ei wynob mwy." Tra yn cymysgu dagrau gyda'r teulu, wedi i'w anadliad olaf ddianc ymaith, daeth

galargân Dafydd am Jonathan yn brofiad i ninnau, -"Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd
cu iawn fuost gennyf fi; rhyfeddol oedd dy gariad tuag ataf fi, tu hwnt i gariad
gwragedd."

Hir y cofir dydd ei gynhebrwng. Hawdd gweld y prydawn hwnnw fod haen drwchus o brudd-der yn
gordoi yr holl ardal; a churai pob calon yn drwm wrth wrando sŵn gorymdaith angladdol Twynog yn
mynd drwy y lle. Gwelai'r ardal fod ei gohebydd a chroniclydd ei hanes yn ei arch, a'i phrif-fardd yn ei
elogerbyd y diwrnod hwnnw, - fod ei "Glyndwr," fu yn chwifio ei gledd tra yn ei harwain ac yn ei
hamddiffyn ym mrwydrau bywyd o blaid rhinwedd a moes, yn cael ei gludo yn orchfygedig i dŷ ei hir
gartref, wedi syrthio o hono yntau o'r diwedd yn y frwydr olaf i'r archelyn. Aeth y gladdfa gyhoeddus
yn fwy cysegredig i lawer calon y prydawn hwnnw. Yno, ar lecyn prydfeth a dymunol yr olwg,
rhwng yr Elyrch a'r Garno, ac yn sŵn murmuron y ddwy ffrwd, o dan yr Yw yng nghwrr uchaf y
fynwent, y gosodwyd gweddillion Twynog i orffwys, yn ei Breswylfa newydd, hyd ganiad udgorn
Duw. Heddwch i'w lwch!

"Huna, O! Dwynog anwyl, - fwyn awen,
O fewn newydd 'Breswyl';
Ar draeth hiraeth o'th arwyl,
Cawn hyawdl iaith cenedl wyl."

TANNAU EREILL TWYNOG.
*CERDDI GWASGAREDIG, HEB EU CYHOEDDI O'R BLAEN,
A GYHOEDDIR YN BENNAF YN Y GYFROL HON.*

RHIF Y GERDD / TEITL Y GERDD / TUDALEN

- 1 / Cyfeillgarwch / x081
- 2 / Crist yn cario'r Groes / x090
- 3 / Cyrrion pellaf Cariad / x098
- 4 / Dagrau'r Edifeiriol . / x099
- 5 / Gwraig y Meddwyn / x101
- 6 / Y Cristion yn y Glyn / x102
- 7 / Disgwyl Gwawr / x103
- 8 / Y Fynwent / x104
- 9 / Edrych ymlaen / x105
- 10 / Y Wryf a'r Lili / x106
- 11 / I chwi (*efelychiad*) / x107
- 12 / Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd / x108
- 13 / Bore Saboth / x109
- 14 / Dim ond disgwyl / x110
- 15 / Rhyddid / x111
- 16 / I gofio am danaf fi / x112
- 17 / "Nid yfwn un dyferyn" / x114
- 18 / Y Twyllwr / x115
- 19 / Pan êl y Rhyfel heibio / x116
- 20 / Y Baban, gwyn ei fyd : / x117
- 21 / Llynnoedd Bannau Myrddin / x118
- 22 / Llyn Bethesda / x120
- 23 / Camwedd / x121
- 24 / Udgorn Dirwest / x122
- 25 / Ben Bowen / x123
- 26 / Arwain fi / x128
- 27 / Marwolaeth y Milwr / x129
- 28 / Briwsion o Dorthau Brasach - / x130-x132
- 29 / Cân yr Henwr / x133
- 30 / "Pan welodd Efe y ddinas" / x134
- 31 / Yr Awrlais / x135
- 32 / Tosturi / x136
- 33 / Gwenau Elen / x137
- 34 / Clychau'r Briodas / x138
- 35 / Dewch i'r Bâd / x139
- 36 / Pentwynmawr / x140
- 37 / Dafydd wedi ei eneinio / x142
- 38 / Methu siarad / x144
- 39 / Brig yr hwyr / x145
- 40 / Dyn cyn ei gwyp / x145
- 41 / Breuddwyd y Weddw / x146
- 42 / Y Gôf / x147

43 / Ar fedd Islwyn / x148
 44 / Y "Fenyw Newydd" / x149
 45 / Y Caeth Yn Rhydd / x151
 46 / Y Nadolig / x152
 47 / Yr Ehedydd / x153
 48 / Mae Duw yn dda o hyd / x154
 49 / Tŷ ar dân / x155
 50 / Uwch y Crud / x156
 51 / Morfudd o'r Dolau / x157
 RHIF Y GERDD / TEITL Y GERDD / TUDALEN
 52 / Bunyan / x159
 53 / Bugail Carmel / x163
 54 / Adgyfodiad Crist / x168
 55 / Y Daran / x169
 56 / Wylofus gri yr Hydref / x170
 57 / Bedd fy ngeneth fach / x171
 58 / Fy Mhlentyn / x173
 59 / Hwiangerdd Mair / x174
 60 / Nos a Dydd / x177
 61 / Gobaith y Cristion / x178
 62 / Annie'n ugain oed / x179
 63 / Tangnefedd / x180
 64 / Nos Gwyl Dewi / x181
 65 / Yr Amaethwr / x182
 66 / Y Beibl yn y Carchar / x183
 67 / Y Frwydr / x184
 68 / Y Dyn Meddw / x186
 69 / Caws Caerphili / x187
 70 / Bugail Glan y Llyn / x188
 71 / Y Llongdrylliad / x191
 72 / Adda'n yr ardd / x193
 73 / Y Mynydd Du / x194
 74 / Pleser / x196
 75 / Barnau Duw / x198
 76 / Tanybryn / x199
 77 / Gwlad Myrddin / x207
 78 / Y Balch / x208
 79 / Cystudd / x212
 80 / Mae'r Gaeaf wedi cilio / x213
 81 / Dafydd Jones / x214
 82 / Dewi Sant / x216
 83 / Ussah / x218
 84 / Pleser pur / x222
 85 / Y Cryd-cymalau / x223
 86 / Marw'n yr Haf / x224
 87 / Yr Enfys / x225
 88 / Gwyliau'r Haf / x226
 89 / Tir Beulah / x227
 90 / Yr "Excursion" / x228
 91 / Y Llaw / x231
 92 / Tŷ Dduw / x231
 93 / Yr Efengyl / x232
 94 / Daeareg / x232
 95 / Parc Dynefwr / x232
 96 / Llyfrau y Beibl / x233
 97 / Ddoe a heddyw / x237

(x081)

(1) CYFEILLGARWCH.

O Air hudolus! ai rhyw freuddwyd yw
 Neu belydr gwyn yn nos y byd 'rwy'n byw?
 Prin ydyw'r byd yn aml o Gyfeillgarwch;
 A chariad sy'n dirywio'n ddifaterwch;
 Dyfnderoedd oerion, lleithion, llawn o fraw,
 A chaddug anhreiddiadwy ar bob llaw
 Yn fynnych sy'n brawychu'm calon wan,
 Bruddglwyfus, unig, ar ryw farwol làn;

Gelyniaeth, trais, a chreulonderau enbyd
Sy'n cymmell gorthrwm, a rhyfeloedd ynfyd;
Gwroldeb anianyddol yn brif rinwedd;
A chryfder afresymol yn edmygedd;
Twyll, hunan, balchder, a chybydd-dod atgas
Sydd yn gwenwyno awyr pob cymdeithas;
A throchir cymwynasau gorau dyn
Yn ddwfn mewn rhagfarn hunangarwch blin.

Er hynny, dal ei ffordd mae Cyfeillgarwch,
Ac ymladaena'n ddistaw i'r tywyllwch;
Ymlada weithiau, yn ffurfafen lās,
I wlitho'n neithdar ar y crindir crās;
Bryd arall, daw yn wrês, fel bore ha',
Yn disgyn ar fynyddoedd oerion iâ;
(x082) A'r lle disgynno dry'n baradwys hyfryd,
O ddyfroedd pêr, a ffrwythau pren y bywyd;
A phur awelon sydd yn deffro'r blodau;
Ac engyl hoffant ynddi wneud eu llwybrau.
Os ansefydlog yw y byd erioed,
Yn gwasgu diffuantrwydd dan ei draed;
Mae Cyfeillgarwch cynnes byth yr un
Yn dal i lonno y pererin crin:
Os ä o'r golwg weithiau dros y rhôs,
Fe ddaw yn ol, fel haul ar ol y nos;
A thra bo Cyfeillgarwch yn y byd,
Nid ä yn uffem, ac yn ddrwg i gyd,
Dianga hunanoldeb pan ddaw heibio,
Fel dianc lladron pan yn cael eu gwyllo.

Mewn llawer ffordd mae'n cynorthwyo dyn
Yn ddoeth, a distaw, fel y nef ei hun; -
Ei ddafnau sydd yn disgyn ar ein daear
I droi'r anialwch crin yn erddi hawddgar;
A diffodd fflamau hunanoldeb calon
Sy'n llosgi rhinwedd cydymdeimlad dynion.
Ei chwäon iach sy'n dod dros erddi cariad
Y Duwdod, cyfranogi o'u cyflenwad,
A chario'r peraroglau bywiocäol
I awyr drymaidd niwl, a tharth daearol,
Yn heddwch, a thangnefedd tragwyddoldeb
I amser, i'n iachau â rhin anwyldeb.
Cryfhâ, awyddfyrd dyn am anfarwoldeb,
I fyw mewn cwmni lle nad oes casineb:
Mae'n difa gwanc am sefyllfaoedd uchel;
A dysgu cydraddoldeb mewn addfwynder;
Rhoi ystyr i'r ymadrodd am gyfeillach
Rhwyng y boneddwr, a'r llafurwr tlotach.
Gwasgaru'n ddylanwadau i bereiddio
Cymdeithas rhag i athrod ei dinystrio
A pharatoi y ffordd i egwyddorion
Tragwyddol gariad Duw i ddod i ddyinion:
L,ledneisio yr ynfydion anffaeledig
I urddas a gwyleidd-dra cysegredig:
(x083) Cyfnewid tostur trallod dyn yn nefoedd
Ddaearol, â thynnerwch ei weithredoedd.

Mae'n rhaid cael adnabyddiaeth rhwng dau berson
Cyn ffurfio Cyfeillgarwch cynnes, ffyddlon:
Cydnawsedd, a chyd-ddealltwriaeth addfed
Cyn caru, ymhyfrydu, ac ymddiried,
I gyd-ymgyrraedd at yr un amcanion,
O dan lywodraeth yr un egwyddorion;
Y teimlad cyffredinol hwnnw sydd
Yn barch, ac ymddiriedaeth trylwyr, rhydd;
A gwrês teimladol, nwydol fel yn Mam
Buredig, gwyd heb ofyn y "Paham,"

I gyd-ddioddef mewn ystormydd geirwon
Neu yn ymlyniad tawel, doeth, cyfeillion:
A serch naturiol at y da a'r prydferth
Gynhyrfa ddy'n i losgi'n hunan-aberth.
Fe geir ei ddeddfau sanctaidd yn dragwyddol,
Yn disgyn lawr i'r byd o'r Hanfod Ddwyfol, -
Gwirionedd llachar yw, oddi wrth y Duwdod,
Yn siarad trwy y teimlad a'r gydwybod:
Cysgodion o hapusrwydd y Tri Pherson,
Sy'n disgyn ar y byd i wneud cyfeillion.
Mae yn ymestyn at y pagan anwar,
I wneud ei lwybrau gwyrngam yn fwy hawddgar;
ac yn y gwâr, a'r Cristion, cwyd yn raddol
I dir bendigaidd y rhinweddau moesol.
Mae gwaed, ofn, blys, ac elw'n clymu rhai;
Ond ffug-gyfeillach ydyw, gilia'n glau,
Nis medrant uno neb mewn hyfryd hedd,
A thanio'r serch, na ddiffydd oerni'r bedd:
Nis gellir bod yn dyner, naill i'r llall,
Dan nodded Cyfeillgarwch pur, diball, -
Y Cyfeillgarwch hwnnw wna'r "Cymydog"
Caredig, tynor, gofia yr anghenog;
A gwyllo'r claf yn nhonnau olaf bywyd.
A thywallt dagrau'n gawod ar ei weryd;

(x084)

Y glyn yn unig a'u gwahana hwy
A glymodd Cyfeillgarwch, ac O'r clwy
Rydd colli un i'r llall, ar lân y bedd,
Medd dagrau dreiglant dros y welw wedd.

O Gyfeillgarwch! mae yn sychu dagrau;
A rhoddi balm i ddy'n mewn gorthymderau;
A lloni'r galon ysig yn y nos
I'w gynnal, nes tyrr gwawrddydd sanctaidd, dlos,
Efengyl y tangnefedd yn y fron,
I nofio iddo'r nef i'r ddaear hon;
Ac yma tra yn rhodio fyddant "oll yn oll."

Mewn tloidi gwâg ymnesa Cyfeillgarwch,
Ac ar yr aelwyd oer y rhydd hyfrydwch;
Digysur, di-amddiffyn yw y tlawd
Os na fydd Cyfeillgarwch iddo'n ffawd.
Ffurf uchaf yw ar naturioldeb dyn
I wneuthur dau yn onest, ac yn un,-
Yn un mewn cydymdeimlad, a daioni, -
Yn un mewn hunan-aberth, a haelioni:
Mor fwyn siaradant hwy, ac hyd yn nod
Tyneru'r bai, lle byddo bai yn bod.
Cyd-lawenhau yw hanfod Cyfeillgarwch,
A rhaid cael dau i gyd-fwynhau'r hyfrydwch;
Aur-fwnglawdd yw yn natur y ddyniolaeth,
Na chloddid iddo fyth ar dir meudwyaeth;
Cyd-weithio raid i'r ddau yn dy'n am dano;
Cyd-gyfranogwyr yw'r meddianwyr ynddo;
Cyd-weithio â daioni Duw o hyd
I ychwanegu at gysuron byd.
Pob gweithred dda sy'n gwneud y fron yn llawen,
Boed fach neu fawr, mae'n cofio am ei pherchen:
Llawenydd am lawenydd yn cyfnwud;
Tangnefedd am dangnefedd yw'r addewid:
Wrth hynny y dangosir i bob un
Beth ydyw amcan pennaf bywyd dyn:
(x085) Mewn gweithred dda y ceir y teimlad llon,
Sy'n dwyn ysgafnder i'r drom-lwythog fron;
Dwyn gorfoleddus gân felysa'r galon,
A nodau cliria'r gerdd yn ei halawon

Ac ysgrifennu ar y galon fod
Awr fraf ei gor-ddiddanwch wedi dod:
Pob gallu sy'n cryfhau dan y dylanwad,
Pob cynneddf sy'n cyflymu mewn gweithrediad.

Yn ol edrychaf weithiau ar y tir
A deithiais yn ei gwmmi, pan yn ir
Fachgennyn gynt yn Eden Mebyd llon,
Yn dechreu gwneud cyfeillion cynta'r fron
Cyn hwylio'n gryf i gefnfor bywyd draw,
Heb gyfaill lawer tro, i ysgwyd llaw;
'Rwy'n gweld y nos, fy hen gymdeithion bach.
Yn bore godi gyda chalon iach;
A'r dydd o Gyfeillgarwch ar ei hyd,
Cyn gwybod ystyr siom, a gwg y byd;
Os codai rhyw anghydfod, bychan iawn
Oedd ef, ai heibio'n llwyr cyn y prydawn;
Ni thorrai ar y Cyfeillgarwch cu,
A'r aur-edafedd fai'n ein clymu ni;
Yn awr, yn nawnddydd oes, ar fin y glyn,
Byrr gam ac anadl, a'r llaes wallt yn wyn,
Breuddwydiaf am gyfeillion bore oes,
Fel coed yr Hydref am yr Haf di-loses:
Ond wedi hynny teimlais lawer tro
Yng nghôl unigrwydd, mewn estronol fro,
Fel dyn heb wlith y nef, a gwên ei Dduw,
Nac olion traed un ffrind caredig, byw;
Na gwrthrych teilwng i roi arno'm serch,
Wrth symud rhagwyf rhwng y creigiau erch;
Y dydd yn troi yn nos, heb seren wên
I daflu pelydr i oleuo'r nen;
Yn teimlo fel ar goll yng nghanol llu,
'Mron methu symud trwy'r unigrwydd du;
(x086) Ond ar y llwybr unig pellaf hwnnw,
Aml dro y cefais Gyfeillgarwch gloew, -
Cyfeillion cu, a chymwynasau tirion,
Yn cyffwrdd enaid, ac esmwytho'r galon;
Ac hyd yn hyn, 'rwyf yn eu dyled hwy
Medd adgof, sydd a'i emrynt gwlyb dan glwy':
Llawenydd sydd yn diolch iddynt eto, -
Y blodau hynny ydynt wedi gwywo,
Am wasgar peraroglau ar fy mywyd,
A rhoi melyster i flin oriau adfyd.
I ffrydiau ereill, pan fônt mewn cyfyngder,
Y rhoddaf finau ddafnau y melyster,
Mêl Cyfeillgarwch a gaiff lifo eto'n
Orlanw fel i dalu'r hen ddyledion.

A gaf fi rifo anian bur fel un
O fy nghyfeilhon? Crewyd hi a dyn
Gan yr un Duw. A'i anadl Ef o hyd
Yw'r bywyd hwnnw sy'n ein dal ynghyd.
O mor gyfeillgar yw - mae'n estyn llaw
I arddel y berthynas hon, o draw, -
Ei choed, a'i blodau daena i'n croesawu;
A chwery ei thelynau mwyn i'n llonni;
Datguddir ei chyfrinion i'n diddanu
Yn sêr y nos, sydd drwy y gwyll yn gwenu;
A'i thafod sydd yn siarad wrth y dyn
Fel pe am ddweud, - nad ydyw wrtho'i hun;
Ond nid oes digon o gyd-ddealltwriaeth
Rhwng bôd rhesymol, a thi, greadigaeth;
Na'r cydymdeimlad hwnnw wna gymundeb
Fel sydd rhwng dyn a dyn, am dragwyddoldeb, -
Y cydymdeimlad meddwl ni cheir yno,
Mynwesau llawn o gariad yn cydgordio;
Yn dewis geiriau godant o ddyfnderau

Calonnau'n fflwch o'r Cyfeillgarwch gorau
Ond af i fyny ar adenydd purdeb
I gwmi angel, yno mewn anwyldeb
(x087) Y ffurfiaf Gyfeillgarwch gwresog, grymus,
A ymlonydda yn dangnefedd melys;
Mi nesaf beunydd at fy Angel-Geidwad,
Caf hwn yn gyfaill, gwrendy fy nymuniad
Pan fyddwyf yn llesghau, a daw fel mellten
Yn syth o ymyl Duw i ymyl f'angen.

Af eto'n uwch, at Dduw, maen Fôd Personol,
A minnau ydwyf berson bychan, meidrol;
Am hynny y mae rhyngom ryw gydnawsedd
I gyfeillachu ar randiroedd rhinwedd;
Ymgyfathrachu mewn Cyfryngwr sanctaidd
Lle try digofaint yn awelon balmaidd;
Ac oerni pechod yn gynhesrwydd tirion,
A dyn â Duw, fel Enoc, yn gyfeillion.

Ha, Gyfeillgarwch! ei brydferthion eto
A welaf ar ei daith yn ymddisgleirio
Edrychwn arno'n nesu i'r ystafell, -
Pob calon sydd yn curo heb ei chymhell; -
Yn curo caredigrwydd, a daioni,
A gwên foddhaol ar bob grudd o'r teulu
Y pethau gorau roddir ar y bwrdd;
Pob dyfais rhag i'r cyfair fyned ffwrdd;
A'r pethau gorau yn yr ymddiddanion
Sydd yno'n cael eu gwau, am oriau meithion:
Cyfoethog gôf, a chwim ddychymyg yno
Sydd ar eu gorau'n cadw draw'r "ffarwelio;"
Pob teimlad drwg sydd wedi dianc ymaith;
Pob dychryn, ofn, a thawch cenfigen, ddiffaith;
O fel y nofiant yno mewn boddineb
Heb arw dôn yn rhychu môr anwyldeb:
O gyfarfyddiad hapus, ni ddaw brad
I fewn i'r cylch, a phlygion o bruddhad:
Mae llonder yn gwefreiddio'r cyfarfyddiad,
Nes gwneud yr annedd yn gartrefle cariad;
A'r "Gweddnewidiad" a'r boddhad arosol
A fynnent aros yno yn wastadol;
(x088) Mor ddedwydd yw y tŷ sydd yn cysgodi
Y Cyfeillgarwch hwnnw nad yw'n oeri.

Mae glannau môr yn gwneud cyfeillion lu
Pan fyddo blodau'r Haf yn gwenu'n gu;
A blodau cariad dyfant ar y lân
Y sangodd Cyfeillgarwch, yn y man;
Pan wywo blodau'r Haf yn awel Hydref,
Y blodau ereill wridant yn eu cartref.

Yr alltud unig mewn estronol wlad
Sy'n wylo'i einioes allan mewn pruddhad;
Nid ydyw Cyfeillgarwch yn ei fyd
I roddi iddo gyfareddol prudd, -
Eu ffurf, a'u crebwyll, a'u gweithredoedd da
Yn freuddwyd tyner gyda'r hwyrol chwa,
Yn dangos, fel ar ddamwain, yr hyn fu,
Yn ffeithiau gwynion y gorffennol cu;
Munudau esmwyth y gorffennol pell
Sydd yn melysu ei bellenig gell,
Pan nad yw Cyfeillgarwch ond mewn adgof
A'i holl fwynderau'n methu mynd yn anghof.

Ymweithied Cyfeillgarwch i bob dyn,
Ac i bob gwlad, yn ei adfywiol rin,
I sylweddoli breuddwyd y gorffennol.

Yn ffeithiau byw ym mywyd y dyfodol
Ei gyfathrachol naws fo yn cynhesu
Cenhedloedd byd, i'w gwneud yn hapus deulu;
Ymwadiad tawel, ac aberthiad distaw
O fôr o fôr a fyddont yn ymweithiau;
Ymagor fel yn hyfryd lawnt o flodau
Bwäog lwyni, coedydd peraidd ffrwythau,
Y tegwch hwnnw hardda ardd dynoliaeth,
Fel gardd yr Arglwydd o dan ysbrydoliaeth;
(x089) A Rhosyn Saron hoffa ymddisgleirio
Fel Brenin blodau'r byd a'r nefoedd yno
Mwy byw ac effro ydyw'r holl deimladau
Wrth rodio yn ei ardd, a bwyta'i ffrwythau.

Diolchwn fyth i Dduw am ein cyfeillion,
Gan gadw'r hen wrth wneud y rhai newyddion;
Ni ddaw'r un gaeaf heibio ar ei eithaf,
Ns nos anobaith yn ei hagrwech duaf,
Cenfigen, trais, ac enllib, heb ryw fôl,
Os cawn gyfeillion ffyddlon, llawn o sêl:
Afor anodd, yn y glyn, yw myned rhagom,
Heb ddwyllaw tyner Cyfeillgarwch danom,
I ddal y pen, a sychu chwys marwolaeth,
Wrth estyn cwpan olaf gwin brawdoliaeth.
Yng ngoleu clir y Nef bydd Cyfeillgarwch
Yn llawn cyfaredd fyth, a diogelwch;
Y sancteiddiolaf gyfrinachau yno
Ar hyd tragwyddol ddydd, yn dal i'n swyno;
Heb ffinno, ac heb ddisgwyl gweled amser
Yn dyfod i roi terfyn ar y pleser.

(x090)

(2) CRIST YN CARIO'R GROES.

Crist yn cario'r groes! wyt frawddeg fechan iawn ar dafod dyn,
Ond er hynny, dy gynhwysiad synna'r nefoedd fawr ei hun:
Dros ysgwyddau y canrifoedd proffwydoliaeth welodd hyn,
A desgrifiodd daith yr Iesu, dan y groes i ben y Bryn
Ceisiaf finnau nesu yno fel ar derfyn y nos brudd;
Sut y gallaf? Yr olygfa dy'n y dagrau dros fy ngrudd
Mae Caersalem yn llawn cyffro dieithr gyda thoriad gwawr,
Ac mae'r dydd yn gwlawio diluw o ogoniant gwyn i lawr;
Mae yr haul o draw yn gwrido uwch y dref sy'n llid i gyd
Ar gyflawni y gyflafan dduaf, fwyaf welodd byd.

Jerusalem, a'i theml odidog, sydd
Yn hardd o dan belydrau claer y dydd;
Gerllaw mae Gethsemane dan y gwydd,
Lle bu yr Iesu'n ei unigrwydd prudd;
Mor rhyfedd! - chwysu'r gwaed yn ddfafau cochion
Nes gwridai'r glaswellt fel o ofid calon!

Mae Judas wedi ffoi i'w farwol hynt,
Diflannodd fel drychiolaeth yn y gwynt
'Rol rhoi y cusan, - y ffug anwyldeb hwnnw, -
A'i gwnaeth i Grist ei hun yn ddeublyg chwerw;
Fe aeth i'w "le ei hun" ar hynt anobaith,
A gwaed yr Iesu ar ei dalcen diffaith.

Aeth heibio'r prawf, distawodd llais gau dystion,
A chiliodd Pilat i'w neuaddau gwyhion;
Ond ow! 'roedd sw'n y prawf yn llenwi'r palas,
A'r floedd "Croeshoelir Ef" fel ysbryd atgas;
Edrychai ar bob peth yn wyllt ei dremyn,
A phob symudiad yn bradychu dychryn;
(x091) A chodai'i law fel pe bai am rybuddio
Rhyw ebyll du i gadw 'mhell oddi wrtho.

Mae Petr yn wlo, dwed, - “Gwirionedd mwy
A geisiaf, - y Gwirionedd gwyn tra bwy’;
Aberthaf bopeth i’r Gwirionedd hael,
Fy einioes, os bydd eisieu, er ei gael;
Mor fawr yw dyfnder fy anwiredd noeth,
Yr hwn a wnaeth fy myd yn uffern boeth,
‘Rwy’n teimlo’i faint a’i nerth, ac O! y mae
Yn dwyn i’ m henaid aflan boen a gwaе,
Os tair gwaith gwedais, mwy na thair mil gwnaf
Gyhoeddi’r Gwir i’r byd am hyn i’ m Nâf.”

Ffôdd y disgyblion oll mewn du anobaith, -
“Os ceisiwch fi, gadewch i’r rhain fynd ymaith,
Yn ol eich gofyn chwi mae y rhai hyn
Bob un mor rhydd a chwäon iach y glyn”
Ac yno y pryd hwnnw’r “praidd” a ffôdd
Gan ado’r Bugail Da i’r ’storm a’i tôdd.

Y dorf sydd yn amgylchu y dadleudy,
A Christ yn cael ei arwain o’r carchardy
Y Phariseaid â’u bradwrus wenau
Arweinient fyddin ar ei lwybr, yn forau
Yn llaw casineb mae y sanctaidd bwyll
Dan erledigaeth, dirmyg, gwawd, a thwyll.

Mae’r cyfiawn rhwng y milwyr ar y palmant
Dan ddedfryd farwol Cynghor brid a soriant;
Mae rhai yn ysgyrnygu dannedd amo,
A rhai yn poeri, ereill yn ei daro.
Mae’r gwawd yn codi drachefn a thrachefn,
A’r groes yn cael ei rhoddi ar ei gefn, .
Ac yntau’n crynu’n wân o dan ei phwys,
A thros ei fin tyrn aml ochenaid ddwys.

Cychwyna yr orymdaith tua’r Bryn,
A’r floedd “Croeshoelier Ef” yn deffro’r glyn;
(x092) Gwŷ r y Sanhedrim gyda thorf gythrybius
O segur-chwilwyr am ryw dôn gynhyrfus,
Ar ran yr archoffeiriaid codant lef
Am fywyd Archoffeiriad mawr y nef.

Ei gorff sy’n clwyfus wedi’r noson arw
Ar ol y “goron ddrain” a’r fflangell chwerw
Fel nodau duaf dyfnder darostyngiad
Ar draethau’r Ymwaghad a’r Ymgnawdoliad:
Cynhydda’r dorf mewn maint a hyfdra creulon,
A Brad yn duo’i threm mor ddu, a’i chalon;
Ond cuddia’r Iesu Ei Ddwylfol Alluowgrwydd
Fel o dan len: mae’r Oen mewn diniweidrwydd
Yn nhwrf y dorf, distawa’i weddi rasol
Fel murmur nant yn nhwrf y môr gerwinol.

Mae y dihalog un yn cael Ei faeddu,
A llanw llid y dyrfa fawr yn codi:
Mae’n mynd yn aberth tanllyd i wallgofiaid
Gynhyrfwyd gan ragfarnau y penaethiaid;
Ychydig ddyddiau sydd er pan yr oeddent
Yn dilyn Iesu, ’r gwyrthiau a edmygent;
Mor wresog oeddynt, - llawn o’r gair “Hosannah”
Pan oedd y wlad yn erbyn y Messiah,
Pan roddid palmwydd ar y ffordd y cerddai,
Pan daenid blodau hyd y llwybr gymerai;
Mor uchel y canmolent Iesu yno,
Mor frwd y cwhwfanent iddo “groeso!”
Daearol deyrnas yn y blodau welent,
A sw’n “dyrchafiad” ym mhob bloedd a glywent;
Dychmygent weld eu hunain o fewn teyrnas

Ddaearol Iesu, dan lawryfau urddas;
A chyfoeth yn dylifo at eu galwad
O “wlad yr aur” i foddio’u hunangariad.

Ond weithian credant fod eu gobaith gwyn,
Eu helw, - yn Ei arwain tua’r Bryn, -
(x093) Bryn darostyngiad Crist, - hen ddyffryn tlodi -
Lle mae heulwenau’r “byd” oll yn diffoddi;
A hyf arweiniant Ef i’r llwybr hwnnw, -
Can’s diffodd y mae “gobaith drud eu helw;”
Ac wele hwy ym mrad-gynlluniau’r gelyn -
Am weniaeth byd - yn hyf groeshoelio Duw-ddyn.
Ac eco mae cynddaredd hyd y nef,
A’r waedd yn codi’n uwch, - “Croeshoelier Ef.”

Mae Crist yn cario’r groes, - y groes erwinol, -
Yr hon sy’n pwysu arno’n anioddefol,
Ac ar y pryd yn dioddef haid anynad
I luchio cabledd ar ei lân gymeriad;
Mae’n taro’i droed ar y mynyddoedd tywyll,
Dieithriol, pell, cartrefle poenau erchyll,
A digter deddf, cyfiawnder, barn ar bechod,
Ac angau’i hun yn llechu yn y gwaelod.

Mae Crist yn cario’r groes, - nid croes ei hun,
Neu ddarn o bren sydd yn ei gwneud yn ffin, -
Mae croesau byd ar hon yn cydgyfarfod,
A phwysu arno y mae byd o bechod;
Nis gallai’r byd ei hun fyth, fyth ei syflyd,
Ond Crist a’i cariodd hi i diroedd bywyd.

Mae Crist yn cario’r groes! O drist fynegiad
I falais, llid, a dirmyg cenedl anfad,
Fu’n cronni am flynyddoedd yn ei erbyn
Ond heddyw dyrr yn genllif ar ben Duw-ddyn;
Mae twrf dialedd tyrfa fawr yn torri,
A rhu marwolaeth o bob tôn yn codi.

Mae’r lidiog dorf yn drinoo ael y Bryn,
A digter mwy yn torri’n genllif gwyn
Yn y cableddau rithient yn eu hiaith,
A’r creulonderau dduent erchyll waith
Y groes yn pwysu ar Ei gefn briwedig,
A’i ben yn waed dan “goron ddrain” blethedig;
(x094) Dau leidr condemniedig, - un bob tu
Osodwyd er rhoi arno lliw mwy du;
Ond ha! mae cydymdeimlad yn tywynnu
Ar ladron dan y groes o galon Iesu;
Mae gras a maddeugarwch yn dylifo
I fron ddiragfarn yn y dyrfa honno;
Ac un o’r lladron welodd Dduw’n ei ymyl,
A’r mab yn cael Ei guddio dan y cymyl.

Mae Crist yn cario’r groes! tra’e nef yn fyw
Yn disgwyl adref y tragwyddol Dduw;
Pan oedd Ei foliant ar holl dannau’r nef,
Fe godai llais o’r byd, -” Croeshoelier Ef.”
“Ni fynwn hwn,” “Ymaith âg Ef,” adseinia
O graig i graig ar lethrau Bryn Golgotha.

Mae Crist yn cario’r groes! Beth ddaw o hono?
A ydyw ei elynion wedi llwyddo
I gael y fuddugoliaeth? Mor anhebyg
Yw i orchfygwr, dan y gwawd a’r dirmyg;
Ai methiant ydyw trefn yr ymgawdoliad?
I simoi’r anchwiliadwy Ddwyfol gariad?
O na, mae Crist yn cario’r groes fel rhan

O'i fwriad olaf ar y farwol làn, -
Mynd trwy ddiodeffaint fel gorchfygai Ef
Y gelyn ola'n ymyl porth y nef;
Mae cario'r groes yn rhan o gynllun Dwyfol
Mewn ymgawdoliad gan y Mab Tragwyddol,
A'r ffordd i'r groes, yr hon oedd ddigon garw,
Fel i orfodi 'i anfarwoldeb farw.

Mae Crist yn cario'r groes! er mwyn perffeithio
Ei hun yn Geidwad cyflawn, cydymdeimlo,
A chyd-ddioddef gyda y ddynoliaeth
Yn holl ddyfnderoedd loesion ei naturiaeth;
Perffeithio yn Dywysiog dioddefiadau
A chyd-ymddwyn â dyn dan ei holl groesau

(x095) Mae Crist yn cario'r groes! trwy'r gwawd a'r lliid,
Er fod Ei ddynol nerth bron pallu i gyd
Er lludedd mawr, er dyfinedd yw y loes,
Er codi'r 'storm, mae Crist yn cario'r groes
Er fod creulondeb y gelynydd hyn
Yn duo yr holl ffordd i ben y Bryn,
A chysgod crwydrol pen y Bryn yn awr
Yn disgyn ar bob cam yn dduwch mawr;
Er fod ysbrydion annwn yno'n cyd-
Gyngreirio âg ellyllon duon byd,
Mae trem y Ceidwad ar y Bryn o hyd -
Y pinacl ucha'i fywyd yn y byd.

Mae Crist yn cario'r groes! mor unig yw,
Heb wenau'i Dad, heb gwmni engyl Duw;
Ond Ef i'r groes a godir cyn bo hir,
Lle gwêl heirdd loewon fryniau'r nefol dir,
Lle'r esgyn uwch pob croes, i'w newydd stâd,
Goruwch angylion i ddeheulaw'r Tad.
Mae Crist yn cario'r groes i ben y Bryn!
Fel dyn yn unig mae yn gwneuthur hyn
Fel Duw, gallasai ddwyn o'r drydedd nef
Angylion gwynion i'w amddiffyn Ef
Un gair o'i enau wrth y dyrfa aflan
A brofai Ei fod Ef yn "Air" ei hunan
Fel pan ddywedodd yn yr Ardd, - "Myfi yw,"
Pryd syrthiodd llu yng "ngwysg eu cefnau" 'n wyw
Gallasai eto gyda gair o'i eneu,
Wneud torf i syrthio'n wyw yng ngwysg eu cefnau
Heb fyth i godi - oni bai, fod cariad
Y Crist yn ymdaith tua Bryn Croeshoeliad.

Mae Crist yn cario'r groes! ond mae Ei liniau
Yn plygu, a gwanhau o dan y pwysau;
Ei gam sydd yn byrhau, a gwelwa 'i wedd,
Er hynny ar Ei drem mae nefol hedd;
Mae weithian wedi methu symud cam,
Er hynny, amyneddgar a dinam,
(x096) Sefydla'i olwg Dwyfol, tawel, tirion,
Ar y rhai hynny geisiant waed Ei galon.

Yn fud y saif y milwyr creulon hyn,
Fel caethion pwysant ar eu gwaewffyn;
Tra'r Iesu'n dâl yn llawn o gydymdeimlad,
Brenhinol, a mawreddog Ei edrychiad;
Arddunedd hunanfeddiait anherfynol
A donna drosto yn ogoniant nefol;
Nid oes ymhlith y dyrfa neb mor wyn,
Mor hardd âg Ef yn dringo ael y bryn
Pur ddiniweidrwydd ar ei wyneb welir,
Sŵn tonnau cariad fel o'i fynwes glywir,
Ysblander Dwyfol fel ar ben y Mynydd

Gynt, drosto dyrr yn wedd-newidiad newydd.

Y Phariseaid a'r penaethiaid yrrant
Yn galed arno, am Ei waed sychedant;
Ac yntau sydd yn mynd fel "Oen i'r lladdfa,"
Mewn ymdrech mawr, a lludded yn y dyrfa;
A mell tystorm Calfaria yn ymrithio
Yn swm cynddeiriog yr orymdaith wallgo';
Ac ar y Bryn o'i flaen mae cwmwl lldgar
Fel barn yn hongian rhwng y nef a'r ddaear;
Ond metha hyn, ynghyd i'r lliid a'r cabledd,
Leihau ac oeri cariad a brwdfrydedd
Ein Crist i gario'r groes i ben y mynydd
A marw aml yno'n Fyd-Waredydd:
Mae tynged bywyd byd, o oes i oes,
Yn ymddibynu'i gyd ar gario'r groes.
Ac O! fel mae y chwys a dyfnder lludded
Yn argyhoeddi'r byd o'i ymdrech galed
Ac ambell un a welodd ei Ddwylfodeb
Fel pelydr haul ar lenni Ei feidroldeb
Sy'n nesu ato, gyda chalon rwygol,
ac ar Ei ruddiau ddaerau byw tosturiol;
Ond ow! mae hyn yn ennyn mwy o gabledd,
Ac yn cynhyrfu tonnau môr dialedd
(x097) Yr archoffeiriaid, a'r penaethiaid creulon
A frysient fry i ollu-ng gwaed ei galon.

Ond pan oedd ar ddiffygio o dan y groes, fel hyn,
Daeth Simon o Cyrene ymlaen ar lethrau'r Bryn, -
Y cymwynaswr gwladaidd, nis gallasai ddal yn hwy,
Heb ddangos cydymdeimlad i'r Iesu dan Ei glwy';
Os Simon Petr a gefnodd, os pallodd nerth ei fraich,
Daeth Simon o Cyrene a'i ysgwydd dan y baich;
Y cymwynaswr ffyddlon! i Grist ar lethrau'r Bryn,
Cei ddiolch gan holl seintiau y nef am byth am hyn.

Fe gariodd Crist y groes! ac fel mae hyn
Yn dangos pechod du, a phuredd gwyn;
Mae adsain y gwaradwydd, a'r dioddef
Yn disgyn heddyw ar y byd yn dangnef
Mae yr olygfa fyth yn ennyn cariad
Ym mynwes dyn at Aberth Mawr y Ceidwad;
Pan gariodd Crist y groes fe gododd seren
Ein gobaith yn ein du ffurfafen.

Fe gariodd Crist y groes! o'i wir ewyllys,
I fyny'r llethrau trwy'r drychinoedd echrus
Gwneud ffordd i phoenau ereill oedd Ei amcan
Wrth fyned dan y poen a'r gwarth Ei hunan;
Gwneudllwybr newydd rhwng y byd a'r nefoedd
I ddynion ymbalfalent yn y niwloedd;
Ffordd "fywiol" ydyw hon i ddringo i fyny
Gysegrwyd gyda bywyd sanctaidd Iesu.
Dylanwad cario'r groes anadla fywyd
I'r byd i ddringo rhiwiau serthion adfyd;
Y ffordd lle mae'r fforddolion drwy yr oesau
Yn derbyn Dwyfol nerth i gario'u croesau.

Mae tannau aur gorfoledd o hyd mewn llawer bron
Wrth edrych dros yr oesau ar yr olygfa hon;
Holl adsain y gerwindeb a gollwyd yn y gwaed,
A blodau gras a chariad brydferthant ol Ei draed;
(x098) A chario'r groes rôdd obaith i'r enaid brwnt dihedd,
Am wlad lle nad oes croesau, a byd lle nad oes bedd.
Bydd sôn am Grist yn cario y groes yn y nef wên,
Er hynny, gorfoleddu a diolch fydd yn ben;
Bydd bywyd a llawenydd am byth yn cuddio'r loes,

Anthemau llon adseinir am Grist yn yn cario'r groes.

(3) CYRRION PELLAF CARIAD.

Cariad sydd yn disgyn obry,
I'r ddaeargell dywell, oer,
Lle na fu erioed yn gwenu
Belydr haul, na llewyrch lloer;
Egyr ddorau y carcharau,
Daw i'r nos a seren ddydd;
Rhed ei hunan i gadwynau,
I gael alltud tlawd yn rhydd.

Chwilio'r fynwent am ei chalon
Y bu geneth welw'i gwedd;
ac ynghanol nos trallodion,
Curai haem ddôr y bedd
Gyda gwawr y bore wedyn,
Clywodd draw gynhefin lef
Croesodd hithau dros y terfyn
At ei chalon yn y nef.

Yn ei wynder a'i dosturi,
Gwelaf gariad dan ei groes;
Ac yn marw'n ddistaw arni,
Heb frycheuyn ar el oes;
O'r tywyllwch clywaf riddfan
Cariad pur o Ddwyfol bryd,
Dan ei glwy'n dibrisio'i hunan
I waredu euog fyd.

(x099)

(4) DAGRAU'R EDIFEIRIOL.

Bendithiol ddagrau bywyd
O eigion calon dyn,
Yw'r dagrau edifeiriol dwys,
Dan wenau Duw ei hun;
Mor lân, mor bur ddisgynnant
Ar flodau newydd stâd,
A'r gwlyth nefolaidd, sanctaidd, sy'n
Eneinio'r nefol wlad.

Nid dagrau yr amddifad,
Na'r weddw lwyd ei gwedd,
Fydd yn y glyn yn rhoi ei phwys
Ar garreg oer y bedd
Na, dagrau calon lawen
Yn curo dan y fron,
Gan bwysu'n ffyddiog ar y Graig,
Sy'n torri mân pob tòn.

O! ddagrau cyfareddol,
Felysed ydynt hwy,
Yn dod â holl gysuron nef
I'r truan dan ei glwy;
Yn tarddu o'r tragwyddol,
Gan furmur ar eu taith,
Fod ysbryd dyn gan Ysbryd Duw,
Dan y sancteiddiol waith.

Defnynau'n sisial ganu
Alawon gwlad yr hedd,
I lonni y pechadur dan
Gysgodau du y bedd;
Ac yntau yn ymboeni
Wrth eilio'r hapus gân,
A'r adlais hêd i fyny'n syth,

Nes rhoddi'r nef ar dân.

(x100)

Disgynna dagrau anian
Yn loewon gyda'r nos;
A chyfyd cnwd o flodau'n fyw
Ar ol y gawod dlos;
Daw haul y bore heibio
Yn ysgafn ar ei droed;
Mor llon ac iach, mor hardd ei wedd,
A'r bore cynta 'rioed.

Ond dagrau'r edifeiriol,
Rhagorach yw y rhain;
Datguddiant fywyd mwy ei werth,
A bywyd bery'n gain;
Er dued camwedd Eden
Yn hanes marwol ddyd,
Mae'r dagrau'n brawf y daw yn ol
Mor lân a Duw ei hun.

Nid dagrau y colledig
Ar fin y byd a ddaw,
Yn suddo dros y penrhyn pell,
I blith ysbrydion braw;
Ond dagrau calon newydd,
Yn dysgu newydd gân;
A bw' a hedd cyfamod Duw
O fewn y gawod lân.

Ymgryma'r gwael bechadur
O flaen gorseddfainc lôr;
A thonnau ei euogrwydd du
Yn chwyddo fel y môr;
Ond dagrau edifeirwch
Ddisgynnant dros ei rudd;
A thros y llif y cenfydd borth
I'w enaid fynd yn rhydd.

Ac yn y fynwes honno
Sydd gan y dagrau'n îr,
(x101) Y planwyd hedyn byth a dŷ f
O fewn y nefol dir;
Ac yno bydd yn fuan
Yng ngardd y sanctaidd fyd;
A llawenychir calon Duw
Gan swyn ei nefol bryd.

O! ddagrau gwerthfawrocaf,
Yn ffordd y palmwydd gwyrdd;
M welaf yn eich gloew lif
I ddyd gysuron fyrdd;
A chwyddo yn afonydd
Wnewch ar eich taith ddi-lyth,
Nes glanio'r Cristion yn wlad
Na welir deigryn byth.

(5) GWRAIG Y MEDDWYN.

Dwfn wae, a'r duaf newyn, - yw rhyfedd
Brofiad gwraig y meddwyn;
A chysgodau gloesau'r glyn
Hyd elor yn ei dilyn.

I'w distaw gylch o dostur, - daw y gŵr,
Wedi gwario'i lafur;
Ni cha hon ond poen a chur,

Ac eisiau yn lle cysur.

(x102)

(6) Y CRISTION YN Y GLYN
Ar ben ei thaith mae'm heinioes frau,
Gadewch im' groesi bellach,
Curiadau'm calon sy'n gwanhau,
Fu'm cam erioed yn fyrrach;
Fy ysbryd ar ei hwyrol daith
Sy'n gweled tragwyddoldeb,
Ac yn dyheu ar lân y traeth,
Am froydd anfarwoldeb.

'Rwy'n teimlo niwloedd hwyr y dydd,
Wrth nesu at yr afon;
A threiddio trwy fy mynwes brudd
Mae iasau cwsg y meirwon;
Ond ha! mi glywaf dyner lef
Trwy niwl y glyn yn chwyddo,
Yn dweud fod telyn yn y nef
I mi 'rol cyrraedd yno.

Llawenydd bywyd yno fydd
Ymhlith y gwaredigion;
A minnau sydd am fynd yn rhydd,
A'u puredd yn fy nghalon;
Ac yna caiff fy llygaid hyn
Weld yr ysplander nefol,
Dau belydr Haul Cyfiawnder gwyn,
O fewn y fro ysbrydol.

'Rwy'n gweld y bryniau 'r ochr draw
Yn codi yn y pellter;
A'r pêr awelon yma ddaw
I chwythu arnai'n dyner;
Mae su adenydd yn y nen,
Ha! engyl sydd yn disgyn;
Mae drws y nef o léd y pen,
Nes yw'n goleuo'r dyffryn.

(x103)

Fy ysbryd sy'n mynd adre'n awr,
I'r wlad a fum yn garu;
Y wlad lle mae llawenydd mawr,
A gwlad fy anwyl Iesu;
'Rwyf wedi esgyn dros y glyn
I fewn i'r nef drigfannau,
I gwmi'r Brawd fu ar y bryn,
Nis gwn pa le mae angau.

(7) DISGWYL GWAWR

Y wawr, y wawr a ddeffry
O'i breuddwyd cyn bo hir,
A diluw o brydferthwch ddaw
I dorri dros y tir
Mae pelydr ar ddisberod
Yn yr eangder draw,
Yn treiddio drwy'r tywyllwch prudd,
I ddweud ei bod gerllaw.

Mynyddoedd yr encilion,
Proffwydi natur fawr,
Sydd yn y cwmwl ar ddihûn
Yn disgwyl am y wawr;
Dring hithau'r uchelderau,
A'i gruddiau fel y rhos,

A baner buddugoliaeth daen
Ar orsedd ddu y nos.

Telynau teulu anian
Garolant oll yn awr;
Ac er melysed cwsg y nos,
Melysach cân y wawr;
Ha! dacw'r haul yn dyfod,
O'r dwyrain pell yn rhydd.;
Mewn gosgordd o gymylau claer,
Mae'n ddydd, mae'n ddydd, mae'n ddydd.

(x104)
(8) Y FYNWENT
Y fynwent brudd, henafol,
Eisteddaf yma'n wân,
I wrando nodau galar dwys
Yn torri ar y lân;
Mae teimlad dwfn y galon
Yn llifo dros y rudd;
A sŵn y gair marwolaeth fel
Ar dannau'r awel rydd;
Hardd wyneb llawer cyfaill
Ymrithia o fy mlaen,
Wrth weled yn y fangre hon
Ei enw ar y maen;
Yr ywen ddu a geidw
Ei chysgod dros y fân;
A su yr awel yn ei brig
Yn fraw i'r fynwes wân;
Gall tyner law celfyddyd
Addurno'i hwyneb hi,
A phlannu coed a blodau pêr
Yn brydferth o bob tu;
Ond er prydferthu'r beddau
A'r blodau mwyaf cun,
'Ddaeth yno neb erioed o'i fodd
I huno'i olaf hun.

O! fangre gysegredig,
Macpela rhwng dau fyd;
Lle gorwedd llwch anfarwol saint,
Yn ddistaw ac yn fud;
I hon y rhoddir gofal
Y farwol ran gerllaw,
Pan fyddo'r enaid wedi ffoi
I draeth y byd a ddaw;
Mae oesoedd yma'n huno
Eu holaf hûn mewn hedd;
Ond nis gall amser ar ei hyd
Ddiwallu gwanc y bedd.

(x105)
Os ydyw angau'n greulon,
Didderbyn wyneb yw;
A chydredd yw teuluoedd byd
Ar dawel "erw Duw;"
Diddymir amgylchiadau
Pan ddêl yr olaf awr;
Yr un gobennydd fydd i'r tlawd
A'r ymherawdwr mawr;
Er fod gorseddfainc angau
Rhwng beddau llwm dilun,
Agorir mynwent yn y man
I gladdu angau'i hun;
Tywynion anfarwoldeb
Sydd ar y fynwent ddu,

A ffordd y nef yn fythol glir
O fedd yr Iesu cu.

(9) EDRYCH YMLAEN.

O Gyfaill! Pam yr ydwyf yn galaru
Ar ol blynyddoedd wedi llwyr ddiflannu?
Paham 'y treuli oriau goreu bywyd
Byth i freuddwydio am fwynhad ieuenctyd?
Pam yr edrychi'n ol mor brudd dy galon,
I ganol drychiolaethau yr encilion?

Ai am fod nwyf dy fywyd yn diffygio?
A rhosliw wrid dy ruddiau yn edwino?
O wirion ffôl! Oferedd iti gwyno,
Yn unig am fod blodau'r haf yn gwywo,
Nid ydyw tlysnï blodau brau marwoldeb
Yn ddim ond cysgod gwan o anfarwoldeb.

Mae purach gwanwyn yn dy aros eto,
O dan rosynau yn tragwyddol wrido
Lle nad yw'r saint yn hongian eu telynau,
Yn dawel fud, ar helyg duon angau;
O gyfaill! Dyro ffarwel i'r gorffennol,
A'th fryd ar fawr gynhaef y dyfodol.

(x106)

(10) Y WYRYF A'R LILI
Lili wên, a wnei di addo
Cadw fy nghyfrinach i?
Pan ddaw'r awel grwydrol heibio,
Paid a dwedyd wrthi hi;
A phan ddelo gwllithog berlyn,
Gyda'i fendith ar dy ben,
Fy nghyfrinach cadw wedyn,
Cofia hynny, lili wên.

Fyth ni roddwn fy nghyfrinach
I'r awelon ar eu hynt;
Onide fe elai 'mhellach,
Dweud y cyfan mae y gwynt;
Ond i ti, y ddistaw lili,
Foneddiges benna'r glyn,
Fy nghyfrinach wyf yn rhoddi,
Rhoi i gadw, cofia hyn.

Dal dy wyneb tyner, cryno,
Yma ger tŷ wyneb i,
Ond rhaid iti gofio eto
Mai cyfrinach ydyw hi;
Wel, yr wyf yn caru rhywun,
Ac, os dwedi mod i'n ffôl,
Minnau ddwedaf fod y rhywun
Hwnnw yn fy ngharu'n ol.

Gwn dy fod di fel y merched
Am ei enw'n awr yn brudd;
Ond fe elli'n hawdd ei weled
Yn y gwrid sydd ar fy ngrudd;
Fe addawodd ddyfod heno
I'm cyfarfod gyda'r nos;
Dacw fe a'i ysgafn osgo,
Ffarwel iti, lili dlos.

(x107)

(11) I CHWI (*Efelychiad*)
Pe meddwn hoew awen
I lunio swynol gin,

A choethder yn ei hacen
A'i barddas oll yn lon,
A bywyd yn ei hedyn
I fynd am oesau lu,
Fel eiddo cân Ap Gwilym,
Fe luniwn honno i chwi.

Pe meddwn law arlunydd
I dynnu darlun hardd,
Mor brydferth a'r blodeuyn
Sy'n gwenu yn yr ardd;
Mor bur a gwawr Mehefin
Yn ei foreuol fri,
Ar nwyfre y gorllewin,
Y darlun fyddech chwi.

Pe medrwn ysgrifennu
Ffugchwedl yn swyn i gyd,
A rhoi y cymeriadau
Yn fyw gerbron y byd
O fewn y rhamant honno
O dan lawryfau bri,
A'i chalon yn ddiwyro'r
Arwres fyddech chwi.

Pe byddwn innau'n arwr,
A byd yn canu'm clôd,
Am wneud gweithredoedd gwrol
I'r oesau sydd yn dod;
Dibrisiwn bob edmygedd
A chlodydd yn ddiri,
Os na chawn yr anrhydedd
O'u gwneud i gyd i chwi.

(x108)

(12) Y GAIR A WNAETHPWYD YN GNAWD
Y Gair dwyfol ymgnawdolodd, - a Duw
Gyda dyn babellodd;
I fyd drwg ei fywyd drodd, - yn Frawd gwyl,
A dedwydd breswyl ei Dad ddibrisiodd.

Cyn bod angel na thelyn
O fewn y nef, gartref gwyn,
Efe oedd yno'n fywyd, -
Haul o fewn y nefol fyd.

Y Gair a alwodd y dengar heuliau
Yn rhengau dirif i'r eangderau-
Creawdwr tirion mudion gomedau,
A'r Hwn a enwodd ein daear ninnau,
Hwnnw a groesodd y ffin, a grasau
Duw Iôr i isel gyfandir eisiau
Anherfynol oer fannau, - unigedd,
A brofodd haeledd ei bur feddyliau.

Dwyfol Berson union oedd,
Yn siarad â'r amseroedd.

Duw mewn cnawd yn dlawd ei lun, - ac o Iôr
Yn gywiraf ddarlun;
A gwarth eneidiau gwrthun
Yn rhoi ei nôd arno'i hun.

Gwyrth fwyaf rhyfeddaf Iôn
I ail eni gelynyon;
Yn ddi-storm mewn newydd stâd, - enaid gwyn,
A gân ei delyn i'r Ymgnawdoliad.

Mnnau, er gorthrwm annwn,
Garaf, a chlodforaf Hwn.

(x109)

(13) BORE SABOTH

O! fore cysegredig,
I lonni'm hysbryd prudd;
Mae peraroglau nef y nef
Yn ei awelon rhydd;
Cysuron tragwyddoldeb
Ddwyg imi yn ei law;
A cheidw'm henaid llesg yn llwyr
Yn sw'n y byd a ddaw.

O! anwyl nefol fore,
Caf fynd i balas lôr
I hedd fwynhau efengyl nef,
Ac uno yn y côr;
Mor felys i fy ysbryd,
Yw sw'n yr hen amen
Sy'n hebrwng gweddi dros y ffin,
At Orsedd Brenin nen.

Pan fyddo gwawr y bore
Yn agor porth y dydd,
Fe egyr drws gofalon byd
I'm gollwng innau'n rhydd;
Mor hyfryd i bererin,
A'i wyneb tua'r nef,
Yw cael diwrnod ar ei hyd
Yn ei gymdeithas Ef.

Anadla'r byd ysbrydol
Yn esmwyth ar y tir;
A su angylion ar eu taith
Sydd yn yr awel bur;
Fy Nuw! 'rwyf yn hiraethu
Am weled nefol wawr,
Y Saboth pur nad yw ei Haul
Yn machlud byth i lawr.

(x110)

(14) DIM OND DISGWYL

Pan fo'th fynwes wedi blino
Dan ofalon trwm y dydd,
A gofidiau'r byd yn pwysu
Ar dy ysbryd llesg a phrudd
Methu dod o hyd i ffynnon
Yn yr anial crasboeth hwn,
Tithau ar y llwybrau geirwon
Bron yn marw dan dy bwn, -
Dal i sisial mae amynedd -
Bore gwllithog dyrr o'r diwedd;
Mae dy yrfa i dangnefedd,
Dim ond disgwyl.

Galon drist o dan ofidiau,
Paid a grwgnach ar dy daith
Claer belydrau'r nef yn chwareu
Welaf yn dy ddeigrin llaith;
Dim ond disgwyl, enaid olwyfus,
Wrth y groes, o ddydd i ddydd
Gwylio ar dy rawd flinderus
Heddyw mae angylion ffydd.
Sisial, sisial mae amynedd -
Bore gwllithog dyrr o'r diwedd;

Mae dy yrfa i dangnefedd,
Dim ond disgwyl.

Dim ond disgwyl, os yw Satan
Yn dy rwystro i fynd ymlaen;
Ac os daw ei luoedd allan,
Fel cymylau'r nos ar daen
Dim ond disgwyl llaw dy Geidwad,
All dy arwain drwy y glyn
Cofia am y dwyfol gariad
Dorrodd ar Galfaria fryn.
Dim ond disgwyl, medd amynedd,
Bore gwllithog dyrr o'r diwedd;
Mae dy yrfa i dangnefedd
Dim ond disgwyl.

(x111)

(15) RHYDDID

Canai yr ehedydd tirion
Yn y nef uwchben y bryn
A melodedd ei acenion
Yn mawrhan y bore gwyn;
Pan ddisgynnodd ar y ddaear,
Daliwyd ef mewn rhwyd yn gaeth;
Ac o fewn ei gyfyng garchar,
Collwyd cân y cerddor ffraeth.

Yn y meddwl mae yr awen,
Yn y galon mae y gân
Yno canant yn eu helfen,
Nes rhoi'r byd a'r nef ar dân
Pan gyfynga'r bardd feddyliau
Yng nghorfannau culion iaith,
Mudion yw'r pereiddiaf seiniau
Yng nghadwyni odlau caeth.

Curant eu hadenydd tyner
Fel yr hedydd yn ei gell;
A distawa'r miwsig seinber
Fyth os na cheir ryddid gwell;
Rhyddid ydyw cais meddyliau
Yn eangder calon dyn;
Fel yr hedydd yn y borau,
Pan yn pyncio wrtho'i hun.

(x112)

(16) I GOFIO AM DANAF FI

Nid oedd ond tri diwmod
Cyn dydd priodas Ann,
I selio ei chyfamod pur
A modrwy yn y Llan;
Ond gyda'r cyfnos tawel,
Aeth gyda'i hanwyl un
I bleser-fâd oedd ar y traeth,
A'r môr mewn esmwyth hûn.

Nid oedd un donn i'w gweled
O gylch y dawl lan;
Ond tonin o wrid ar fôch y fûn,
Pan sonid am y Llan;
Ond O! mae siom yn llechu
Ym mynwes oer y donn
A than ei gwên risialog hi
Mae saeth i lawer bron.

Ar ol eu denu i hwylio
Ymhell i'w pleser daith,

I'r golwg ar y dyfnder mawr
Daeth brad y tonnau llaith;
Cynhyrfodd eu tymherau,
Ac uchel oedd eu nâd;
A'u llid a dorrai'n ewyn gwyn
Ar ben y pleser fâd.

(x113)

Pan oedd eu nerth yn pallu
Ar frig y dyfnder oer,
Cyrhaeddwyd hwn gan forwr dewr
Yng ngoleu gwan y lloer;
Fe nofiodd tuag atynt,
I achub bywyd un;
A throdd yn ol i'i gadarn fraich
Yn cynnal pen y fûn.

Ni choflodd y cariadlanc,
Ym merw gwyllt y donn,
Y blodyn hardd a wisgodd hi
Cyn cychwyn, ar ei fron
Fe daflodd iddi'r blodyn,
A dyma'i olaf grl, -
"Ffarwel, f'anwylyd, cadw hwn
I gofio am danaf fi."

Cyrhaeddodd hithau'r glannau,
O afael llid y donn;
Ac O! ni roddai'r byd yn grwn
Am flodyn olaf John;
Fe'i cadwodd yn ddi-lygredd,
A'i ddail eneiiodd hi;
A cheidw'n fyw y frawddeg brudd, -
"I gofio am danaf fi."

(x114)

(17) "NID YFWN UN DYFERYN"
Aeth heibio lawer blwyddyn faith,
Ar daith dros fryniau Cymru,
Er pan aeth John a'i anwyl Wen
Yn llawen i briodi;
'Roedd Gwen yn eneth hawddgar, lon,
A John yn fachgen glanbryd,
Ac wedi cadw 'mhell eu dau
Rhag tentasiynau bywyd.

O fewn aur gylch y fodrwy gron
Cawn John a'i anwyl Wenno,
Yn ŵr a gwraig yn hardd eu gwedd,
A thonnau 'u hedd yn chwyddo
Diwydrwydd a darbodaeth sydd
Bob dydd o fewn y teulu,
A phob cysuron dan y nen
Ar John a Gwen yn gwenu.

Ond O! fe ddenwyd John ryw dro
I uno yn y dafarn,
A llawenhau wnaeth Bacchus fawr
Pan dorrodd lawr y cadarn;
O radd i radd, o ris i ris,
Yn is yr aeth 'rol hynny,
A'i wraig a'i blant mewn eisieu bwyd,
Mewn bwthyn llwyd a thlodi.

I fedd y meddwyn syrthiodd John,
A chalon Gwen a dorrrwyd,
A'r plant, heb dad na mam yn hwy,

I dloty'r plwy' ddanfonwyd;
O gwyliwn rhag y cwpan cās,
A diras lwybrau'r meddwyn,
A chaned pawb y byrdwn hwn, -
"NID YFWN UN DYFERYN."

(x115)

(18) Y TWYLLWR

Ar risiau palas ar ryw noson ddu,
Mewn llwm gadachau, rhoddwyd baban cu,
Gan law grynedig mam, - y fam dwylledig, -
Oedd bron gwallgofi gyda bron ddrylliedig;
Ac wedi rhoddi'r tamaid olaf iddo,
Cyn rhoddi'r cusan olaf wrth ffarwelio,
Gadawodd ef, a chalon drom a phrudd,
A deigrin ola'i chariad ar ei grudd
Cyn rhoddi llam dros ael ofnadwy'r dibyn,
Yn aberth byw i nwyd twyllodrus adyn.
Ddyhiryn brwnt! beth bynnag yw dy enw,
Tydi a haeddodd fedd y dibyn hwnnw.
Ple bynnag wyt yn byw, beth yw dy safle?
Dylaset fod yn amlwg iawn yn rhywle,
Ac ar dy dalcen enw llofrudd erchyll,
I'r byd dy nabod mwy fel halog ellyll;
Cyfuniad wyt o ddiafl a bwystfil rheibus,
Yn cuddio dichell dan dy wên dwyllodrus
Mae mwy o dduwch pechod ar dy galon,
A mwy o dawch y fall ar dy freuddwydion
Nag un dyhiryn arall ar lithrigfa
Ofnadwy pechod i'r trueni dyfna'.
Tydi, anghenfil, creulon, di-gydwylbod,
Fe dyrr dy gamwedd ar dy ben yn gawod;
Cyfiawnder saff yn llidiog uwch dy warthrudd,
A'i gledd yn ysu am drywanu llofradd;
O Gymru gu! yn lân bo'th ddeuddeg sir,
Pan na bo twyllwr aflan ar dy dir.

(x116)

(19) PAN ÊL Y RHYFEL HEIBIO

"Pan êl y rhyfel heibio,"
Medd milwr yn y gâd,
"Caf weld fy anwyl Wenno
Rhwyng brynau Cymru fâd;
Mae gwawr ei chariad tirion,
Dros frigwyn donnau lu,
Yn oleu ar fy nghalon,
Yng ngwlad y Zulu du."

"Pan êl y rhyfel heibio,"
Medd gwryf ysgafn droed,
"Caf weled Arthur eto
Mor llawen ag erioed;
Cawn rodio yr hen lwybrau
Dan dderw cefn y ddôl;
A gloewi addunedau
Pan ddychwel ef yn ol."

"Pan êl y rhyfel heibio,
Dof adref dros y lli;
A chaiff y fodrwy selio
Ein hen gyfamod ni!
Pan gysgaf yma'n welw,
Dan dyner wlith y nen,
Mae breuddwyd yn fy nghadw
O hyd yng nghwmni Gwen."

"Pan êl y rhyfel heibio,

T'yrdd, Arthur, dros y donn;
Mi wasgaf nes it' lanio,
Dy lythyr at fy mron;
Fe bery dy serchiadau
Yn loewach na dy gledd;
A ffyddlon fyddaf innau
I Arthur hyd fy medd.”

(x117)

(20) Y BABAN, GWYN EI FYD

Disgynnai'r cennlysg ar y to,
A rhuai'r gwynt yn nhwll y clo;
A'r fam yn eistedd wrth y tân
Yn hwian cwsg i'w baban glân;
A d'wedai cariad uwch y cryd, -
Mae'r baban bach yn wyn ei fyd.

Hi wyliai'n ffyddlon uwch ei ben,
Gan ddyfal wnio'i wisg fach, wên;
A gwelai 'mlaen i'w mebyn cu
Flodeuog haf, heb gwmwl du;
A chanai serch wrth siglo'r cryd,
Mae'r baban bach yn wyn ei fyd.

I fewn y daeth ystorom gref,
Ac yn ei amdo gwelwyd ef;
A gwelwyd gweddwr fam ddi-hedd
Yn torri 'i chalon ar y bedd;
Ond er mai gwâg yw'r cynnes gryd,
Mae'r baban bach yn wyn ei fyd.

I fynwes Iesu dros y glyn
Ehedeg wnaeth, anwylyd gwyn;
Ymhlith angylion gwisgwyd ef
Yn aaddurniadau goreu'r nef
A dywed llais o arall fyd, -
Mae'r baban bach yn wyn o hyd.

(x118)

(21) LLYNNOEDD BANNAU MYRDDIN

Esgynnwn dros y gorwel,
I ben y Mynydd Du,
I wrando'r llynnoedd tawel
Yn sôn am Gymru fu;
Ymhell o dwrf y trefi,
O gyrraedd tawch y glyn,
Lle mae'r awelon melys
Yn canu yn soniarus,
Y ceir y llynnoedd hyn.

Rhaid dringo llethrau'r mynydd,
Drwy ganol grug a mawn;
A theithio dros y creigydd,
Yn uchel, uchel iawn,
Cyn cyrraedd min y llynnoedd,
Sydd ar y bannau mud;
Fel pe yn gwyl ymguddio
O wydd y byd a'i gyffro,
Mewn cyfareddol hud.

'Nol dringo dros ysgwyddau
Clogwyni, haen ar haen,
A theimlo fod y bannau
Fel pe yn ffoi o'n blaen,
Y golygfeydd rhamantus
Ymledant o bob tu;
A'r blinder dry yn ganu,

A'r cwyno'n orfoleddu,
Ar ben y Mynydd Du.

Mor hyfryd ydyw sefyll
Yn ymyl y Llyn Bach,
Sydd rhwng y creigiau erchyll
Yn byw mewn awel iach;
Y galon sydd yn suddo
I bêr-lewygol stâd;
Fel pe bai'r llenn yn codi
Oddiar y sanctaidd dlynsi,
A dŷ f mewn nefol wlad.

(x119)
O! olygfeydd arddunol,
Mi garwn yma fyw,
Lle mae y byd naturiol
I gyd yn llawn o Dduw;
Daw llawer cwmwl heibio
I'r llyn, i weld ei lun
Ac uwch y donn ddilychwin
Yr oeda fel pererin,
Yn falch o hono'i hun.

Mae yno ddifyr chwedlau
Yn byw y dyddiau hyn,
A ddysgwyd gan y tadau, -
Bugeiliaid glân y llyn;
Yng ngwlad y Mabinogion,
Fel yn y dyddiau fu,
Fe gofir drwy yr oesoedd
Am "Ladi Wen" y llynnoedd,
Ar ben y Mynydd Du.

Dilynwn gefn y mynydd
I olwg y Llyn Mawr,
A dderbyn ar ei ddeurudd
Gusanau cynta'r wawr;
Yn ymyl porth y nefoedd,
Dan nawdd y clogwyn draw,
Wrth gysgu a breuddwydio,
Ei lygad sydd yn gwyllo
Y bychan lyn islaw.

Pwy edrydd y cyfrinion
A geidw yn ei fron?
A phwy a egyr gloion
Rhamantau cudd y donn?
Pa bryd y naddwyd gwely
I'r llyn tryloew 'i wawr?
Ai gwir y traddodiadau
Fod dinas dan y tonnau,
Ar ben y mynydd mawr?

(x120)
(22) LLYN BETHESDA
O! ddyfroedd pur, grisialaid,
O! gysegredig lyn;
Breuddwydia'r awen ar ddihûn
Ar lan y dyfroedd hyn;
O'i gwmpas bu angylion
Yn oedi ddyddiau gynt;
A braidd na chlywir eto sŵn
Eu hesgyll yn y gwynt.

Yn ymyl Porth y Defaid,
Ar gyrrau Salem draw,

Cynheswyd calon oer y llyn
Gan wres y byd a ddaw;
Mewn blinder a phryderon,
A disgwyliadau syn,
Eisteddodd llawer claf yn hir
Ar lan Bethesda lyn.

Ysbyty anffaeledig
Y nefoedd yn y dref;
Ac yno yn feddygon bu
Angylion glân y nef;
Awelon tragwyddoldeb
Gynhyrfai ddŵr y llyn,
A'r cloff a lamai'n ol i'w dŷ
Heb gofio am ei ffyn.

Nid oedd y llyn ond cysgod
I'r efrydd yn ei boen,
O'r dyfroedd sydd yn tarddu'n bur
O orsedd Duw a'r Oen;
Glân ddyfroedd iachawdwriaeth,
Eigionau'n ras i gyd;
Yn rhoddi bywyd a glanhad
I wahangleiflon byd.

(x121)

(23) CAMWEDD

Andwyodd Camwedd ein hetifeddiaeth -
I'w lliwgar degwch daeth llygredigaeth;
Y Ddelw ddwyfol gollodd dynoliaeth,
A chynnar gwyrrodd o'i chain ragoriaeth;
Dyrwygwydd holl diriogaeth - bro Eden,
A swyn ei heulwen a droes yn alaeth.

Ei natur ddrwg ddwg i ddyn
Arw ddolur i'w ddilyn
A barn Duw a bery'n dân
Enynwyllt yn el anian;
Cymylau pechodau chwith - ga'i nennau,
A'u taran-folltau i'w gartre'n felltith.

Ar ystryw mae'n byw a bod, - hau niwed
I gynhauaf pechod;
Llidiog, ammwyl, digymod-ydyw dyn,
I'w lôr yn elyn, yn grin i'w waelod.

Ar wag dŷ yr euog dwl,
Ceir Camwedd yn creu cwmwl.

(x122)

(24) UDGORN DIRWEST

Ton, - "Marseillaise."

Mae udgom dirwest ar y bryniau
Yn galw'i byddin fawr ynghyd,
I gwrdd â'r gelyn sydd yn angau
I holl rinweddau calon byd,
I holl rinweddau calon byd;
Dynoliaeth sydd mewn gwae a chyni,
O dan hudoliaeth gref y cawr,
A'i blysiâu yn ei suddo i lawr
I ddwfn waradwydd a thrueni
Awn, awn ymlaen yn hyf,
Dan faner wên y groes;
A chroeswn gledd â'r gelyn cryf,
Sy'n difa blodau'r oes.

Mae gwerin gwlad o dan ei chlwyfau,
Clywch gri ei gweddi yn ei gwaed
Prysurwn, chwifiwn ein cleddyfau
Nes cael y gelyn dan ein traed,
Nes cael y gelyn dan ein traed
Cyfeddach sydd yn ymwallgofi,
A'i lluoedd yn cryfhau o hyd,
A meddwdod am feddiannu'r byd,
Mae'n bryd i Seion ymarfogi;
Ni awn, ni awn i'r gâd,
A difrod ar ein cledd;
Gorchfygwn elyn mawr y wlad,
A dawnsiwn ar ei fedd.

(x123)

(25) BEN BOWEN

Ben Bowen gu! mor anwyl gennyf unwaith
Fu cwmni sanctaidd dy wanwynol ymdaith;
Fe dreuliaist lawer noson dan fy nghronglwyd
Cyn bod cymylau'n duo'th hyfryd freuddwyd;
'Rwyf eto fel yn teimlo'th bresenoldeb,
Er iti fynd i wisgo anfarwoldeb;
Mae'th gysgod byth yn aros ar fy annedd,
A'th ddelw ar fy nghalon ddiymgeledd;
A phery cariad yn ei wres diddarfod,
I doddi rhew marwolaeth ar dy feddrod.

'Rwy'n cofio y tro cyntaf dros fy nôr
Yr aethost ti, a'th fron mor ddwfn a'r môr
O gariad, ac mor llawn a'r nef ei hun
O ser i loewi llwybrau ambell noson flin;
Do, gwelais dy hawddgarwch yn pruddhau,
A'th lygaid bywiog disglair yn llesghau;
A thithau'n brysio i orffen dy waith mawr,
I Gymru, cyn i'th huan fynd i lawr;
Anodd oedd peidio'th garu di, fy mrawd,
A'th enaid mawr rhwng teneu lèn o gnawd;
Dy ysbryd oedd dynered a'r blodeuyn,
Ac eto'n gryf lle byddai'r nef yn gofyn.

Eisteddwn yng nghysgodau moel Cadwgan,
I'w weld ym more'i ddydd yn torri allan;
Emynnau ac alawon goreu Cymru
A glywodd yn awyrgylch fwyn y teulu
Disgynnai gwllith adnodau ar ei galon,
Ac allor gweddi fynnai ei freuddwydion
Do, ar yr aelwyd pan yn dechreu byw,
Fe deimlodd bethau goreu Beibl Duw;
Bryd hynny hauwyd hedyn y dylanwad
Flodeuodd wedyn yn ei hardd gymeriad;
Ond cafodd weled mam yn tawel huno,
Cyn gweld yr hâd a hauodd yn blodeuo.

(x124)

Fachgennyn hardd; un o wroniaid ffydd,
A wisgodd arfau Duw ym more'i ddydd;
A sylweddolodd mai trwy ddiodefïadau
Y tynnir allan fywyd ar ei oreu;
Athrylith danllyd, a chymeriad hawddgar,
Grasusau'r nefoedd, a rhinweddau'r ddaear,
Gyfunwyd yn ei fywyd pur di-nifwl,
Fel lliwiau hardd y bwa yn y cwmwl.

Yr anwyl Ben! hoff blentyn y deffroad,
Hawdd canu odlau pêr i'r fath gymeriad
Un oedd gynefin â rhodfeydd angylion,
Un a ddeonglodd lawer o'u cyfrinion;

Bydd hanes rhyfedd ei athrylith danbaid
Fel llewyrch haul yn hir ar lawer enaid.

Son am Ladmerydd ieuanc Moel Cadwgan,
A bery lawer oes drwy Gymra gyfan;
Fe garodd Gymru, carodd hithau Ben,
A gwasga'i ddarlun at ei mynwes wèn
Y bardd awenbêr fu yn casglu blodau
Ar gyfandiroedd sanctaidd drychfeddyliau
Ei awen grwydrai ar "dragwyddol heol,"
Dros lawer penrhyn i ardaloedd dwyfol;
Anadlai'n gryf lle mae awenau dewrion
Yn troi yn ol, a blinder ar eu calon;
Ond nerth ei dalent, a'i alluoedd byw,
A ddarostyngodd i Efengyl Duw;
Sedd proffwyd gras oedd pinacl ucha'i fwriad,
A dal yr Iesu mawr i fyd yn Geidwad.

Pan allan yn y "Penrhyn" pell, hiraethu
Yr oedd ei galon fawr am bulpud Cymru
Aeth yno'n llesg, a phryder yn ei gôl,
Ac angeu du yn erlid ar ei ol;
I'w wlad ei hun y cafodd genadwri,
A'i galon am ei dweud o hyd yn llosgi
Addewid fawr oedd ei athrylith olau
I bulpud cysegredig gwlad ei dadau.

(x125)

Yn fore iawn, bu'n ymladd âg amheumon,
A llawer saeth anelwyd at ei galon;
Ysbrydion cyfeiliornad yn fyddinoedd
Fu'n gwarchae arno wrth allorau'r nefoedd;
Ond er gwaradwydd, a chyfrwysdra'r ddraig,
Fe safodd Ben yn gadarn ar y Graig;
Gorchfygodd, gwelodd yr amheumon penrhydd
Yn marw yn ddi-nawdd wrth droed y Mynydd.

'Roedd Peniel yn gynefin iddo ef,
Ac yno cerddai'n aml i wydd y nef
Ac yn unigwydd dwfn y ddistaw fro,
Cyfarfu âg angylion lawer tro;
Nosweithiau yno dreuliodd yn y nudd,
Nes torrai gwawr y nef, a gwawr y dydd;
I ben y "Mynydd" cyrchodd lawer gwaith
Am adnewyddol ras i ddal y daith;
A deuai'n ol a'i fron yn llawn o hedd,
A thangnef sanctaidd yn disgleirio'i wedd.
Hawdd iawn oedd gweled ar ei welw wyneb
Dywynion haul di-fachlud tragwyddoldeb.

Mewn brwydr bu âg angeu drwy ei oes,
Ar fôr tymhestlog, yn y gwyntoedd croes;
A noethodd gleddyf dros ei egwyddorion,
Yn rhosydd Moab ac yn swm yr afon;
Gollyngwyd ato lawer picell danllyd,
Pan oedd cysgodau'r beddrod ar ei ysbryd
Ond gwel y byd, er lladd proffwydi Duw,
Fod y Gwirionedd gwyn o hyd yn fyw.
Pan dorrai'r ddrycin drymaf ar ei ben,
Addfwyned ydoedd a cholomen wèn;
Ni thorodd dros ei wefus eiriau cabledd,
Ac ni ddaeth tonn o ddial dros ei buredd;
Fe welodd wâg ar wyneb llawer un,
Am iddo feiddio meddwl drosto'i hun
Ond unplyg oedd, a'i ysbryd yn ddi-falais,
A'i arwydd air oedd, - "Credais, a lleferais."

(x126)

Ymchwilgar ydoedd am wirionedd gwyn,
Ac wedi'i gael, fe safai drosto'n dynn,
A chariai hwnnw'n obaith byw i'w wlad,
Heb ofni rhagfarn, dichell, na sarhad;
Craff oedd ei drem i weled newydd syniad,
Gan roi ei ddelw'i hun ar bob canfyddiad;
A deuai profiad o'r gwelediad clir
A Ben yn gawr i athronyddu'r gwir.

Pregethwr, bardd, athronydd, ei aml ddoniau
A'i gwnaeth yn eilun anwyl wlad ei dadau;
Eithriadol ddysg a dawn oedd llydan seiliau
Yr adeiladwaith a ddinystriodd angau;
Ieuengaf fardd fy ngwlad, enillaist di
Goronau cynnar, a llawryfau bri;
A bydd dy gân mewn adgof yma'n hir,
Yn creu cân newydd arall yn y tir;
Os na enillaist goron Gwyl dy wlad,
Enillaist serch a chalon Cymru fflid.

Bardd blaen dywynion y Deffroad mawr,
A'i dlws feddyliau fel cymylau'r wawr;
Llawenydd dyfnaf calon wedi'i thanio
Oedd gweld ei wlad o'i breuddwyd yn dihuono;
Fe glywai sŵn telynu gyda'r dydd
Yn canu'n bêr ar fryniau Cymru Fydd;
Cerddorol oedd ei feddwl, fel y chwa,
Sy'n canu cerdd ar dannau y d yr ha;
Fe ganai fywyd cenedl, nes i'r gân
Droi'n fywyd newydd ac yn wladgar dân.

Nid ofnai'r bedd; er hynny carai fyw
I godi'r faner dros ei wlad a'i Dduw;
A thrist ei weled o dan faich cystuddiau
Yn diano dros y donn rhag dymod angau;
Draw, draw, i Affrig o dymherus hin,
Lle nad yw'r haf yn ofni gaeaf blin;

(x127)

Lle nad yw'r blodau byth yn blino tyfu,
Lle nad yw'r helyg ir yn gomedd glasu;
Ymhell o'i wlad, yn canu ac yn wylo,
Fel c'lomen unig yn yr allt yn cwyno
Clwyfedig ydoedd, ac yn ffoi am noddfa,
A'r gelyn ar ei ol yn gryf ei fwa;
Ei unig gysur oedd ei Dduw a'i awen,
A'i unig freuddwyd oedd ei Gymru lawen
Gweddiau gwlad brysurent ar eu hesgyll
I wyllo'r bardd ar y "Cyfandir tywyll."

Yn ol dychwelodd dros y frigwyn donn,
Fel ëos leddf, a "phigyn dan ei bron;"
Yn ol, a delw angeu yn ei wedd,
Yn ol i Gymru i bwrcasu bedd;
Mor brudd oedd gweld ei haul yn mynd i lawr,
A'r nos yn cau ar yr "Addewid fawr."

Tangnefedd i dy lwch, awenydd pur,
Mae'th ysbryd eto'n aros ar y mur;
A serchus gôf am danat yn y byd,
A sŵn dy delyn yn y wlad o hyd;
Er colli'th wyneb siriol yn y glyn,
Ni thorri beddrod i dy enw gwyn;
Daw tyrfa fawr sydd eto heb ei geni
I dalu teyrnged i'th athrylith heini;
Edmygir cysegredig ddaear hardd

Y proffwyd, yr athronydd dwfn, a'r bardd.

(x128)

(26) ARWAIN FI

Dduw tirion, o'th ddaioni, - i wael wŵr
Dyros law'th dosturi;
A thrwy boen a thrybini,
I'r nef wèn, O! arwain fi.

Euog wyf, ar wallgofi, - yn dy nef
Gwrando'n awr fy ngweddi;
Ac o lidiog galedi,
I'r nef wèn, O! arwain fi.

Claf ydwyf, mae clwyfau Eden, - o'm mewn,
A mawr yw fy angen;
Dedwydd o dan dy aden,
O! arwain fi i'r nef wèn.

Yma wylaf am heulwen, - oleuwawr
I loewi fy wybren;
A thrwy donn yr Iorrdonen,
O! arwain fi i'r nef wèn.

(x129)

(27) MARWOLAETH Y MILWR

Mae'r milwr dewr yn marw,
A'i gleddyf wrth ei glin;
A'i gyd-wroniaid gwelw
O'i gylch yn wyllo'n flin;
Mae gwron cant o frwydrau
A'i fraich yn wan yn awr;
A chleddyf miniog angau
Yn gwro'i ben i lawr.

Mae'n syllu i'r tywyllwch,
Pa beth a genfydd draw?
Ai catrawd o elynion
A chleddyf ymhob llaw?
A yw yn gweled baner
Yn chwifio yn y gwynt,
I arwain y byddinoedd
Ym mrwydrau'r dyddiau gynt?

Beth yw y llais ddaw heibio,
Ym mreuddwyd hwyr y dydd?
Ai twrw y magnelau
Ar glust yr awel sydd?
Neu adsain buddugoliaeth
Yn honni'r dywell nos,
I swyno calon milwr,
Fel cân rhyw ÷os dlos?

O na, nid ydyw heddyw
Yn byw i faes y gâd;
Mae'r brwydrau gwaedlyd iddo
Yn dychryn a phruddhad;
Mae llawryf buddugoliaeth
Y gâd yn syrthio'n wyw
Pan fyddo enaid milwr
Yn nesu at ei Dduw.

(x130)

(28) BRIWSION O DORTHAU BRASACH

Y CHWARELWR.

Dyn a fâl gyndyn foelydd - ydyw hwn,

Yn dihuno creigydd;
Drwy ei gynion.aflonydd, - i'n trefi,
Mae'n gyrru meini o gwrr y mynydd.

Y BANNAU.
Ymwelwyr i'r cymylau, - dyna ynt,
Yn nôr y tarannau;
Uwch niwloedd y cymmoedd cau,
Anibynol yw'r Bannau.

BRYNIAU'R ERYRI.
Bryniau'r Eryri, cewri y cyrrion,
Hen dwyni celyd y mud encilion;
O'r bore clir hyd yr hwyr yn dirion
Y tremia haul ar eu tyrrau moelion;
Arwedd o arddunedd lân, - uwch ceugant,
Yw crog ogoniant y creigiau gwynion.

Y GWYN O EIFION.
Teyrn cân, a'i dân yn creu dydd, - disorod
Seraph mawr Eifionydd;
Meddyliau ei salmau sydd
Yu dal anadl awenydd.

EBEN FARDD.
Eben Fardd, bennaf urddas, - awen hwn
Oedd yn haul cymdeithas;
Un o fyrddiwn, a'i farddas
Yn llawn gwrid perllannau gras.

(x131)
Y MYNYDD.
Y Mynydd, cartre'r mwneu, - tâl ei frig,
Tawel fro'r cymylau;
Ac o fewn ei ogofâu,
Aros mae hen baderau.

TAFOD MENYW.
Miniog yw tafod menyw, - all â'i stwr
Gymhell storm o ddistryw;
Arswydol gecrus ydyw,
A chôd lawn o chwedlau yw.

YR ARAN.
Tw'r unig, balchder anian, - gwylio mae
Drigle mell a tharan;
Ni cholli'r cylch allor cân
Ar ororau yr Aran..

Y RHOSYN.
Diwro deyrn y blodau, - yw'r rhosyn,
Brasaf ei aroglau;
Ar ei sedd heb goegedd gau,
Hud a roddwyd i'w ruddiau.

DYFFRYN TYWI.
Dyffryn Tywi, dy:ffryn tawel, - Saron
Ga Seraph i'w arddel;
Hardd fro i'r ddifyr awel
Ymdroi mwy hyd erwau mêl.

(x132)
NODDFA.
Lle i enaid gael llonydd, - o olwg
Y creulon ddial ddialydd;
Gelyn draw'n ddigalon drydd
Ni ddaw yno ddihoenydd.

PLINLUMON.

Fawreddog drum Phnlummon - oer ei nen,
Bro niwl ac awelon;
Ac o'i frig drwy greigiau'i fron,
Fe dyrr hefyd dair afon.

GLYN CEIRIOG.

Glyn Ceiriog, eilun cariad, - i werin
O lenorol broflad;
Yn hedd y Glyn, magodd gwlad - ein tadau,
Wydnon awenau o dan eneiad.

MORGAN LLWYD.

Doniwyd y Llwyd o Wynedd - â rhuddin
I farweiddio llygredd;
Diwygiwr gwlad goruu'i gledd -
Di gryn o blaid gwirionedd.

Y CWYMP

Suddais dan orthrech pechod, - i dir coll
Drwy y Cwymp a'i ddifrod;
Glynu wrth wâg eilunod – drodd fy hedd
Yn fôr dialedd, yn frad i'w waelod.

(x133)

(29) CÂN YR HENWR

Flwyddi cyn i amser dorri
Rhychiau ar fy ngruddiau glân;
Cyn i henaint ddod i liwio
Gwallt fy mhen fel eira mân;
Deliais ës fechan brydferth,
Ac ni phrisiwn ddim yn gydwertth
A'r un aeth a'm serch yn lin.

Rhoddais honno yn fy mynwes
Er ei diogelu'n gu
Eos oedd a lliwiau'r enfys
Ar ei haden dyner hi;
Pan yn canu yn y carchar,
'Roedd ei pheraidd lais digymmar
Yn gwefreiddio 'nghalon i.

Pan y chwythai'r corwynt gerwin,
Nid oedd hon yn ymbellhau;
Pan y byddai'r mellt yn gwibio -
Cymyl am y byd yn cau,
'Roedd ei nodau yn llawn miwsig,
Fel un arall yn y goedwig,
Heb un blinder i'w phruddhau.

Gwelais newid y tymhorau,
Gwelais wywo blodau'r glyn;
Ac ar fannau uchaf bywyd,
Gwelais wae, a gobaith gwyn;
Ond pan ganai fy aderyn,
'Roedd y byd yn haf neu wanwyn
Trwy'r blynyddoedd dedwydd hyn.

Distaw ac anfoddog heddyw
Wyf yn crwydro wrthf f' hun;
(x134) A'r unigrwydd mwyaf llethol
Sydd yn gwneud fy hwyr yn flin;
Hedodd fy aderyn ymaith,
Dyna'r pam wyf mewn anobaith,
O! fy eos brydferth, gun.

(30) "PAN WELODD EFE Y DDINAS"

Dringai'r Iesu yr Olewydd,
Ar ei ffordd i Salem gynt;
Clywai grechwen y tyrfaoedd
Yn ymdonni yn y gwynt;
Gwelai heirdd binaclau'r ddinas
Yn ymestyn tua'r nef;
Ac fe glywai sŵn daeargryn
Yn dynesu at y dref.

Gwelai'r genedl etholedig
Yno mewn anuwiol stâd;
Ac yn cellwair â drygioni
Dan gysgodion Tŷ ei Dad;
Wylodd ddagrau o dosturi,
Y tosturi puraf gaed,
Dros drueni'r ddinas halog,
Oedd yn gorwedd yn ei gwaed.

Llawer proffwyd gynt a welwyd
Yn ei ddagrau dros y dref
Ond tywelltir drosti heddyw
Ddagrau pur Etifedd nef;
Nid â'n angof gan y mynydd
Gawod serch yr Addfwyn Un;
A sancteiddiach yw'r Olewydd
Wedi dagrau Mab y dyn.

(x135)

(31) YR AWRLAIS

Dacw'r awrlais ar y mur,
Wyneb crwn, a bysedd dur;
Yn ei lais rhybuddion sydd
Drwy y nos a thrwy y dydd;
Tic, tic, tic, yn ddiball,
A'r pendyl yn mynd
O un ochr i'r llall.

Dacw'r awrlais ar y mur,
Heb anghofio'i bregeth bur;
Yn ei neges ar bob llaw,
Clywir sŵn y byd a ddaw;
Tic, tic, tic, yn ddiball,
A'r pendyl yn mynd
O un ochr i'r llall.

Dacw'r awrlais ar y mur,
Tery sain y gloch yn glir
Ffyddlon ydyw yn ei waith, -
Mesur amser ar ei daith
Tic, tic, tic, yn ddiball,
A'r pendyl yn mynd
O un ochr i'r llall.

Dacw'r awrlais ar y mur,
Dywed nad yw'n hoes yn hir;
A phob ergyd rydd o hyd
Dery ddyn i arall fyd;
Tic, tic, tic, yn ddiball,
A'r pendyl yn mynd
O un ochr i'r llall.

Dacw'r awrlais ar y mur,
Dibris yw o boen a chur;
Dwg i gôf y llwybr troed
Na ddaeth neb yn ol erioed;

Tic, tic, tic, yn ddiball,
A'r pendyl yn mynd
O un ochr i'r llall.

(x136)

(32) TOSTURI .

Tosturi: mae ei enw'n dwyn i mi
Adgofion melys am yr hyn a fu;
Pan oedd trueni gyda'i wae'n fy erlid,
Prysuodd hwn i esmwythâu fy ngofid;
Mae'n disgyn ar y ddaear ddu o hyd,
Fel pelydr crwydrol o'r tragwyddol fyd;
Adfywiol ddafn o'r nefoedd ydyw hwn,
Yn llonni bywyd, ac yn cario'i bŵn.

Ymdry ynghanol chwerwedd a chyflafan,
Heb ddafn o chwerwedd ynddo ef ei hunan;
A thry wasgfeuron llym, ac ocheneidiau
Yn ganu pêr yn nyfnder gorthymderau
Pan fyddo cysur wedi cilio draw,
Bydd hwn â chysur arall yn ei law
Yn brysio âg ymwarded i'r adfydus,
Yn obaith ac yn haul i'r fron bryderus
Er dued yw y nos ar lawer meddwl,
Fe geidw hwn ei leufer ar y cwmwl
Fel enfys hardd, nes êl yr aflwydd heibio,
A'i fendith leiaf nid â byth yn angho'.

Dosturi dwyfol, mae'n dragwyddol hen,
A gwrid ieuenctid ar ei sanctaidd wên
Y meddwl cyntaf a anadlodd lôr,
Cyn creu y ser, na "rhoddi deddf i'r môr"
Oedd hwn, yng nghyngor bore Tri yn Un,
A gwelir ynddo galon Duw ei hun ;
Nid yw tosturi, sydd yn wy'n i gyd,
Ond llanw cariad yn gorchuddio'r byd,
I nofio enaid yn ei ol drachefn,
I hafan dawel y faddeuol drefn
A'i gadw byth o'r wlad druenus honno,
Lle nad yw sw'n Tosturi'n tramwy heibio.

(x137)

(33) GWENAU ELEN

Gwelais Elen yn y capel,
Clywais hi yn rhoddi cân;
Ac mi gredais mai rhyw angel
Ydoedd hi o'r Wynfa lân.

Gwelais hi 'r diwrnod wedyn
Oddi draw yn gwenu'n llon
Ac mi deimlais innau'n sydyn
Bigyn serch o dan fy mron.

Yn y gwenu gwelais fywyd,
A chysuron heb ddim rhi';
Dyna'r wên a droes yn wynfyd
Mwy na gwenau'r byd i mi.

Gwên yn clwyfo ac yn gwella,
Ac yn addaw newydd nyth
Peidied neb mewn gwllaw na hindda
Dynnu'r pigyn hwnnw byth.

Cyfnewidiwyd gwenau lawer,
Cc nid ofer ydoedd hyn,
Mwy na gwên pelydryn tyner
Ar friallu cynta'r glyn.

Ar y wên y rhoes fy nghalon,
ac os d'wedwch mod i'n ffôl,
Dwedaf innau fod y fanon
Gyda'i gwenau yn fy nghôl.

(x138)

(36) CLYCHAU'R BRIODAS

Foreuddydd y briodas,
Fe ganai elychau'r plwy
A daeth cyfeillion dorf ynghyd,
A bendith gyda hwy;
Digwmwl oedd y bore,
A'r byd i gyd yn wyn
A chariad yn blodeuo'r ffordd
I'r eglwys ar y bryn.

Mae'r clychau'n canu eto
O fewn y clochdy fry,
Yn gywir fel y canent gynt,
Y dydd priodwyd ni;
Aeth ugain mlynedd heibio,
A newid mae y byd;
Ond drwy helyntion gwynt yr oes,
Dy garu 'rwyf o hyd.

Mae'r elychau eto'n canu,
Daeth deugain mlwydd i ben;
Ac amser yn ei ardd ei hun
Wnaeth iti goron wên;
Dy warr sy'n awr yn crymu
Dan bwys y trigain oed;
Ond O! fy mûn, yr wyt i mi'n
Anwylach nag erioed.

(x139)

(39) DEWCH I'R BÂD

O! Dewch i fewn i'r båd,
A chroeswn dros y llyn;
Dibryder yw'r mwynhad
Yn sŵn y rhwyfau hyn.

Glas yw y wybren lon,
A distaw yw y gwynt;
Cawn symud dros y donn
Fel gwennol ar ei hynt.

O! dewch i fewn i'r båd
I wrando chwedlau'r llyn;
Nid yw y byd a'i frad
Yn blino'r glannau hyn.

Cawn ar y wendon gain
Awelon iach, cytun;
A'r lili heb y drain
O fewn ei stâd ei hun.

Mae pob cerddorol ddawn
Yn taro'r cywair llon;
Ac esmwyth des prydawn
Yn chwareu ar y donn.

O! dewch i fewn i'r båd,
A chroeswn dros y llyn;
Dibryder yw'r mwynhad,

Yn sŵn y rhwyfau hyn.

(x140)

(38) PENTWYNMAWR

Ar ososiad carreg sylfaen "Davies Memorial Hall."

Gwelaf ddail y coed yn glasu
Heddyw yn y gwanwyn mwyn;
Ac mae'r adar eto'n canu
Cerddi bywyd yn y llwyn;
Gwelaf ffrydlif loew'n disgyn
Dros y llechwedd gwyrdd i lawr;
Deffry holl delynau'r flwyddyn
Heddyw gylch y Pentwynmawr.

Clywaf hefyd yn yr awel
Sŵn angylion Gwynfa lân,
Yn Prysuro dros y gorwel
I dŷ newydd mawl a chân:
Y mae Duw yn hoffi syllu
Dros ymylau'r nef i lawr,
I gael gweled achos Iesu'n
Cychwyn ar y Pentwynmawr.

Os bu esgeulusdra'n aros
Oesau gylch y llecyn hwn;
Os bu'r ardal yn yr hirnos
Fel yn griddfan dan ei phwn;
Gyda bywyd gwanwyn natur,
Torrodd arni ddwyfol wawr;
Ac mae gobaith nefol flagur,
Eto ar y Pentwynmawr.

Os yw chwildroadau'n cerdded
Dros dy ddaear, Fynwy gu;
Os yw Islwyn wedi myned,
Duw a erys gyda thi;
Gwelaf law yr anweledig
Heddyw'n amlwg ar dy lawr
Yn yr anrheg gysegredig
Hon a roir i'r Pentwynmawr.

(x141)

Bydded seintiau yma'n tyfu
Dau dywynion gras y nef;
Ac yn aros gyda'r Iesu
Yn un dorf gariadus gref;
Gwyned cymeriadau'n hyfryd,
Megis engyl ar y llawr,
Tra yn dringo ffordd y bywyd
Tua'r nef o'r Pentwynmawr.

Deued y Secina dwyfol
I gysegru'r Neuadd bur,
Ac arosed yn wastadol
Gyda'r gwylwyr ar y mur;
Ar allorau'r pererinion,
Llosged tân o nefol wawr
Salmau'r nef fo yn awelon
Awyr glir y Pentwynmawr.

Ceidw'r neuadd yma'n glodus
Enw un o gewri'n tir;
Cofir Jeremiah Davies
Ar y llecyn hwn yn hir;
Cawn fyfyrion i esboniadau
Yn y babell hon yn awr;

Tra mae'r hen gyfieithydd golau'n
Huno ger y Pentwynmawr.

(x142)

(37) DAFYDD WEDI EI ENEINIO
O'r 'stafell gysegredig Dafydd aeth,
Mor ir a'r rhosyn o dan wlith y nos;
Yr enaint sanctaidd lifai dros ei wisg,
A gweddi'r proffwyd chwyddai yn ei fron
Ei lathraidd wallt o dan yr olew pur
Ddisglaeriai'n danbaid fel llinynau aur,
Ac ynddo gwelai'r huan mawr ei lun
Fel yn y grisial lyn ar foreu teg;
A Duw ei hun a welai'i ddelw bur
Yn araf ffurfio yn ei sanctaidd fron.
Nid oedd yr enaint tywalltiedig hwn
Ond arwydd gwan o enaint Dwyfol rin
Dywalltai'r nefoedd yn ei fynwes ef.
Mor dirf a hoenus gwnai yr olew ef -
O'r braidd y plygai'r glaswellt dan ei draed,
Rhyw wefr-dân byw a deimlai yn ei fron,
Nes dwyn ei feddwl i'i dyfodol draw.

Fe âi y bugail gwridgoch
Yn sioncach ar ei hynt,
I wyllo'r praidd i'r lasfron draw,
A'i galon gurai'n gynt;
Fe godai fel uchedydd
O wlith y bore gwyn,
Gan chware'i gerdd wrth ddrws y nef
Yn burach ar ol hyn.

Clogwyni gwlad Judea
Fu ei athrofa ef,
A dwyn y llanc yn deyrn i'w wlad,
Yn ol bwriadau'r nef;
Y Brenin yn y bugail
Ddatblygai 'mhlith yr wyn,
Ymhell o swm rhwysgfawredd byd
Gwasgarai'i nefol swyn.

(x143) 'Roedd Ysbrydoliaeth anian
Fel llif o Ddwyfol wawr,
Yn torri dan y nefol chwa
Ar draeth ei enaid mawr;
A'i awen yn ymestyn
Dros gaerau arall fyd,
Gan wreiddio yn y nefol wlad
Yng ngwres yr hinsawdd glŷ d.

Pan ddeuai'r llew cyhyrog
I fysg y defaid mwyn,
Neu'r wancus arth yn gyfrwys iawn,
O'i lloches yn y llwyn,
Fe godai yn eu herbryn
Mewn anorchfygol aidd,
Ao yn gelanedd gwnelai ef
Elynion ei holl braidd.

Ac yno ar y glennydd
Wrth wyllo praidd ei dad,
Y dysgodd fod yn filwr dewr
I ymladd brwydrau'i wlad;
Y gofal ffyddlon hwnnw
Oedd yn y bugail llon,
Mewn teyrn llwyddiannus ar ol hyn
A ga'dd y genedl hon.

Pan fyddai'n dwyn y defaid
I ganol porfa fras,
Arweinia'i enaid mawr ei hun
At Dduw, ei air, a'i ras
A Duw yn gwyllo'n ffyddlon
Bob cam a roddai ef,
A charu disgyn gylch ei draed
'R oedd engyl glân y nef.

(x144)

Cynghanedd bêr y delyn
O dan ei fysedd o,
Fel tonnau heddd o arall fyd
A dorrai ar y fro,
Nes oedd y wlad yn nesu
A rhyw foddhaol drem
I wrando'i flwsig peraidd ef
Ar feusydd Bethlehem.

(38) METHU SIARAD

Ar hyd y dyffryn rhodiem,
Yn chwäon iach yr haf;
Dwy galon oedd yn curo,
Dwy fynwes oedd yn glaf;
Fe ganai pob aderyn
Serch garol yn y llwyn;
A minnau'n fud yn methu
Yn lân a dweud fy nghwyn;
Fy nghalon oedd yn llosgi
O gariad at y ferch;
Ond O! rhy wylaidd oeddwn
I ddweud cyfrinion serch.

Di-siarad ydoedd hithau,
A llednais, fel fy hun;
Ond gwyddwn fod distawrwydd
Yn gariad yn y fûn;
'Roedd cariad yn ei llygad,
A chalon yn ei llaw;
A thrydan yn yr awyr
Pan wenai oddi draw;
Pan fyddo geiriau'n pallu,
Ar wefus mab a mûn,
Gall cariad, er yn ddistaw,
Wneud calon dau yn un.

(x145)

(39) BRIG YR HWYR

Mor arddunol ydyw anian
Hwyrddydd haf ar fachlud haul,
Pan na chlywir dim ond hwian
Yr awelon yn y dail;
Croga'r adar eu telynau
Yn yr allt a'r llwyni rhos;
Ond yn effro byddaf finnau
Ar y morfa frig y nos.

Hyfryd rhodio glannau'r afon,
Gyda rhywun frig yr hwyr;
Un a'i gwefus fel y mafon,
Ac yn d'rysu serch yn llwyr;
Er i haul y dydd fachludo
Yn ei borffor dros y bryn,
Haul ar wên yr eneth honno
Dry y nos yn fore gwyn.

Dyma'r eneth wyf yn garu {sic; = charu}
Er y dydd y gwelais hi;
Ac o fewn ei llygad gloewddu,
Gwelaf lun fy nghalon i;
Purdeb glân ef bywyd tirion,
Gwynna, ch yw nag ewyn tonn;
Purdeb gwefus, purdeb calon,
Dyna swyn yr eneth hon.

(40) DYN CYN EI GWYMP :: 145
Dyn yn Eden, wên ydoedd - heb un bai,
Yn bur ei amgylchoedd;
Delw Duw, hudoled oedd,
Yn nwyfol liwiau'r nefoedd.

(x146)
(41) BREUDDWYD Y WEDDW
Eisteddai'r weddw druan
Yn isel yn y pant,
Gan wyllo'i chalon allan
Uwchben ei thyner blant;
Fe welodd ei gobeithion
Fel ser yn ymbellhau,
A thew gymylau duon
O gylch y bwth yn cau.

Y dydd o'r blaen y cerddodd
I'r fynwent yn ddi-hedd,
I roi yr hwn a garodd
I huno yn y bedd;
Ysbeiliwyd ei chysuron,
Fe'u clöwyd bob yr un;
A chadwodd angeu creulon
Yr allwedd iddo'i hun.

Ond yn y storom arw,
Fe goflodd eiriau Duw,
Fod Barnwr mawr y weddw
Yn dal o hyd yn fyw;
Ni chaiff amddifad galon
Ddyrchafu'n brudd ei llef,
Na thorrir ei hanghenion
Gan Dad sydd yn y nef.

Breuddwydiodd, a diangodd
Ei meddwl dros y glyn;
A sŵn telynu glywodd
Mewn byd tragwyddol wyn;
A gwelodd newydd drigfan,
Heb angen o un rhyw,
A'i theulu bach yn gyfan
Yn gwledda gyda Duw.

(x147)
(42) Y GÔF
Diflino o weithiwr diwyd
Yw gôf y pentref bach,
A'i oruchwylion celyd
A geidw'i fron yn iach.

Hen gymwynaswr gwerin,
A theyrn yr eingion yw;
A chanu mae ei fegin
Wrth gadw'r tân yn fyw.

Y gwreichion sydd yn. esgyn
Drwy gorn y simne fawr;

Ac ar y tô yn disgyn
Yn gawod boeth i lawr.

Er dued yw ei bentan,
Er llymed yw ei gôd,
Fe dry drysorau allan
A geidw'n wyn ei glôd.

Prioda hwn sylweddau
Mewn cwlwm ddeil yn hir,
I lynnu fel cariadau,
Yn loewon ac yn glir.

Daw'r march at ddrws yr efail
Ac erys yno'n ddof
A chysur i'r anffail
Yw pedol ddur y gôf.

Trwm yw ei forthwyl cadarn,
Heb ergyd yn gwanhau;
A'i fraich sydd fel ei haearn
O hyd yn ymgryfhau.

(x148) Hwn sydd i droi yn sychau
Y creulon waewffyn;
A thry y dur gleddyfau
I fedd cnwd y glyn.

Wrth guro, curo'n gyson,
A llyfnu gyda graen,
Mae'r byd yn sŵn yr eingion
Yn symud yn ei flaen.

(43) AR FEDD ISLWYN
Daw melys adgoflon, fel awel y dydd,
At feddrod y bardd eneiniedig -,
Ac ysbryd y genedl am oesau a fydd
Yn gwylio ei lwch cysegredig.

Anwyled yw enw y seraff a'r sant,
A ddysgodd y werin i feddwl;
Y pur a'r ysbrydol o hyd oedd ei dant,
A'i wybren a bery'n ddi gwmwl.

Rhy gynnar yw eto i ddweyd faint yw gwerth
Ei dalent i Gymru fynyddig;
Rhy gynnar yw hefyd i ddweyd faint o nerth
Y genedl sydd yma'n glöedig.

Fe roddodd gyfeiriad i awen ei wlad,
I froydd o ddwyfol oleuni;
A chefnodd yn gynnar i fyw ar y stad
Y canodd mor felys am dani.

(x149)
(44) Y "FENYW NEWYDD"
Welsoch chwi y "Fenyw Newydd?"
Glywsoch chwi ei thafod rhydd?
Am y Senedd mae ei hawydd,
I wneud trefn ar bynciau'r dydd;
Mae ei llygaid fel y wawrddydd,
A diwygiad yn ei gwên;
Ac yn ffordd y ddynes newydd,
Nid oes dim yn mynd yn hen.

Er mai bychan yw ei choryn,
Ac nad yw yn llawn i gyd,

Mae ei het i'r wlad yn ddychryn,
Ac yn cuddio hanner byd;
Newydd yw ei thueddiadau,
A'r newydd-deb yn ddi-lun;
Dynes yw yn gwneud ei gorau
I wneud gŵr o honi 'i hun.

Mae yn gwybod pob dirgelion,
Ac yn honni llawer mwy;
Yn ei hymyl mae angylion
Fel cardotwyr ar y plwy';
Dysg ei rhyw pa fodd i bwytho,
A pherffeithio gwisgoedd cun
Er na ddysgodd sut i lunio
Gwisg erioed â'i llaw ei hun.

Ar goginio mae'n awdurdod,
Ac yn dysgu pawb yn hyn;
Er nas gŵyr am rostio pysgod,
Nac am bobî bara gwyn;
Sut y dysgodd hon ei gwersi,
Ac y daeth i gymaint bri,
Nid yw hynny'n perthyn inni, -
Dynes newydd ydyw hi.

(x150)

Synna fod y byd mor annoeth,
Ac mor bell o lwybrau'r ne';
Gallai hi cyn bore drannoeth
Roi cymdeithas yn ei lle;
Dywed wrthym sut i wella
Poenau pen, a dour cefn;
Gŵyr yn well na'r meddyg doetha'
Sut i ddwyn y claf i ddrefn.

Geilw famau i'w cynghori
Am eu plant, a'r modd i'w trin
Sut i'w wisgo, sut i'w porthi,
Er ei bod yn hesp ei hun;
Deil i *ddweyd* wrth bawb am bopeth,
Yn ol fel y byddai'r chwim;
Ond nid yw y fenyw ddifeth
Fyth yn meddwl *gwneuthur* dim.

Dynes wâg a dilywodraeth,
Nas gall neb ei dwyn i drefn;
Ac yn cario'i hetifeddiaeth
Mewn sidanau ar ei chefn;
Bu yn meddwl am briodi,
Methodd gyda dau neu dri;
Peidiwch bod yn galed wrthi,
Dynes newydd ydyw hi.

(x151)

(45) Y CAETH YN RHYDD

Eisteddai caethwas mewn caethiwed trist,
A sŵn griddfannau'n torri ar ei glust;
Y creulon feistr â'i fflangell yn ei drin,
A chabledd du yn disgyn dros ei fin;
Ond henffych Ryddid, daeth a bore ddydd,
I chwalu'r nos, a gwneud y caeth yn rhydd;
Fe glywodd gri y truan yn ei waed,
A gwelodd hawliau bywyd o dan draed;
Ni chrewyd dyn i'w gadw mewn cadwyni,
A chreulon dâl am lafur yw trueni.

Fendigaid Ryddid; ar diriogaeth angau,
Mae'n llosgi'r fflangell, ac yn gwella'r briwiau;
Lladmerydd cariad o dynerwch calon,
I ddyn yn hawlio rhyddid yr awelon;
Prysuorodd heibio megis angel cu,
A gwardigaeth lawn i'r caethwas du;
Ar ddaear newydd mae ei draed yn sefyll,
A dagrau melys ar ei raddiau tywyll;
Mae'n rhydd! Yn rhydd o'i orthrynderau chwerwon,
Dynoliaeth mewn caethiwed yn y cyfflon
I fedi bywyd yn ei holl fwynhad;
Ymlawenha dan wybren ddigymylau,
A heulwen rhyddid ar ei dwyfol hawliau.

Y *du* a'r *gwyn* mewn cariad a gymodwyd;
Canolfur y gwahaniaeth a ddiidymwyd;
Yr hen elyniaeth anghymodlawn dderfydd,
A'r blaidd a'r oen a drigant gyda'i gilydd;
Daw'r llwythau 'nghyd heb brofi llid na soriant,
Olygfa hardd! ardiriogaethau rhyddid,
Yn gysgod byw o'r nef sydd mewn addewid.

(x152)

(46) Y NADOLIG

Os ydyw yr haf wedi cefnu,
Os trethwyd y dydd gan y nos,
Os collodd yr allt ei gwyrddlesni,
Os gwywodd y lili a'r rhos;
Addfedodd y grawn ar y celyn,
I ddisgwyl Nadolig i'r coed;
A chlywir carolau y delyn
Yn canu mor bêr ag erioed.

Os ydyw y gaeaf yn arw,
A'r eira yn drwch ar y ffyrdd,
Mae'r eiddew yn las ar y derw,
A dail yr uchelwydd yn wyrdd;
Er chwerwed a llymed yr oerni,
A chlychau o rew ar y gwyrdd,
Y galon oludog sy'n toddi
I gofio y tlawd am y dydd.

Er nad yw y mwyalch yn canu,
A'r eos o'r llwyn wedi ffoi,
Melysach yw ymgom y teulu
Sy' cwmpas y bwrdd yn crynhoi
Anwyliaid yn hir a wasgarwyd,
Gan bwya a gofalon y byd,
Nadolig yn ol i'r hen aelwyd
A'u geilw yn gryno ynghyd.

Ar fore y dydd tua Bethlem,
Yn fawl a llawenydd i gyd,
Yr enaid yn ol ddyry gipdrem
I breseb Gwardwr y byd;
Ei glodydd a ganwyd yn gynnar,
A hygryw o hyd yw y llef;
"Tangnefedd i ddyn ar y ddaear,
Gogoniant i Dduw yn y nef."

(x153)

(47) YR EHEDYDD

Per delynor pen y mynydd
Ydwyt ti, ehedydd bach,
Yn dihuo, gyda'r wawrddydd,
Ac yn byw mewn awyr iach;
Pan yn esgyn i'r cymylau,

Ac yn canu, canu'n rhydd,
Wyt ti'n derbyn drychfeddyliau
O delynau gwlad y dydd?

Yn unigedd yr wybrenni,
Oedi'r wyt, ehedydd brith;
Hawdd yw esgyn wedi trochi
Dy adenydd yn y gwllith;
Ar dy allor yn y glesni,
Pell uwchlaw y mynydd llwm,
Aberth moliant a offrymi
Pan fo'r byd yn cysgu'n drwm.

Hawdd i ddyn anghofio'r ddaear,
Wrth fwynhau dy garol bêr;
Hudo'r meddwl wnei yn gynnar
Tua'r wlad tu hwnt i'r sêr;
Canu'r wyt yn nrws y nefoedd,
Fry ymhell o'n golwg ni;
Tybed fod gwynfydig luoedd
O'r tu draw'n dy wrando di?

(x154)

(48) MAE DUW YN DDA O HYD

Amddifad oedd y bachgen,
A'i rudd yn llwyd ei gwedd,
A'i riaint yn y fynwent,
Heb garreg ar eu bedd;
Cymylau a thywyllwch
A ddaliodd fore'i oes;
A'i ysgwydd fach a blygodd
Yn gynnar dan y groes.

Fe'i dysgwyd i weddio
Gan fam adnabu Dduw;
A chredodd yn ei galon
Mai dyna'r ffordd i fyw;
Ryw noson dawel, oleu,
Dan bwys y byd a'i gam,
Fe'i gwelwyd ar ei liniau
Ar ddistaw fedd ei fam.

Y weddi ffyddiog honno
Atebwyd yn y nef,
Gan Un sy'n hoffi gwrando
Y tlawd, pan gwyd ei lef
Daeth iddo decach hinon,
A goleu ar ei gam,
Am guddio yn ei galon
Gynghorion pur ei fam.

Pendefig Maes y Ffynnon,
Oedd ar ei stâd gerllaw,
Yn byw uwchben ei ddigon,
Estynnodd iddo'i law;
Darparodd iddo loches
O fewn y palas clÿ d;
A dyna ddwed yr hanes, -
"Mae Duw yn dda o hyd."

(x155)

(49) TŶ AR DÂN

Mae llewyrch rhyw oleuni dieithr draw
Yn gwasgar drwy'r gymdogaeth ofn a braw;
Fflachiadau welir yn ymsaethu fry
Drwy gonglau dirgel y clôedig dÿ ;
A dyna floedd yn torri allan, - "Tân!

Un arall draw yn adsain, - "Tân! Tân! Tân!"
 Tyrfaeodd yn dylifo yno sydd,
 A phryder dwfn yn welw ar bob grudd
 Y mwg a gyfyd yn golofnau duon,
 I wawdio gwaredigaeth o'i afaelion;
 Cyflyma'r tân, - ystafell ar ol 'stafell
 A ddeifir gan y fflam, ac ar ei linell
 Mae'r 'stafell ddistaw honno lle yr hun
 Y teulu'n dawel uwch yr erch olygfa;
 "Deffrowch! Deffrowch!" medd calon ar lewygu,
 "Mae'r tŷ ar dân! ac anghyngau'n ei gylchynu;"
 "Deffrowch! Deffrowch!" medd mil o leisiau wedyn,
 A brig y fflam i entrych nef yn esgyn
 Mae'r trawstiau'n clecian yn y fflam ddiomedd,
 A'r tŷ yn syrthio'n aberth i'w chynddaredd;
 Ust! dyna sŵn ! mae'r teulu wedi deffro,
 A gwaedd ar waedd o ganol mwg yn treiddio
 O! pwy anturia drwy y fflam angerddol
 I'r gudd ystafell gyda braich achubol ?
 Pwy yn y dyrfa anghofia'i hunan,
 I gadw'r teulu rhag y ddu gyflafan ?
 Ha! dacw wron a gwarddol law
 Yn neidio'n eofn drwy y ffenestr draw;
 O ganol dinystr drwy agenog furiau,
 Gwnaed ffordd diangfa o afaelion angau;
 Mae'r teulu'n ddiogel, os yw'r tŷ 'n adfeilion,
 A mawl i Dduw yn esgyn o bob calon.

(x156)

(50) UWCH Y CRUD

Fy mebyn anwylaf, mor dlws yw dy rudd,
 Dibryder yw'th galon, a'th wên fel y dydd;
 Er cymaint yw cynnwrf a therfysg y byd,
 Hapusach na brenin wyt ti yn dy gryd;
 Wyt yma'n ddiotal a'th wybren yn gain,
 A'r byd o dy flaen yn ei flodau a'i ddrain
 O brysia, f'anwylid, a thŷ f yn dy flaen,
 A chadw dy feddwl yn bur a distaen;
 Mae angen dy help yn ei waith ar y byd,
 A dal mae i ddisgwyl it' adael dv gryd;
 Mae serch am dy dywys i gylch; fwynhad,
 I lanw gobeithion dy fam a dy dad.

O! tyred, fy mebyn, i chwareu yn rhydd
 Ar feusydd eangach, allawnach o ddydd;
 Cei glywed gwirionedd a'i lais ar dy ol,
 Yn deisyf am lety am byth yn dy gôl;
 Os trwm fydd y groes i dy ran lawer pryd.
 Ei ysgwydd ei hun fydd o dani o hyd;
 Os caled y plisgyn, a chwerw ei flas,
 O'i dorri, cei dithau gnewyllyn o ras.

O! tyred, fy mebyn, o'th gryd cyn bo hir,
 Yn hoew dy gam, a dy barabl yn glir;
 Rhy gyfyng yw mebyd, rhy fyddar i'th lef,
 O'th flaen y mae bywyd, o'th flaen y mae nef
 Er cymaint o'r nef sydd o gwmpas y cryd,
 Mae'r meddwl sydd ynddo'n eangach na'r byd.

(x157)

(51) MORFUDD O'R DOLAU

Pan gwrddwn â Morfudd o'r Dolau,
 'Roedd rhywbeth bob amser o le,
 A hithau yn wrid hyd ei chlustiau
 Yn methu a'm cyfarch o dde.

Yr oeddwn yn meddwl y buasai

Y cyfan yn darfod fan hon;
Ond cariad a daflai ei saethau
Yn ddyfnach o hyd i fy mron.

A gwnes benderfyniad i fyned
I siarad fy serch wrthi hi,
Pan na fyddai un-dyn i'm gweled
Yn nesu mor swil at y tŷ.

Dechreuais y ffordd tua'r Dolau
I garu'r tro cyntaf erioed
Ond methais pan welais y lleuad
Yn edrych trwy frigau y coed.

A d'wedais, - "Pan ddelo y gwanwyn
I garu ym mlagur y llwyn,
Caiff Morfudd fy ngweled yn disgyn
Yn ysgafn dros lethrau y twyn."

Ond gwanwyn a welais yn pasio,
Ac hefyd yr haf ar ei ol,
A'r blodau yn gwenu a gwywo,
A minnau yn aros mor ffôl.

Fe wyddwn ei bod yn fy ngharu,
Ac hoffi fy ngweled o hyd,
A minnau yn mynd i'r côr canu
Gael gweled fy llun yn ei gwrid.

(x158)

Ond Morfudd a gollais o'r capel,
A'i llais hi a gollwyd o'r gân;
Pryd hwnnw y teimlais oer awel
Yn gwywo'm gobeithion yn lân.

Pe cawsai ryw air o'm cyfrinach,
A deallt mod innau yn glaf,
Morfudd fuasai yn holliach,
A'r gaeaf a droai yn haf.

Fe fuasai sŵn troed ei hanwylyd,
Wrth nesu at riniog y tŷ,
Yn arllwys i'w mynwes ddedwyddyd,
Ond marw o gariad wnaeth hi.

Bum heddyw yn hir yn y fynwent
Yn eistedd ar garreg ei bedd;
Dagrau yn wylaidd ddywedent
Fy mod yn amddifad o hedd.

A thyma ychydig linellau
A roes ar y garreg wên hon, -
"Fan Yma Mae Morfudd o'r Dolau,
A chalon Llewelyn o'r Fron."

Pwy bynnag sy'n berchen serchiadau,
Pwy bynnag all garu yn llon,
Mewn bedd gyda Morfudd o'r Dolau
Mae calon Llewelyn o'r Fron.

Morfudd anwylaf, O! maddau,
WYf unig o hyd dan y donn;
Mewn bedd gyda Morfudd o'r Dolau
Mae calon Llewelyn o'r Fron.

(x158)

Ond Morfudd a gollais o'r capel,

A'i llais hi a gollwyd o'r gân;
Pryd hwnnw y teimlais oer awel
Yn gwywo'm gobeithion yn lân.

Pe cawsai ryw air o'm cyfrinach,
A deallt mod innau yn glaf,
Morfudd fuasai yn holliach,
A'r gaeaf a droai yn haf.

Fe fuasai sŵn troed ei hanwylyd,
Wrth nesu at riniog y tŷ,
Yn arllwys i'w mynwes ddedwyddyd,
Ond marw o gariad wnaeth hi.

Bum heddyw yn hir yn y fynwent
Yn eistedd ar garreg ei bedd;
Dagrau yn wylaidd ddywedent
Fy mod yn amddifad o hedd.

A thyma ychydig linellau
A roes ar y garreg wên hon, -
"Fan Yma Mae Morfudd o'r Dolau,
A chalon Llewelyn o'r Fron."

Pwy bynnag sy'n berchen serchiadau,
Pwy bynnag all garu yn llon,
Mewn bedd gyda Morfudd o'r Dolau
Mae calon Llewelyn o'r Fron.

Morfudd anwylaf, O! maddau,
Wyf unig o hyd dan y donn;
Mewn bedd gyda Morfudd o'r Dolau
Mae calon Llewelyn o'r Fron.

TANNAU EREILL TWYNOG.
*CERDDI GWASGAREDIG, HEB EU CYHOEDDI O'R BLAEN,
A GYHOEDDIR YN BENNAF YN Y GYFROL HON.*

(x159)

(52) BUNYAN

Af yn ol am fanylion - byw hanes
Bunyan a'i freuddwydion;
A thrwy nerth a rhiniau lân,
Mi ganaf salm ei gwynion.

Elstow bach! rhwng plastai byd – ro'dd fore
Ddifyrwrch i'w febyd;
Ac i'w ran curai o hyd,
Lef rhyfel o'i foreufrd.

Yno'n egwan y ganwyd
Cu angel hedd mewn congl lwyd,
Deiliog ardal y gweirdir,
Ac erwau têt goreu tir
Welai'n hael yn nhawledd
Yr Ouse lân o risial wedd;
Afon dlos! cofiwn dy lêm
Tra bo hanes tre Bunyan.

Fro heulog; o'i hanfarwolion, - hanes
Bunyan yw ei choron;
Ei fyw dant fu'r harddaf dôn
O ganigau'i henwogion.

Un i gŵyn a thlodi'n gaeth,

O deulu di-waedoliaeth;
Ni ddilynodd o linach
Allai arddel uchel âch;
Ni chadd sedd gogonedd gwych
Mwynderau - dim ond eurych.

Bywyd duon bydewau
A fu ei nwyd yn fwynhau;
A thywysog iaith isel,
Yn nyddu gwarth yn ddi-gel.

(x160) Hanes tir anystyriaeth - a wybu -
Febyn dilywodraeth ;
Yn fore'n llawn o fariaeth,
I fyddin y werin aeth.

Dadweiniai, gloewai ei gledd
I wasanaeth y Senedd ;
Ei waith a'i lwydd fyth i'w wlad
Enwog geir ynn gân cariad;
Câr Rhyddid, ac i'w wreiddyn,
Yn mawrhau iawnderau dyn.

Iddo ef bu nawdd ddwyfol - i'w arbed
Erbyn y dyfodol;
'Roedd gemwaith ei waith yn ol
Dros y brodyr ysbrydol.

Dirwynol frwydrau enaid - i Bunyan
Fu'n boenus a thanbaid;
Lluoedd Satan, aflan haid,
A ddoi heibio yn ddibaid.

Byw mewn ymdrech â phechod, - ac eilwaith
Cilio ar ddisperod;
At ffol anuwiol nôd - trachefn dwyshau
Mewn dyheuadau am wenau Duwdod.

Er gwaedd yr argyhoeddiad, - a rhu barn
Ar byrth ei ddrwg-fwriad;
Eilwaith i dir gwrthgiliad - bu'n pellhau,
A'i wawdiol wyniau'n lladd y dylanwad.

Diogel dêg weledigaeth - gai eilwaith,
A gwawl iachawdwriaeth;
Ac wedyn hyf codi wnaeth - i'w dâl dŵr,
Yn ddeifiol arwr y dda Filwriaeth.

(x161) Dewisodd fywyd Iesu - yn y man -
Mynnodd ffydd i gredu;
Ac yng nghariad Ceidwad cu,
Dalai'i enaid i lynu.

Arfogodd, gwingodd i'r gwaith, - a'i arfau
Nef-ddurfin yn berffaith;
Ac ar fore dechre'r daith, - iddo bu
Gras i wynebu ar "gors anobaith."

Ei egnion gynheuodd - dân y saint,
Yn eu serch cynhyddodd;
Taran a chorwynt heriodd - ac o'i bau,
Anelwig ofnau fel niwl a gefnodd.

Ond i'r dyn diwyro daeth
Du wŷg, ac erledigaeth
Cododd storm arw gormes
Ar y tir, a chiliai'r tês;

Ffroen wynias Uffern annuw
Yrrai dân ar arwr Duw.

Carchar-ddor Bedford agorodd - iddo,
A'i ryddid a gollodd;
Ydgorn gwlad, a gwron glodd -
Y gelyn dig a'i gwylodd.

Ymlaen am ddeuddeg mlynedd - yno bu
Dan bwys trwm dialedd;
Ac ar enau'r Gwirionedd,
Mynnai'r byd roi meini'r bedd.

Ond gŵr Duw a garia dân – ne' o fewn
Ei fynwes i bobman;
Mewn carchar, esgyna'r gân – o dannau
Haeddol awenau y dduwiol anian.

(x162) Gwawl ydoedd i gloedig - ddu gelloedd
Gwyliaid condemniedig;
Yno yn alltud unig, - ei olau
A lanwai eisiau calonnau ysig.

Yn ei gell, calonog oedd
Yn nifyr gwmni'r nefoedd;
O'i mewn hi mvnnai o hyd
Fynych hedfan uwch adfyd;
A hyder bron ar dir braw
A ddwyfolai'r leddf alaw.

Byth glôd i'w gydwybod ef
Ydoedd dyddiau y dioddef.

Wedi loes y duwiol ŵr, a'r carchar
Cyrchwyd y breuddwydiwr;
A'r dewraf ddifrad arwr, - yn ei wyn
Ddoi allan wedyn yn ddillyn awdwr.

“Taith y Pererin” yn y drychinoedd
Sy'n ail i'r Beibl, sy'n elw i'r bobloedd
Ei chwa anadla ar y cenhedloedd,
Ar ran yr Iesu yn rhin i'r oesoecld
Haul awyr yw i luoedd, - digwmwl
O barthau nifwl i borth y nefoedd.

(x163)

(53) BUGAIL CARMEL

(Y diweddar Barch. James Jones, Fochriw).

Anwylaf gyfaill; cofio wnaif yn hir
Dy wyneb hawddgar, a dy lygad clir,
Pan yma dan fy nghronglwyd lawer noson,
A'th wenau pur yn fendith i fy nghalon;
'Rwy'n teimlo'th bresenoldeb yn fy ymyl,
Er iti groesi'r glyn i gwmni engyl;
Ac er i'th ysbryd siriol ymbellhau,
Dy ddelw yn fy mron sydd yn parhau;
A serch a bery yn ei wresog hedd
I doddi barrug angeu ar dy fedd;
Ond cwmwl hiraeth am dy fywyd glin
A dyrr yn gawod dda grau ar fy nghân.

Dy gyfeillgarwch oedd mor bur a'r gwlythyn,
Yn llawn o galon, ac mor fwyn a deigrin
Ffyddlondeb a didwyhedd goreu'r byd,
Mewn hindda ac ystorm yr un o hyd;
“Rhaid oedd edmygu dy gymeriad gloew,
Rhaid oedd dy garn, a mawrhau dy enw.

Yn ol yr awn, i weled proffwyd ieuanc
Yn drin o'r bryn, a'r niwl o'i flaen yn dianc
Fe garai addysg fel y carai fywyd,
Ac ar el feusydd euraidd bu yn ddiwyd;
I'r bwrdd cyfnewid dygodd ei ddeg talent,
Heb feddwl fawr am gystudd, bedd, a mynwent.
Ymdrechodd i oresgyn anhawsderau,
Heb ofni y cyfyngaf byrth a'u rhwystrau
Ei amgyffrediad, a'i weithgarwch cyson,
Ai ysbryd cynnes daniai ysgolheigion.

Pe roddai dro i ysbryd y gorffennol
Am allwedd aur i goffrau y presennol;
(x164) Darlennai Virgil yn ei iaith ei hun,
Ac ymblesera i ar ei felys win;
Fe welodd ofid Orpheus uwch ei briod
Pan oedd yn llithro llethrau'r pwll diwaelod;
Y brudd olygfa rwygai ei deiniladau
Nes llifai dagrau calon dros ei ruddiau
Ac fel y llonnai 'nghwmni y clasuron,
A hwythau yn creu Haf o fewn ei galon;
Bu Hegel iddo yn beledryn claer,
Ac un o'i gwmmi hyd y nefol gaer.
'Roedd Rhif a Mesur iddo yn gyfeillion,
A mynnodd holl fwynderau eu cyfrinion.
Deffroai 'ngwydd anhawsder, ni orffwysai

Ar lwybrau uchel ar ei aden lydan
Fel eryr cryf y codai wrtho'i hunan;
Eangfawr uchelderau chwiliai ef,
A deuai'n ol â thrysor nef y nef.

Gweledydd ydoedd dremiai i'r dyfodol
I weld cyfanwydd darnau y presennol.
Rhy brin oedd iaith, rhy fyrr oedd amser weithiau,
I roddi rhyddid i'w holl ddrychfeddyliau,
Pan safai'n broffwyd uwch cyfrinion anian,
Neu'n dilyn llwybrau dyfnion Dwyfol amcan,
Ei gariad atynt roddodd iddo allwedd
I gyfrinachau sanctaidd eu gwirionedd.
Fe godai weithiau i ddieithriol fyd -
Delfrydol a'i holl gyfareddol hud;
A chlywid sŵn cadwynau hen gredöau
Yn dryllio tinc rhai newydd ar y brigau;
A gwelid ef yn fynych dan lawryfau
Y Coleg wedi concro anhawsderau.

Llaw Rhagluniaeth aeth i'r Coleg
I'w gymeryd at ei waith,
Pan oedd gwawr dryloew addysg
Yn eiriannu bore'i daith;
(x165) Llais ysbrydol Carmel Fochriw
Glywodd yn y bore gwyn,
Ac fel cwmwl glas y nofiodd
Tua'r bryniau uchel hyn.
Ar y bryniau uchel torrai
Ei gawodau dros y wlad, -
Cymwynasau a meddyliau,
Nes mynd adref at ei Dad.
Cafodd weld yr uniad hwnnw
O dan goron llwyddiant mawr,
Eglwys Carmel yn ffrwythloni
Fel yr Haf dan wlith y wawr;
A thros ugain o flynyddoedd
Bu ei enaid yn y gwaith,
A gwynfydedd yr addoliad

Dorrai ar bob cam o'r daith.

Ceid sŵn cadernid, sicrwydd, a gwybodaeth
Ym mhregeth fawr y bachgen ieuanc odiaeth,
Ei barabl dorrai'n swynol ar ein clyw
Wrth alw'r byd yn nes at Dduw i fyw
Ei bregeth ydoedd gafod fawr o berlau,
A chyfoethogai fyd â'i ddywediadau
Disglaeriai'i enaid disglaer yn ei bregeth,
A'i grebwyll ydoedd gyda'r Groes yn gymhleth;
Ond pell oedd ef o guddio'r Groes â blodau,
Neu swyno enaid â pherseiniol eiriau;
Defnyddiai ef erwinder eitha'r Groes,
A thafod tân i ddifrifoli'i oes;
Fe wylai'n hidl wrth ddwevd gair "colledig"
Ar wely marw'r adyn du, pellennig:
Ac fel cymhellai yr afradlon ffol
A gwên i ddod i dŷ ei Dad yn ol:
Desgrifiai'r Groes "yn siarad iaith dynoliaeth,"
"A gwaed yr Oen yn nofio ei chenhadaeth,"
Ei rodiad oedd mor glir a glin a'r wawrddydd,
A syml fel bywyd bugail ar y mynydd.
(x166) Ni wyddai'i ysbryd ddim am falais erch,
Ei enaid a awgrymai Haf a serch.
Ar ymdaith i oleuni gwelai'r byd,
A'r holl ddyfodol iddo'n wyn i gyd;
Nid oedd rhandiroedd cysegredig gobaith
Byth iddo ef yn troi yn rhosydd diffaith.

Bu yn arweinydd addysg Gelligaer,
A huan yn ei nen a'i belydr claer;
Yng nghadair y Bwrdd Ysgol gwelwyd ef
A'i ben yn oleu iawn a'i fraich yn gref.
Uwchraddlol Lywydd y Gymanfa olau
A noddai yr eglwysi dros y bryniau;
Egwyddor a gweithrediad Annibyniaeth
A gafodd chwareu teg dan ei lywyddiaeth;
Gwrteithiai'r galon er ei gwneud i deimlo
Y gwirioneddau sanctaidd a'u hanwylo;
Agorai'r deall fel y deuai iddo
Bob bore syniad newydd i'w oleuo:
Mor glir ei lygad ac mor ddwys ei galon
I weled bywyd yn ei holl brydferthion;
'Roedd sŵn cyfathrach natur yn ei fywyd,
A thant y bore yn ei barabl hyfryd.
Hedd y mynyddoedd ac unigrwydd natur
Fu iddo yn ysbrydiaeth ac yn gysur;
Fe garai encilfeydd y mynydd mawr
Pan fyddai o dan lif y sanctaidd wawr
'Roedd bywyd iddo yn hawddgarwch dwyfol -
Pob ffurf yn dangos iddo ffaith ysbrydol;
Mor lawn o Dduw y gwelai ef y cread,
Ac fel diferyn bach o'r Dwyfol Gariad;
Ysbrydol neges oedd gan natur iddo,
Ae yntau ar ei daith yn ei hesbonio.

Os glas oedd anian, yr oedd niwl y Glyn
Yn duo pelydr ei freuddwydion gwyn;
Yn lle hoenusrwydd Haf, y nychdod blin,
Yn lle gwllith bore têt, anialwch crin.
(x167) Mor anodd marw ar foreuddydd llon,
A gwaith y bywyd wedi llenwi'r fron.
Ymdrechol fu i gadw'r gelyn draw,
A llwyddai i ddod allan o bob braw;
A sionc y daeth i'r wyneb lawer gwaith,
A gado'r gelyn yn y dyfnder llaith;
A chefnai weithiau'n wrol ar y bedd,

A gwên diangfa'n amlwg ar ei wedd.
Nid ofni marw oedd, ond awydd byw
Defnyddiol fywyd pur i'w wlad a'i Dduw;
Ac nid oedd dychryn arno i gwrdd âg angau
Pan ydoedd sŵn marwolaeth ar ei glustiau.
Pan ddaeth yr awr, yn ymyl oer y bedd,
'Roedd ef heb ddim petrusder ar ei wedd,
Fel sêr dan ymyl cwmwl yn disgleirio,
A dewrder Cristion ar ei ael yn fflamio.
Pan ydoedd gobaith eglwys yn diflannu
Dros drothwy bywyd, gobaith oes yn pylu,
Y corff yn oeri wrth fynd 'nol i'r ddaear,
'Roedd glesni bywyd ar ei enaid llachar.

(x168)

(54) ADGYFODIAD CRIST

Yr Iesu yn y bedd! O ryfedd ddydd!
A llwydrew angeu ar ei sanctaidd rudd;
Distawrwydd dwfn deyrnasai drwy y nen,
A Seion dan ei chlwy' ogwyddai'i phen;
Griddfanai'r awel yn yr Olew goed
Uwchben y bedd na roddwyd dyn erioed;
Llesmeiriai'r haul, ac wylai'r graig yn llyn,
Wrth weld eu Crewr o dan glo y glyn;
Trwm oedd y maen a seliwyd ar y bedd,
A gwawdio bywyd fynnai durfin gledd;
'Roedd angeu'n fud, a'i lygad ar y cloion,
A'r grechwen gynt yn bryder yn ei galon;
Adgofiai am yr Iesu ar ei hynt,
Yn siarad bywyd wrth y meirw gynt;
Amheuai fod Creawdwr môr a thir
I aros yn ei rwybau caeth yn hir;
Ysgydwad deilen barai iddo ofni
Fod cynnwrf yn y bedd yn siglo'r meini;
Yr unig sŵn oedd cellwair milwr anfad
Wrth wyllo'r bedd, lle'r hunai'r Adgyfodiad;
Gan fwrw'i ogan ar y gwragedd hwythau
Oedd wrth y bedd yn torri eu calonnau.

Ond daeth y bore! Bore'r trydydd dydd,
I ddeffro'r Cadam o gadwynau'n rhydd;
Anwylaf fore o foreuau'r byd,
Gwawr drodd y Glyn yn oleu ar ei hyd;
Ar diroedd bywyd y tu hwnt i angau,
Saint ac angylion hwylient eu telynu;
Disgynnai'r cledd o law y milwr ffol;
A'r maen mewn dychryn giliodd yn ei ol
Mae'r Iesu'n fyw, a chyda'i braidd mewn hedd,
A seraff gwyn yn eistedd yn y bedd.

(x169) Mynyddoedd yr Olewydd a Libanon

A lawenychent mewn wybrenni gloewon;
O'r cyrrau pell ysbïai y clogwyni,
I weled Prynwr byd yn adgyfodi;
Ar ysgwydd y ddaeargryn codai'r creigiau,
I weled bywyd yn diddymu angau;
Y beddau fu am oesau o dan gloion
O barch i'r Iesu a ryddhaent eu meirwon;
Nerth bywyd anherfynol oedd yn cerdded
Yn anfarwoldeb drwy y bedd agored;
A Satan wedi gado'r maes yn glwyfus,
A'r Iesu'n fyw, yn Frenin gogoneddus;
Allweddau'r bedd sydd wrth ei wregys Ef,
A'i adgyfodiad ydyw porth y nef.

(55) Y DARAN

Rhuad heriol yw'r daran, - o rym mawr,
Lle mae'r mellt yn wefrdan;

Torredig floedd y trydan
O'r wybren dyrr obry'n dân.

Du awr i'r eangderau, – ac anian
Yn cwyno dan glwyfau;
Ac eilwaith yn rhoi golau
Ar hanes Iôr yn neshau.

(x170)
(56) WYLOFUS GRI YR HYDREF
Wylofus gri yr Hydref.
O frig y goedwig wyw,
Sydd fel angeuol ddolef
Yn torri ar fy nghlyw
Gofidus ddail y llwyni,
Crynedig ynt i gyd;
A dyna yw eu stori, -
“Yn gwywo mae y byd.”

Mi welais wanwyn ieuanc,
A'i swyn yn gwella'r claf;
Mae hwnnw wedi dianc,
A'i ddilyn wnaeth yr haf;
Ac felly yr wyf finnau,
Yn gwywo ar fy hynt;
Nid yw fy oes ond deilen
A chwythir gan y gwynt.

(x171)
(57) BEDD FY NGENETH FACH
Eistedd ar y beddrod unig
Yma'r wyf dan frigau'r coed;
Yn galaru yn siomedig
Am fy ngeneth bum mlwydd oed;
Uwch fy mhen mae'r ser yn gwenu
Heno'n ddedwydd ac yn llon;
Minnau yma yn hiraethu
Am yr eneth anwyl hon.

Clywaf sŵn telynau rhadlon
Draw yn canu yn y dref;
Tra'r wyf finnau'n torri 'nghalon
Am fy ngeneth aeth i'r nef;
A chysgodion nos y ddaear
Yn ymledu o bob tu,
Fel i ddangos lliw fy ngalar,
Am fy ngeneth fechan, gu.

Mae adgofion yn dod heibio
Gyda'r bore, gyda'r nos,
Fel nas gallaf byth anghofio
Fy ngenethig fechan, dlos;
Er fod blwyddyn wedi cefnu
Er y dydd y collais hi,
Nid yw dagrau'n blino gwlychu
Distaw fedd f'anwlyd i.

Mynnych byddaf eto'n teimlo
Fel pe bae fy ngeneth lon
Yn fy ymyl, ac yn rhodio
Law yn llaw ar ael y fron;
Credaf weithiau nad oedd angau
Iddi hi ond rhyddid llawn,
I gael dod yn nes i minnau,
Pan yn unig fore a nawn.

(x172)

Crwydro mae fy meddwl unig
Dros y terfyn yn ei gur,
I'r dyfodol pell, cuddiedig,
Yn rhodfeydd meddyliau pur;
Lle cawn eto cyd-gyfarfod,
Lle cawn eto rodio'n rhydd,
Yn ysbrydion glân di-bechod,
Ar ororau gwlad y dydd.

Mae fy nghalon yn hiraethu
Weithiau, am ei chael yn ol;
Er fod y meddyliau hynny
Yn ddaearol ac yn ffôl;
A phryd arall 'rwyf yn trydar
Am y pell gyfriniol fyd,
Wedi cefnu ar y ddaear,
Wedi colli'r dagrau i gyd.

Ysbryd gwrdd âg ysbryd golau,
Wedi gado'r cystudd mawr;
I gyfannu hen delynau
Dorrodd angau ar y llawr;
Melys iawn i minnau yno
Fydd cyd-gwrdd yn deulu crwn;
Lle na ddaw un corwynt heibio,
Fel y corwynt cyntaf hwn.

(x173)

(58) FY MHLENTYN
Boed tynged yn garedig
I ti, fy mhlentyn llon
Heb ysbryd cystuddiedig
A'i bigyn dan dy fron
Pob carreg filltir fyddo
Yn gwella'r ffordd i ti;
Pob fory'n decach eto
Na ddoe, fy mhlentyn cu.

Dy fywyd fyddo'n esgyn
Yn esmwyth tua'r nen;
A neithdar gras yn disgyn
Yn gyson ar dy ben ;
Dy lwybrau fyddo'n union,
Draw i'r gorwelion clir ;
Lle'n crwydro bu gobeithion
Dy dad am dymor hir.

Os gwibia cwmwl heibio,
Drwy lesni'th wybren gu,
Doed huan i oreuro
Ymylau'r cwmwl du;
Nes daw y ddedwydd orig,
Y cei o dyrau ffydd
Yr olwg wynfydedig
Ar fryniau gwlad y dydd.

(x174)

(59) HWIANGERDD MAIR
(*Efelychiad*).

O! Cwsg, fy mebyn anwyl,
Yn dawl ar fy mron;
Mae llenni'r nos yn dod i lawr
I guddio'r ddaear hon
Ddaearol nos - cysgodau
O brudd-der arni sydd;
Ond nid yw'n nos i ti, fy mab,

Ond rhyw dragwyddol ddydd.

Cusanaf di, f'anwylyd,
Mi'th wasgaf at fy mron;
Pe meddwn, rhoddwn fydoedd-fil
Er mwyn dy gadw'n llon;
Ml glywaf ddofn ochenaid
Yn torri dros dy fin;
Mae hyn yn torri calon mam,
Cyn gweled dyddiau blin.

Arhosaf i dy wyllo
Fy sanctaidd febyn tlws,
A daw y lloer a'r ser cyn hir
I fewn drwy holltau'r drws
Mi wn yr adnabyddant
Dy lais fel Dwyfol Aer;
A llawenhant os gallant hwy
Dy lonni, febyn claer.

Cei weled eu llwyd olau
Yn chwareu gylch dy gryd;
Cânt hwythau hefyd weld yr Hwn
Fu'n crogi heuliau'r byd;
(x175) Ac yma daw angylion
Yn syth o wyddfod Duw;
Gan synnu'n fawr dy weled di
Fel un yn dechreu byw.

Ai lliw gofidiau bywyd
A welaf ar dy rudd?
Ni cha'r blynyddoedd sydd ymlaen
Dy gadw heno'n brudd;
Anfonaf weddi drosot
I'r nefoedd at dy Dad;
Ac enfyn yntau engyl fyrdd
I'th noddi, febyn mād.

Os yw dy raddiau'n welwon -
Dy ddynol ruddiau di,
Mae rhyw ogoniant dwyfol, glir,
Tu cefn yr oll i mi;
O! Frenin y brenhinoedd,
Dwed rywbeth wrth dy fam,
Fu'n gyfrwng i roi dynol wisg
I'th ysbryd pur, di-nam.

Do, clywais dy ochenaid
Ryw noson yn fy nghôl;
Ai tòn o hiraeth ydoedd hi
Am fynd i'r nef yn ol?
Neu am gael gweled tyrfa
Yn esgyn yn ei bri,
Yn iach o wlad y cystudd mawr,
Oedd dy ochenaid di?

Seraffiaid sy'n y stafell
Yn plygu ger dy fron;
Mae'r nef a'i llygad arnat ti,
O! cwsg, fy mebyn llon;
(x176) Os yw yn gweled newyn,
A brad, neu goron ddrain,
Mae'n gweled hefyd orsedd aur
I ti, ar ol y rhain.

Beth allaf wneud i'th foddio
Am ennyd, gyda mi,

Cyn mynd yn ol i dŷ dy Dad -
Dy hen gynefin di?
Mae'r nef ar dân yn disgwyl
Dy weld yn dod yn ol;
O! cwsg, fy mebyn, heno'n fwyn,
Heb bryder yn fy nghôl.

(x177)

(60) NOS A DYDD
Pan fo'r nos yn crwydro
Dros y bryniau draw;
Pan fo'r blodau'n huno
Yn y glyn islaw;
Collir gwrid y cymyl
Yn y gorwel prudd,
Fel cariadau'n ymyl
Gwely marw'r dydd.
Melys yw yr heddwch,
Hyfryd yw'r tawelwch;
Ac fe gân eos lân
Yn y tew dywyllwch.

Pan fo ffydd a gobaith
Yr afradlon blin,
Wedi dianc ymaith
Dros y ddistaw ffin,
Fe ddaw goleu newydd
O nefolaidd wawr,
I brydferthu bröydd
Anheilngdod mawr.
Cenir pêr garolau
Cariad, gan galonnau
Fu yn fud - gwyn eu byd,
Yn y newydd olau.

Pan fo'r nos yn cilio
Dros y bryniau pell,
Natur sydd yn deffro
Gydag ysbryd gwell;
Dringa'r haul yn araf
I'w orseddfa dêr;
A'i belydrau gloewaf
Yn diffoddi'r ser.
Ar y pell glogwyni
Dawnsia y goleuni;
Bywyd sydd, gyda'r dydd,
Fel y ne'n ymlonni.

(x178)

(61) GOBAITH Y CRISTION
Y Cristion bia gobaith yn ei holl eangder,
A'i ddilyn wna i gysegr sancteiddiolaf pleser;
Mae "gobaith da trwy ras" ynghadw yn y galon
Heb siom i daflu cysgod dros ei addewidion;
Pa beth yw gwawd y byd a gorthrwm ei gadwynau?
Mae ganddo'r "gobaith da," fe chwardd yn wyneb angau
Pan fo cyfeillion dyn yn boddi'n nagrau gofid,
A chysgod angyd yn ymgau am nawn ei fywyd;
A phob llawenydd yn rhy wan i loewi'i feddwl,
Fe draidd pelydrau gobaith drwy y duaf gwmwl;
Os bydd yn unig ar lan afon yr Iorrdonen,
Fe ddeil ei ben i'r lan hyd borth y nef yn llawen
Ar drothwy oer y bedd mewn t'w'llwch a dalhneb,
Ac angyd creulon yn hyrdremu yn ei wyneb,
Cyfeiria gobaith ei olygon dros y beddrod;
At Un orchfygodd angyd gyda marwol ddymod;
Fe blanna'i flodau nefol ar ddiffaethwch bywyd,

A pheraroglant ar ei ffordd i wlad y gwynfyd;
Fe ddeil y golud gwell o flaen y pelerinion,
A ffydd a chariad yw y pennaf o'i gyfeillion;
Ei lais i'r enaid blin yw, - "Dring i fyny yma,"
Ac ar ei addewidion byth ni chywilyddia;
Dos rhagot, Gristion, drwy y duaf orthrymderau,
Mae hinon well ymlaen, a haul ar ben y bryniau
Er cryfed yw y gwynt, er garwed yw y cefnfor,
Mewn craig tu hwnt i'r llen y bwri di dy angor;
Cei ganu buddugoliaeth ar dy holl flinderau,
A gweld dy obaith gwyn yn troi'n sylweddau.

(x179)

(62) ANNIE'N UGAIN OED
Annie anwyl, ti gyrhaeddaist
Ben dy flwydd, - dy ugain oed;
Gwenodd dy wanwynol fywyd,
Fel y lili yn y coed;
Gwelais dy gerddediad allan,
Haf a gaeaf, hyd yn hyn;
Llenwaist tithau fy ngobeithion,
Gyda bore hawddgar gwyn.

Cerddaist lwybrau glân, dihalog,
Nes cyrhaeddaist ugain oed;
Ac fe wyliaist rhag rhoi deddfau
Glin y nef o dan dy droed -
Tyfaist yn winwydden iraidd,
Ar làn afon dyfroedd byw;
O! fy ngeneth, aros yma,
Yn y winllan gyda Duw.

Uchel iawn ar fryn gwybodaeth,
Penderfynaist roi dy droed
A chyrhaeddaist yr Athrofa
Ar ben blwydd dy ddeunaw oed;
Amlwg eto fo dy gynnydd,
Fel yr haul ar ael y nen;
A'th rinweddau byth yn addurn
I rianedd Gwalia Wen.

(x18)

(63) TANGNEFEDD
O! anhafal dangnefedd,
Bywiol dir, a blodeu hedd
Yn ei lanw o lonniant, heb oer lid,
Na haint o ofid i flino'u tyfiant.

Cyn i angel uchelwyn, - gyd siarad
Gyda seraff claerwyn;
Na byw gerdd un cerub gwyn,
Yn Nuw'r oedd ei ddwfn wreiddyn.

Gwynfydedig nwyf Duwdod, - yw erioed,
Hyfrydwch ei hanfod;
Nwyf iach y Wynfa uchod,
Heb nudd na bai ynddi'n bod.

Aerod y nef ororau, - a gynnar
Ganent yn eu hwyliau;
Ond diamgen elfennau - tangnefedd
Oedd yn hudlonedd i'w hen delynau.

(x181)

(64) NOS GWYL DEWI
Mi ganaf heno'n llawen,
A gwladgar fydd y tant;

A gwisgaf y genhinen,
I gofio Dewi Sant;
Gwarcheidiol Sant y cyfnos,
Yn nyddiau Cymru Fu;
A'i ysbryd sydd yn aros
Yng nghalon Cymru sy.

Rhinweddau oedd yn tyfu
Fel meillion dan ei droed;
A ninnau sy'n ei garu
Mor anwyl ag erioed;
Mae cân gan y clogwyni,
A chfin gan ffrwd y nant,
A chân gan delyn Cymru
O hyd i Ddewi Sant.

(x182)

(65) YR AMAETHWR

Mae'r hwsmon yn prysur aredig ar y cae,
A dàl yn ddi-flin wrth ei aradr y mae;
Ac yna'n yr awel yn gwasgar yr hâd,
A gobaith yn hau yn ei fynwes fwynhad.

Daw allan o'r oged aniddan cyn hir,
I gau ar yr hâd, ac i lyfnu tir;
A chwmwl a chawod, ac awel a haul,
Ddaw heibio a bendith i'w lafur di-draul.

Daw'r egin i fyny yn wyrdd ac yn llaes,
A balchder y cloddiau yw gwyllo y maes
Fe dŷ f y corsenau yn dalach o hyd,
Ac yno yn llawen daw Rhegen yr Yd.

Daeth dyddiau'r cynhaeaf, a phoethodd yr hin,
Addfedodd y grawn, ar y cryman rhoed mân;
Ac yntau'r amaethwr mor llawen a'r dydd,
Yn medi a rhwymo'r ysgubau a fydd.

Fe gariwyd y cnwd, ac mae'r 'sgubor yn llawn,
A phêr yn yr ydlan yw arogl y grawn;
Ond nid yw'r amaethwr yn segur ei fyd,
Ei ffust yn y man fydd yn dyrnu yr ŷ d.

Mae bywyd i gyd fel yr hâd ar y cae,
Os hauwn ddrygioni, cawn fedi ei wae;
Os hauwn i'r ysbryd, cawn fedi mewn hedd,
A byw ar y cynnyrch tu arall i'r bedd.

(x183)

(66) Y BEIBL YN Y CARCHAR

Y carchar du! Lle mae trueni'n aros,
Lle na ddaw serch, na llonder byd yn agos
Y lle mae poen, anobaith, ing, a gwarth,
Yn ymgartrefu ar ei lwydaidd barth;
'Roedd blin garcharor rhwng ei haearn ddorau
Yn dwyn trafferthus gyflog ei droseddau;
Yr hen freuddwydion melys lanwai'i galon,
Oedd wedi rhoddi lle i erch ysbrydion;
Ond yng ngoleuni gwan y stafell honno
Y gwelodd Lyfr Duw, nashaodd ato;
'Roedd llwydni'r carchar ar ei holl ddalennau,
A thrwch o laid blynyddoedd ar ei gloriau;
Agorodd ef, a rhoes ei galon lam,
Adnabu ef fel llyfr hoff ei fam;
Y llyfr a roddai iddi ei chysuron,
A nef ddiddanwech yn ei holl drallodion;
Cusanodd ef o barch i'w fam a'i gartref,

A'i ryddid gynt, cyn colli hawl i'w dangnef;
Ac yno, hen adnodau hoff ei fam
Gynheuodd ei serchiadau oer yn fflam;
A'r truan yn y carchar caeth a blin,
A gafodd ddafnau o nefolaidd rin;
O Feibl cu! lle bynnag y bydd ef,
I'r truenusaf un bydd yno nef;
Calonnau duon deiliaid y carchardy,
O dan ei ddwyfol rin sydd yn ymwynnu.

(x184)

(67) Y FRWYDR

Mae'r udgorn yn galw'r byddinoedd ynghyd,
Nes tanio calonnau y milwyr i gyd;
A chlywir gweryriad y meirch yn y gwynt,
A'u gwaed yn ymboethi am gychwyn i'r hynt;
Aroglant gyflafan, a'u llygaid yn fflam,
Gan brancio'n aflonydd, yn nwyfus eu llam;
Mae'r megnyl yn deffro, a thanllyd eu llef,
A thwrf eu hergydion yn esgyn i'r nef;
Tywalltant farwolaeth ar rengoedd y gâd,
A mellt o gleddyfau oleuant y wlad;
Dros wyneb y maes y mae angeu yn awr
Yn medi cynhaeaf y rhyfel i fawr.

Distawodd twrf y megnyl;
Y frwydr ddaeth i ben;
A chyfyd mwg fel cwmwl barn,
Yn dorchau tua'r nen;
Ac O! golygfa arall
A egyr ger ein bron;
Ofnadwy fynwent yw y maes
Ar ol y frwydr hon.

Arswydol Aceldama,
Yn fraw i galon byd;
Dyngarwch welir ar y maes,
A'i liniau'n curo 'nghyd;
Mae'r cedyrn yn garneddau
Ar hyd y glaswellt ir;
A chysgod du angylion barn
Yn aros ar y tir.

Ochenaid ar ochenaid
A ddisgyn ar ein clyw;
Fel saethau yn trywanu
Y galon hyd y byw;

(x185)

Mae'r meirw a'r clwyfedig,
Blith draphlith yma thraw,
A'r marchog wedi syrthio'n fud,
A'i gleddyf yn ei law.

Mae gweld wynebâu'n glasu,
A gwrando'u llefau prudd,
Yn gwneud i'r galon wedi'r storm
Ireiddio llawer grudd;
Dynoliaeth wedi'r difrod
Ar fywyd cryf a wnaed,
Sydd yno fel colomen wên
Ar geulan môr o waed.

O Dduw! cyflawna'n fuan
Dy hen addewid wir,
Pan droir y cledd yn fladur,
I fedi grawn y tir.

Darfydded sôn am ryfel,
A'i ddychrynfeydd i gyd,
A heddwch fel yr afon
Fo'n llifo dros y byd

(x186)

(68) Y DYN MEDDW :
YN MEDDW.

Daeth bachgen i fyny o'r wlad,
I ganol estroniaid di-rinwedd;
Gadawodd hen aelwyd ei dad,
A gwerthodd ei hun i oferedd;
Fe flysiodd wirodydd a gwin,
Anghofiodd gynhorion rhieni;
A chredodd mai arwydd o ddyn
Oedd dilyn cyfeddach a meddwi.

Cyn hir, fe feddyliodd ei fod
Yn berchen ar ddigon o arian;
Mewn ymffrost ysgydwai ei gôd,
Ynghanol cyfeillion y cwpan;
Ygecrai, a churai y bwrdd,
Yn flaenor y berw a'r dwndwr,
A heriai y cryfaf i'w gwrdd,
A sefyll o'i flaen fel ymladdwr.

Gan fygwth, a rhuo fel cawr,
Dechreuodd ei ffordd tuag adre,
Ond buan fe'i taflwyd i lawr -,
Gan gi oedd o'i gwmpas yn chware;
Ac yno y bu ar ei gefn,
Yn treiglo'n y llwch fel abwydyn;
Yn ceisio drachefn a thrachefn
Ymsythu, ond methu wnaï'r meddwyn.

Fe gysgodd ynghanol y llaid,
Ac heibio daeth rhywun i'w godi;
A safodd yn hurt ar ei draed,
Gan ddweyd fod y tai wedi meddwi;
A'r dynion a'u pennau i lawr
A'r heol fel deilen yn siglo;
A phopeth yn fychan a mawr
Fel cyflym gerbydau yn pasio.

(x187)

Wrth gychwyn i lawr drwy y dref,
Tarawodd wrth *lamp-post* yn sydyn;
A rhaid oedd cael ymladd âg ef,
A gwneud iddo ddianc mewn dychryn;
Ond pan oedd yn ymladd â'r post,
Daeth heibio heddeidwad i'w sobri;
A thalu "*five shilling and cost,*"
Neu garchar, fu diwedd y meddwi.

(69) CAWS CAERPHILI

Caws Caerphih, bri ein broydd, - a chaws
Iachusaf y gwledydd;
Caws yr oes, caws yw a rydd
Dwf i'n byd - hufen bwydydd.

(x188)

(70) BUGAIL GLAN Y LLYN
Yng Nghwm Garant Sawdde yr oesau o'r blaen,
Y gwelir gweddillion hen furddyn ar daen;
Yn cadw cyfrinion yr hen Fynydd Du,
A chwedlau'r bugeiliaid, sy'n anwyl i ni.

Mae'r blodau o'i amgylch mor llon ag erioed,
A'r gornant wrth basio yn golchi ei droed;
A cherddlu y goedwig yn dod ar eu hynt
I ganu'u halawon yn union fel cynt.

Fe welodd ganrifoedd yn pasio mewn hedd,
A theulu 'rol teulu yn disgyn i'r bedd;
A'r plant fu yn chwareu ar ochr y bryn
A welodd mewn henaint yn disgyn i'r glyn.

Yn trigo yn y tyddyn
Yn nyddiau Cymru Fu,
Bu Dafydd Wyn, y bugail dewr,
Ar braidd y Mynydd Du;
Bu yno lawer bugail
Yr oesau gynt mewn hedd,
Na welir dim o'u henwau mwy
Ond ar y garreg fedd.

Ond erys enw Dafydd
Yn chwedlau'r Mynydd Du;
Tra fyddo traddodiadau'n son
Am fywyd Cymru Fu;
Nid am fod dim yn Nafydd
Yn swyn i'r dyddiau hyn,
Ond am ei fod a'i enw 'nglŷ n
Ag enw Ifan Wyn.

(x189)

Yn siriol yn v tyddyn
'Roedd gwraig a dau o blant,
Pan fyddai'r tad yn hwyr yn dod
Yn ol i làn y nant;
'Roedd Gwen yn eneth wridgoch,
O gwmpas deuddeg oed;
Ac Ifan flwydd neu ddwy yu hŷ n,
Fel ewig ar ei droed.

Yr oedd y plant yn ddedwydd
Ar fron y Mynydd mawr;
Yn gorffwys gyda haul y dydd,
A chodi gyda'r wawr;
Ar uwd a llaeth a llymru,
A bara ceirch a haidd,
Fe dyfodd Gwen ac Ifan Wyn
Yn enwog gyda'r praidd.

Cydganent gerddi Cymru
Wrth fynd o dwyn i dwyn,
I wykio'r defaid ar y Foel,
A chwareu gyda'r wŷn;
Ymhlith yr hen fugeiliaid
Ar hyd y bannau gawd,
Ni fagwyd yn unigedd bro
Anwylach chwaer a brawd.

Ond siriol yw nawn cymylog
Ar un o greigiau'r Fan,
A'r ddau yn gwrando sŵn y llyn
Yn torri ar y lan, -
Wrth gyrchu tlws flodeuyn,
Fe gollodd Gwen ei throed,
A syrthiodd dros y clogwyn certh,
Yn eneth ddeuddeg oed.

(x190)

Am fisoedd cyrchai Ifan,
A'i galon yn ei law,
I'r fan lle cafwyd corff ei chwaer
Wrth droed y clogwyn draw,
Eisteddai yno'n unig
Yn swp o ddagrau i gyd
A chredai fod y Bannau serth
Yn nes i arall fyd.

'Roedd Ywen yn y fynwent,
Mae'r ceubren yno'n awr;
Ac wrth ei droed y gorwedd Gwen
Hyd ddydd y codi mawr;
Fe dorrodd mam ei chalon,
A chladdwyd Dafydd Wyn;
Ond cafodd Ifan fyw yn hir
I gofio brâd y Llyn.

Fe fagwyd yn y tyddyn
Fugeiliaid lawer iawn;
Ac ar eu bywyd gwledig hwy
Aroglau grug a mawn;
Os claddwyd cenedlaethau
Er pan ddigwyddodd hyn,
Mae ar y Mynydd hyd yn awr
Hiliogaeth Ifan Wyn.

(x191)

(71) Y LLONGDDRYLLIAD

Mae'r llong yn cychwyn ar ei thaith,
A beiddgar yw ei golwg hi;
Wyneba ar y cefnfor maith,
Heb ofni gwynt na brigwyn li;
Mae'r cadben yn brofedig un,
Yn gwneud i bryder gilio'i ffwrdd,
A r teithwyr mewn dymunol hin
Yn ymbleseru ar y bwrdd.

Aeth dyddiau heibio'n llwythog o fwynhad,
Heb galon ddifyr yn breuddwydio brâd;
A'r llong a'i hwyliau yn yr awel lon,
Yn symud fel brenhines dros donn;
Ond buan gwelwyd yn y gorwel blin
Fod ysbryd mawr y storom ar ddihun
Cyfodai'r gwynt a'i fflangell yn ei law,
A duai glennydd yr ynnysoedd draw;
Ysgubai'r corwynt drwy y gwagle erchyll,
A'r eigion gwyllt yn griddfan dan ei ffrewyll;
Sŵn gwae a glywid yn y daran uchel,
Ac angeu'n marchog ar y mell t i'r rhyfel
I nerth y storm, edafedd yw'r hwylbrennau,
I lid y dyfnder, gwellt yw yr angorau;
O gylch y llong mae'r cadau wedi cwrdd,
A llawer moryn creulon ar y bwrdd;
Mae'r badau'n chwilfriw ar y berw donnau,
A'r llong yn nesu'n gyflym at y creigiau
Mae'n suddo! O! mae'n suddo i'r dyfnderoedd,
A'r môr yn bwrw ami ei fynyddoedd;
Un waedd a glywid dros y bwrdd i gyd,
Y waedd na chlywir ond wrth ado'r byd;
A llawer calon gofiodd yn ei briw,
Am eang fôr di-storm trugaredd Duw.

(x192)

Parod oedd profedig forwyr
Ar y lân i estyn llaw,
I waredu'r dioddefwyr

Daflwyd ar y creigiau draw;
Galwyd y Bywydfad allan,
Er cynddaredd gwynt a môr;
Tra'r oedd llawer gweddi'n hedfan
At orseddfainc wên yr lôr.

Er i fin y storom arwa'
Fedi cnwd y llong i lawr,
Mynnai y Bywydfad loffa,
Gweddill y gyflafan fawr;
Wele'r cwch yn ol yn dychwel
Gyda'i faich, o donn i donn
Tra mae'n esgyn yn yr awel
Fawl i'r nef o lawer bron.

(x193)

(72) ADDA'N YR ARDD

Yw wael heb wenau heulwen, - yngan wyf
Am dangnefedd Eden;
Yn yr ardd a'i dengar wên,
Hwn hudolai bob dalen.

Yno Adda mewn heddwch, - a gariai
Goron o brydferthwch;
Gardd fore gwir ddifyrrwch, - a bywyd
Holl nwydd ei gweryd yn llawn hawddgarwch.

Gardd tad yn ei gariad gwyn,
Gardd haf i gwrdd a'i ofyn
Ar hyd fywiol rodfaoedd,
Yno dan awdurdod oedd
Yn rhodio'i faes hyfryd fel
Ym mraich ei Dduw mor uchel;
Aer awenfawr i wynfyd,
A'n tirion ben, teyrn y byd.

Llywiawdwr holl ehediaid - y nef oedd,
Yn ei faes bendigaidd;
Nwyf hwylus anifeiliaid
I aer y fro'n gwyro gaid.

Cartref i bur dangnefedd - oedd yr ardd,
Yn ddrych o wynfydedd;
Ond drwy ammwyl di hedd,
Deuai'n weryd anwiredd.

Ond er i'r sal ddialydd
Ddwyn angau i gangau'r gwydd,
Mynnodd lôr i mi'n ddi wall,
Dynerach Eden arall.

(x194)

(73) Y MYNYDD DU

Mor felys yw adgofion
Am hen rodfevdd Y Wlad;
A bywyd di-brideron
Yn llawn o bob mwynhad;
Er tloted oedd y tyddyn,
Angylion ynddo fu
Mi glywaf sŵn eu hedyn
Hyd heddyw yn y dyffryn,
Wrth droed y Mynydd Du.

Mi godwn gyda'r hedydd
Ar doriad glâs y wawr;
I ddringo dros y creigydd,

I ben y mynydd mawr;
Nis gallaf byth anghofio
Hen draddodiadau lu,
A gyfarfyddais yno
Pan oeddwn yn bugeilio
Ar fron y Mynydd Du.

Mae llynoedd yr encilion
Yn canu'n bêr o hyd,
A bendith yr awelon
Yn gwefla calon byd;
Y neb a garo chwedlau
Rhagoraf Gwlaia gu,
Esgyned gyda'r wawrddydd
I sw'n y llynau llonydd
Ar ben y Mynydd Du.

Pa le mae'r hen fugeiliaid
Oedd yno'r dyddiau gynt,
Yn dilyn llwybrau'r defaid
A'u chwiban yn y gwynt?
(x195) Mae hiraeth ar fy nghalon
Am lawer wyneb cu;
Preswylwyr yr encilion,
A'u graddiau fel y meillion
Ar fannau'r Mynydd Du.

Diaddum yw'r lluestai,
A rhedyn yw eu tô;
Lle bu Meddygon Myddfai
Yn aros lawer tro
Cyfrinion y pellteroedd
A ddysgant o bob tu,
A thafiant o'r cyn oesoedd
Eu cysgod ar y llynnoedd
Ar ben y Mynydd Du.

(x196)
(74) PLESER
Felysaf air; beth a ddywedaf ydyw?
Ai balm y nef ar farwol glwy dynolryw?
Neu ffynnon loew yn y crasdir crm
I dorri syched yr ymdeithydd blin
Neu rywbeth o'r tu allan, swynol, melys,
Wna ar y meddwl argraffiadau boddus,
Yn disgyn, drwy y myfyrdodau'n hudol
Gynganedd fyw - â dymuniadau mewnol?
Mae'n dwyn adgofion am foreuol wynfyd,
A'r tant a gollwyd rhydd yn nhelyn bywyd.

Mor hyfryd i bererin ar ei yrfa
Yw rhinwedd hwn yn ymyl dyfroedd Marah;
Lle nad yw'r ffordd yn gwybod am wyrddlesni,
A'r anial diffaeth yn y gwres yn llosgi;
Mae'n llonni bywyd mewn siomedig fyd,
A llawer Ismael geidw'n fyw o hyd.

Mae ystyr yn yr hwn y down i weled
Gofidiau blinion yn bleserau addfed;
Marwolaeth gaeaf a gynyrcha wanwyn,
Ac adgyfodiad haf sydd yn ei ddilyn;
Er hyn i gyd, mor anodd yw cysoni
Anghyfartaledd pleser a thrueni;
Prin ydyw cysur, ond mor fawr y trallod,
Am ddafn o bleser, fe geir gwae yn gawod;
Pa fodd y mae cyn lleied o bleserau
Ym myd y Duw sy'n ffynnon pob gwynfydau?

Bodolaeth poen a gwyd o ddiffyg dyn,
A gofid sydd wrth bechod byth ynglŷn;
Ni fuasai poen i natur yn ddyrwygol,
Pe daliai'n bur, dan wres y cariad dwyfol;
Ac weithiau, eto, pan drywenir calon
Nid yw yn teimlo mân yr ergyd creulon
Merthyron Iesu sydd yn mynd drwy fflamau
Y stanc ei hun, a'r poenau yn bleserau.

(x197)

Ar eang faes gwybodaeth y mae pleser
Yn ymhyfrydu ar ei edyn tyner;
A lle bo mintai hardd o egwyddorion,
Bydd yno fintai arall o angylion;
Ble bo gweithredoedd da y dyn yn heulo,
Bydd colomenod gwynion pleser yno.

Mae addewidion Duw fel Pren y Bywyd,
Bob mis yn dwyn ei ffrwyth yn gnydau hyfryd;
Pleserau ar y daith i'r pererinion,
Sy'n addfed fyth ar frigau'r addewidion.

Y gân a gollwyd gafwyd mewn calonnau,
A chenir hi nes boddi'r ocheneidiau;
Os mud fu'r delyn heb ei cherddi diddan,
Ac os ar helyg barn y bu yn hongian,
Fe ddaeth yn ol i wneud y prudd yn llawen, -
Pob sain a gollwyd dan y pren yn Eden
A ddaeth yn ol ar delyn "Adda'r Ail,"
Pereiddiach na'r gân gollwyd rhwng y dail;
Y felys gân a ddaw i afon angau,
I foddi'r ddolef olaf rhwng y tonnau
Nefolaidd bleser, nes im' groesi'r lli
I'th wlad dy hun, O! aros gyda mi.

(x198)

(75) BARNAU DUW

Y dylif ar fyd o waeledd - dorrodd
Am flinderus gamwedd;
Rhuai'r môr ar amhuredd,
Ac wele farn yn cloi'i fedd.

Gomoriaid am gamwri - dynnodd dân
O wydd Duw i'w llosgi;
Deifiol yw difrodol fri
Daroganwyr drygioni.

Anhwylus feibion Eli, - bu olion
Belial ar eu gwyrni;
Gwehilion di-ddaioni,
Eu difa raid i fy Rhi.

I nawn meirwon amharod, - daw gwylliaid
O gellwair â phechod;
Am farnau Duw, am fraw'n dod,
Rhybudd hir yw bedd Herod.

Iscariot yn was cerydd, - ddiraddiodd
Ruddiau ei Gynhalydd;
Bwrw i dân heb wawr dydd
Geir o wawdio Gwaredydd.

Tra'n sŵn tarannau Seina, - ei ddu frig
Rydd fraw ar y dyrfa;
Ond dwg lôn fendithion da
I feirwon o Galfaria.

(x199)
(76) TANYBRYN
(*Miss M. Davies, Tonyrefail.*)

Maggie Davies a ddiangodd
Pan yn ddwy ar bymtheg oed;
Pan oedd gwllith y bore'n dechreu
Teimlo pwys ei hysgafn droed;
Pan oedd pwyntyl gwanwyn bywyd
Yn rhoi tlysni ar ei grudd,
Fe ddaeth chwaon oer marwolaeth
I roi'r fun mewn bedd ynghudd.

Angeu creulon, pam y torraist
Lili oedd mor bêr ei awyn,
Wrth ymagor yn y bore
O fewn gardd dynoliaeth fwyn?
O Danybryn fe gipiaist ymaith
Rian anwyl i oer fedd;
Chwerwaist gwpan teulu hynaws,
Taenaist brudd-der dros eu gwedd.

Ei marwnad a eneiniaf
Gyda dagrau calon brudd;
Fy mhin wlychaf yn y ffrydiau
Dreiglant heddyw dros fy ngrudd;
Ond nis gellir rhoi desgrifiad
O'i holl riniau yn y gân;
Dim ond rhodio yn ei chwmmi
A ddanghosai'i buchedd lân.

Mae'n hyfrydwch dilyn camrau
Hon o'i mebyd hyd ei bedd;
Canu ffarwel y fan honno,
Wna im' wylo yn ddihedd;
Yr oedd pawb yn hoff o'i chwmmi
Tra fu yma yn y byd;
Caredigrwydd a lledneisrwydd
Welwyd ynddi ar bob pryd.

(x200)
Yn y byd pan ymddanghosodd,
Fel rhyw estron fechan, gu,
'Roedd delweddau purdeb nefol
Yn ei thremiad siriol hi;
Tad a mam oedd yn ei gwyllo
Yn bryderus ddydd a nos,
A dymuno am ddyfodol
Maith a gwyn i'r eneth dlos.

Magent hi yn anwyl, anwyl,
Fel rhodd ferth o ddwyllaw Duw;
Ac fe lanwyd eu serchiadau
A rhinweddau'r eneth wiw;
Gellid meddwl fod perffeithrwydd
Yn ei chalon, dyner, iach,
Ac na chafodd pechod afael
Ar ddynoliaeth Maggie fach.

Mewn sidanaidd wisg wryfol
Treuliodd hi ei hoes i ben;
Aeth a buchedd heb lychwino
I ddihalog fro y nen ;
Plentyn anwyl Anian ydoedd
Yn ei chwmmi byddai byw:
Hoffai rodio'r caeau gleision,

I fwynhau eu gwenau gwiw.

Hoffai gael gorffwysdra dawel
Rhwnng y blodau yn yr ardd;
I gael gweld gogoniant natur
Yn y rhos a'r lili hardd;
Fel y lili sy'n eiriannu'r
Blodau siriol wrth y drws,
Byddai Maggie yn eiriannu
'Mhlith yr holl wryfon tlws.

Er ei bod yn hoff o natur,
Meddai amgyffredion mawr;
(x201) Elai heibio tlysni'r blodau
At Greawdwr nef a llawr
Bron yr Ysgol Sul a gafodd,
Ac fe'i hoffodd hyd ei bedd;
Gwelai yn ei haddysg nefol
Wlad o wynfyd pur a hedd.

Gyda'r hen athrofa nefol
Nid oedd dim ddiffoddai'i sêl;
Diwyd fyddai fel gwenynen,
Ar y blodau'n casglu mêl;
O! mor brydferth ydoedd gweled
Un o'i dysg a'i chyfoeth hi,
Yn yr Ysgol gyda'r tlodion
Yn cydrodio llwybrau bri.

Tarawiadol oedd ei gweled
Ymysg plant yr Ysgol hon,
Gyda'i melyn wallt modrwyog,
Gyda llygaid gleision llon;
Nid oedd cyfoeth a sefyllfa
Yn fur rhyngddi hi a'r tlawd
Fe gyfrifai'r plentyn tlotaf
Yn yr Ysgol iddi'n frawd.

Ac edrychai ar enethig
Drigai yn y bwthyn bach,
Fel ar foneddiges uchel,
Hanai o urddasol âch
Swynol oedd ei llais eosaidd,
Fel angyles gwynfa lân;
Sŵn melodaidd ei halawon
Berlewygai blant y gân.

Hoffai rodio'r bore hafaidd
I gysgodion coedwig werdd,
I gael gwrando'r côr asgellog,
A mwynhau y felys gerdd;
(x202) Fe ddychwelai'n ol i chwareu
Tannau y berdoneg fwyn;
A dynwared côr y goedwig
Ar ganghenau'r gwyrddliw lwyn.

Ond hyfrydwch penna'i henaid
Oedd cerddoriaeth ysbryd pur,
Meddai chwaeth i ddethol darnau
Goruchela'r awen wir;
Ni halogai'i llais perorol
A chaneuon gwael yr oes;
Sylweddolai ei holl seiniau
Ym mheroriaeth rhin a moes.

Edrych ar ei hwyneb siriol,
A'i hygarol wenau llon,

Roddai wledd i'r meddwl puraf,
A wresogai'r dyner fron;
Nid oedd angen ei cheryddu
Am ei bod yn eneth ddrwg;
Ac ni welwyd neb o'r teulu'n
Edrych arni gyda gŵg.

Sobrwydd a sirioldeb welid
Yn cydwledda yn ei threm;
Natur a diwydrwydd hefyd
Yn ei harddu megis gem;
Gwelid yn ffenestri'i henaid
Arlun harr o Gwener dlos;
Neu lewyrchiad cân o'r lleuad
Ar ei gorsedd yn y nos.

Ond, er hynny, nid prydfferthwch
Ydoedd gwir ragoriaeth hon;
Na, y galon lawn o rinau
Gurai yn ei thyner fron;
Hollbryferthwch creadigaeth

Guddir dan gysgodion rhîn;
(x203) Perl o rinwedd yn y galon
Yw prydfferthwch pennaf mun.

Merch rinweddol ydoedd Maggie,
Dyna'i phrif ragoriaeth hi;
Mor ddigwmwl y serenodd
Ar binaclau uchaf bri;
Tyfu wnaeth yn olewydden
Lawn o ffrwythau iraidd, pêr;
Nes cymerwyd hi o'r ddaear
I baradwys uwch y sêr.

Berr fu'i hymdaith ar y ddaear,
Fel ehediad angel gwyn ;
Neu bleserdaith chwim y wennol,
Dros y ddôl neu loew lyn;
Gostyngeddrrwydd, ac addfwynder,
Ymrysonai am ei bron;
Ond y ddau a gafodd gartref
Dedwydd yn yr eneth hon.

Ei gwanwynol fywyd disglair
Fu o dan lawryfau moes ;
Pur gymeriad, hawdd ei garu,
Wisgodd Maggie drwy ei hoes;
Dacw hi yn canu ffarwel
I gysuron cartref clir,
Er mwyn cael manteision addyag
Yn ysgolion goreu'r tir.

Yn yr ysgol bu'n llwyddiannus
I drysori dysg yn stôr;
Ymestynai am ddysgeidiaeth,
Fel yr afon am y môr;
O gloddfeydd mynyddoedd addysg,
Tynnodd allan emau drud;
Mwnglawdd eang gwybodaethau
Sugnodd ei serchiadau i gyd.

(x204)
Chwilio'n hwyr, a chwilio'n fore,
Dyna'i hanes, anwyl fun;
Mynnai gael trysorau pennaf
Dysg yn eiddo iddi ei hun
Ond y llafur a'i hynododd

Fagodd elyn dan ei bron
Naddai hi yn araf, araf,
Gan hudwenu arni'n llon.

Ei gobeithion a ddiflannodd
Pan ar forlan pymtheg oed;
Gwywodd un o'r blodau harddaf
Welwyd yn y wlad erioed;
Aeth gwyrddlesni hoender iechyd
Ymaith gyda deifiol chwa;
A chorwyntoedd gaeaf gerwin
Ddaeth i ymlid ffwrdd yr ha'.

Wedi hynny noson dywell
Fu ei bywyd yn y byd;
Codai cwmwl ar ol cwmwl
Yn ei hwybren wèn o hyd;
Brochus donnau afon angau
Ruent beunydd yn ei chlyw;
Ac awelon deifiol adfyd
Wywent wrid yr eneth wiw.

Gwelodd yn ei chystudd garw
Wenau llon dau wanwyn mwyn;
Ond nis gallai Maggie anwyl
Deimlo eu hadfywiol swyn;
Ar y coed o gylch ei hannedd
Byddai'r adar mân fel cynt;
Ond nis gallai yn ei chystudd
Feddwl mwy am gerddgar hynt.

Heibio natur heda'i meddwl,
Heibio ei pherth'nasau cu -
(x205) Heibio i bob peth gweledig,
I'r ardaloedd sanctaidd fry;
Tyfu wnaeth ei henaid nerthol
Drwy ei phabell briddlyd wàn;
Gorfu arno hedeg ymaith
I fwynhau eangach glàn.

Dianc wnaeth ei hysbryd ymaith
O afaelion poen a chur!
Nid oes gennym mwy ond adgof
Am ei bywyd sanctaidd pur;
Anodd iawn yw portreadu
Adeg oedd mor flin a hon
Pan y gorfu i'w chyfeillion
Hoff ei gadael yn y donn,

Gweled c'lymau hoff cymdeithas
Yn ymddatod bob yn ddam;
Corff ac enaid yn ffarwelio,
Hyd foreuddydd mawr y fam;
Gweled gwryf ieuanc, lednais,
O dan aethau angeu'n fud,
Barodd glwyf i lawer calon
Oedd yn aros wrth y rhyd.

Gwelais hi yn nhonnau'r afon
Yn rhy bell i frich o gnawd
Ond aeth drosodd yn ddiangol,
Gan ymddiried yn ei Brawd;
Ffarwel iti, O! gyfeilles,
Wyt yn ddiogel ar y làn;
Teimlo'r wyf y deuaif innau
I dy gwmmi yn y man.

Heddwch fyddo mwy yn aros
Gylch dy feddrod, Maggie gu;
Taened natur dlysaf flodau
Ar dy wely distaw di;
(x206) Riaint anwyl, peidiwch wyllo,
Huno wnaeth yr hawddgar fun;
Ni wnaeth hi ond canu ffarwel
I drafferthion bywyd blin.

Ni fu'ch Maggie anwyl farw,
Cysgu mae mewn tawel hedd;
Cewch ei gweled eto'n fuan,
Wedi canu'n iach i'r bedd;
Bywyd yn yr ardd a wywodd,
Syrthiodd i'w aeafol hun;
Y gwanwyn a'i hadfywia
I'w gynhenid liw ei hun;
Gyda gwawr yr Adgyfodiad,
Deffry Maggie eto'n hardd;
Gwridda purdeb ar ei hwyneb
Fel y rhosyn yn yr ardd.

(x207)
(77) GWLAD MYRDDIN
Cas yw y dyhiryn
Na charo ei wlad; -
A wado hen dyddyn
Diaddum ei dad;
Mae rhai yn gynefin
A chestyll o fri;
Ond buarth a chegin
Gwlad Myrddin i mi.

Dwed ambell ddychymyg
Yn uchel ei dôn,
Na chrewyd dim tebyg
I'w Fenaï a'i Fôn;
Breuddwydied ynghanol
Eu swynion di ri;
Ond rhoddwch arddunol
Wlad Myrddin i mi.

Mae'r Wyddfa yn Arfon,
A mawr yw ei chlôd;
A'r Gader ym Meirion,
Heb fardd iddi'n dod;
Cartrefle rhaiadrau
Byddarol eu cri;
Ond tlysach yw bannau
Gwlad Myrddin i mi.

Mae'r Glwyd yn ddymunol.
A'i cheulan yn hardd;
A'r Dyffryn yn swynol
I gerddor a bardd;
Gall awen wirioni
Wrth ddilyn y lli;
Ond harddach yw Tywi
Gwlad Myrddin i mi.

(x208)
(78) Y BALCH
Mae llawer dull o siarad,
A llawer dull o fyw,
A llawer dull o gerdded
Yn hanes dyolryw;
Ond o'r dullweddau hynny,

Ym mywyd llawer gwalch,
Nid oes yr un mor wrthun
A digrif ddull y Balch.

Mae trachwant a glythineb,
A charu aur a phres,
A blysiâu annaturiol
Yn waelach na di-les;
Ond balchder yw y dylaf
O hon wendidau dyn,
Mae eiddew hunanoldeb
Wrth natur hwn ynglŷ n.

Daw heibio yn benuchel,
A'i gefn mor syth a ffon;
Modrwyau ar ei fysedd,
A chadwen ar ei fron;
Ei olwg gwyd i fyny,
I wlad y sêr di-ri,
Fel pe na byddai'n perthyn
I'n planed fechan ni.

I dynnu sylw'r werin,
Urddasol yw ei wisg;
Er nad yw'n ddim ond cneuen,
Yn wâg o dan y plisg;
Am gael y nwyddau goreu,
Fe chwilia'r byd yn grwn;
Ond nid yw talu'r billau
Yn blino dim ar hwn.

(x209)
Mae'r garreg fedd, ddiaddurn,
Ac arni haen o galch,
Yn dal o hyd yn ddarlun
O galon ddu y Balch;
Ei benguwch sydd yn ddisglaer,
Ac uchel yw ei bri;
Ond esgym wedi mallu
A geir o dani hi.

Mae rhodres a mursendod,
A hunanoldeb ffôl,
Fel arogl hyfryd llwynog,
Yn llinell ar ei ol;
Pan ddelo balchder allan
O'i ffau, heb gadw sŵn,
I'w draill am helfa ddifyr
Gollynga'r byd ei gŵn.

Hen frenin argyhoeddwyd
Yng ngwlad y dwyrain gynt,
Fod cwmp yn dilyn balchder
Penuchel yn y gwynt;
Daeth goruchwyliaeth hynod
I drin ei ysbryd balch;
Pan fynodd ei Gynhaliwr
Wneud eidion mud o'r gwalch.

Tra'n aros yn Rhyd Ychen,
Fe ddysgodd cyn bo hir,
Mai'r ffordd i wella balchder
Yw pori gwellt y tir;
Di-orsedd ar y doldir,
Bu fyw yn wael ei ddrych,
Heb iddo wledd ragorach

Nag isel fwrdd yr ŷ ch.

(x210)

Mae llawer brenin eto
Yn aros ar ei ol,
A ddylai gael ei symud
I blith eidionau'r ddôl;
Rhaid ydyw plygu balchder,
Sy'n ddirmyg ar yr hil,
A'i roi yng nghwmni'r gwartheg
I ddysgu cnoi ei gil.

A welsoc'h chwi Wenllian,
Sy'n byw yn Nhan yr Allt,
A phaent ar hyd ei gruddiau,
Ac olew yn ei gwallt?
Daw heibio fel brenhines
Hyd lwybrau gwlyb y ddôl;
A hanner llath o sidan
Yn llusgo ar ei hôl.

Mae'n edrych fel colomen,
A'i chefn yn hardd i gyd;
A'r lludw yn ei chartref
Hyd at y drws o hyd;
I'r ddinas y try allan
Yn flodau ac yn blu;
Ond gweoedd y pryf.gopyn
Yw addurn penna'r tŷ .

Mae'r ffasiwn yn cyfnewid
Yn amlach na phob mis;
Ond rhaid yw dilyn honno
Beth bynnag fyddor pris;
Fe roir yr hen i gadw,
Yn daclus ac yn dlws,
Mewn maelfa a thair pelen
Yn crogi uwch y drws.

(x211)

Mae'n meddwl am briodi
Wrth gerdded yma thraw;
Ond dyn a helpo'r bachgen
Rydd fodrwy ar ei llaw;
Hi wisga'i bysedd meinion
A gemau'n ddigon siwr;
Ond nis gall bwytho botwm
Ar ddillad gwaith ei gŵr.

Hawdd fyddai dal i ganu
I falchder dan yr haul,
A dangos ei wrthuni,
Ond nid yw'n werth y draul;
Mae'n well i'r ysbryd hwnnw
Ynguddio yn ei gell;
Oherwydd Duw a edwyn
Y beilchion o hir bell.

(x212)

(79) CYSTUDD

Gwae durfiniog drwy f'annedd - sy'n drallod,
Sy'n dryllio fy ngorsedd;
Gwyraf yn llesg i orwedd
O dan hug a barrug bedd.

Lliw cystudd ar fy ngraddiau - geir heddyw,
Ac arwyddion angau;

Fy nerth sy'n araf wanhau,
A salwch dan ei seiliau.

Dioddef yn lle dedwyddyd, - a du wae
Yn andwyo bywyd;
O dan bwys trallodion byd,
Ingol wyf yn fy nghlefyd.

A nwyfiant bum gynefin,
A fy myd yn hyfryd hin;
Ond heibio daeth difrodydd,
A difwynhad yw fy nydd;
Nôd ydwyf i wendidau - ac aflwydd,
Yn wawd anedwydd i ddirdyniau.

Emynol delyn mwyniant
Ddistawodd, torrodd y tant;
Nid yw iaith gwynfyd weithian,
Yn llanw cylch llwyni cân;
Llym awelon creulon croes
A ddifwynodd fy einioes.

Di-heulwen dan fy mhenyd, - nid yw byw
Onid baich heb iechyd;
Caledfawr ysgol adfyd,
A rhandir barn ydyw'r byd.

(x213)

(80) MAE'R GAEAF WEDI CILIO

Mae'r gaeaf wedi cilio,
A'i gaethion eto'n rhydd;
A'r gwanwyn ar y caeau llwm
Yn plannu llygaid dydd;
Wrth weld y fro yn glasu,
A'r stormydd yn pellhau,
Mae telyn bywyd yn ei hwyl,
A'r byd yn llawenhau.

Mae'r gaeaf wedi cilio,
A'r meillion ar y ddôl;
A blagur ar y fedwen draw,
Yn galw'r gôg yn ol;
Ymlidiwyd cysgod angau
O wyneb natur lân;
Mae ar ei gruddiau newydd wrid,
Ac yn ei chalon gân.

Mae'r gaeaf wedi cilio
I'w oer begynau pell;
A gwenau llon briallu'r clawdd
Yn addaw dyddiau gwell;
Os bu fy iechyd innau
Mewn gaeaf ennyd bach,
Caf wenu'n llawen cyn bo hir,
A chanu'n fythol iach.

(x214)

(81) DAFYDD JONES

Dafydd Jones o blwyf Llanafon
Oedd yn bedwar ugain oed,
Ac ni fu yn cysgu noson
O'r hen bentref bach erioed
Dwedai wrtho'i hun ryw ddiwrnod -
"O! mor hen ac unig wyf,
Wedi claddu'm plant a'm priod,
Ac yn byw ar dâl y plwyf.

“Ond, er hynny,” meddai Dafydd,
‘Gallaf eto wneuthur da
I’r pentrefwyr ac i grefydd, -
Rhywbeth bychan a’u llesha;
Carwn leddfu gofid rhywun,
A distewi poenus gri,
Am fod Meddyg wedi disgyn
I iachau fy ngofid i.

*“Amgylchiadau sydd yn gyfyng,
Rhoddi’n hael nis gallaf mwy;
Ond cyfranaf fy nwy hatling
O elusen fach y plwy;
Rhoddi parc i lonni’r pentref
Sydd yn fwy nas gallaf wneud;
Ond ar glust y claf sy’n dioddef,
Gair caredig allaf ddweyd.*

*“Dwedaf wrth bechadur ysig
Sydd yn mynd i’r farn yn ddall,
Fod yr lesu yn garedig,
Ai faddeuant yn ddiball;
Sydd dan faich o helbul blin
Mwy na hynny, mi gymeraf
Ran o’r baich i mi fy hun.*

(x215)
*Dringo’r llwyfan neu y pulpud,
Mwy nis gallaf ar fy nhaith;
Eto dyledswyddau bywyd
Ddengys imi symlach gwaith;
Chwiliaf allan gŵyn a chynni
Ar hyd pentref bach y wlad;
Ac wrth ddal i wneud daioni,
Rhydd y nef i mi foddhad.*

*Edrych Duw ar y Samariad,
Sy’n rhoi olew ar y clwyf;
Gwerthfawroga rasol weithred
Gan y tlawd sydd ar y plwyf
Goleu yn fy ffenestr gadwaf,
Ar hyd noson ddu ddi-loer;
Ac i ddisgybl gwan y rhoddaf
Y cwpanaid o ddwfr oer.”*

Trwsio’i lamp ei hun wnai Dafydd,
Nes oedd fel y wawrddydd dlos;
A disgleiria’r llewyrch beunydd
I’r pentrefwyr yn y nos;
A chynheilent hwythau’u lampau
Wrth ei lusern oleu ef;
A dylanwad ei weddiau
Dynnai’r pentre’n nes i’r nef.

Dafydd Jones hebryngwyd adref
Gan angylion ryw brydnawn,
Cyn i rewynt oer yr hydref
Chwythu arno’n arw iawn;
Y mae heddyw’n etifeddu
Teyrnas nef a newydd stâd,
Wedi tâl y plwyf am flwyddi
O fewn pentref bach y wlad.

(x216)
(82) DEWI SANT
Caraf draddodiadau Cymru,
Caraf gylchwyf Dewi Sant;

Ac mae heddyw ysbryd canu
Yn dynesu at y tant;
Er i lawer canrif welw
Ado'r Sant mewn distaw fedd,
Rhaid i Gymru gofio'i enw,
Rhaid i awen gynnal gwledd.

Caned y telynau'n felys
Hen garolau'r dyddiau gynt,
Pan oedd llais y proffwyd hwylus
Yn ymdonni yn y gwynt;
Yn yr hen garolau hynny
Y mae ysbryd Dewi Sant
Fyth yn aros, ac yn tyfu
Yn wladgarwch yn y plant.

Proffwyd oedd, a'i genadwri
Yn diuno Cymru Fu;
Ac yn tywallt ei oleuni
Ar y tew dywyllwch du;
Hauodd ddwyfol wirioneddau,
Geidw'i enw mewn coffhad;
A'i gynhaef heb ddim efrau
Sy'n addfedu yn y wlad.

Er mor dywyll yw'r encilion, -
Hen rodfeydd y cennad hedd,
Er fod caddug y gorwelion
Eto'n aros ar ei fedd,
Treiddia'i ysbrydoliaeth gyfrin
Drwy awelon bryn a phant;
Ac yng nghalon fawr y werin,
Ni fydd marw Dewi Sant.

(x217) Cadwn wyl yr hen wladgarwr,
Na foed fud offeryn cerdd;
Ac yn wyneb y gormeswr,
Gwisgwn y genhinen werdd;
Hen arwyddlun nerth diwyro
Dewr Frythoniaid yn y gâd;
Glyned gwerin wrthi eto
Wrth amddiffyn hawliau'r wlad.

Hir y paro ysbryd Dewi
I roi crefydd Cymru'n fflam
A gwladgarwch fyddo'n llosgi
Holl gadwyni trais a cham
Dalied byth ei egwyddorion
I sancteiddio teulu'r ffydd;
Sylweddoler ei freuddwydion
Ar aelwydydd Cymru Fydd.

(x218)
(83) USSAH
Ar draethell bell y tragwyddoideb draw,
Eisteddai angel gwyn a'i delyn yn ei law;
Gan syllu tua Phalestina'n brudd,
A sobrwydd yn ymdaenu dros ei rudd;
Ei fysedd dynnai dros y tannau mân,
Gan arllwys dros y làn bryderns gân;
Lleddf oedd ei dôn, yn nghysgod tŷ ei Dad,
Wrth weld yr Arch heb gartref yn y wlad.

'Roedd Saul y brenin wedi digio'r nef,
A lluoedd y Philistiaid arno ef;
Gan ddwyn yr Arch yn gaeth i estron dir,
A Seion yn amddifad wylai'n hir;

Ac er fod Arch y nef mor llawn o Dduw,
Nas gallai estron edrych arni a byw,
I breswyl Abinadab dygwyd hi,
A'i babell erys mewn anfarwol fri;
A thyfodd Ussah mewn edmygol barch
I Dduw y nefoedd ac i'w sanctaidd Arch.

Fe glywid cwynfan cenedl y pryd hyn
Yn cynghaneddu â chân yr angel gwyn,
Am le cyfleus i'r Arch o fewn y wlad,
I'r llwythau nesu ati mewn boddhad;
A llechu'n dawel yn ei chysgod cun,
Heb ofni brâd yn ymyl Duw ei hun.

Ond torrodd gwawr; ac wele ras yr Iôr
Yn chwyddo yn ei fynwes fel y môr;
Ac angel arall uwch y sanctaidd dir
Ddatguddiodd haul addewid eto'n glir.

I orsedd Israel y dyrchafwyd Dafydd,
Yn frenin ar y wlad, a chryf arweinydd;
(x218) Sylfaenwyd ei frenhiniaeth, wladgar fyw,
Ar greigiau cedyrn addewidion Duw;
Ysbeiliodd allu yr elynol gâd
Fu'n ysgwyd cledd uwchben y sanctaidd wlad;
Ni welai Dafydd ond gweddillion rhengau
Yn dianc am eu bywyd dros y bryniau;
Erlidia ar ei hol yn wron heinyf,
A barn y nef yn fflamio ar ei gleddyf;
Glanhau y wlad a fynnai o'i gelynyon,
A chynneu'r tân ar hen allorau Seion;
Ei fryd a roes ar godi tŷ i'r Arglwydd,
I ddwyn yr Arch i drigfa ei sancteiddrwydd;
Lle gallai'r llwythau ymgrynhoi yn dyrfa,
A Duw yn eistedd ar y Drugareddfa.

Cychwynai'r brenin allan,
A'i luoedd gydag ef,
I breswyl Abinadab
I gyrchu Arch y nef;
Ei galon oedd yn curo,
A'i ysbryd yn y gwaith
A'r bryniau yn adseinio
Ei salmau ar y daith;
Yr ychain oedd yn barod,
A newydd fên gerllaw,
I gario Arch gyfamod Duw
Yn ol i Salem draw;
Er fod y ffordd yn arw
A'r fên yn teithio'n drwm,
Amddiffyn dwdyfol oedd i'r Arch
Wrth groesi bryn a chwm;
Dylinau Ussah'n llawen,
A'i sêl yn boeth a llym;
A phrofodd fod rhybuddion Duw
Yn aros yn eu grym.

Dynesent tua Seion,
A gwenai'r nef i lawr;
(x220) Ond wrth lawr-dyrnu Nachon
Y bu trychineb mawr -
Ysgydwai'r fên o ddeutu
Gan arwed ffordd y dre;
A chydiodd Ussah yn yr Arch,
I'w chynnal yn ei lle;
Anghofiodd y gorchymyn
A roddwyd gan ei Ri, -

Na chyffwrdd hi â marwol law,
Neu'n farw byddi di;
Ae er i'r weithred godi
O'i ddyfnaf gariad ef,
Yn dâl am ryfyg mawr y llanc
Disgynnodd barn y nef.

Y Presenoldeb Dwyfol oedd o hyd
Yn aros ar yr Arch mewn estron fyd;
'Roedd cysgod y Shecina drosti hi,
Yn ddiogelwch rhag y tân a'r lli;
Mae natur fud yn plygu ger ei bron,
Gwyleiddia byth yng ngwydd awdurdod hon;
Llif yr Iorddonen o flaen Arch y nefoedd
A drodd yn ol mewn dychryn i'r mynyddoedd;
A chaerau Jericho ar ei cryf sylfaeni
Yng ngwyddfod hon a fynnent ymddifodi;
A'r marwol ddyn a ddyry arni law
A hyrddir dros y ffin i'r byd a ddaw.

Ddiniwed Ussah! anodd yw cymodi
A'r farn a welwyd ar dy ben yn torri;
Gwn fod trugaredd o'i daioni tirion
Yn edrych ar y weithred fel o gywir galon;
A chariad dall yn ceisio'i gyfiawnhau,
Gan fwrw'i glôg sidanol dros ei fai;
Ond braich cyfiawnder gyda chleddyf miniog
Sy'n ysgwydedig uwch troseddwr euog;
(x221)A'r hen orchymyn roddwyd gynt i Aaron,
Yn dal yn gadarn dros ei holl ofynion
Y ddaear naddir gan ergydion amser,
A'r ser a syrthiant i gaddugol ddyfnder
Ond gair yr Iôr a bery yn dragwydd,
Mae hwn a'i enw'n gwlwm wrth eu gilydd.

O! Ussah, fe gyflawnaist rywbeth mawr,
Mwy pwysig nag yw holl fynyddau'r llawr;
Yn ddyfnach nag yw'r môr, yn uwch na'r nen,
Un dafn o bechod ddua'r orsedd wên;
Dy drosedd di, er iddo gael ei wneud
Mewn rhyw anghofrwydd, sydd yn hyawdl ddweyd

Nad yw anghofrwydd, dyn a'i anwybodaeth
Yn ddadl yn erbyn miniog gosbedigaeth;
Ni fu'r fath beth ar lyfrau deddfau Duw,
Ag amcan da i weithred ddrwg ei rhyw;
Mae drwg a da i aros ar wahan,
Y naill yn ddu, a'r llall yn fythol lân;
Pob un i symud yn ei gylch ei hun,
Yn ol gosodiad Duw cyn llunio dyn;
Ac er fod amean Ussah'n dda, mor bur
A chân y sant ar fryniau'r nefol dir,
Ei ryfyg oedd mor ddrwg nes tynnu'r nef
I lawr yn ddial marwol arno ef.

Os bu yr Arch dan gwmwl
Yn hir o fewn y wlad,
A'r balch yn edrych arni hi
Drwy ddrvchau o sarhad;
Mae Duw yn angeu Ussah
Yn siarad wrth y llu,
Mai cysegredig yw o hyd,
Fel yn y dyddiau fu;
Fod y tanbeidrwydd sanctaidd
Yn ei chylchynu'n awr;
(x222) Fel pan yn agoshau at lif
Yr hen Iorddonen fawr

Ac yntau yn ei chanol
Mor ffyddlon ag erioed,
I gadw'r genedl yn ei law,
A'r gelyn dan ei droed.

Mae deddfau'r nef yr un drwy oesau'r byd,
Drwy aberth y daw bendith Duw o hyd;
Marwolaeth un i gadw'r llall yn fyw,
Yn amlwg welir yn llywodraeth Duw
Bu rhoddi'r Arch yn ymyl gorsedd Dafydd,
Yn gefn a thwr i'w gref lywodraeth beunydd.

Daw tynged Ussah drwy bob oes i lawr,
I ddangos llym eiddigedd y Duw mawr
Yn erbyn diystyrra'r Arch sancteiddiol,
A chadw côf o'i orchymynion dwyfol.

(84) PLESER PUR

Nid yw Nâf yn gwarafun, - oes euraidd
O gysuron arddun;
Oriau cerdd, a phleser cun,
Ddaw o nerthoedd anwrthun.

(x223)

(85) Y CRYD-CYMALAU

Milain yw'r cryd-cymalau, - direswm,
Yn drysu gewynau;
Môr o ing yn marwhau
Iechyd, a'i droi yn ochau.

Gwaeau sydd ymhob gewyn - o fy nghorff,
Yn fy nghau mewn dychryn;
Wyf druanaf, ddwysaf ddyn,
Dan gur o'i wadu i'w goryn.

Anhydyn ddirdyniadau, - yn *grîw* dig,
Rhagredegwyr angau;
Ysig ŵr, ac yn llesghau
Wyf yng nghanol fy ngwyniau.

Erfyn dur i fwynderon, - yw'r ellyn
Sy'n dryllio fy nghalon;
Trywaniad, yn frid i fron,
A gynygia'r gwynegon.

Garw boenau geir beunydd, - yn dinerth
Gadwyno awenydd;
A phob gloes i'r einioes rydd
Lid marwol heb ladmerydd.

Aniddan yw fy nyddiau, - a fy nwyf
Yn nôd i gystuddiau; -
Dedwyddyd fy mywyd mau
A loriwyd gan ddoluriau.

(x224)

(86) MARW'N YR HAF

Y rhosyn yng nghanol rhosynnau Mehefin
Ogwyddodd ei ben, ac edwinodd yn glaf
Mor brudd ydoedd gweled prydferthwch mor iesin,
Dan lwydrew yr hydref yng nghanol yr haf.

Siomedig yw'r ddaear, pan decaf ei heulwen,
A gwelir ei blodau yn newid eu lliw;
Y rhosyn a grina, tra'r gwllith ar ei ddeilen,
A chefnu wna gobaiith a'i galon yn friw.

Y baban a wywodd, a'i raddiau dymunol
Fel bore Mehefin, pan dyrr ar y bryn;
Addfedodd yn gynnar yn rhosyn anfarwol,
I fwynach Mehefin tu arall i'r glyn.

Ni thyfodd ei dllysach yng ngardd y ddynoliaeth,
A siriol hawddgarwch y nef yn ei bryd
O'i gollu mor fuan, mae cwmwl o hiraeth
Ar galon rhieni yn aros o hyd.

Y rhosyn a welwyd gan angel caredig,
A'i wisgo a wnaeth ar ei fynwes ei hun
A Rhosyn rhosynnau y Duw anweledig,
Yn rhosyn Mehefin a welodd ei lun.

Mae cariad o hyd yn y fynwent gyfagos,
Yn plannu rhosynnau hawddgaraf eu gwedd;
A darlun o ros yn a welir yn aros
Uwch enw'r un anwyl ar garreg ei fedd.

(x225)

(87) YR ENFYYS

O enfys hardd! ai gardd rosynnau yw
I'r pur o galon rodio
Yng nghwmni engyl, gerllaw palas Duw,
Lle na ddaw pechod heibio?
Mae seithliw anian yma'n toddi 'nghyd,
I liwiau glân y nefoedd;
A diluw o brydferthwch y ddau fyd
Yn atal diluw dyfroedd.

Trugaredd welir ym mhelydrau'r dydd,
Ar dew gymylau anian,
Ac allwedd barn o fewn y bwa sydd
Uwchben y byd yn hongian;
Tosturi grasol a gyfeiria drwy
Y lliwiau heirdd arddunol,
At ddwyfol enfys o brydferthwch mwy
Uwchben yr orsedd nefol.

Ardderchog enfys! Adgof am a fu
Ar fywyd halogedig;
Ac, yn ei wyneb yn y cwmwl du
Mae gobraith byd colledig;
Os gwobrwy camwedd ydyw gŵg a gwawd,
Mor hyfryd yw y meddwl
Fod Duw mewn cymmod a dynoliaeth dlawd,
Tra'r bwa yn y cwmwl.

Mae'r hen gyfamod yn parhau
Yn gadarn yn yr enfys;
Ac er i galon ymbellhau,
Addewid Duw a erys;
A thra fo'r bwa yu y nef,
Yn atal llid a soriant,
O fewn ei byrth dihalog Ef,
Aberthaf ebyrth mohant.

(x226)

(88) GWYLLIAU'R HAF

Hawddamor i Wyliau yr Haf,
A heulwen ar fyd yn tywynnu;
I ben y mynyddoedd yr af,
Ac yno caf galon i ganu;
O ddwndwr a chaddug y dref,
A phryder y byd ai ofidiau,
Caf yfed awelon y nef,

Sy'n llawn o berarogl y blodau.

Hawddamor i Wyliau yr Haf,
Mae bywyd yn galw am danynt;
Cysuron i ysbryd y claf
A dardd yn ddi-hysbydd o honynt;
Y "pigyn" a'i blinodd cyhyd,
A dynnir gan londer a heddwch;
I'w ruddiau y dychwel y gwrid,
I'w galon y dychwel diddanwch.

Hawddamor i Wyliau yr Haf,
Bu disgwyl am danynt am flwyddyn;
I lannau y moroedd yr af,
Ac yno y canaf fy nhelyn
Yn ddifyr a llawen fy mron,
Ymdrochaf ym merw y cenlli;
A chladdaf yn nyfnder y donn
Ofalon y byd a'i galedi.

Hawddamor i Wyliau yr Haf,
Ymlwybraf yn hir ar y glannau;
A newydd gyfeillion a gaf,
A'u cariad yn gryfach nag angau
Mae'r gaeaf yn farw'n ei fedd,
A'r dyddiau yn hir ar y dolydd
I minnau mae bywyd yn wledd,
A natur yn fyw o lawenydd.

(x227)

(89) TIR BEULAH
Byw olwg ar dir Beulah
Dry adfyd yn hyfryd ha';
Uchel dir heb fachlud haul,
A thir o gyfoeth araul; 4
Haf wlad, a'r tlysaf flodau
Yn aros byth dros y bau;
Bro iraidd oll, bro rhy dda
I lu Belial yw Beulah;
Un yw heb "Gawr anobaith"
Yn herio dyn ar ei daith;
Hud-ddwyfol wlad ddi-ofid,
Heb un llais o boen na llid;
Tir lluniaeth, cartre lloniant,
A chnwd serch i enaid sant
O fewn hon y ca fwynhad,
Ac oriau melys cariad.

Ei oreu stâd dros y donn
Yw Beulah ddi-helbulon;
Swyn haf y Ddinas Nefol
Wel yn awr, a'r niwl yn ol;
Ac aros uwch y caerau
Mae haul gwyn, heb gwmwl gau.

Ddihalog Ddinas ddilyth,
A Iôr yn ben arni byth;
Pur oror y pererin
A'i lwynau heb loesau blin;
At gaer y Porth Disglaer daw,
Ac o'i delyn cwyd alaw;
Drwy ing y nos dringo wna
I drybelid dir Beulah.

(x228)

(90) YR "EXCURSION"
(*Cân ddigrif*).

Fe dorrodd y bore yn glir,
Heb gwmwl uwchben yn ymlwybro;
Y dydd a ddisgwyliwyd yn hir,
A dydd ddaw i lawer a'r bendro;
Dylifa torfeydd o bob oed
Yn gynnar i lwyfan y stesion
A'r troion digrifaf erioed
A welir ar ddydd yr *Excursion*.

Yn rhydd y gollyngir y chwant,
A chwedl ar wefus a thafod
Ac nid yw yn bechod i sant
Anghofio ei hun am ddiwmod;
Gall gellwair a chwerthin yn wir,
Heb son am y "pla" sy'n ei galon
'Does Gristion a'i wyneb yn hir,
Sy'n meddwl mwynhau yr *Excursion*.

Y dyrfa heb reol na threfn,
Ymwasgant i godi tocynau
A phwysau y llu o'r tu cefn
Yn ddistryw i blyf a sidanau
Tra'r merched yn gwaeddi yn groch,
A'u crinolins newydd yn yfflon,
Fe glywyd galwadau y gloch,
Yn dweyd fod rhaid cychwyn yn union.

"*This way,*" meddai lleban o Sais,
"*This way to the Tenby Excursion;*"
Ac eilwaith dyrchafodd ei lais,
Gan wthio y teithwyr yn greulon
Cynhyrfodd Meredydd Tŷ Clai,
A thrawodd y swyddog yn ddwbwl;
Ac er fod y swyddog ar fai,
Arweiniodd Meredydd i drwbwl.

(x229)
O ganol y dorf gyda brys,
Cymerwyd y bachgen i fyny,
I aros ei brawf yn y llys,
Am daro y swyddog *on duty*:
Gwenonwy a gododd ei llef,
A'i chalon yn curo gan bryder;
A thocyn y ddau gydag ef
Ym mhoced ei wasgod yn ofer.

'Roedd rhai yn dibrisio y *mass*,
A'u siriol gariadau yn dilyn;
Gan aros wrth ddrws y *first-class*,
A'r trydydd yn glir ar y tocyn
Cychwynodd y trê'n yn y man,
A'r mwg yn dyrchafu'n fodrwyon;
A rhaid ydoedd neidio i'r *Van*
Yn ddiddig, neu golli'r *Excursion*.

Cyflymai y peiriant ar ffrwst,
A'r byd yn mynd heibio'n ribanau;
A mawr oedd yr helynt a'r trwst
A godai o wagedd calonnau;
Pob cerbyd a lanwyd yn dynn,
Ni welwyd erioed y fâth Fabel;
A phrofwyd fod bywyd yn wyn
Gan lawer yn nh'w'llwch y tynnel.

Mewn congl caed ambell hen lanc
Yn darllen papyrau newyddion;

A'i galon yn rhedeg i'r banc, .
Wrth feddwl am wastraff cariadon;
Fan arall mae dau yn gytun
Yn gwledda'n ddinewyn ar deisen;
A photel ardderchog o win
O seler hudolus John Heidden.

'Nol teithio yn ddifyr a llon,
O'r diwedd cyrhaeddwyd y terfyn,
(x230) Mewn gorsaf yn ymyl y donn,
A lle cyfeiriedig y tocyn;
Yn uchder y newydd fwynhad,
A phawb ar eu gilydd yn bloeddio,
Fe gredai trigolion y wlad
Fod byddin o Ffrainc wedi glanio.

Sychedig oedd Dafydd o'r Llwyn,
A hoff o gymdeithas ysbrydion;
A chariai ei *sign* ar ei drwyn
Lle bynnag yr elai'r *Excursion*;
Aeth Dafydd mor hoew a'r hydd,
I'r dafarn i dorri ei angen
Ac yno y bu drwy y dydd,
A cholodd y trê yn y fargen.

Dychwelodd 'mhen diwrnod neu ddau,
A thalodd yn ddrud am ei gario;
A chur yn ei ben yn parhau,
A'i lygaid fel dyn yn breuddwydio;
Fe gollodd ei het yn y gwynt,
Fe'i cariwyd i'r môr drwy yr awyr;
A syndod cyn diwedd yr hynt,
Na cholodd y gweddill o'i synwyr.

Aeth mintai i'r môr yn y cwch,
A chanai y merched yn llawen;
Ond bwriodd y wendon ei llwch
I fewn yn gawodydd o halen;
Fe drodd y difyrrwch yn boen,
A'r fordaith bleseras yn ofid
A glaniwyd yn wlyb hyd y croen,
Heb lain o ddilledyn i newid.

Fe dreuliwyd y dydd ar y traeth,
Dan lewyrch yr haul yn ddigysgod;
A throsedd ar foesau a chwaeth,
Oedd cysgu fel lloi ar y tywod
(x231) 'Roedd ereill am gychwyn yn ol,
Yn aros am oriau'n y stesion;
A'u golwg yn hurt ae yn ffôl,
Mewn hiraeth am gloch yr *Excursion*.

Ond rhaid i mi orffen y gân,
Rhag trethu amynedd y beirniad;
Er hynny, mae'r awen ar dân,
Ac ysbryd y trê yn fy nghaniad
Ni ches y fath *drip* yn fy myw,
Ni welais erioed y fath droion
Ac aros o hyd yn fy nghlyw
Mae berw di-baid yr *Excursion*.

(91) Y LLAW
Y llaw ufudd, nerth llafur, - arf heriol
Dry fwriad yn eglur;
Nawdd y corff, - yn nannedd cur,
Daw a saig i'r di-segur.

(92) TŶ DDUW
Tŷ lôr, i fewn anturiwn, - yn Salem
Y preswylia'n pardwn
Y ddu esgid ddiosgwn
Yn ofn Duw wrth fynd i hwn.

(x232)
(93) YR EFENGYL
Galwad ar euog elyn, - i hedd Duw,
Yn ddi dwyll gredadyn;
I hâd Adda, bwrdd Duwddyn,
A'i hystor at eisiau dyn.

Afon o fôr tangnefedd, - a'i gwenyg
Ylch ddrygionus lygredd;
Ar ei glan mae arogl hedd,
A grawnwin y gwirionedd.

(94) DAEAREG
Daeareg wêl gêl galon - ein daear,
Dywed ei chyfrinion;
Ei llwydd hi yw allwedd hon,
Myn weled ei mewnlion.

(95) PARC DYNEFWR
Henafol Barc Dynefwr, - fan tawel
Ar fin Tywi lyfnddwr;
A'r tud lle troai Tewdwr
Yn nydd dig am lonydd dwr.

Pery coed y Parc hudol - yma'n wydn,
Mewn nwyf ymerodrol;
Derw o nerth all droi'n ol,
Yn ddirym stormydd heriol.

(x233)
(96) LLYFRAU Y BEIBL
Cyhoeddir y gerdd hon, nid ar gyfrif ei barddoniaeth yn gymaint, eithr i roddi syniad ar gân i bobl
ieuainc di-amynedd, am gynnwys gwahanol rannau Gair Duw.

Yn Genesis cawn hanes
Am Dduw yn creu y byd;
Yn Exodus mae Israel
Ar daith i'r Ganaan glŷ d;
Lefiticus a geidw
Gyfreithiau'r genedl hon
A Numeri gyfrifiad
O honynt oll o'r bron
Yn Deuteronomium eto,
Ail goffa'r gyfraith fâd
A Josua yn arwain
Y genedl tua'i gwlad;
Y Barnwyr ddyry hanes
Y gwrthryfela o hyd;
A Ruth yn siampl i wragedd
Dramwyo drwy y byd;
Yn Samuel cawn hanes
Am Ddafydd, mab y gân;
Yn y Brenhinoedd gwelir
Y llwythau ar wahan;
Ar femrwn y Croniclau,
Caethgludiad Juda gawn,
Ac Ezra'n eu dychwelyd
Yn ol i'w gwlad yn llawn;
A Nehemiah welodd
Ail godi'r Deml fâd
Ac Esther yn gwaredu

Ei chenedl rhag y brad;
Yn Job cawn bur gymeriad
Ym mhair y cystudd mawr;
A'r Salmu yn brofiadau
Yr eglwys ar y llawr;
(x234) Mae Diarhebion Selyf
Yn berlau crwn i gyd;
A dengys y Pregethwr
Mai gwagedd yw y byd;
Fe welir Rhosyn Saron
Yn y Caniadau'n hardd
A'r Brenin ar ei orsedd
Sydd gan Esaiah fardd;
Dynoethi drwg y genedl
Wna Jeremiah gu;
Ac yn ei brudd Alarnad
Yr wyla drosti hi;
Ezeziel a ddwg allan
Gyfrinion dwfn yr Iôr;
A Daniel wêl deyrnasoedd
Fel trai a llanw'r môr;
Hosea wêl drugaredd,
Ac hefyd farnau trist:
A Joel wêl ddedwyddwch
Y byd pan ddelo Crist;
A Duw a alwodd Amos
At y bugeiliaid draw;
Ac Obadiah welodd
Gwypm Edom fawr gerllaw;
Dwed Jonah'n mol y morfil
Am dridiau Prynwr byd;
A Michah 'i fuddugoliaeth
Dros ddaear lawr i gyd;
Bydd Ninife, medd Nahum,
Yn nôd i famau blin,
A Habacuc yn llawen.,
Pe pallai'r y d a'r gwin;
Fe welodd Sephaniah
Ddigofaint Duw yn dân,
A Haggai sy'n gorchymyn,
Ail godi'r Deml lân;
Brenhiniaeth y Messiah
Wêl Zechariah'n glir,
(x235) A Malachi a'i dengys
Yn Haul Cyfiawnder pur.

Ac yna fe ddaw Matthew,
Marc, Luc, a Ioan fwyn;
A'u sanctaidd Efengylau
Yn llawn o ddwyfol awyn;
Yn dweyd am eni'r Iesu,
Yn nhy'r anifail mud;
Ac am ei fyw a'i farw
I gadw euog fyd;
Yr Actau ddengys lwyddiant
Y Gair, fel gwawr y dydd
A gobaith y Rhufeiniaid
Yw cyfiawnhad trwy ffydd;
Fe ddysg y ddau Gorinthiaid
Y ffordd i Gristion fyw;
A dengys y Galatiaid
Y ffydd yn nheyrnas Dduw;
Eglurir drwy'r Ephesiaid
Y dwfn wirionedd mawr,
Mai Crist yw Pen ei eglwys,
Drwy nef a daear lawr;
Philippiaid ddeil yn amlwg

Nodweddion Cristion pur;
A dengys y Colossiaid
Y ffordd i'r nefol dir;
Ceir yn y Thessalonaiad
Yr Arglwydd eto'n dod;
A Thimotheus a Thitus
Beth ddylai esgob fod
Dwed Philemon fod cariad
Yn oleu fel y wawr;
A chynnwys yr Hebreaid
Yw'r Archoffeiriad mawr;
Mae lago fyth yn gofyn
Gweithredoedd gyda ffydd;
(x236) A Phetr ddwed mai cyfyng
Yw'r ffordd i wlad y dydd;
Mae tri Epistol Ioan
Yn gariad pur bob darn;
A Judas yn ein harwain
Ymlaen i fore'r fam;
Yr olaf yw'r Datguddiad,
A phethau rhyfedd gawn,
Nad yw y byd yn gwybod
Eu hystyr eto'n llawn.

(x237)
(97) DDOE A HEDDYW
Melys yw adgofion
Fy moreuddydd iach;
Bywyd diofalon,
Gwanwyn plentyn bach.

Bore heb un cwmwl,
Nef yn glir i gyd;
Cyn i'm calon feddwl
Am ofidiau'r byd.

Llamwn hyd y meillion
Gyda phlant y Glyn;
Cysgwn heb bryderon
Ar obennydd gwyn.

Hawdd y gallwn ganu
Yn y dyddiau gynt,
Pan yn adeiladu
Cestyll yn y gwynt.

Heiblo'r aeth blynyddau,
Minnau'n mynd ymlaen;
Ereill sydd yn chwareu
Heddyw ar y waen.

Hawddfyd bywyd welais,
Ond diflannu wnaeth,
Fel yr enw dorrais
Ar y melyn draeth.

Tremiaf i'r encilion,
Gwelaf eto'r ddôl;
Ond pe torrai 'nghalon,
Ni ddaw ddoe yn ol.

(x238)
Heddyw yn ddiail.
Pwysaf ar fy ffyn;
Mae fy ngwarr yn crymu,
A fy ngwallt yn wyn.

Blodau'r bedd a welaf
Yn lle'r blodau gynt;
Galarnadau glywaf
Heddyw yn y gwynt.

Cofiaf wryf dirion,
Yn y pellter draw,
Oedd yn cario'i chalon
Yn ei thyner law.

Cwrddem wrth y gamfa,
Duw yn unig wyr
Ac fe gafwyd oedfa
Felys lawer hwyr.

Cofiaf y diwrnod, -
Duaf ddydd i mi;
Pan agorwyd beddrod
I'w gweddillion hi.

Hawdd y gallaf wylo
Heddyw am y ferch
Nid oes modd anghofio
Saeth o fwa serch.

Gwn drwy flwyddi meithion,
Beth yw caloon drom;
Gwn am groes awelon,
Byd yn llawn o siom.

(x238) (x239) (x240) (x241) (x242) (x243) (x244) (x245) (x246) (x247) (x248)

RHESTR O'R TANYSGRIFWYR

Mr. W. R. Beddoe, Pontlottyn
Mr. Isaac Eurfin Benjamin, Penrhiwceibr
Parch. T. C. Benjamin, Henllan
Mr. M. L. Bevan, Treforis
Mr. D. R. Beynon, Pontlottyn
Mr. Tom Bowen, Llanelli
Mr. Paul Brown, Rhymni
Brynfab, Pontypridd
Mr. Daniel Charles, Cendl
Mr. James Clement (*Alarch Ogwy*), Sciwen (2)
Cranogwen, Llangranog
Parch. W. Daniel, Caerdydd
Mr. David Daniel, Dowlais
Mr. - Daniel, Ebbw Vale
Dr. Aaron Davies, Cadoxton
Mrs. Alexander Davies, Pontlottyn
Mr. Ben Davies, Rhymni
Mr. C. M. Davies, Merthyr Tydfil
Parch. D. Davies, M.A., Rheithior Rhymni
Mr. D. Davies, Strand, Ferndale (2)
Mr. David Davies (*Eurfab*), Aberaman
Mr. D. T. Davies, Ysgol y Cynghor, Pontygwaith
Mr. Daniel Davies, Ton Ystrad
Mr. D. J. Davies, Traffic Manager, Treorci
Mr. David Davies, Abercarn
Mr. D. W. Davies, Rhymni (2)
Yr Henadur Enoch Davies, Y.H., Treherbert
Dr. Eleazar Davies, Y.H., Fochriw (2)
Parch. Evan Davies, Blaenau
Mr. E. C. Davies, Tredegar
Parch. E. W. Davies, Ton Pentre
Mr. E. T. Davies, F.R.C.O., Merthyr Tydfil
Mrs. Davies, Ossian Villa, Rhymni
Mr. G. J. Davies (*Gwilym Gwyllt*). Cwmbach

Miss Hettie Davies, Merthyr Tydfil
Parch. Ioan Davies Merthyr Tydfil
Mr. James Davies, Rhymni
Parch. J. E. Davies, M.A. (*Rhuddwawr*), Llundain (12)
Mr. John W. Davies, Price Street, Rhymni
Mr. John Davies, Brynhyfryd, Dowlais
Mr. John Davies, (*Glan Dulais*), Aberdar (4)
Mr. Jacob Davies, Dinas Powys
Parch. J. Talog Davies, Caerdydd
Parch. J. Gwynoro Davies, Abermaw
Parch. J. M. Davies, Aberfan
Parch. J. Coedfryn Davies, Llanstephan
Mr. John Davies, Rhas Las, Pantywaun
Mr. J. D. Davies, Yr Exchange, Glynnedd
Mr. J. A. Davies, Glyn Ebwy
Parch. L. Rhystyd Davies, Brynaman (2)
Mr. Lewis Davies, Ysgol y Cynghor, Cymmer
Parch. R. R. Davies, Penffordd
Parch. R. W. Davies, M.A. Rhymni
Mr. Sam Davies, Ysgol y Cynghor, Brithdir
Mr. S. T. Davies, Cendl
Parch. T. Cenech Davies, Cilcenin
Parch. Thomas Davies, Bargoed
Parch. T. Davies (*Bethel*), Caerdydd
Parch. T. Gray Davies, Abertileri
Timothy Davies, Llundain
Mr. Timothy Davies, Rhymni
Mr. William Davies, Archadeiladydd, Pontlottyn
Mr. William Davies, Grocer, Pontlottyn
Parch. W. Davies, B.A., Caerdydd
Parch. Wm. Davies, M.A., Aberdar
Mr. William Davies, Coronation Terrace, Rhymni
Mr. W. Owen Davies, Rhymni
Mr. John Davies, Cwmllynfell
Parch. T. Sinclair Davies, Merthyr Tydfil
Mr. Rees Davies, Merthyr Tydfil
Mr. Daniel Davies, Rhymni
Mr. Thomas Davies, Rhymni
Mr. D. Edwards, Llythyrdy, Cwmdar
Mr. Edward Edwards, Tygwyn, Ystrad (2)
Cynghorwr John Edwards, Rhymni
Mr. J. B. Edwards, Henrietta Street, Abertawe
Parch. M. H. Edwards, B.A. Llundain
O. M. Edwards, M.A. Llanuwchllyn
Mr. R. Edwards, Tredegar
Mr. T. D. Edwards, L.R.A.M., F.T.S.C., Treharris
Parch. T. J. Edwards, Abercarn
Parch. T. E. Edwards, Llanfynydd
Mr. W. Edwards, Cefncoed
Mr. I. W. Edwards, Rhymni
Mr. Augustus Evans, Rhymni
Parch. Ben Evans, Manselton, Abertawe
Parch. B. T. Evans, Llanilltyd
Mr. D. B. Evans, Rhymni
Mr. D. M. Evans, Cwmafon
Mr. Daniel E. Evans, Rhymni
Mr. D. Evans (*Eos Dar*), Merthyr Tydfil
Yr Athraw D. Evans, Mus. Bac., Caerdydd
Mr. Isaac Evans, Cambrian Street, Rhymni
Mr. John E. Evans, Rhymni
Parch. Gosen Evans, Bargoed
Mr. J. Silvan Evans, B.A., Bargoed
Mr. J. Evans Evans, M.E., Abertysswg
Mr. J. Evans Evans, Abertysswg
Mr. J. Jones Evans, Rhymni
Mr. J. T. Evans, Cefncoed
Mr. John Evans, Penydarren

Parch. J. Evans, Abercarn
Mr. J. Evans, A.C., Tredegar
Parch. J. R. Evans, Sciwen
Mr. Lewis Evans, Resolfen
Mr. Tom Evans, Cadoxton
Syr Vincent Evans, Llundain
Mr. T. Jones Evans, Rhymni
Mr. T. Lloyd Evans, Ferndale
Mr. William Evans, Bargoed
Mr. Thomas Evans, Rhymni
Mr. Octavius Evans, Ysgol y Cynghor, Rhymni
Mr. Fred Farr, Dowlais
Mr. D. J. Furnall, Pontlottyn
Mrs. Anne Gabriel, Rhymni
Mr. Benjamin Griffiths, Tredegar
Mr. E. T. Griffiths, Caerphili
Mr. J. H. Griffiths, Rhymni
Mrs. Mary Griffiths, Rhymni
Mr. R. S. Griffith, Y.H., Blaenclydach
Mr. Taliesin Griffiths, Cefncoed
Mr. W. Griffiths, Reform Street, Pontlottyn
Mr. William Griffiths, Pant-y-waun
Cynghorwr W. Griffiths, Rhymni
Parch. G. Griffiths, Rhymni
Mrs. M. A. Griffiths, Rhymni
Gwernyfed, Merthyr Tydfil
Gwili, Ammanford
Gwilym Myrddin, Bettws
Gwilym Wyn, Cwmllynfell
Mr. Gomer Harris, Brynaman
Mr. Thomas Harris, Rhymni
Mr. Wm. Harris, Penygraig (2)
Y Cynghorwr Rees Harris, Rhymni
Mr. David Havard, Pontlottyn
Y Milwriad Syr Ifor Herbert, A.S.
John Hinds, Llundain
Cynghorwr D. Hopkins, Pontlottyn
Mr. D. Hopkins, Gilfach
Mr. John Hopkins, Brynaman
Mr. W. T. Hopkins, Rhymni
Mr. J. Milwyn Howells, Llundain
Cynghorwr Ben Hughes, Pontlottyn
Mr. J. D. Hughes, Rhosynfa, Caerphili
Mr. Edward Hughes, Ton Pentre (2)
Parch. Moelwyn Hughes, M.A., Ph.D., Aberteifi
Mr. Thomas Hughes, Ocean Offices, Treorci
Mr. R. Ingram, Bedlinog
Mr. John Isaac, Ystrad Rhondda
Mr. Benjamin James, Cwmdare
Mr. Daniel James, Penygraig
Mr. David James, Rhymni
Parch. J. Vardre James, Newbridge
Mr. John James, Price Street, Rhymni
Parch. J. James, New Tredegar
Mrs. - James, Cleveland, Ohio, U.S.A.
Mr. Watkin Jarret, Port Talbot
Mr. Abraham Jenkins, B.A., Brithdir
Yr Athraw D. Jenkins, Mus. Bac., Aberystwyth
Miss E. Jenkins, Ysgol y Cynghor, Troedrihwfuwch
Mr. Edward Jenkins, Gwalia, Llandrindod
Mr. J. M. Jenkins, Treforest
Parch. R. D. Jenkins, Fochriw
Parch. D. L. Jenkins, Bargoed
T. A. Jenkins, M.E., Heolgerrig
Mr. Edward Jenkins, Rhymni
Mrs. Anne Jones, Upper High Street, Rhymni
Mr. Abel E. Jones, Rhymni

Mr. Ben Jones, (*Merthyrfa*), Merthyr Tydfil
Mr. Ben Jones, Y.H., Rhymni
Mr. Benjamin Jones, Llanelli
Mrs. Cole Jones, Fochriw
Captain Jones, Fochriw
Charles Jones, Ferndale (2)
Mr. D. W. Jones, Ysgol y Cynghor, Pontlottyn
Mr. Ieuan Jones, Preswylfa, Rhymni
Mr. J. Rocyn Jones, Rhymni
Cynghorwr J. Jones, Fochriw
Parch. J. Ellis Jones, Glynceiriog
Parch. J. N. Jones, Melincrythau
Mr. J. Harris Jones, Ton Pentre
Mr. John Jones, Garth Street, Pontlottyn
Mr. J. Meredydd Jones, Fochriw
Mr. J. D. Jones, Ysgol y Cynghor, Fochriw
Parch. J. Volander Jones, Pentre-tygwyn
Mr. J. T. Jones (Llyfrwerthwr), Rhymni
Mr. John Alun Jones, Preswylfa, Rhymni
Mr. J. R. Jones, Grocer, Rhymni
Mr. L. P. Jones, Grocer, Rhymni
Cynghorwr Morgan Jones, Bargoed
Mr. Morgan Joseph, Caerdydd
Miss Megan Jones, Preswylfa, Rhymni
Mr. O. Lloyd Jones, Colorado, U.S.A.
Mr. Roderick Jones, Fochriw
Parch. Richard Jones, M.A., Llandinam
Mr. Rees Jones, Brynhyfryd, Rhymni
R. W. Jones, Ysw., B.A. Y.H., Pengam
Parch. D. G. Jones, Tonna
Mr. D. Lloyd Jones, Pontlottyn
Parch. D. Huws Jones, Fochriw
Mr. D. N. Jones (*Ap Nicol*), Ceinewydd
Parch. D. G. Jones, Pontardawe
Mr. D. Jones, Trefynwy
Mr. D. Jones, Dowlais
Mr. D. Jones, Rhymni
Mr. Davy Jones (*Dewi Carno*), Rhymni
Mr. D. J. Jones (*Dilledydd*), Rhymni
Mr. Daniel Jones, Upper High Street, Rhymni
Parch. D. Tafwys Jones, Caerphili
Mr. D. Ifor Jones, Pontlottyn
Mr. D. B. Jones, Caerdydd
Mr. David Wm. Jones, Forge Street, Rhymni
Mr. David Jones, Ysgol y Cynghor, Pantywaun (6)
Miss Ethel Jones, Kurri Kurri, N.S.W.
Mr. E. Jones (*Meillionydd*), Rhymni
Parch. Fred Jones, B.A., B.D., Rhymni
Mr. Griffith R. Jones, Rhymni
Mr. Gomer Jones, Rhymni
Mr. Idris Jones, Fochriw
Mr. I. Lloyd Jones, Rhymni
Mr. Rees Jones, *Grocer*, Deri
Mr. Roderick Jones, Hengoed
Mr. Robert Ellis Jones, Rhymni
Miss S. J. Jones, Ysgol y Babanod, Rhymni
Parch. Samuel Jones, B.A., Brynmawr (2)
Mr. T. F. Jones, Pantywaun
Mr. Thomas Jones, Brynteg, Fochriw
Mr. Thomas Jones, Tudor Terrace, Merthyr Tydfil
Mr. Thomas Jones, Y Junction, Abercynon
Mr. T. R. Jones, Maesycwmmwr
Mr. Thomas E. Jones, Rhymni
Mr. Tom Jones, Harcourt Street, Rhymni
Mr. Thomas Jones, Coronation Terrace, Rhymni
Mr. Thomas Jones, Llanelli
Mr. T. E. Jones, Seion, Rhymni

Mr. Tom R. Jones, Seion, Rhymni
Thomas Jones, Ysw., M.A., Barri
Mr. Thomas Jones, Cwmdar
Mr. Wm. Jones, Brook Row, Fochriw
Parch. W. R. Jones, (*Pelidros*), Godreaman
Parch. W. Jones, Aberdulais
Mr. W. M. Jones, Ysgol y Cynghor, Merthyr
Parch. Wm. Jones, Mozerah
Parch. W. P. Jones, M.A., B.D., Treorci
Parch. W. F. Jones, Penfro
Parch. W. P. Jones, Cwmtwrch
Parch. J. D. Jones, Ynysybwl
Parch. I. D. Jones, Maesteg
Dr. J. Jones, Pontlottyn
Mr. Tom Jones, Rhymni
Mrs. Ann Jones, Rhymni
Mr. Samuel Jones, Rhymni
Mr. John Jones, Pantywyll
Mr. David Landeg, Aberdare
Mr. D. Lawrance, Fochriw
Mr. David Lewis, Rhymni
Mr. D. W. Lewis, Brynaman
Gething Lewis, Ysw., Y.H., Caerdydd
Parch. H. Elfed Lewis, M.A., Llundain
Parch. John Lewis, Aberaman
Mr. John Lewis, Ysgol y Cynghor, Hengoed
Mr. John Lewis, Port Talbot
R. A. Lewis, Ysw. Pontypridd
Mr. Sam Lewis, Fochriw
Mr. Thomas Lewis, Rhymni
Parch. W. Lewis, Cwmparc (2)
Miss Zillah Lewis, Rhymni
Mr. J. Lodwick, Caerau
Mr. F. C. Llewellyn, Ferndale
Parch. J. Llewellyn, Tredegar
W. Llewellyn, Tredegar (4)
Mr. John Lloyd, Tredegar
Mr. Tom Lloyd, Rhymni
Llyfrfa Ebenezer, Rhymni
Llyfrfa Rydd, Casnewydd
Llyfrfa Rydd, Rhymni
Madog Vychan, Aberhonddu (3)
Mr. W. B. Mason, Gelli Pentre
Mr. T. Matthews, M.A., Pengam
Mr. John Matthews, Rhymni
Mr. J. Mills, Aberdar
Parch. D. Morgan, Argoed
Parch. W. Deri Morgan, Llangurig
Parch. J. Morgan, Trecynon
Parch. D. Morgan, Aberteifi
Parch. Llywelyn Morgan, Tredegar
Parch. Rowland Morgan, Creigiau
Mr. W. Morgan, Pantywaun
Mr. Evan Morgan, Pontlottyn
Mr. Morgan Morgan, Penybont-ar-Ogwy
Mr. David Morgan, Price Street, Rhymni
Mr. David Rees Morgan, Rhymni
Parch. James Morris, Llanstephan
Col. D. Morris, Brynffin, Bettws
Mr. A. Morris, F.R.G.S. Casnewydd
Mr. W. T. Morris, Rhymni
Mr. Dan Owen, Cwmbach
Mr. Daniel Owen, Rhymni
Ellis Owen, Ysw. Pontypridd
Parch. J. Cradoc Owen, A.T.S., Glyn Ebwy
Mr. John W. Owen, Tai'r Capel, Rhymni
Mr. Tom Owen, Tudor Street, Port Talbot

Mr. Evan Owen, Bargoed
Mr. W. Parry, Tai'r Capel, Rhymni
"Pelydrog", Llanelli
Parch. R. E. Peregrine, B.D., Rhymni
"Plenydd", Chwilog
Yr Athraw T. Powel, M.A., Caerdydd
Parch. Thomas Powel, Cwmdar
Mr. Daniel R. Price, Colenso Terrace, Rhymni
- H. Price, M.A., H.M.I.S., Whitchurch
Mr. John Price, Rhymni
Mr. J. W. Price, Rhymni
Mr. Joseph Price, Rhymni
Mr. T. Price, G. & L., Merthyr Tydfil
Mr. J. Pritchard, Cloth Hall, Llanwrtyd
Mr. Ben Probert, Rhymni
Parch. T. Probert, Llaneurwg
Parch. J. Prys, Llanofar
Parch. W. E. Prytherch, Abertawe
Mr. E. Pugh, Nantmelyn, Cwmdar
Mr. Evan Pugh, Rhymni
Mr. Thomas M. Pugh, Rhymni
Mr. William Pugh, Rhymni
Mr. Wm. M. Pugh, Rhymni
Miss Beti Rees, Berthlwyd, Port Talbot
Mr. D. Rees, Islwyndy, Hengoed
Mr. Dan Rees, Dilledydd, Rhymni
Mr. David Rees, Godre'r Graig, Port Talbot
Mr. Dewi Rees, Port Talbot
Parch. D. M. Rees, Tredegar
Mr. J. Rees (*Cynon*), Aberdar
Parch. J. E. Rees, Port Talbot (12)
Mr. J. T. Rees, Mus. Bac., Bow Street
Miss Nelian Rees, Courtland Place, Port Talbot
Mr. Richard Rees, Rhymni
Parch. R. J. Rees, M.A., Aberystwyth
Parch. R. M. Rees, Ystradgynlais
Llywarch Reynolds, Ysw., Merthyr Tydfil
Mr. H. Reynolds, Rhymni
Parch. T. L. Roderick, Pencader
Mr. D. B. Richards, Rhymni
Mr. John Richards, Rhymni
Miss Mary Richards, Rhymni (2)
Mr. Morgan Richards, Rhymni
Parch. T. M. Richards, Rhymni
Parch. J. J. Roberts (*Iolo Caernarfon*), Porthmadog
Y Prifathraw T. F. Roberts, M.A., Aberystwyth
Parch. R. Roberts, Glyncorrwg
Parch. I. Roderick, Fochriw
Mr. W. Roderick, Pontllanfraith
Mr. Jenkin Robins, Y Drefnewydd, Rhymni
Mr. W. Rosser, Ysgol y Cynghor, Y Fenni
Mr. J. Rowlands, Ysgol y Cynghor, Waunarlwydd
Parch. J. R. Salmon, Pontlottyn
Mr. W. Saunders, Pontlottyn
Mr. Thomas R. Savage, Rhymni
Mr. J. Skym, Abertridwr
Mr. Joseph Smith, Pantywaun
Mr. David Summers, Bute Town
Parch. J. D. Symmonds, Abergwaun
"Tawenog", Pontypridd
Mr. D. B. Thomas, Carno Street, Rhymni
Mr. David Thomas, 5 Tydraw Place, Port Talbot
Mr. Dewi Thomas, Gorsaf Euston, Llundain (2)
Mr. D. W. Thomas, Enfield, Llundain
Mr. Edward Thomas (*Ap Tydfil*), Rhymni
Mr. Edwin Thomas, Ysgol y Cynghor, Aberfan
Mr. E. Thomas, Thomas' Terrace, Dowlais

Mr. E. D. Thomas, Ocean Offices, Treorci
Mr. Enoch Thomas, Pentyla, Aberafon
Mr. Evan Thomas, Carno Street, Rhymni
Mr. Gwilym Thomas, Ynyshir
Mr. H. M. Thomas, Dilledydd, Rhymni
Mr. James Thomas (*Iago*), Blaenrhondda
Mr. James Thomas, Alexandra Terrace, Rhymni
Mr. John Thomas, Rose Cottage, Llangadog (6)
Mr. John Thomas, Grocer, Rhymni
Mr. John Thomas, Llanwrtyd
Mr. J. D. Thomas, Y.H., Maesycwmmmer
Mr. J. Towy Thomas (*Tywi*)
Mr. Owen Thomas, Carno Street, Rhymni
Mr. Phillip Thomas, Ysgol y Gnoll, Castellnedd
Mr. R. Thomas, Glasfryn, Trealaw (3)
Parch. R. S. Thomas, Abercynon
Mr. Richard Thomas, Upper High Street, Rhymni
Mr. S. L. Thomas, Tredegar
Mr. Thomas Thomas, Llythyrdy, Llanddeusant (2)
Mr. Thomas Thomas, Caerdydd
Mr. T. C. Thomas, Ysgol y Cynghor, Bedlinog
Parch. T. E. Thomas, D.D., Llanymddyfri
Parch. W. Thomas, Blaengarw
Mr. W. D. Thomas, Rhymni
Mr. W. R. Thomas, Bristol House, Treharris (3)
Mr. J. Thomas Thomas, B.Sc., Ysgol Sirol Tredegar
Mr. Daniel Thomas, Ysgol y Cynghor, Rhymni
Mr. Ben Vaughan, Cwmdare
Mr. Voyle, Rhymni
Miss Walters, Alexandra Place, Rhymni
Mr. Richard Walters, Rhymni
Mr. William Walters, Fochriw
Mr. Wm. H. Walters, Rhymni
Mr. John H. Walters, Rhymni
Mr. Tom Walters, Guest Street, Fochriw
Parch. Ben Watkins, Ferndale (3)
Parch. Thomas Watkins, Sant y Brid
Mr. D. Watkins, Rhymni
Mr. Tom Watkins, Rhymni
Parch. J. J. Williams, Pentre
Parch. Nantlais Williams, Ammanford
Parch. Samlet Williams, Briton Ferry
Parch. William Williams, Abertawe
Parch. H. Barrow Williams, Llandudno
Parch. D. H. Williams, Casnewydd
Parch. Charles Williams, Ogmore Vale
Parch. R. Williams, Aberdare
Parch. R. Williams, Llandudno Junction
Parch. T. C. Williams, M.A., Menai Bridge
Parch. J. O. Williams (*Pedrog*), Liverpool
Parch. Evan Williams, Llanddeusant
Parch. William Williams, Pantywaun
Yr Henadur W. Williams, Pontlottyn
Mr. Walter Williams, Pentre
Mr. D. C. Williams, Merthyr Tydfil
Miss Rose Williams, Stanford, Merthyr, NSW
Mr. J. Penry Williams, Ysgol Drenewydd Rhymni
Mr. Rees Williams, Brynhyfryd, Aberdar (2)
Mr. Picton Williams, Llanidloes
Mr. Edward Williams, Pontlottyn
Mr. Miles Williams, Pontlottyn
Mr. T. R. Williams, Pontlottyn
Mr. Rhys J. Williams, Llanishen
Mr. Wyn J. Williams, Llanishen
Mr. Daniel Williams, Tredegar
Mr. John Williams, Bryntirion Street, Dowlais
Mr. Thomas Williams, Tai'r Capel, Rhymni

Mr. John Williams, Havard's Row, Rhymni
Mr. John Williams, Tanygroes Street, Port Talbot
Mr. Thomas Williams, Oakwood Street, Port Talbot
Mr. W. P. Williams, Tydraw Street, Port Talbot
Mr. John M. Williams, Tai'r Capel, Rhymni
Mr. Jas. Williams (*Pentwynfab*), Fochriw
Mr. Evan Williams (*Eiddwen*), Port Talbot
Mr. E. R. Wood, Ocean Offices, Treorci
Mr. Thomas Williams, Rheidol Terrace, Aberystwyth
Mr. J. T. Williams, Rhymni
Mr. Mary Williams, Rhymni
Parch. Moses S. Young, Fochriw
Mr. George Young, Rhymni

Adda'n yr ardd x072

Adgyfodiad Crist x054

Annie'n ugain oed x062

Ar fedd Islwyn x043

Arwain fi x026

Barnau Duw x075

Bedd fy ngeneth fach x057

Ben Bowen x025

Bore Saboth x013

Breuddwyd y Weddw x041

Brig yr hwyr x039

Briwsion o Dorthau Brasach - x028

Bryniau'r Eryri x130

Bugail Carmel x053

Bugail Glan y Llyn x070

Bunyan x052

Camwedd x023

Cân yr Henwr x029

Caws Caerphili x069

Clychau'r Briodas x034

Crist yn cario'r Groes x002

Cyfeillgarwch x001

Cyrrion pellaf Cariad x003

Cystudd x079

Daeareg x094

Dafydd Jones x081

Dafydd wedi ei eneinio x037

Dagrau'r Edifeiriol . x004
Ddoe a heddyw x097
Dewch i'r Bâd x035
Dewi Sant x082
Dim ond disgwyl x014
Disgwyl Gwawr x007
Dyffryn Tywi x131
Dyn cyn ei gwymp x040
Eben Fardd x130
Edrych ymlaen x009
Fy Mhlentyn x058
Glyn Ceiriog x132
Gobaith y Cristion x061
Gwenau Elen x033
Gwlad Myrddin x077
Gwraig y Meddwyn x005
Gwyliau'r Haf x088
Hwiangerdd Mair x059
I chwi (*efelychiad*) x011
I gofio am danaf fi x016
Llyfrau y Beibl x096
Llyn Bethesda x022
Llynnoedd Bannau Myrddin x021
Mae Duw yn dda o hyd x048
Mae'r Gaeaf wedi cilio x080
Marw'n yr Haf x086
Marwolaeth y Milwr x027
Methu siarad x038
Morfudd o'r Dolau x051
Morgan Llwyd x132
"Nid yfwn un dyferyn" x017
Noddfa x132
Nos a Dydd x060

Nos Gwyl Dewi x064
“Pan welodd Efe y ddinas” x030
Pan êl y Rhyfel heibio x019
Parc Dynefwr x095
Pentwynmawr x036
Pleser x074
Pleser pur x084
Plinlumon x132
Rhyddid x015
Tafod Menyw x131
Tangnefedd x063
Tanybryn x076
Tir Beulah x089
Tosturi x032
Tŷ ar dân x049
Tŷ Dduw x092
Udgorn Dirwest x024
Ussah x083
Uwch y Crud x050
Wylofus gri yr Hydref x056
Y Baban, gwyn ei fyd : x020
Y Balch x078
Y Bannau x130
Y Beibl yn y Carchar x066
Y Caeth Yn Rhydd x045
Y Chwarelwr x130
Y Cristion yn y Glyn x006
Y Cryd-cymalau x085
Y Cwmp x132
Y Daran x055
Y Dyn Meddw x068
Y “Fenyw Newydd” x044
Y Frwydr x067
Y Fynwent x008

Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd x012

Y Gôf x042

Y Gwyn O Eifion x130

Y Llaw x091

Y Llongddrylliad x071

Y Mynydd x131

Y Mynydd Du x073

Y Nadolig x046

Yr Amaethwr x065

Yr Aran x131

Yr Awrlais x031

Yr Efengyl x093

Yr Ehedydd x047

Yr Enfys x087

Yr "Excursion" x090

Y Rhosyn x131

Y Twyllwr x018

Y Wryf a'r Lili x010